# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

**<u>SYLWCH</u>: Fe fydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu ar ôl i'r cyfarfod orffen, a hynny drwy gyfrwng safle rhyngrwyd y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.**

**Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ffilmio ai peidio.**

**Yn gyffredinol ni fydd y rhannau lle mae'r cyhoedd yn eistedd yn cael eu ffilmio. Er hynny, trwy ddod i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r man lle mae seddi'r cyhoedd, mae'r cyhoedd yn cytuno y gallant gael eu ffilmio ac o bosibl i'r lluniau a'r sain a gaiff eu recordio gael eu defnyddio, fel y nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.**

13 Ebrill 2023

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir CYFARFOD O'R CYNGOR yn NEUADD CYNGOR CEREDIGION, PENMORFA, ABERAERON AC O BELL TRWY FIDEO-GYNHADLEDDA ar <u>Ddydd Iau, 20 Ebrill 2023 am</u> <u>10.00am</u> i drafod y materion canlynol:**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

3. **Materion Personol**

4. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2023 a 9 Mawrth 2023 (Tudalennau 5 - 22)**

5. **I ystyried y cynnig canlynol a gyflwynwyd o dan Reol 10.1 Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor: (Tudalennau 23 - 24)**

   **Cynigydd:** Cynghorydd Meirion Davies
   **Eilydd:** Cynghorydd Paul Hinge

   **Noda'r Cyngor:**
   *O ystyried yr argyfwng sy'n wynebu'r rhwydwaith bysiau gwledig yng Ngheredigion a Chymru wledig, mae Cyngor Ceredigion yn annog Llywodraeth Cymru i sefydlu tasglu trafnidiaeth wledig er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn ar frys.*

*Rydym yn cydnabod nad yw trigolion ac ymwelwyr wedi dychwelyd i drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl Covid, yn y niferoedd y byddem yn ei ddisgwyl. Fodd bynnag, o ganlyniad i dynnu llawer o lwybrau bysiau gwledig yn ôl oherwydd fforddiadwyedd, mae ein cymunedau'n cael eu hynysu'n gynyddol rhag cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus a chymdeithasu gyda ffrindiau a theulu.*

*Mae tynnu llawer o lwybrau bysiau gwledig yn gwaethygu tlodi gwledig lle mae'r effaith i'w deimlo fwyaf mawr. Mae gan oedolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys pobl hŷn, a'r rhai sydd heb drafnidiaeth yr hawl i gael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn eu cymunedau.*

*Mae Cyngor Ceredigion yn cefnogi ffocws Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Eto, drwy ofyn i drigolion symud o geir i drafnidiaeth gyhoeddus, mae angen buddsoddi a'r cymhorthdal cysylltiedig ar gyfer isadeiledd trafnidiaeth wledig.*

*Rhaid i drafnidiaeth wledig gael ei drin yn gyfartal â'n trefi a'n dinasoedd mwy os ydym am fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd o ddifrif, ac atal cymunedau gwledig rhag cael eu hynysu ymhellach.*

*Felly, mae'r Cyngor yn nodi:*

1. *Bod Cyngor Ceredigion yn gofyn i Lywodraeth Cymru gydnabod bod angen buddsoddi mewn trafnidiaeth mewn cymunedau gwledig, a'i sybsideidddio yn unol â hynny.*
2. *Bod trafnidiaeth gyhoeddus mewn cymunedau gwledig fel y rhai yng Ngheredigion, sydd wedi cael eu heffeithio'n andwyol gan danariannu trafnidiaeth gyhoeddus gan Lywodraeth Cymru, yn gofyn am gydraddoldeb mynediad tebyg i gymunedau mwy.*
3. *Bpd tasglu trafnidiaeth wledig yn cael ei sefyldu ar unwaith gan Lywodraeth Cymru ac ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol fel Cyngor Ceredigion, i fynd i'r afael â mater trafnidiaeth wledig.*

**6. I ystyried adroddiad gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Y Gyfraith a Llywodraethu a Swyddog Monitro ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2022-23 a Chod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2023-24 (Tudalennau 25 - 162)**

**7. I ystyried adroddiad gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ar Gynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028 (Tudalennau 163 - 286)**

**8. I ystyried adroddiad gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd ar Restr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau ar gyfer 2023/24 (Tudalennau 287 - 344)**

9. I ystyried adroddiad gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd ar Arolwg Aelodau mewn perthynas i Amseru Cyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau (Tudalennau 345 - 352)

10. I ystyried adroddiad gan y Prif Weithredwr a Swyddog Cofrestru Etholiadol Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd ar Adolygiad o Gymunedau a Threfniadau Etholiadol - Polisi Maint y Cyngor (Tudalennau 353 - 358)

11. I ystyried adroddiad gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd ar Newidiadau i Aelodaeth y Cyngor Iechyd Cymunedol (Tudalennau 359 - 360)

12. I ystyried adroddiad gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Y Gyfraith a Llywodraethu ar Enwebu Ymddiriedolwr i'r elusen a adnabyddir fel Parc Coffa Llandysul (Tudalennau 361 - 372)

13. I gadarnhau Aelodau o'r Cyngor i Bwyllgorau'r cyngor ar gyfer y Flwyddyn Fwrdeisdrefol ddilynol (Tudalennau 373 - 380)

14. Ethol darpar Gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2023/24 i’w sefydlu yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor i’w gynnal am 2.00pm ddydd Gwener, 19 Mai 2023

15. Ethol darpar Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2023/24 i’w sefydlu yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor i’w gynnal am 2.00pm ddydd Gwener, 19 Mai 2023

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi’r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i’r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio’r Gymraeg neu’r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Cyngor**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Eitem Agenda 4

**Cofnodion Cyfarfod o GYNGOR SIR CEREDIGION a gynhaliwyd yn Neuadd y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideogynadledda ddydd Iau, 2 Mawrth, 2023**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ifan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Steve Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Paul Hinge, Geraint Hughes, Hugh Hughes, Chris James, Gwyn James, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, John Roberts, Mark Strong, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams a Carl Worrall.

(10.00am - 12.50pm)

**Gweithdrefn**
Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Ifan Davies, bawb I'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu.

**1 Ymddiheuriadau**
Ni chafwyd dim ymddiheuriadau.

**2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**
Datgelodd y Cynghorwyr Euros Davies, Gareth Davies, Gwyn Wigley Evans a Gareth Lloyd fuddiant personol yng nghyswllt eitem 5.

**3 Materion Personol**

a) Estynnodd y Cynghorydd Ifan Davies ei gydymdeimlad â theulu Mr Dai Lloyd Evans, cyn arweinydd Cyngor Ceredigion a Chynghorydd dros sawl degawd. Bu i'r Cynghorwyr Bryan Davies a Keith Evans hefyd gydymdeimlo â'r teulu gan dalu teyrnged i Mr Dai Lloyd Evans;

Cafwyd munud o dawelwch i gofio amdano.

b) Diolchodd y Cynghorydd Paul Hinge i Vernon Jones, Clerc ei Gyngor Cymuned lleol a fyddai'n rhoi'r gorau iddi ar ôl rhoi 52 o flynyddoedd o wasanaeth cyhoeddus;
c) Llongyfarchodd y Cynghorydd Carl Worrall Daphne Muriel Day ar ddathlu ei phen-blwydd yn gant oed.
d) Estynnodd y Cynghorydd Keith Evans ei gydymdeimlad â theulu Emlyn Watkin, cyn Bennaeth Cyllid Cyngor Sir Ceredigion;
e) Llongyfarchodd y Cynghorydd Keith Evans Ella Davies, Llandysul ar ddathlu ei phen-blwydd yn gant oed.
f) Llongyfarchodd y Cynghorydd Ann Bowen Morgan gangen Llanbedr Pont Steffan o Ferched y Wawr ar ddathlu ei phen-blwydd yn 50 oed;
g) Llongyfarchodd y Cynghorydd Ann Bowen Morgan Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan a'r Brifysgol yn Llanbedr Pont Steffan am sefydlu Gwobr Goffa Hag Harris;
h) Llongyfarchodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis aelodau Clwb Bowlio Rhydlewis am eu llwyddiant ar gyrraedd brig y gynghrair ac am gynrychioli Ceredigion a Chymru;

i) Llongyfarchodd y Cynghorydd Rhodri Evans Ann Jones ar gael ei phenodi'n Ddirprwy Raglaw dros Geredigion.
j) Llongyfarchodd y Cynghorydd Rhodri Evans Sion Davies, disgybl yn Ysgol Henry Richard a fyddai'n cynrychioli Tîm Dartiau Cymru yn Gibraltar;
k) Llongyfarchodd y Cynghorydd Catrin M S Davies Gwyneth Keyworth am ennill gwobr y Perfformiwr Cefnogol Gorau mewn drama theatr yng Ngwobrau WhatsOnStage am ei rôl yn *To Kill a Mockingbird*;
l) Diolchodd y Cynghorydd Catrin M S Davies i bob un a gynorthwyodd i sicrhau bod Cystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc yn llwyddiant ysgubol;
m) Llongyfarchodd y Cynghorydd Catrin M S Davies Beca Williams am ennill gwobr yr Actores Orau yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;
n) Llongyfarchodd y Cynghorydd Catrin M S Davies Dafydd Williams am ennill gwobr yr Actor Gorau yn y categori dan 16 oed yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;
o) Llongyfarchodd y Cynghorydd Catrin M S Davies Elen Pencwm am ennill gwobr y Cynhyrchydd Gorau yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;
p) Llongyfarchodd y Cynghorydd Eryl Evans Glwb Ffermwyr Ifanc Bro Dderi am eu llwyddiant yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;
q) Llongyfarchodd y Cynghorydd Eryl Evans Elliw Dafydd am ennill gwobr y Cynhyrchydd Gorau yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;
r) Llongyfarchodd y Cynghorydd Eryl Evans Betrys Davies am ennill gwobr yr Actores Orau yn y categori dan 16 oed yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;
s) Llongyfarchodd y Cynghorydd Eryl Evans Martha Thomas am ennill y drydedd wobr yng nghategori'r Actores Orau o dan 16 oed yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;
t) Llongyfarchodd y Cynghorydd Eryl Evans Ifan Meredith a Gruffydd Davies am ddod yn gydradd drydydd yng nghategori'r Actor Gorau o dan 16 oed yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;
u) Llongyfarchodd y Cynghorydd Eryl Evans Lowri Elen am ennill gwobr yr Actores Orau dros 16 oed yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;
v) Llongyfarchodd y Cynghorydd Eryl Evans Gapel Ebenezer, Llangybi am ddathlu 250 o flynyddoedd;
w) Llongyfarchodd y Cynghorydd Keith Henson Ronald H Thomas am roi 48 o flynyddoedd o wasanaeth i Gyngor Sir Ceredigion a dymunodd yn dda iddo ar ei ymddeoliad;
x) Estynnodd y Cynghorydd Amanda Edwards ei chydymdeimlad â theulu Margaret Symmonds, a fu'n gweithio ar ran y Cyngor mewn gorsafoedd pleidleisio rhwng 2005 a 2022 ac yn cynorthwyo â'r gwaith canfasio;
y) Llongyfarchodd y Cynghorydd Gareth Lloyd bob un o'r Clybiau Ffermwyr Ifanc am eu llwyddiant yn y Gystadleuaeth Hanner Awr

Adloniant ac yn arbennig Clwb Ffermwyr Ifanc Pontsian a dymunodd yn dda i’r clwb wrth symud ymlaen i’r rownd nesaf;

z) Llongyfarchodd y Cynghorydd Gareth Lloyd Sion Wyn Evans ac Endaf Griffiths ar gael eu penodi’n Aelod Hŷn ac Aelod Iau newydd y Ffermwyr Ifanc yng Ngheredigion a diolchodd i Sioned Davies a Caryl Davies, yr aelodau a fyddai’n rhoi’r gorau i’r rolau hyn, am eu holl waith;

aa) Llongyfarchodd y Cynghorydd Wyn Evans aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Lledrod am eu hymdrechion, ac yn arbennig Emrys Jones am ennill yr ail wobr yng nghategori’r actor gorau yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;

bb) Llongyfarchodd y Cynghorydd Ifan Davies Gylch Meithrin Pontrhydfendigaid ar dderbyn adroddiad rhagorol yn dilyn Arolygiad gan Estyn. Gwahoddwyd y Cylch Meithrin i baratoi astudiaeth achos o arferion gorau fel y gellid ei rhannu â holl gylchoedd y Mudiad Meithrin ledled Cymru.

**4 Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2023**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2023 yn gywir.

**5 Adroddiad ar y cyd gan yr Arweinydd, yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am Wasanaethau Ariannol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ar Gyllideb 2023/24, gan gynnwys y Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer Rheoli'r Trysorlys**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor, yr adroddiad gan nodi bod y wybodaeth wedi’i hystyried gan y Cabinet a’r holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Ychwanegodd fod y Cabinet wedi cytuno â’r cynnig a gyflwynwyd gan un o’r Pwyllgorau Craffu i beidio â chodi tâl am barcio yn Nhregaron a Llandysul a bod y cynnig hwn wedi’i gynnwys yn yr adroddiad.

Diolchodd y Cynghorydd Bryan Davies i’r Swyddogion, gan nodi bod y Cabinet wedi gosod her iddynt fantoli’r gyllideb heb effeithio ar swyddi na gwasanaethau ar y rheng flaen, gymaint â sydd bosib. Nododd fod chwyddiant, pwysau o ran costau gan gynnwys ynni, tanwydd, dyfarniadau cyflog a galwadau cynyddol yn y gyllideb Gofal Cymdeithasol, a chostau byw cynyddol wedi golygu diffyg o £22m yn y gyllideb a bod y cynnydd o 8.1% yn Setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 wedi golygu y byddai angen sicrhau £12m o arbedion o ffynonellau incwm. Roedd y Cabinet wedi cynnig cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor ac roedd hyn yn cynnwys 6% i ariannu’r cynnydd yn y pwysau a fyddai ar y Cyngor o ran cost, a chynnydd i ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru o’u cyllideb o 13% nad oedd yn agored i drafodaeth, sy’n golygu 1.3% yn ychwanegol ar Dreth y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Davies, yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Chaffael nad oeddent yn medru rhoi sicrwydd na fyddai unrhyw swyddi yn cael eu torri, ac y gallai’r ansicrwydd parhaus ynghylch cyflogau effeithio ar gronfeydd wrth gefn y Cyngor gan fod, o bosib, yn uwch na’r swm a neilltuwyd ar ei gyfer. Diolchodd i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu am eu trafodaethau agored ac aeddfed a nododd pe byddai’r Aelodau wedi dymuno cynnig atebion gwahanol, y byddent wedi gorfod cyflwyno'r rhain yn ystod y

broses graffu fel y gallai'r Swyddog Adran 151 ystyried costau'r cynigion a rhoi sicrwydd am gadernid unrhyw gynlluniau o'r fath.

Bu i Eifion Evans, y Prif Weithredwr, gydnabod y gwaith cefndir yr oedd pob Swyddog wedi'i wneud i nodi'r arbedion ac i sicrhau bod swyddi a gwasanaethau yn cael eu diogelu gymaint â sydd bosib. Nododd fod y rheoleiddwyr allanol yn cydnabod bod Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd uchaf er gwaethaf yr heriau. Er hynny, rhagwelwyd y byddai cyllideb y flwyddyn ganlynol hyd yn oed yn fwy heriol.

Cadarnhaodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ei farn ar y Gyllideb fel y Swyddog Adran 151, a oedd yn cynnwys rhoi diweddariad ar Setliad Terfynol LIC a chyflwyniad diweddar Cynigion Cyflog yn ddiweddar ar gyfer staff cyffredinol ar gyfer 2023/24.

Nododd y Cynghorydd Gareth Lloyd, Arweinydd y Grŵp Annibynnol, fod ardoll yr awdurdod tân wedi bod yn isel iawn yn hanesyddol, ac mai dim ond un Orsaf Dân gyda chriw llawn amser oedd yn bodoli ar draws Ceredigion a Phowys. Roedd hyn wedi cael effaith ar y staffio ac roedd yr Awdurdod Tân yn ceisio denu pobl newydd drwy adolygu contractau cyflogaeth, a dyna yn rhannol oedd y rheswm dros y cynnydd sylweddol yn yr Ardoll. Diolchodd i bawb am eu gwaith a diolchodd i'r Cabinet am wrando ar argymhellion y Pwyllgorau Craffu. O ran pennu cyllideb y flwyddyn nesaf, nododd y byddai angen i'r Cyngor ddechrau ar y gwaith yn syth drwy adolygu ffynonellau incwm megis talu am barcio a rhenti, yn ogystal ag arbedion o ran staff asiantaeth a phrynu offer yn hytrach na'i logi.

Diolchodd y Cynghorydd Elizabeth Evans, Arweinydd Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol, i'r Swyddogion am gynnwys Arweinwyr y Grwpiau yn gynnar ac am wrando ar eu cynigion. Nododd fod y cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn ddigynsail ond y byddai'r trigolion yn anfodlon iawn gweld unrhyw ostyngiad posibl mewn gwasanaethau. Ar y llaw arall, dywedodd fod pryder y gallai cynnydd arall yng nghostau aelwydydd y sir wthio hyd yn oed fwy o bobl i galedi. Nododd fod morâl hefyd yn isel iawn ymhlith yr Aelodau. Fodd bynnag, dywedodd y byddai unrhyw gynnydd yn Nhreth y Cyngor a oedd o dan 7.3% yn arwain at ostyngiad pellach mewn gwasanaethau. Ychwanegodd na allai wrthwynebu'r cynnydd am nad oedd fel arweinydd un o'r Gwrthbleidiau wedi medru awgrymu unrhyw opsiynau eraill i leddfu'r sefyllfa. Fel enghraifft, mae'r gwahaniaeth lefel Treth y Cyngor rhwng 6.0% a 7.3% yn 37c yr wythnos ar gyfer eiddo Band D.

Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Lloyd y dylai'r bleidlais ar gyfer Argymhellion 1 – 5 fod yn Bleidlais Gofrestredig. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Gareth Davies. Cafwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol.

Cafwyd pleidlais gofrestredig ynghylch argymhellion 1 i 5 yn yr adroddiad, yn unol â'r hyn a gytunwyd iddo ac yn unol â Rheol 14.5, Rheolau Gweithdrefn y Cyngor yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

*O blaid: Y Cynghorwyr Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Marc Davies,*

*Meirion Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Paul Hinge, Geraint Hughes, Hugh Hughes, Chris James, Gwyn James, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, John Roberts, Mark Strong, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams a Carl Worrall (37).*

*Yn erbyn: Neb (0)*

*Ymatal: Neb (0)*

*Ni wnaeth y Cynghorydd Steve Davies bleidleisio.*

Yn dilyn pleidlais gofrestredig, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi, ym marn y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151):
   • bod amcangyfrifon Cyllideb 2023/24 wedi'u paratoi mewn modd cadarn, a
   • bod lefel arfaethedig y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd a'r Balansau  Cyffredinol yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.
2. Cymeradwyo Gofyniad y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2023/24 o £180.101m, fel yr amlinellir yn Atodiad 1.
3. Cymeradwyo Cyllidebau 2022/23 a Chyllidebau 2023/24, y cyllidebau manwl a ddiweddarwyd, fel yr amlinellir yn Atodiad 2.
4. Pennu Treth y Cyngor Band D o £1,553.60 ar gyfer 2023/24 at ddibenion Cyngor Sir Ceredigion, sef cynnydd o £105.70 neu 7.3%.
5. Nodi bod y cynnydd o 7.3% ym Mand D Treth y Cyngor yn cynrychioli cynnydd o 6.0% ar gyfer Gwasanaethau craidd y Cyngor ac 1.3% pellach er mwyn ariannu cynnydd yn ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer 2023/24.

Yn dilyn pleidlais arall, **PENDERFYNWYD** hefyd:

6. Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf, fel yr amlinellir yn Atodiad 3.
7. Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn, fel yr amlinellir yn Atodiad 4.
8. Cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus, fel yr amlinellir yn Atodiad 5.
9. Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael i weithredu symudiad o fewn cyfanswm y terfyn Awdurdodedig ar gyfer benthyca allanol, a'r ffin Weithredol.

6 **Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ynghylch Gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2023/24**

Cyflwynodd y Cynghorydd Gareth Davies, yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cyllid a Chaffael adroddiad i'r Cyngor ynglŷn â Phennu Treth y Cyngor ar gyfer 2023/24.  Nododd mai adroddiad technegol oedd hwn a bod gofyniad statudol i bleidleisio ar y mater hwn. Serch hynny, nid oedd hyn yn ailagor y drafodaeth a gafwyd ar yr eitem a gytunwyd iddi yn flaenorol.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r canlynol:

(a) I nodi y cymeradwywyd y symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2023/24 yng nghyfarfod Cabinet y Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2022 yn unol â rheoliadau Adran 33(5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:

(b) 32,767.99 sef y swm a gyfrifir gan y Cyngor fel sylfaen treth y Cyngor ar gyfer yr ardal, yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) a Threth y Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004.

**(c) RHAN O ARDAL Y CYNGOR**

| Ardaloedd CynghorauTref a Chymuned: | Sylfaen Treth y Cyngor | Ardaloedd CynghorauTref a Chymuned: | Sylfaen Treth y Cyngor |
|---|---|---|---|
| ABERYSTWYTH | 4,078.02 | TREGARON | 540.26 |
| ABERAERON | 760.58 | YSBYTY YSTWYTH | 207.94 |
| ABERTEIFI / CARDIGAN | 1,850.53 | YSTRAD FFLUR | 312.91 |
| LLANBEDR P.S. / LAMPETER | 1,004.15 | YSTRAD MEURIG | 168.04 |
| CEI NEWYDD / NEW QUAY | 726.00 | CILIAU AERON | 427.90 |
| BORTH | 744.47 | HENFYNYW | 517.31 |
| CEULANAMAESMAWR | 429.83 | LLANARTH | 750.23 |
| BLAENRHEIDOL | 202.85 | LLANDYSILOGOGO | 547.81 |
| GENEU'R GLYN | 357.37 | LLANFAIR CLYDOGAU | 308.76 |
| LLANBADARN FAWR | 895.70 | LLANFIHANGEL YSTRAD | 663.86 |
| LLANGYNFELIN | 270.19 | LLANGYBI | 283.50 |
| LLANFARIAN | 759.01 | LLANLLWCHAEARN | 492.89 |
| LLANGWYRYFON | 251.05 | LLANSANTFFRAED | 617.81 |
| LLANILAR | 481.58 | LLANWENOG | 585.35 |
| LLANRHYSTUD | 451.68 | LLANWNNEN | 213.69 |
| MELINDWR | 520.75 | DYFFRYN ARTH | 575.32 |
| PONTARFYNACH | 243.53 | ABERPORTH | 1,128.88 |
| TIRYMYNACH | 798.36 | BEULAH | 870.46 |
| TRAWSGOED | 447.89 | LLANDYFRIOG | 831.23 |
| TREFEURIG | 786.69 | LLANDYSUL | 1,262.45 |
| FAENOR | 818.47 | LLANGOEDMOR | 593.30 |
| YSGUBOR-Y-COED | 163.41 | LLANGRANNOG | 428.33 |
| LLANDDEWI BREFI | 308.09 | PENBRYN | 735.39 |
| LLANGEITHO | 371.44 | TROEDYRAUR | 663.13 |
| LLEDROD | 309.53 | Y FERWIG | 631.71 |
| NANTCWNLLE | 378.36 | | |

**SYLFAEN TRETH Y CYNGOR 32,767.99**

**sef y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol â Rheoliad 6 o Reoliadau 1995 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau 2004), fel symiau Treth y Cyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau**

**mewn rhannau penodol o'r ardal y mae un eitem neu fwy yn berthnasol iddynt;**

**3.2 I cymeradwyo'r symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2023/24 yn unol ag adrannau 32 hyd 36, Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, fel y nodir isod:-**

**(a) £269,760,426 sef cyfanswm y symiau a amcangyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer eitemau a nodir yn Adran 32(2)(a) hyd (e) o'r Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys £190,000 o ran Rhyddhad Ardrethi Annomestig Cenedlaethol.**

**(b) £88,284,000 sef cyfanswm y symiau a amcangyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer eitemau a nodir yn Adran 32(3)(a) hyd (c) o'r Ddeddf.**

**(c) £181,476,426 sef swm y diffyg rhwng cyfanswm (a) uchod a chyfanswm (b) uchod, a gyfrifir gan y Cyngor fel yr anghenion cyllidebol am y flwyddyn, yn unol ag Adran 32(4) o'r ddeddf.**

**(d) £129,192,414 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif a fydd yn daladwy i Gronfa'r Cyngor am y flwyddyn ar gyfer ailddosbarthu ardrethi annomestig, y grant cymorth refeniw a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.**

**(e) £1,595.58 sef y swm a roddir o dan (c) uchod, namyn y swm a roddir o dan (d) uchod, wedi'i rannu â Sylfaen Treth y Cyngor, a gyfrifir gan y Cyngor fel swm sylfaenol Treth y Cyngor am y flwyddyn yn unol ag Adran 33(1) o'r Ddeddf.**

**(f) £1,375,663 sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf.**

**(g) £1,553.60 sef y cyfanswm a roddir o dan (e) uchod, namyn y swm a geir wrth rannu'r swm a roddir o dan (f) uchod â'r Sylfaen Treth y Cyngor a gyfrifwyd gan y Cyngor fel swm sylfaenol Treth y Cyngor am y flwyddyn, yn unol ag Adran 34(2) o'r Ddeddf.**

**(h) RHAN O ARDAL Y CYNGOR**

| **Ardaloedd Cynghorau Tref a Chymuned:** | **Sylfaen Treth y Cyngor** | **Ardaloedd Cynghorau Tref a Chymuned:** | **Sylfaen Treth y Cyngor** |
|---|---|---|---|
| ABERYSTWYTH | 1,695.58 | TREGARON | 1,594.32 |
| ABERAERON | 1,609.60 | YSBYTY YSTWYTH | 1,568.03 |
| ABERTEIFI / CARDIGAN | 1,599.93 | YSTRAD FFLUR | 1,576.65 |
| LLANBEDR P.S. / LAMPETER | 1,592.44 | YSTRAD MEURIG | 1,566.60 |
| CEI NEWYDD / NEW QUAY | 1,576.85 | CILIAU AERON | 1,567.62 |
| BORTH | 1,585.12 | HENFYNYW | 1,567.13 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| CEULANAMAESMAWR | 1,590.82 | LLANARTH | 1,566.24 |
| BLAENRHEIDOL | 1,575.91 | LLANDYSILOGOGO | 1,572.34 |
| GENEU'R GLYN | 1,580.18 | LLANFAIR CLYDOGAU | 1,564.94 |
| LLANBADARN FAWR | 1,601.92 | LLANFIHANGEL YSTRAD | 1,568.59 |
| LLANGYNFELIN | 1,579.51 | LLANGYBI | 1,567.71 |
| LLANFARIAN | 1,572.97 | LLANLLWCHAEARN | 1,576.61 |
| LLANGWYRYFON | 1,568.21 | LLANSANTFFRAED | 1,592.45 |
| LLANILAR | 1,568.14 | LLANWENOG | 1,579.23 |
| LLANRHYSTUD | 1,572.64 | LLANWNNEN | 1,569.82 |
| MELINDWR | 1,567.04 | DYFFRYN ARTH | 1,579.19 |
| PONTARFYNACH | 1,567.97 | ABERPORTH | 1,590.01 |
| TIRYMYNACH | 1,578.03 | BEULAH | 1,582.32 |
| TRAWSGOED | 1,565.21 | LLANDYFRIOG | 1,571.65 |
| TREFEURIG | 1,570.12 | LLANDYSUL | 1,591.43 |
| FAENOR | 1,594.44 | LLANGOEDMOR | 1,604.16 |
| YSGUBOR-Y-COED | 1,575.02 | LLANGRANNOG | 1,578.11 |
| LLANDDEWI BREFI | 1,584.44 | PENBRYN | 1,569.92 |
| LLANGEITHO | 1,568.41 | TROEDYRAUR | 1,570.19 |
| LLEDROD | 1,561.10 | Y FERWIG | 1,592.54 |
| NANTCWNLLE | 1,559.41 | | |

**sef y symiau sy'n ganlyniad o ychwanegu swm yr eitem neu eitemau arbennig a wnelo ag anheddau yn y rhannau penodol o ardal y Cyngor y cyfeirir atynt uchod at y swm a roddir o dan 3.2(g) uchod, wedi rhannu yn y ddau achos â'r swm a roddir o dan 3.1(b) uchod, a amcangyfrifwyd gan y Cyngor fel symiau sylfaenol Treth y Cyngor ar gyfer anheddau mewn rhannau penodol o'r ardal y mae un eitem arbennig neu fwy yn berthnasol iddynt, yn unol ag Adran 34(3) o'r Ddeddf.**

**(i) RHAN O ARDAL Y CYNGOR**

| ARDALOEDD | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYNGHORAU | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| TREF A CHYMUNED: | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| ABERYSTWYTH | 1130.38 | 1318.79 | 1507.18 | 1695.58 | 2072.37 | 2449.17 | 2825.96 | 3391.16 | 3956.36 |
| ABERAERON | 1073.06 | 1251.92 | 1430.76 | 1609.60 | 1967.28 | 2324.98 | 2682.66 | 3219.20 | 3755.74 |
| ABERTEIFI / CARDIGAN | 1066.62 | 1244.39 | 1422.16 | 1599.93 | 1955.47 | 2311.01 | 2666.55 | 3199.86 | 3733.17 |
| LLANBEDR P.S. / LAMPETER | 1061.62 | 1238.57 | 1415.50 | 1592.44 | 1946.31 | 2300.19 | 2654.06 | 3184.88 | 3715.70 |
| CEI NEWYDD / NEW QUAY | 1051.23 | 1226.44 | 1401.65 | 1576.85 | 1927.26 | 2277.67 | 2628.08 | 3153.70 | 3679.32 |
| BORTH | 1056.74 | 1232.88 | 1409.00 | 1585.12 | 1937.36 | 2289.62 | 2641.86 | 3170.24 | 3698.62 |
| CEULANAMAESMAWR | 1060.54 | 1237.31 | 1414.06 | 1590.82 | 1944.33 | 2297.85 | 2651.36 | 3181.64 | 3711.92 |
| BLAENRHEIDOL | 1050.60 | 1225.71 | 1400.81 | 1575.91 | 1926.11 | 2276.32 | 2626.51 | 3151.82 | 3677.13 |
| GENEU'R GLYN | 1053.45 | 1229.03 | 1404.61 | 1580.18 | 1931.33 | 2282.48 | 2633.63 | 3160.36 | 3687.09 |
| LLANBADARN FAWR | 1067.94 | 1245.94 | 1423.93 | 1601.92 | 1957.90 | 2313.89 | 2669.86 | 3203.84 | 3737.82 |
| LLANGYNFELIN | 1053.00 | 1228.51 | 1404.01 | 1579.51 | 1930.51 | 2281.52 | 2632.51 | 3159.02 | 3685.53 |
| LLANFARIAN | 1048.64 | 1223.43 | 1398.20 | 1572.97 | 1922.51 | 2272.07 | 2621.61 | 3145.94 | 3670.27 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| LLANGWYRYFON | 1045.47 | 1219.72 | 1393.97 | 1568.21 | 1916.70 | 2265.19 | 2613.68 | 3136.42 | 3659.16 |
| LLANILAR | 1045.42 | 1219.67 | 1393.90 | 1568.14 | 1916.61 | 2265.09 | 2613.56 | 3136.28 | 3659.00 |
| LLANRHYSTUD | 1048.42 | 1223.17 | 1397.90 | 1572.64 | 1922.11 | 2271.59 | 2621.06 | 3145.28 | 3669.50 |
| MELINDWR | 1044.69 | 1218.81 | 1392.93 | 1567.04 | 1915.27 | 2263.50 | 2611.73 | 3134.08 | 3656.43 |
| PONTARFYNACH | 1045.31 | 1219.54 | 1393.75 | 1567.97 | 1916.40 | 2264.85 | 2613.28 | 3135.94 | 3658.60 |
| TIRYMYNACH | 1052.02 | 1227.36 | 1402.70 | 1578.03 | 1928.70 | 2279.38 | 2630.05 | 3156.06 | 3682.07 |
| TRAWSGOED | 1043.47 | 1217.39 | 1391.30 | 1565.21 | 1913.03 | 2260.86 | 2608.68 | 3130.42 | 3652.16 |
| TREFEURIG | 1046.74 | 1221.21 | 1395.66 | 1570.12 | 1919.03 | 2267.95 | 2616.86 | 3140.24 | 3663.62 |
| FAENOR | 1062.96 | 1240.12 | 1417.28 | 1594.44 | 1948.76 | 2303.08 | 2657.40 | 3188.88 | 3720.36 |
| YSGUBOR-Y-COED | 1050.01 | 1225.02 | 1400.02 | 1575.02 | 1925.02 | 2275.03 | 2625.03 | 3150.04 | 3675.05 |
| LLANDDEWI BREFI | 1056.29 | 1232.35 | 1408.39 | 1584.44 | 1936.53 | 2288.64 | 2640.73 | 3168.88 | 3697.03 |
| LLANGEITHO | 1045.60 | 1219.88 | 1394.14 | 1568.41 | 1916.94 | 2265.48 | 2614.01 | 3136.82 | 3659.63 |
| LLEDROD | 1040.73 | 1214.19 | 1387.65 | 1561.10 | 1908.01 | 2254.92 | 2601.83 | 3122.20 | 3642.57 |
| NANTCWNLLE | 1039.60 | 1212.88 | 1386.14 | 1559.41 | 1905.94 | 2252.48 | 2599.01 | 3118.82 | 3638.63 |
| TREGARON | 1062.88 | 1240.03 | 1417.18 | 1594.32 | 1948.61 | 2302.91 | 2657.20 | 3188.64 | 3720.08 |
| YSBYTY YSTWYTH | 1045.35 | 1219.58 | 1393.81 | 1568.03 | 1916.48 | 2264.93 | 2613.38 | 3136.06 | 3658.74 |
| YSTRAD FFLUR | 1051.10 | 1226.29 | 1401.47 | 1576.65 | 1927.01 | 2277.38 | 2627.75 | 3153.30 | 3678.85 |
| YSTRAD MEURIG | 1044.40 | 1218.47 | 1392.54 | 1566.60 | 1914.73 | 2262.87 | 2611.00 | 3133.20 | 3655.40 |
| CILIAU AERON | 1045.08 | 1219.26 | 1393.44 | 1567.62 | 1915.98 | 2264.34 | 2612.70 | 3135.24 | 3657.78 |
| HENFYNYW | 1044.75 | 1218.88 | 1393.01 | 1567.13 | 1915.38 | 2263.63 | 2611.88 | 3134.26 | 3656.64 |
| LLANARTH | 1044.16 | 1218.19 | 1392.22 | 1566.24 | 1914.29 | 2262.35 | 2610.40 | 3132.48 | 3654.56 |
| LLANDYSILIOGOGO | 1048.22 | 1222.94 | 1397.64 | 1572.34 | 1921.74 | 2271.16 | 2620.56 | 3144.68 | 3668.80 |
| LLANFAIR CLYDOGAU | 1043.29 | 1217.18 | 1391.06 | 1564.94 | 1912.70 | 2260.47 | 2608.23 | 3129.88 | 3651.53 |
| LLANFIHANGEL YSTRAD | 1045.72 | 1220.02 | 1394.30 | 1568.59 | 1917.16 | 2265.74 | 2614.31 | 3137.18 | 3660.05 |
| LLANGYBI | 1045.14 | 1219.33 | 1393.52 | 1567.71 | 1916.09 | 2264.47 | 2612.85 | 3135.42 | 3657.99 |
| LLANLLWCHAEARN | 1051.07 | 1226.26 | 1401.43 | 1576.61 | 1926.96 | 2277.33 | 2627.68 | 3153.22 | 3678.76 |
| LLANSANTFFRAED | 1061.63 | 1238.58 | 1415.51 | 1592.45 | 1946.32 | 2300.21 | 2654.08 | 3184.90 | 3715.72 |
| LLANWENOG | 1052.82 | 1228.29 | 1403.76 | 1579.23 | 1930.17 | 2281.11 | 2632.05 | 3158.46 | 3684.87 |
| LLANWNNEN | 1046.54 | 1220.98 | 1395.40 | 1569.82 | 1918.66 | 2267.52 | 2616.36 | 3139.64 | 3662.92 |
| DYFFRYN ARTH | 1052.79 | 1228.26 | 1403.73 | 1579.19 | 1930.12 | 2281.05 | 2631.98 | 3158.38 | 3684.78 |
| ABERPORTH | 1060.00 | 1236.68 | 1413.34 | 1590.01 | 1943.34 | 2296.68 | 2650.01 | 3180.02 | 3710.03 |
| BEULAH | 1054.88 | 1230.70 | 1406.51 | 1582.32 | 1933.94 | 2285.57 | 2637.20 | 3164.64 | 3692.08 |
| LLANDYFRIOG | 1047.76 | 1222.40 | 1397.02 | 1571.65 | 1920.90 | 2270.16 | 2619.41 | 3143.30 | 3667.19 |
| LLANDYSUL | 1060.95 | 1237.78 | 1414.61 | 1591.43 | 1945.08 | 2298.73 | 2652.38 | 3182.86 | 3713.34 |
| LLANGOEDMOR | 1069.44 | 1247.68 | 1425.92 | 1604.16 | 1960.64 | 2317.12 | 2673.60 | 3208.32 | 3743.04 |
| LLANGRANNOG | 1052.07 | 1227.42 | 1402.77 | 1578.11 | 1928.80 | 2279.49 | 2630.18 | 3156.22 | 3682.26 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PENBRYN | 1046.61 | 1221.05 | 1395.49 | 1569.92 | 1918.79 | 2267.66 | 2616.53 | 3139.84 | 3663.15 |
| TROEDYRAUR | 1046.79 | 1221.26 | 1395.73 | 1570.19 | 1919.12 | 2268.05 | 2616.98 | 3140.38 | 3663.78 |
| Y FERWIG | 1061.69 | 1238.65 | 1415.59 | 1592.54 | 1946.43 | 2300.34 | 2654.23 | 3185.08 | 3715.93 |

**sef y symiau sy'n ganlyniad o luosi'r symiau a roddir o dan 3.2(h) gyda'r rhif sydd, yn ôl y gyfran a bennir yn Adran 5(1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band prisio penodol wedi rhannu gyda'r rhif sydd, yn ôl y gyfran honno, yn berthnasol i anheddau a restrir ym mand prisio D gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf, sef y symiau a gaiff eu hystyried ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategorïau o anheddau a restrir mewn gwahanol fandiau prisio.**

**3.3 I nodi'r symiau yn y praeseptau a gyflwynwyd i'r Cyngor gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ar gyfer 2023/24 yn unol ag Adran 47 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, ar gyfer pob categori o anheddiad a ddengys isod:-**

**Treth Gyngor Heddlu Dyfed-Powys**

**BANDIAU PRISIO**

| A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| 208.43 | 243.17 | 277.91 | 312.65 | 382.13 | 451.61 | 521.08 | 625.30 | 729.52 |

**3.4 I pennu Treth y Cyngor yn unol ag Adran 30 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Ar ôl cyfrifo'r cyfanswm ymhob achos ar gyfer y symiau a roddir o dan 3.2(i) a 3.3 uchod, mae'r Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn pennu'r symiau, sydd i'w gweld yn Atodiad A, fel symiau Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2023/24 ar gyfer pob categori anheddiad.**

| **ARDALOEDD CYNGHORAU TREF A CHYMUNED** | **Band A £** | **Band B £** | **Band C £** | **Band D £** | **Band E £** | **Band F £** | **Band G £** | **Band H £** | **Band I £** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ABERYSTWYTH | 1338.82 | 1561.96 | 1785.09 | 2008.23 | 2454.50 | 2900.77 | 3347.05 | 4016.46 | 4685.87 |
| ABERAERON | 1281.50 | 1495.09 | 1708.67 | 1922.25 | 2349.41 | 2776.58 | 3203.75 | 3844.50 | 4485.25 |
| ABERTEIFI / CARDIGAN | 1275.06 | 1487.56 | 1700.07 | 1912.58 | 2337.60 | 2762.61 | 3187.64 | 3825.16 | 4462.68 |
| LLANBEDR P.S. / LAMPETER | 1270.06 | 1481.74 | 1693.41 | 1905.09 | 2328.44 | 2751.79 | 3175.15 | 3810.18 | 4445.21 |
| CEI NEWYDD / NEW QUAY | 1259.67 | 1469.61 | 1679.56 | 1889.50 | 2309.39 | 2729.27 | 3149.17 | 3779.00 | 4408.83 |
| BORTH | 1265.18 | 1476.05 | 1686.91 | 1897.77 | 2319.49 | 2741.22 | 3162.95 | 3795.54 | 4428.13 |
| CEULANAMAESMAWR | 1268.98 | 1480.48 | 1691.97 | 1903.47 | 2326.46 | 2749.45 | 3172.45 | 3806.94 | 4441.43 |
| BLAENRHEIDOL | 1259.04 | 1468.88 | 1678.72 | 1888.56 | 2308.24 | 2727.92 | 3147.60 | 3777.12 | 4406.64 |
| GENEU'R GLYN | 1261.89 | 1472.20 | 1682.52 | 1892.83 | 2313.46 | 2734.08 | 3154.72 | 3785.66 | 4416.60 |
| LLANBADARN FAWR | 1276.38 | 1489.11 | 1701.84 | 1914.57 | 2340.03 | 2765.49 | 3190.95 | 3829.14 | 4467.33 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| LLANGYNFELIN | 1261.44 | 1471.68 | 1681.92 | 1892.16 | 2312.64 | 2733.12 | 3153.60 | 3784.32 | 4415.04 |
| LLANFARIAN | 1257.08 | 1466.60 | 1676.11 | 1885.62 | 2304.64 | 2723.67 | 3142.70 | 3771.24 | 4399.78 |
| LLANGWYRYFON | 1253.91 | 1462.89 | 1671.88 | 1880.86 | 2298.83 | 2716.79 | 3134.77 | 3761.72 | 4388.67 |
| LLANILAR | 1253.86 | 1462.84 | 1671.81 | 1880.79 | 2298.74 | 2716.69 | 3134.65 | 3761.58 | 4388.51 |
| LLANRHYSTUD | 1256.86 | 1466.34 | 1675.81 | 1885.29 | 2304.24 | 2723.19 | 3142.15 | 3770.58 | 4399.01 |
| MELINDWR | 1253.13 | 1461.98 | 1670.84 | 1879.69 | 2297.40 | 2715.10 | 3132.82 | 3759.38 | 4385.94 |
| PONTARFYNACH | 1253.75 | 1462.71 | 1671.66 | 1880.62 | 2298.53 | 2716.45 | 3134.37 | 3761.24 | 4388.11 |
| TIRYMYNACH | 1260.46 | 1470.53 | 1680.61 | 1890.68 | 2310.83 | 2730.98 | 3151.14 | 3781.36 | 4411.58 |
| TRAWSGOED | 1251.91 | 1460.56 | 1669.21 | 1877.86 | 2295.16 | 2712.46 | 3129.77 | 3755.72 | 4381.67 |
| TREFEURIG | 1255.18 | 1464.38 | 1673.57 | 1882.77 | 2301.16 | 2719.55 | 3137.95 | 3765.54 | 4393.13 |
| FAENOR | 1271.40 | 1483.29 | 1695.19 | 1907.09 | 2330.89 | 2754.68 | 3178.49 | 3814.18 | 4449.87 |
| YSGUBOR-Y-COED | 1258.45 | 1468.19 | 1677.93 | 1887.67 | 2307.15 | 2726.63 | 3146.12 | 3775.34 | 4404.56 |
| LLANDDEWI BREFI | 1264.73 | 1475.52 | 1686.30 | 1897.09 | 2318.66 | 2740.24 | 3161.82 | 3794.18 | 4426.54 |
| LLANGEITHO | 1254.04 | 1463.05 | 1672.05 | 1881.06 | 2299.07 | 2717.08 | 3135.10 | 3762.12 | 4389.14 |
| LLEDROD | 1249.17 | 1457.36 | 1665.56 | 1873.75 | 2290.14 | 2706.52 | 3122.92 | 3747.50 | 4372.08 |
| NANTCWNLLE | 1248.04 | 1456.05 | 1664.05 | 1872.06 | 2288.07 | 2704.08 | 3120.10 | 3744.12 | 4368.14 |
| TREGARON | 1271.32 | 1483.20 | 1695.09 | 1906.97 | 2330.74 | 2754.51 | 3178.29 | 3813.94 | 4449.59 |
| YSBYTY YSTWYTH | 1253.79 | 1462.75 | 1671.72 | 1880.68 | 2298.61 | 2716.53 | 3134.47 | 3761.36 | 4388.25 |
| YSTRAD FFLUR | 1259.54 | 1469.46 | 1679.38 | 1889.30 | 2309.14 | 2728.98 | 3148.84 | 3778.60 | 4408.36 |
| YSTRAD MEURIG | 1252.84 | 1461.64 | 1670.45 | 1879.25 | 2296.86 | 2714.47 | 3132.09 | 3758.50 | 4384.91 |
| CILIAU AERON | 1253.52 | 1462.43 | 1671.35 | 1880.27 | 2298.11 | 2715.94 | 3133.79 | 3760.54 | 4387.29 |
| HENFYNYW | 1253.19 | 1462.05 | 1670.92 | 1879.78 | 2297.51 | 2715.23 | 3132.97 | 3759.56 | 4386.15 |
| LLANARTH | 1252.60 | 1461.36 | 1670.13 | 1878.89 | 2296.42 | 2713.95 | 3131.49 | 3757.78 | 4384.07 |
| LLANDYSILIOGOGO | 1256.66 | 1466.11 | 1675.55 | 1884.99 | 2303.87 | 2722.76 | 3141.65 | 3769.98 | 4398.31 |
| LLANFAIR CLYDOGAU | 1251.73 | 1460.35 | 1668.97 | 1877.59 | 2294.83 | 2712.07 | 3129.32 | 3755.18 | 4381.04 |
| LLANFIHANGEL YSTRAD | 1254.16 | 1463.19 | 1672.21 | 1881.24 | 2299.29 | 2717.34 | 3135.40 | 3762.48 | 4389.56 |
| LLANGYBI | 1253.58 | 1462.50 | 1671.43 | 1880.36 | 2298.22 | 2716.07 | 3133.94 | 3760.72 | 4387.50 |
| LLANLLWCHAEARN | 1259.51 | 1469.43 | 1679.34 | 1889.26 | 2309.09 | 2728.93 | 3148.77 | 3778.52 | 4408.27 |
| LLANSANTFFRAED | 1270.07 | 1481.75 | 1693.42 | 1905.10 | 2328.45 | 2751.81 | 3175.17 | 3810.20 | 4445.23 |
| LLANWENOG | 1261.26 | 1471.46 | 1681.67 | 1891.88 | 2312.30 | 2732.71 | 3153.14 | 3783.76 | 4414.38 |
| LLANWNNEN | 1254.98 | 1464.15 | 1673.31 | 1882.47 | 2300.79 | 2719.12 | 3137.45 | 3764.94 | 4392.43 |
| DYFFRYN ARTH | 1261.23 | 1471.43 | 1681.64 | 1891.84 | 2312.25 | 2732.65 | 3153.07 | 3783.68 | 4414.29 |
| ABERPORTH | 1268.44 | 1479.85 | 1691.25 | 1902.66 | 2325.47 | 2748.28 | 3171.10 | 3805.32 | 4439.54 |
| BEULAH | 1263.32 | 1473.87 | 1684.42 | 1894.97 | 2316.07 | 2737.17 | 3158.29 | 3789.94 | 4421.59 |
| LLANDYFRIOG | 1256.20 | 1465.57 | 1674.93 | 1884.30 | 2303.03 | 2721.76 | 3140.50 | 3768.60 | 4396.70 |
| LLANDYSUL | 1269.39 | 1480.95 | 1692.52 | 1904.08 | 2327.21 | 2750.33 | 3173.47 | 3808.16 | 4442.85 |
| LLANGOEDMOR | 1277.88 | 1490.85 | 1703.83 | 1916.81 | 2342.77 | 2768.72 | 3194.69 | 3833.62 | 4472.55 |
| LLANGRANNOG | 1260.51 | 1470.59 | 1680.68 | 1890.76 | 2310.93 | 2731.09 | 3151.27 | 3781.52 | 4411.77 |
| PENBRYN | 1255.05 | 1464.22 | 1673.40 | 1882.57 | 2300.92 | 2719.26 | 3137.62 | 3765.14 | 4392.66 |
| TROEDYRAUR | 1255.23 | 1464.43 | 1673.64 | 1882.84 | 2301.25 | 2719.65 | 3138.07 | 3765.68 | 4393.29 |
| Y FERWIG | 1270.13 | 1481.82 | 1693.50 | 1905.19 | 2328.56 | 2751.94 | 3175.32 | 3810.38 | 4445.44 |

**7 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (IDR) 2023/24**

Cyflwynodd y Cynghorydd Gareth Davies, yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Chaffael yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod y Cabinet wedi penderfynu yn ystod ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2023 i gymeradwyo Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) ar gyfer 2023/24. Nodwyd y byddai unrhyw benderfyniad ynghylch dirprwyo dyletswyddau o dan adran 4 yn cael ei adrodd yn ôl i'r Cabinet, pe byddai unrhyw faterion yn codi.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD**:
a) nodi'r adroddiad (eitemau 2(i) i 2(iv)) a chymeradwyo argymhelliad y Cabinet;
b) cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Benthyca a Buddsoddi 2023/24; a
c) cymeradwyo Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw 2023/24.

**8 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth ar gyflwyno Taliad Atodol ar sail Grymoedd y Farchnad - Recriwtio Prif Swyddogion**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi yn dilyn ymgyrch recriwtio yn ddiweddar fod rôl y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal, a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau'n wag. Dywedodd fod uchafswm cyflog y rôl ar hyn o bryd lawer yn is na'r rolau cyfatebol mewn awdurdodau cyfagos ac mewn awdurdodau sydd â phoblogaeth debyg i Geredigion.

Cynigiwyd felly fod Taliad Atodol ar sail Grymoedd y Farchnad o hyd at £10,385 yn cael ei gyflwyno i gynyddu'r cyflog a hysbysebir a fyddai'n arwain at uchafswm cyflog a thaliad atodol a hysbysebir o £97,500, gan barhau mewn grym tra bo cyfradd y farchnad yn parhau i fod yn uwch na lefel y cyflog a werthuswyd ar gyfer y swydd.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r cynnydd arfaethedig yn ddigonol, gan nodi na fyddai'n gynaliadwy dibynnu ar staff asiantaeth.

Dywedodd Eifion Evans fod y cyflogau yng Ngheredigion wedi bod ar eu hôl hi o gymharu â dyletswyddau a chyfrifoldebau tebyg mewn awdurdodau cyfagos. Serch hynny, byddai'r cyflog uwch yn arwain at lai o wahaniaeth rhwng cyflogau'r rolau a oedd yn uwch i fyny'r strwythur cyflogau. Roedd angen i'r Cyngor ystyried yr hyn a fyddai'n fforddiadwy a phe byddai argymhelliad yn cael ei gyflwyno y tu hwnt i'r hyn a oedd yn cael ei gynnig, roedd yn bosib y byddai angen i'r Cyngor ystyried adolygiad cyffredinol o strwythur cyflogau'r Cyngor.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo cyflwyno taliad atodol ar sail grymoedd y farchnad ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Statudol y

Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal.

**9 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Y Gyfraith a Llywodraethu ar apwyntio dau Ymddiriedolwr i elusen Gwobrau Evan Morgan**

Rhoddodd Matthew Vaux, yr Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd amlinelliad o Gynllun y Comisiwn Elusennau mewn perthynas â'r elusen a adwaenir fel Gwobrau Evan Morgan gan nodi bod angen tri ymddiriedolwr o dan y Cynllun.

Yr ymddiriedolwr cyntaf a gaiff ei enwi yn y Cynllun yw Cyfarwyddwr Addysg Cyngor Sir Dyfed. Erbyn heddiw mae swyddogaethau statudol Cyfarwyddwr Addysg Dyfed yn cael eu cyflawni gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Ysgolion yn rhinwedd ei swydd fel Prif Swyddog Addysg. Y Cyngor fel yr Awdurdod Addysg Lleol fydd yn enwebu'r ddau ymddiriedolwr arall. Gall yr ymddiriedolwyr hyn fod yn Aelodau o'r Cyngor ond nid oes yn rhaid iddynt fod.

Er mwyn adfywio'r cynllun elusennol ac er mwyn bod mewn sefyllfa i ddyfarnu gwobrau newydd, cynigir bod y Cyngor yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu Cyngor Sir Ceredigion fel y ddau ymddiriedolwr arall.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu Cyngor Sir Ceredigion fel y ddau ymddiriedolwr a enwebir i'r elusen a adwaenir fel Gwobrau Evan Morgan.

**10 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataiddd ar Adolygiad o Gymunedau a Threfniadau Etholiadol**

Cyflwynodd Eifion Evans, y Prif Weithredwr, adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod gofyniad statudol ar y Swyddog Etholiadol i adolygu ffiniau yn rheolaidd a bod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi'i benodi i gynnal adolygiad o gymunedau a threfniadau etholiadol ar ran Cyngor Sir Ceredigion.

Fel rhan o'r adolygiad, byddai'r Comisiwn yn rhoi sylw i'r canlynol:

- creu, diddymu neu uno cymunedau a wardiau cymunedol
- enw'r gymuned, a lle mae'n cynnwys wardiau, enw wardiau cymunedol
- lle mae newidiadau wedi'u gwneud i ffiniau cymunedau neu wardiau cymunedol, nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli'r gymuned a, lle mae'n cynnwys wardiau, nifer y cynghorwyr fesul ward.

Fel rhan o'r broses adolygu, byddai gofyn i'r Cyngor sefydlu grŵp trawsbleidiol o Gynghorwyr i gefnogi'r adolygiad i benderfynu ar Bolisi Maint y Cyngor (a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor cyn dechrau'r cyfarfod ymgynghori cyntaf gyda chynghorau Tref a Chymuned) ac i fod yn brif grŵp ar gyfer yr awdurdod lleol. Argymhellwyd bod gan y Grŵp Trawsbleidiol 7

Aelod ac roedd Arweinwyr y Grwpiau wedi enwebu Aelodau ar gyfer y grŵp hwn.

Dywedodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor, fod rhai Cynghorau Tref a Chymuned yn wynebu heriau o ran denu unigolion i sefyll fel Aelodau. Soniodd hefyd am y costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu Pwyllgorau.
Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD**:

a) nodi bod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi'i gomisiynu i gynnal Adolygiad y Cymunedau ar ran y Cyngor;
b) cymeradwyo mai 7 fyddai nifer yr Aelodau ar Grŵp Trawsbleidiol yr Adolygiad o Gymunedau a’r Adolygiad Etholiadol;
c) cadarnhau aelodaeth Grŵp Trawsbleidiol yr Adolygiad o Gymunedau a’r Adolygiad Etholiadol fel a ganlyn:
    - Clive Davies
    - Elizabeth Evans
    - Eryl Evans
    - Gwyn Wigley Evans
    - Rhodri Evans
    - Paul Hinge
    - Alun Williams.

**11 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Y Gyfraith a Llywodraethu ar apwyntio Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, yr Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu’r Cyhoedd yr adroddiad i’r Cyngor gan nodi yn dilyn ymddiswyddiad Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fod Mr Andrew Blackmore wedi’i benodi a’i gymeradwyo gan y Cyngor ar 15 Rhagfyr 2022.

Yn ystod cyfarfod o’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2023, ystyriwyd y trefniadau ar gyfer Is-gadeirydd, a chytunwyd i benodi Mr Andrew Blackmore fel Is-gadeirydd ar unwaith o 17 Ionawr 2023 ymlaen am weddill y cyfnod o ddwy flynedd hyd at fis Mai 2024.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cadarnhau penodiad Andrew Blackmore fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hyd at fis Mai 2024.

**12 Aelodaeth y Grŵp Datblygu**

| | | |
|---|---|---|
| Plaid Cymru | 3 | Y Cynghorydd Bryan Davies<br>Y Cynghorydd Clive Davies<br>Y Cynghorydd Alun Williams |
| Aelodau Annibynnol (Cadeirydd / Is-gadeirydd y | 1 | Y Cynghorydd Rhodri Evans |

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol*) | | |
| Y Democratiaid Rhyddfrydol (Cadeirydd / Is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol*) | 1 | Y Cynghorydd Geraint Hughes |

*Ar gyfer tymor y swydd, byddai'r Grŵp Annibynnol a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn rhannu rolau'r Cadeirydd/Is-gadeirydd – gan gyfnewid bob dwy flynedd.

**13 Cynrychiolydd cyflogwr i Gronfa Pensiwn Dyfed**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod y Cynghorydd Gareth Lloyd wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r rôl hon.

Enwebodd y Cynghorydd Bryan Davies y Cynghorydd Wyn Thomas fel Cynrychiolydd Cyflogwr i Gronfa Bensiwn Dyfed.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd Wyn Thomas fel Cynrychiolydd Cyflogwr i Gynllun Bensiwn Dyfed.

**14 Aelodau o'r Cyngor i Bwyllgorau'r cyngor ar gyfer y Flwyddyn Fwrdeisdrefol ddilynol**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau Aelodaeth Pwyllgorau'r Cyngor fel y'i cyflwynwyd gerbron y cyfarfod.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 20 Ebrill 2023**

**CADEIRYDD:** ______________

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod Arbennig o GYNGOR SIR CEREDIGION a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy gynhadledd fideo ar Dydd Iau, 9fed Mawrth, 2023**

**YN BRESENNOL:** Ifan Davies (Cadeirydd); Councillors Bryan Davies, Catrin M S Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Paul Hinge, Hugh R M Hughes, Chris James, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Sian Maehrlein, Caryl Roberts, John Roberts, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams a Carl Worrall.

(2.00pm - 2.50pm)

**Gweithdrefn**

Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Ifan Davies, bawb i'r cyfarfod a chadarnhaodd nad oedd y cyfarfod yn cael ei weddarlledu.

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Geraint Hughes, Gwyn James ac Ann Bowen Morgan am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

Ymddiheuriodd y Cyngohorydd Clive Davies am ei anallu i fynychu'r cyfarfod am ei fod ar ddyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.

**2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o ddiddordeb.

**3 Materion Personol**

Estynodd y Cynghorydd Gareth Davies ei gydymdeilad â theulu Ben Davies, Cynghorydd Cymuned i Gyngor Cymuned Llanbadarn a chyn-Gynghorydd Sir, a fu farw'n ddiweddar.

**4 EITEM EITHRIEDIG**

Nid yw'r adroddiad sy'n ymwneud ag eitem 5 ar yr agenda, Atodiad B, i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 ac 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor, ar ôl cymhwyso'r Prawf Budd y Cyhoedd, yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, bydd y cyhoedd a'r wasg yn cael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.

Gofynnwyd i'r Aelodau, wrth ymdrin â'r eitem, ystyried a ddylid gwahardd y cyhoedd a phwyso o'r Cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd a'r wasg yn ystod ar ystyriaeth o eitem 5 isod ar y sail bod y cais yn cynnwys gwybodaeth bersonol na ddylid, ar sail ystyriaeth, ei datgelu i'r cyhoedd a'r wasg. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r gweddarlledu yn cael ei atal yn ystod eitem 5 isod.

5 **Swydd Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyswllt Cwsmeriaid a TGCh**

Derbyniodd y Cyngor gyflwyniad ac ymateb i gwestiynau a osodwyd i'r ymgeiswyr ar y rhestr fer i benodi i swydd wag y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid a TGCh. Cafwyd adborth hefyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Llunio Rhestr Fer, yr Aelod Cabinet Portffolio, Cynghorydd Catrin M.S. Davies ynghyd ag aelodau eraill o'r Pwyllgor.

Rhoddodd y Prif Weithredwr hefyd sicrwydd bod gan yr ymgeisydd y cymwysterau a'r profiad gofynnol i ymgymryd â rôl y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid a TGCh.

Yn dilyn pleidlais PENDERFYNWYD cynnig y swydd i Mr Alan Morris.

Ystyriwyd y cyflog a fyddai'n cael ei gynnig. Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cynnig y swydd ar y pwynt cynyddrannol cyntaf ar raddfa gyflog A1 y Swyddog Arweiniol Corfforaethol.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cynnig y swydd ar gyflog o £75,165, y pwynt cynyddrannol cyntaf ar raddfa gyflog A1 y Swyddog Arweiniol Corfforaethol (graddfeydd 2023/24) i gychwyn ar 1 Ebrill 2023.

Derbyniodd Mr Alan Morris, ar ôl cael cynnig y swydd, y swydd ar gyflog o £75,165 sydd ar bwynt cynyddrannol cyntaf y Swyddog Arweiniol Corfforaethol graddfa gyflog A1, a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023.

Yna gwahoddwyd y cyhoedd a'r wasg i ddod i mewn i'r cyfarfod.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Mr Alan Morris wedi cael cynnig a derbyn y swydd gan ddechrau ar y pwynt cynyddrannol cyntaf Swyddog Arweiniol Corfforaethol graddfa gyflog A1, i ddechrau ar 1 Ebrill 2023.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 20 Ebrill 2023**

**CADEIRYDD: ______________**

From: Elizabeth Evans Elizabeth.Evans@ceredigion.gov.uk
Subject: Motion to Council
Date: 6 Mar 2023 at 11:12:45
To: Meirion Davies Meirion.Davies@ceredigion.gov.uk, Paul Hinge Paul.Hinge@ceredigion.gov.uk
Cc: [redacted] Elizabeth Evans Elizabeth.Evans@ceredigion.gov.uk

**Rhybudd o Gynnig i'r Cyngor**

O ystyried yr argyfwng sy'n wynebu'r rhwydwaith bysiau gwledig yng Ngheredigion a Chymru wledig, mae Cyngor Ceredigion yn annog Llywodraeth Cymru i sefydlu tasglu trafnidiaeth wledig er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn ar frys.

Rydym yn cydnabod nad yw trigolion ac ymwelwyr wedi dychwelyd i drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl Covid, yn y niferoedd y byddem yn ei ddisgwyl. Fodd bynnag, o ganlyniad i dynnu llawer o lwybrau bysiau gwledig yn ôl oherwydd fforddiadwyedd, mae ein cymunedau'n cael eu hynysu'n gynyddol rhag cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus a chymdeithasu gyda ffrindiau a theulu.

Mae tynnu llawer o lwybrau bysiau gwledig yn gwaethygu tlodi gwledig lle mae'r effaith i'w deimlo fwyaf mawr. Mae gan oedolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys pobl hŷn, a'r rhai sydd heb drafnidiaeth yr hawl i gael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn eu cymunedau.

Mae Cyngor Ceredigion yn cefnogi ffocws Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Eto, drwy ofyn i drigolion symud o geir i drafnidiaeth gyhoeddus, mae angen buddsoddi a'r cymhorthdal cysylltiedig ar gyfer isadeiledd trafnidiaeth wledig.

Rhaid i drafnidiaeth wledig gael ei drin yn gyfartal â'n trefi a'n dinasoedd mwy os ydym am fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd o ddifrif, ac atal cymunedau gwledig rhag cael eu hynysu ymhellach.

Felly, mae'r Cyngor yn nodi:

1. Bod Cyngor Ceredigion yn gofyn i Lywodraeth Cymru gydnabod bod angen buddsoddi mewn trafnidiaeth mewn cymunedau gwledig, a'i sybsideidddio yn unol â hynny.
2. Bod trafnidiaeth gyhoeddus mewn cymunedau gwledig fel y rhai yng Ngheredigion, sydd wedi cael eu heffeithio'n andwyol gan danariannu trafnidiaeth gyhoeddus gan Lywodraeth Cymru, yn gofyn am gydraddoldeb mynediad tebyg i gymunedau mwy.
3. Bpd tasglu trafnidiaeth wledig yn cael ei sefyldu ar unwaith gan Lywodraeth Cymru ac ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol fel Cyngor Ceredigion, i fynd i'r afael â mater trafnidiaeth wledig.

Cynigydd: Cynghorydd Meirion Davies

Eilydd: Cynghorydd Paul Hinge

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 6

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **20 Ebrill 2023** |
| **Teitl:** | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2022-23 a Chod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2023-24** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2022-23 a Chod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2023-24**<br><br>**Er Penderfyniad** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd** |

**Cefndir:**

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal adolygiad o effeithiolrwydd eu fframwaith llywodraethu o leiaf bob blwyddyn, gan gynnwys eu systemau rheoli mewnol. Rhaid cofnodi'r adolygiad hwn mewn Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'i gyhoeddi fel rhan o Gyfrifon Blynyddol y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am fonitro'r trefniadau llywodraethu ar ran y Cyngor.

Rhaid paratoi'r Datganiad yn unol ag arferion priodol, gan gynnwys y rhai a nodir yn un o fframweithiau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Ffederasiwn Rhyngwladol y Cyfrifyddion (IFAC) sef '*Delivering Good Governance in Local Government'* (2016). Mae'r Fframwaith, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2016, wedi'i seilio ar Fframwaith Rhyngwladol CIPFA/IFAC sef yr *International Framework: Good Governance in the Public Sector*.

Mae fframwaith CIPFA/SOLACE *'Delivering Good Governance in Local Government'* (2016) yn nodi saith egwyddor o lywodraethu a fydd yn galluogi sefydliadau, partneriaethau'r sector cyhoeddus ac awdurdodau cyfunol i gyflawni eu deilliannau wrth weithio er budd y cyhoedd. Cefnogir yr egwyddorion ymhellach gan egwyddorion craidd o ran ymddygiad sy'n dangos yr hyn y dylai llywodraethu da fod o safbwynt ymarferol. Yr egwyddorion hyn yw'r sail ar gyfer Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor ac fe'u hystyrir yn nogfen y Fframwaith Llywodraethu.

**Dogfen Fframwaith Llywodraethu 2022-23**

Cynhaliwyd gweithdy ar 28 Tachwedd 2022 ar gyfer Swyddogion perthnasol ac Aelodau'r Pwyllgor i ystyried y cynnydd a wnaed ar y camau a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-2022. Yn ystod y gweithdy hwn cafodd y ddogfen Fframwaith Llywodraethu ei hadolygu i ystyried unrhyw dystiolaeth ddiweddar y

gellid ei chynnwys yn y ddogfen ac i gnoi cil dros y camau gweithredu a nodwyd yn flaenorol.

Lluniwyd Dogfen Fframwaith Llywodraethu 2022-23 (**Atodiad 1**) yn sgil y gweithdy hwn a chyfraniadau gan amrywiol swyddogion cyfrifol a nodir yn y ddogfen.

Mae gwaith sgorio'r adolygiad terfynol - a wnaed yn ystod y gweithdy - wedi'i gynnwys **(gweler Atodiad 1)**. I grynhoi, cafodd cyfanswm o 94 o ymddygiadau eu hadolygu. Mae cyfanswm o 90 o ymddygiadau bellach yn cael sgôr o 9/10 ac mae pedwar yn cael sgôr o 7/8.

Cyflwynwyd y Ddogfen Fframwaith Llywodraethu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Ionawr 2023. Cyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig o'r ddogfen hon i'r pwyllgor ar 9 Mawrth 2023.

**Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2022-23 (**Atodiad 2**) wedi'i baratoi yn unol â'r fframwaith. Mae'n cynnwys y canlynol:

- Cydnabyddiaeth o'r cyfrifoldeb dros sicrhau llywodraethu da
- Cyfeiriad at yr asesiad
- Barn ar lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei ddarparu
- Adroddiad cynnydd ynghylch sut y mae'r problemau a nodwyd y llynedd wedi'u datrys
- Cynllun gweithredu a gytunwyd yn ei gylch ar gyfer ymdrin â materion llywodraethu yn ystod y flwyddyn nesaf
- Casgliad.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 9 Mawrth 2023 cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2022-23 yn amodol ar sicrhau bod y frawddeg yn y casgliad sy'n nodi bod "yr adolygiad wedi cadarnhau bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn effeithiol ac yn addas at y diben" hefyd yn cael ei chynnwys yn y crynodeb gweithredol ar ddechrau'r ddogfen. Mae'r newid hwn wedi'i wneud ac mae wedi'i gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Drafft 2022-23 sydd i'w weld yn **Atodiad 2**.

**Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2023-24**

Cafodd Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2022-23 ei adolygu a'i newid i greu Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol drafft 2023-24 (**Atodiad 3**). Mae'r Cod wedi cael ei ddiweddaru i egluro'n fwy sut mae'r saith egwyddor ar gyfer llywodraethu da, a nodir gan CIPFA/SOLACE yn '*Delivering Good Governance in Local Government'* (argraffiad 2016), yn cael eu cynnwys gan y Cyngor yn ei God Llywodraethu Corfforaethol Lleol ei hun. Mae'r tabl sy'n nodi'r Cod a'r camau a gymerwyd i gwrdd â'r gofynion wedi'i ddiwygio hefyd i'w gwneud hi'n haws i'w ddarllen.

Gwnaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio argymell yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr 2023 y dylai'r Cyngor gymeradwyo Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2023-24 (**Atodiad 3**).

| | |
|---|---|
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nac oes, esboniwch pam?** Nac oes<br>***Crynodeb:*** Nid yw'r adroddiad hwn yn ymwneud â newid mewn polisi neu strategaeth<br>**Hirdymor:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:**<br>**Integreiddio:** |
| **Argymhellion:** | Bod y Cyngor yn penderfynu gwneud y canlynol:<br>1. Nodi cynnwys Dogfen Fframwaith Llywodraethu 2022-23 (**Atodiad 1**)<br>2. Cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2022-23 (**Atodiad 2**)<br>3. Cymeradwyo Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2023-24 (**Atodiad 3**) |
| **Rhesymau dros y penderfyniad:** | Er mwyn symud ymlaen i gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23 yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17/1/2023 a 9/3/2023 |
| **Fframwaith Polisi:** | Ddim yn berthnasol |
| **Amcanion Llesiant Corfforaethol:** | Mae Llywodraethu Corfforaethol effeithiol yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni'r holl Amcanion Llesiant Corfforaethol:<br>1. Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth<br>2. Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach<br>3. Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu<br>4. Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd |
| **Y goblygiadau o ran cyllid a chaffael:** | Os na fydd y dogfennau hyn yn cael eu cymeradwyo, ni fyddwn yn cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio. |
| **Y goblygiadau cyfreithiol:** | Os na fydd y dogfennau hyn yn cael eu cymeradwyo, ni fyddwn yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth/rheoliadau. |
| **Y goblygiadau o ran staff:** | Dim |
| **Y goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:** | Dim |

| | |
|---|---|
| **Risgiau:** | Dim |
| **Pwerau Statudol:** | Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| **Papurau Cefndir:** | Yr adroddiad a aeth gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17/1/2023: https://council.ceredigion.gov.uk/documents/s4372/Item%2011%20REVISED%20combined%20s.pdf?LLL=0<br>Agenda/Cofnodion: https://council.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=147&MId=391&Ver=4&LLL=0<br><br>Yr adroddiad a aeth gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 9/3/2023: https://council.ceredigion.gov.uk/documents/s4628/Item%2012%20Governance%20Framework%20combined%20s.pdf?LLL=0<br>Agenda/Cofnodion: https://council.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=147&MId=329&Ver=4&LLL=0 |
| **Atodiadau:** | **Atodiad 1 –** Dogfen Fframwaith Llywodraethu 2022-23<br>**Atodiad 2 –** Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2022-23<br>**Atodiad 3 -** Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2023-24 |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu (a’r Swyddog Monitro) |
| **Swyddog Adrodd:** | Harry Dimmack, Swyddog Llywodraethu |
| **Dyddiad:** | 30/03/2023 |

CYNGOR SIR CEREDIGION



# Adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu 2022-2023

| **A. Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae sefydliadau llywodraeth leol yn atebol nid yn unig am y swm y maent yn ei wario, ond hefyd am y ffordd y maent yn defnyddio'r adnoddau y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am allbynnau cadarnhaol a negyddol, ac am y canlyniadau a gyflawnwyd ganddynt. Yn ogystal, maent yn ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol dros wasanaethu budd y cyhoedd drwy lynu wrth ofynion deddfwriaeth a pholisïau'r llywodraeth. Mae'n hanfodol y gall pob sefydliad ddangos, yn ei gyfanrwydd, pa mor briodol yw ei holl weithredoedd a bod systemau ar waith i annog a gorfodi ymlyniad wrth werthoedd moesegol a pharch at reolaeth y gyfraith. | | | | | | |
| **Is-egwyddorion** | Ymddygiad | Tystiolaeth | Yn ddisgwyliedig | ✓/X | Sgôr | Gweithred |
| **A1 Ymddwyn ag uniondeb** | Elin Prysor / Lowri Edwards/Duncan Hall/Alex Jenkins<br>A1.1 Sicrhau bod yr Aelodau a'r Swyddogion yn ymddwyn ag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle maent yn gweithredu'n amlwg ac yn gyson er budd y cyhoedd, gan warchod enw da'r sefydliad drwy wneud hynny | • Cod Ymddygiad yr Aelodau (diweddarwyd yn 2016) ac ar gael ar wefan y Cyngor, ar y fewnrwyd (CeriNet) o dan Adnoddau Cynghorwyr, ac yn y Cyfansoddiad.<br>• Siart lif Cod Ymddygiad yr Aelodau (diweddarwyd yn 2016).<br>• Cod Ymddygiad y Swyddogion * (diweddariad wedi'i gwblhau ac yn aros i'w gymeradwyo ar hyn o bryd) ar gael, ynghyd â'r holl bolisïau a strategaethau corfforaethol, ar wefan y Cyngor/CeriNet.<br>• Cadarnhad unigol o ran cydymffurfiaeth.<br>• Darperir hyfforddiant cynefino a hyfforddiant dilynol ar y Cod Ymddygiad a moeseg i'r holl Aelodau. Rhaglen Gynefino gynhwysfawr ar gyfer Aelodau wedi'i chwblhau yn dilyn Etholiadau Lleol 2022 ac roedd yr hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn orfodol.<br>• Darparwyd hyfforddiant Moeseg/Twyll ar y cyd ag yswiriwr y Cyngor yn ystod gweithdy chwarterol y Rheolwyr Corfforaethol ar 28.5.2021. Mae sleidiau o'r cyflwyniad yn ffurfio sylfaen modiwl e-ddysgu ar gyfer yr holl Staff a'r Archwilwyr Mewnol ('IA') a'r Gwasanaethau Llywodraethu sy'n gweithio gyda'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu i baratoi sefyllfaoedd ar gyfer hyfforddiant. Cefnogir yr hyfforddiant gan adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar o Strategaeth y Cyngor ynghylch Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian).<br>• Mae Archwiliad Mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch Moeseg yn mynd rhagddo hefyd (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd).<br>• Darparir cyngor o ddydd i ddydd gan y Swyddog Monitro ('MO') a'r Swyddog Cymorth Craffu.<br>• Polisi Disgyblu (Tachwedd 2017).<br>• Adolygiad Datblygiad Personol.<br>• Mae Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau ar gael gan Wasanaethau Democrataidd y Cyngor. Fe'i hadolygir gan y Swyddog Monitro.<br>• Ceir ffurflenni datgan buddiannau a lletygarwch ar gyfer Swyddogion ac Aelodau ar CeriNet.<br>• Mae MO yn anfon negeseuon atgoffa a chyngor rheolaidd i'r staff drwy e-ddiweddariadau newyddion mewnol.<br>• Mae MO yn monitro ac yn adolygu datganiadau'r Prif Swyddogion bob blwyddyn. | Codau Ymddygiad | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.<br><br>Bydd y MO yn parhau i gynghori'r Aelodau ynglŷn â'r angen i ddatgan lletygarwch / rhoddion.<br>Bydd MO yn cynghori'r Prif Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan:<br>• cysylltiadau personol agos â Swyddogion eraill neu Aelodau.<br><br>Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion<br><br>Bydd MO a Swyddog Corfforaethol Arweiniol y Gwasanaethau Democrataidd yn parhau i gynnal adolygiad o'r Aelodau sy'n dal swyddi cyfarwyddwr, swyddi ymddiriedolwr neu aelodaeth pan gânt eu penodi i gyrff allanol, ac i bwyllgorau. Bydd MO yn ystyried adborth gan yr Aelodau a gwerth ychwanegol, a bydd yn parhau i ddiweddaru Cod Ymddygiad yr Aelodau a'r Swyddogion.<br><br>Diweddaru ffurflen Goddefeb i Aelodau |
| | | | Llofnod Unigol i gadarnhau cydymffurfio â'r cod | ✓ | | |
| | | | Cynefino ar gyfer Aelodau a Staff newydd ynghylch safon yr ymddygiad a ddisgwylir | ✓ | | |
| | | | Arfarnu perfformiad a adwaenir fel arall yn Adolygiadau Datblygiad Personol | ✓ | | |
| | | | Ffurflenni Datgelu'r Swyddogion | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Rhoddodd MO wybod i'r Prif Swyddogion fod angen iddynt ddatgan cysylltiadau personol agos â Swyddogion eraill neu Aelodau (gweler e-ddiweddariad newyddion MO ar 20.7.2021 ar CeriNet), gan gynnwys rhoi gwybod i'r Prif Swyddogion yng nghyfarfodydd y Grŵp Arweiniol.<br>• Y broses datganiad o fuddiannau i'w hymestyn i gynnwys gofyniad ynghylch partïon cysylltiedig: bod swyddogion ac Aelodau yn datgan os oes perthynas agos rhyngddynt â swyddogion eraill, Aelodau neu athrawon. Datganiad/manylion penodol yn ofynnol os yw hyn yn cynnwys /ddim yn cynnwys Prif Swyddog (a nodi'r berthynas).<br>• Y broses datganiad o fuddiannau i'w hymestyn i gynnwys y gofyniad bod Aelodau yn datgan swyddi Cyfarwyddwyr – enw a rhif y cwmni, am dâl (neu beidio), budd preifat neu benodiad yn y Cyngor. MO i atgoffa'r Aelodau o'r angen i ddatgan yn fanwl gywir yr holl swyddi Cyfarwyddwyr (gan gynnwys cwmnïau segur).<br>• Y broses datganiad o fuddiannau i'w hymestyn i gynnwys y gofyniad bod Aelodau yn nodi rôl benodol o fewn yr aelodaeth – sylwedydd, aelod, gwirfoddolwr, aelod o'r Pwyllgor, aelod o'r Bwrdd neu Ymddiriedolwr.<br>• Y broses datganiad o fuddiannau i'w hymestyn i gynnwys y gofyniad i ddatgan os yw ef/hi neu aelod agos o'r teulu neu unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n gweithredu ar ei ran, ar Fwrdd, pwyllgor rheoli neu grŵp rheoli arall sefydliad y mae'r Cyngor yn cael trafodion arwyddocaol â nhw.<br>• The Code of Conduct for Officers has been substantially reviewed and will be updated soon<br>• Mae'r Cod Ymddygiad i Swyddogion wedi cael ei adolygu'n sylweddol a chaiff ei ddiweddaru cyn bo hir.<br>• Cyngor wedi'i ddiweddaru am Ddatganiadau a Chofrestru Buddiannau Cyflogeion y Cyngor (cyhoeddwyd diweddariadau e-bost yn cynnig newyddion ar 16.12.2021 ac 20.7.2021 gan gynnwys ynghylch Grantiau i fusnesau NDR Cronfa Busnes Cyfyngiadau Covid-19 (cyhoeddwyd diweddariad Newyddion ar 8.1.2021).<br>• Mae arfer MO o hysbysu Swyddogion ynghylch datgelu buddiannau yn parhau. Ceir nodiadau atgoffa rheolaidd trwy gyfrwng Diweddariadau Newyddion ar system CeriNet ac yn y Grŵp Arweiniol. Cyhoeddwyd diweddariad am Ddatganiadau Budd a Lletygarwch Cyflogeion y Cyngor ar 3 Mawrth 2022, 28 Mehefin 2022 a 5 Hydref 2022 ar ar Wefan CeriNet y Cyngor, gan gynnwys dolenni i'r ffurflenni perthnasol a'r Cod Ymddygiad i Gyflogeion Llywodraeth Leol, ynghyd â nodyn atgoffa y dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu geisiadau am gyngor i MO. Hysbysir Prif Swyddogion trwy ddiweddariad newyddion system CeriNet o neges e-bost MO ynghylch datgelu budd a Lletygarwch ac anfonwyd nodyn i atgoffa'r Prif Swyddogion. | | | | Oedwyd arfarniadau oherwydd Pandemig Covid-19 ond maent bellach wedi ailgychwyn (fe'u cynhaliwyd ym mis Mai 2021 ac maent yn cael eu cynnal dan drefniant rhith o hyd).<br><br>Caiff Cod Ymddygiad diwygiedig i Swyddogion ei gyhoeddi ar ôl iddo gael ei ddiweddaru a'i gymeradwyo.<br><br>Swyddogion i gwblhau modiwl e-hyfforddiant Moeseg/Twyll Gorfodol ar ôl iddo gael ei gwblhau a'i gymeradwyo. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Prif Swyddogion wedi’u hysbysu trwy ddiweddariad newyddion system CeriNet am ebost MO ynghylch datgan buddiannau a Lletygarwch a nodyn atgoffa wedi’i anfon at y Prif Swyddogion.<br>• Cynhelir adolygiad ar hyn o bryd o’r cyrff allanol sydd wedi penodi Aelodau, gan gynnwys gwerth ychwanegol, a hefyd, diweddaru’r Cyfansoddiad.<br>• MO i wneud ymholiadau gydag ysgrifenyddion cwmni fel y bo angen i bennu sail buddiannau Aelodau o fewn sefydliadau neu gwmnïau elusennol, a’r sail resymegol. Ceisio diwygio’r Erthyglau Cymdeithasu hefyd neu ymddiswyddo o swyddi Cyfarwyddwyr y Cyngor os oes angen.<br>• Datgelu budd gan Aelodau a Swyddogion mewn cyfarfodydd, ceir cyfle i wneud cyfeiriad at unrhyw rolau/cysylltiadau personol agos ac ati.<br>• Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion.<br>• Cwblhawyd ffurflenni Goddefeb wedi’u diweddaru ar gyfer Aelodau.<br>• Mae gofyn i aelodau ddiweddaru’r Gofrestr Buddiannau yn unol â’r Cod Ymddygiad, ac yn ogystal, bob blwyddyn, sy’n gyfle i gyfeirio at unrhyw rolau/cysylltiadau personol agos ac ati. Bellach, mae hyn yn cynnwys aelodau lleyg/annibynnol o’r Pwyllgor Moeseg a Safonau a’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Cyhoeddir llyfryn Cofrestr Buddiannau ar gyfer pob Aelod ar Wefan y Cyngor.<br>• Anfonir cyngor rheolaidd rhagweithiol a nodiadau atgoffa i Aelodau a Swyddogion yn ôl y gofyn.<br>• MO i gynghori Swyddogion ymhellach o’r angen i ddatgelu buddiannau mewn sefydliadau sy’n mynd yn groes i fuddiannau’r Cyngor, neu y gallent fynd yn groes iddynt, gan gynnwys:<br>    ○ Contractwyr;<br>    ○ Llywodraethwyr Ysgol;<br>    ○ Clercod Cynghorau Tref a Chymuned;<br>    ○ Aelodau cynghorau Tref a Chymuned; a<br>    ○ Llywodraethwyr Ysgol.<br>• MO i gynghori Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan:<br>    ○ Swyddi Cyfarwyddwr; a<br>    ○ Chyflogaeth arall<br>Gan gynnwys a yw’n gwrthdaro gyda buddiannau’r Cyngor neu beidio.<br>• Diweddarwyd ffurflenni goddefebau i Aelodau (2020).<br>• Rhaid i Swyddogion Cymwys Proffesiynol ac Athrawon fodloni gofynion eu sefydliad/corff proffesiynol.<br>• Mae aelodau yn cwblhau modiwl hyfforddiant AD.<br>• Rhoddir hyfforddiant am safonau ymddygiad i Reolwyr a Staff.<br>• Mae MO yn dosbarthu i arweinwyr grwpiau gwleidyddol ddiweddariadau/penderfyniadau gan Banel Dyfarnu Cymru, a’i rôl ef yw penderfynu ynghylch achosion honedig o dorri | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | amodau gan aelodau etholedig a chyfetholedig yn erbyn cod ymddygiad statudol eu hawdurdod.<br>• MO yn cwrdd ag arweinwyr grwpiau gwleidyddol bob chwarter i ystyried eu dyletswyddau newydd i gynnal safonau ymddygiad yr Aelodau yn eu grŵp.<br>• Arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn ymgysylltu â'r Pwyllgor Moeseg a Safonau fel y bo angen yn unol â'u dyletswyddau newydd.<br>• Arweinwyr grwpiau gwleidyddol i gwblhau templed yn amlinellu'r camau gweithredu a gyflawnwyd i dystio eu bod wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau newydd.<br>• Gweithdrefn Datrys yn Lleol ar gyfer Aelodau: Aelod heb fod mewn grŵp/heb ymlyniad yn cael cyngor/cymorth gan Gadeirydd/Is-gadeirydd y Cyngor.<br>• Mae gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau ddyletswyddau newydd (o fis Mai 2022) dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021'), a fydd yn cynnwys:<br>• Monitro cydymffurfiaeth gan arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor gyda'u dyletswyddau dan A.52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000;<br>• Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor am faterion sy'n ymwneud â'u dyletswyddau dan A.52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000.<br>• Mae'r ddyletswydd i fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn ymwneud â safonau ymddygiad, a sicrhau bod hyn yn weladwy ac yn cael ei ddangos yn gyson a gyda thystiolaeth er mwyn diogelu enw da y Cyngor.<br>• Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Rheoli Datblygu (y Pwyllgor Rheolaeth Datblygu gynt) wedi cael ei ddiwygio.<br>• Mae'r ddogfen Gweithdrefnau Gweithredol ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi cael ei diwygio.<br>• Mae'r Cynllun Dirprwyaethau yn cynnwys meini prawf ar gyfer ceisiadau, y mae'n rhaid eu cyfeirio i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, a'r ceisiadau hynny y gellir eu dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol.<br>• Mae Protocol ar gyfer Ymarfer Da i Gynghorwyr yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi cael ei gynhyrchu a'i gynnwys yn y Cyfansoddiad. | | | | |
| | Elin Prysor<br>A1.2 Sicrhau bod yr Aelodau'n arwain y blaen o ran sefydlu egwyddorion neu werthoedd gweithredol safonol penodol ar gyfer y | • Ceir perthynas waith dda â Llywodraeth Cymru, fel un o'r prif reoleiddwyr. Ceir deialog reolaidd â chynrychiolwyr Archwilio Cymru.<br>• Adolygwyd a chymeradwywyd gweledigaeth y Cyngor gan y Cabinet, ac mae'r weledigaeth yn pennu nifer o Amcanion Strategol hirdymor. | Mae'r safonau yn adlewyrchu Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus Llywodraeth Cymru | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Sefydliad a'i Staff, a'u bod yn cael eu mynegi a'u deall. Dylai'r rhain adeiladu ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (egwyddorion Nolan). | • Mae Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 yn cynnwys Amcanion Llesiant a Gwella ac yn amlinellu blaenoriaethau ac amcanion lefel uchel y Cyngor gyda chamau gweithredu ategol yn flynyddol. Ystyriodd y Cyngor y fersiwn drafft o’r Hunanasesiad ac Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ac Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant 2021-22 ar 15.12.22.<br>• Cod Ymddygiad yr Aelodau (2016).<br>• Mae Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau ar gael gan Wasanaethau Democrataidd y Cyngor. Fe’i hadolygir gan MO.<br>• Mae'r Aelodau a'r Swyddogion yn datgan buddiannau mewn cyfarfodydd.<br>• Mae’r Prif Swyddogion yn datgan buddiannau bob blwyddyn ac yn ysgwyddo rhwymedigaethau parhaus i ddatgan buddiannau.<br>• Mae’r Aelodau yn diweddaru eu Cofrestr Buddiannau bob blwyddyn ac yn ysgwyddo rhwymedigaethau parhaus i ddatgan buddiannau (gan gynnwys aelodau lleyg/annibynnol y Pwyllgor Moeseg a Safonau a’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu).<br>• Ceir deialog reolaidd ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (‘PSOW’) a rheoleiddwyr eraill gan gynnwys Estyn, AGC, ICO ac IPCO.<br>• Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Rheoli Datblygu (y Pwyllgor Rheolaeth Datblygu gynt) wedi cael ei ddiwygio.<br>• Mae’r ddogfen Gweithdrefnau Gweithredol ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi cael ei diwygio.<br>• Mae’r Cynllun Dirprwyaethau yn cynnwys meini prawf ar gyfer ceisiadau, y mae’n rhaid eu cyfeirio i’r Pwyllgor Rheoli Datblygu, a’r ceisiadau hynny y gellir eu dirprwyo i’r Swyddog Arweiniol Corfforaethol.<br>• Mae Protocol ar gyfer Ymarfer Da i Gynghorwyr yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi cael ei gynhyrchu a’i gynnwys yn y Cyfansoddiad. | Cyfathrebu gwerthoedd a rennir â’r Aelodau, Staff, y gymuned a phartneriaid | ✓ | | |
| | Elin Prysor / Lowri Edwards<br>A1.3 Arwain drwy esiampl a defnyddio'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredol safonol hyn fel fframwaith ar gyfer y broses benderfynu a gweithredoedd eraill | • Mae cofnodion pob pwyllgor yn cynnwys eitem lle y mae gofyn i’r Aelodau a’r Swyddogion ddatgan buddiannau.<br>• Mae'r Cyfansoddiad yn destun adolygiadau cynhwysfawr, ac yn cael ei ddiweddaru yn ôl y gofyn, gan gynnwys newidiadau arfaethedig i’r Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad, i wneud argymhellion am newidiadau i’r Cyfansoddiad i’r Cyngor. Mae diwygiad pellach yn mynd rhagddo, gan bod y Cyfansoddiad yn ddogfen fyw, er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac yn unol â’r angen. Cymeradwyodd y Cyngor y diwygiadau ar 3.3.22, 8.7.22 a 20.10.22. | Gwerthoedd arweinyddiaeth a osodir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu dilyn. | ✓ | 9/10 | Tybir bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn cydymffurfio ac yn bodloni arferion da. Nid oes angen camau pellach.<br><br>Bydd y Grŵp Arweiniol yn cael ei ddiweddaru am e-ddysgu wrth i’r gwasanaeth Adnoddau Dynol roi adroddiadau i’r Grŵp Arweiniol. |
| | | | Arferion gwneud penderfyniadau | ✓ | | |
| | | | Datganiadau o fuddiannau yn cael eu gwneud mewn cyfarfodydd | ✓ | | |
| | | | Ymddygiad mewn cyfarfodydd | ✓ | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Cafodd ymarfer cymharu ei gynnal o'r Cyfansoddiad Cyfredol yn erbyn y Cyfansoddiad Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan CLILC gan wneud newidiadau lle y bo angen i sicrhau bod cyfansoddiad y Cyngor yn parhau'n gyfredol.<br>• Mae Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad, sy'n cynnwys Cydbwysedd Gwleidyddol, yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried cynigion ynghylch diweddariadau i'r Cyfansoddiad. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar 20.6.22 and 12.9.22.<br>• Mae MO/Swyddog Llywodraethu yn adrodd i'r Cyngor er mwyn diweddaru dirprwyaethau a'r Cyfansoddiad.<br>• Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu'r camau gweithredu a fydd yn gwella'r Gwasanaeth Cynllunio, gan gynnwys gwneud penderfyniadau.<br>• Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Rheoli Datblygu (y Pwyllgor Rheolaeth Datblygu gynt) wedi cael ei ddiwygio er mwyn datgan yn eglur ei bwrpas, ei rôl a'i gyfrifoldebau, a sut y mae'n cysylltu â'r Blaenoriaethau Corfforaethol.<br>• Mae'r ddogfen Gweithdrefnau Gweithredol ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi cael ei diwygio. Mae'r Gweithdrefnau Gweithredol yn diffinio'r ceisiadau sy'n bwysig yn strategol a'r ceisiadau cynllunio 'mawr'.<br>• Mae'r ddogfen Gweithdrefnau Gweithredol yn rhoi sylw i'r trefniadau mewn perthynas ag aelodau wardiau lleol yn annerch y Pwyllgor.<br>• Mae Protocol ar gyfer Ymarfer Da i Gynghorwyr yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi cael ei gynhyrchu a'i gynnwys yn y Cyfansoddiad.<br>• Mae Cynllun Dirprwyaethau y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi cael ei ddiwygio er mwyn iddo ganolbwyntio'n well ar geisiadau sy'n fwy pwysig yn strategol a cheisiadau mawr.<br>• Mae'r Cynllun Dirprwyaethau yn cynnwys meini prawf ar gyfer ceisiadau, y mae'n rhaid eu cyfeirio i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, a'r ceisiadau hynny y gellir eu dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol.<br>• Mae grŵp 'cyfnod callio' wedi cael ei sefydlu o fewn Gweithdrefnau Gweithredol y Pwyllgor Rheoli Datblygu er mwyn adolygu ceisiadau cynllunio a allai, os cânt eu cymeradwyo, wyro'n sylweddol o'r polisi.<br>• Datganiadau Budd blynyddol y Prif Swyddog.<br>• Mae'r Strategaeth Gorfforaethol (2022-2027) yn cynnwys blaenoriaethau'r Cyngor.<br>• Mae'r Amcanion Llesiant a Gwella yn datblygu'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 ac fe'u hadolygir bob blwyddyn. Datblygir y rhain trwy ymgynghori gyda'r cyhoedd ac Aelodau. Ystyriodd y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21 drafft, gan gymeradwyo'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor. | Gwerthoedd cyffredin yn arwain y broses gwneud penderfyniadau | ✓ | | |
| | | | Datblygu a chynnal pwyllgor safonau effeithiol | ✓ | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Rhaid i’r holl Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol, a gyflwynwyd ym mis Medi 2017, ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 (‘WFGA’) (rhwng mis Medi 2017 a mis Tachwedd 2021, fe’i cwblhawyd gan 2,834 o gyflogeion, yr oedd 343 wedi ei gwblhau yn Gymraeg a 2,491 yn Saesneg). Rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2021, roedd 242 o gyflogeion wedi cwblhau’r modiwl, 40 yn Gymraeg, 202 yn Saesneg (* mae’r ffigurau hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael). Anfonwyd nodiadau atgoffa i’r Staff nad ydynt wedi cwblhau’r modiwl eto ac mae Grwpiau Arweiniol yn cael adroddiadau o bryd i’w gilydd.<br>• Ystyriwyd materion ynghylch safonau ac ymddygiad aelodau gan Bwyllgor Moeseg a Safonau y Cyngor. Cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus yn rheolaidd, ac fe’u cadeirir gan unigolyn annibynnol – pennu goddefebau, ac ystyried materion strategaeth/polisi a chael diweddariadau gan Lyfr Achosion PSOW ac achosion APW.<br>• Prif ddyletswyddau’r Pwyllgor Moeseg a Safonau yw gwella’r safonau o ran ymddygiad yr Aelodau a gweithredu Cod Ymddygiad yr Aelodau.<br>• Hyfforddiant Cod Ymddygiad wedi’i ddarparu i’r holl Aelodau yn dilyn Etholiadau Lleol 2022.<br>• Mae MO yn cynghori'r Pwyllgor a’r Aelodau.<br>• Mae'r Pwyllgor Safonau a Moeseg yn chwarae rhan weithredol o ran hyfforddi Aelodau.<br>• Cynhaliwyd Cynhadledd Safonau 2018 ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys (ar 14 Medi 2018). Y bwriad oedd y byddai Cynghorau Gogledd Cymru yn cynnal cynhadledd debyg yn 2021- fe’i gohiriwyd oherwydd Covid-19.<br>• Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Moeseg a Safonau i’r Cyngor ym mis Hydref 2022.<br>• Mae’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cynnal ymarfer meincnodi bob blwyddyn er mwyn darparu rhagor o sicrwydd ynglŷn ag adolygu proses y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (‘AGS’). Wedi’i gadeirio gan aelod anweithredol adroddodd adolygiad Archwilio Mewnol 2021/22 ar 10.3.22 ac adroddodd diweddariad i roi sylw i’r newidiadau a waned ar 6.6.22.<br>• Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i’r Cyngor ar 23.9.2021 ac fe’i cymeradwywyd.<br>• Strwythur Llywodraethu Covid-19 wedi’i gyflwyno gan y Cyngor, gan gynnwys pwerau dirprwyedig dros dro i Brif Weithredwr a Grŵp Arweiniol y Cyngor trwy ddefnyddio Penderfyniadau Brys ar gyfer penderfyniadau sy’n ymwneud ag ymateb y Cyngor i COVID-19), yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Adolygwyd Penderfyniadau Brys yr Arweinydd yn rheolaidd, a daeth i ben ar 31.8.2021. | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Cyhoeddir Cofnod Penderfyniadau y Grŵp Rheoli Aur ar wefan y Cyngor).<br>• Cyhoeddir Cofnod o'r Penderfyniadau a wneir gan Grŵp Arweiniol Covid-19 ('Grŵp Rheoli Aur') ar Wefan y Cyngor. | | | | |
| | Elin Prysor/Alun Williams<br>A1.4 Arddangos, mynegi ac ymgorffori'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredol safonol priodol drwy bolisïau a phrosesau a adolygir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol | • Diweddarwyd a chymeradwywyd 'Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' effeithiol gan y Cyngor ar 17.6.21(cadarnhawyd y cofnodion ar 23.9.21).<br>• Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ynghylch Atal Twyll i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ddiwedd y flwyddyn. Cyflwynwyd yr adroddiad diwethaf 6.6.22.<br>• Mae Cofrestr o fuddiannau Aelodau ar gael gan Wasanaethau Democrataidd y Cyngor.<br>• Datganiadau budd/lletygarwch ar gyfer Swyddogion, yn ôl y gofyn.<br>• Mae MO yn anfon negeseuon atgoffa ynghylch datgan buddiannau / lletygarwch at y Staff bob chwarter.<br>• Mae NFI yn tynnu sylw at Staff sy'n gyfarwyddwyr cwmnïau sy'n ymdrin â'r Cyngor – os na fydd hyn wedi'i ddatgan, bydd IA yn ymchwilio ac yn rhoi adroddiad i MO.<br>• Diweddarir y datganiadau o fuddiannau'r Prif Swyddogion bob blwyddyn.<br>• Cedwir cofrestr o'r Swyddogion mewn swyddi â chyfyngiadau gwleidyddol, ac mae'r Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol ar gael i'r gweithwyr ar CeriNet.<br>• Darparwyd hyfforddiant Moeseg/Twyll ar y cyd ag yswiriwr y Cyngor yn ystod y gweithdy chwarterol i Reolwyr Corfforaethol ar 28.5.2021. Mae sleidiau o'r cyflwyniad yn sail ar gyfer modiwl e-ddysgu i'r holl Staff, ac mae IA a Gwasanaethau Llywodraethu yn gweithio gyda'r adran Dysgu a Datblygu i baratoi sefyllfaoedd ar gyfer hyfforddiant.<br>• Caiff yr hyfforddiant ei gynorthwyo gan adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar o Strategaeth y Cyngor ynghylch Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian).<br>• Cynhaliwyd Archwiliad Moeseg yn ystod 2019. Mae Archwiliad Mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch Moeseg yn mynd rhagddo hefyd (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd).<br>• Mae Polisi Chwythu'r Chwiban ar gael i Gyflogeion a Chontractwyr (diweddarwyd yn 2018 – yn cael ei adolygu ar hyn o bryd) ar CeriNet a chaiff ei ddiweddaru yn ôl yr angen.<br>• MO yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ('CLO') ac mae'n cynghori'r sawl sy'n chwythu'r chwiban, pan fo hynny'n briodol.<br>• Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol ynghylch Chwythu'r Chwiban. Mae MO yn cadw | Polisïau gwrth-dwyll a llygredd yn gweithio'n effeithiol | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach<br><br>• Caiff Cofrestr o Benderfyniadau Dirprwyedig ei chyhoeddi.<br><br>• Parhau i fonitro'r nifer sy'n gwneud y modiwl e-ddysgu gorfodol ynghylch chwythu'r chwiban. Mae'n is na'r gofyn ar hyn o bryd.<br><br>• Adolygir Polisi Chwythu'r Chwiban. |
| | | | Cofrestr buddiannau wedi'i diweddaru (Aelodau a Staff) | ✓ | | |
| | | | Cofrestr wedi'i diweddaru o roddion a lletygarwch | ✓ | | |
| | | | Polisïau chwythu'r chwiban mewn lle ac yn diogelu unigolion sy'n codi pryderon | ✓ | | |
| | | | Polisi chwythu'r chwiban ar gael i aelodau'r cyhoedd, staff, partneriaid a chontractwyr | ✓ | | |
| | | | Polisi cwynion ac enghreifftiau o ymateb i gwynion am ymddygiad | ✓ | | |
| | | | Newidiadau / gwelliannau o ganlyniad i'r cwynion a dderbyniwyd ac a weithredwyd arnynt | ✓ | | |
| | | | Cod ymddygiad Aelodau a Swyddogion yn cyfeirio at ofyniad i ddatgan buddiannau | ✓ | | |
| | | | Cofnodion yn dangos bod datganiadau o fuddiannau wedi cael eu ceisio a bod datganiadau priodol wedi cael eu gwneud | ✓ | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | cofrestr o gyfeiriadau ac yn adrodd i’r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu bob 6 mis.<br>• Rhoddir sylw i bob cwyn yn unol â’r gweithdrefnau corfforaethol sy’n cynnwys camau ffurfiol ac anffurfiol a chaiff y rhain eu cyfleu i Staff yn rheolaidd.<br>• Caiff y system gwynion ei monitro gan y Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth Corfforaethol.<br>• Polisi Pryderon Corfforaethol a Chwynion diwygiedig wedi’i gyhoeddi 1.10.2021.<br>• Gweithredir gwelliannau o ganlyniad i gwynion/ argymhellion a gafwyd.<br>• Hysbysiad Preifatrwydd Rhyddid Gwybodaeth a Chwynion y Cyngor.<br>• Ystyrir Adroddiad Cwynion Blynyddol gan y Pwyllgor Archwilio a llywodraethu a’r Cabinet cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor, ac fe’i cyflwynwyd i’r Cyngor a’i nodi.<br>• Mae’r Adroddiad Cwynion Blynyddol yn cynnwys Gwersi a Ddysgwyd o’r cwynion a gafwyd.<br>• Mae datgan buddiannau yn eitem ar agendâu a chofnodion y Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r holl bwyllgorau eraill.<br>• Cyhoeddir cofnodion pob Pwyllgor ar Wefan y Cyngor.<br>• Cyhoeddir Hysbysiadau o Benderfyniadau’r Cabinet ar Wefan y Cyngor.<br>• Mae’r gwaith o baratoi ar gyfer cyhoeddi cofrestr penderfyniadau dirprwyedig yn parhau. Cyhoeddir penderfyniadau dirprwyedig y Pwyllgor Rheoli Datblygiad y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar gyfer pob cyfarfod o’r Pwyllgor Rheoli Datblygiad.<br>• Cyhoeddir Cofrestr Contractau ar Wefan y Cyngor.<br>• Newidiadau y mae angen eu gwneud i’r Cyfansoddiad ynghylch y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ôl Deddf 2021 wedi’u cymeradwyo gan y Cyngor 23.9.21, 3.3.22, 8.7.22 a 20.10.22.<br>• Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi cael ei ddiwygio.<br>• Mae’r ddogfen Gweithdrefnau Gweithredol ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi cael ei diwygio.<br>• Mae Protocol ar gyfer Ymarfer Da i Gynghorwyr yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi cael ei gynhyrchu a’i gynnwys yn y Cyfansoddiad.<br>• Bydd penderfyniadau sy’n cael eu gwneud yn groes i gyngor swyddogion ac nad ydynt yn bodloni meini prawf y rhestr wirio sy’n cael ei datblygu ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cael eu hadolygu’n flynyddol fel rhan o’r broses Adroddiad Monitro Blynyddol a’u adrodd i’r gweithdrefnau archwilio mewnol. | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Cyflwynwyd adroddiad am faint y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 21.5.2021, a gytunodd argymell i’r Cyngor y dylai’r Pwyllgor gynnwys 6 Aelod o’r Cyngor Sir a 3 aelod lleyg (9 at ei gilydd). Cyflwynwyd adroddiad am faint y Pwyllgor i’r Cyngor ar 17.6.2021 a chytunodd y Cyngor i’r un cyfansoddiad o ran aelodau o 5.5.2022. | | | | |
| A2 Dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol | Elin Prysor<br>A2.1 Ceisio sefydlu, monitro a chynnal safonau a pherfformiad moesegol y sefydliad | • Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn hyrwyddo cydymffurfiaeth foesegol i sicrhau bod gan y cyhoedd ffydd a hyder bod yr Aelodau a’r Swyddogion yn gweithio yn unol â'r safonau moesegol a moesol uchaf. | Craffu ar y broses o wneud penderfyniadau moesegol | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | | | Hyrwyddo cydymffurfiaeth foesegol ar lefel corff llywodraethu | ✓ | | |
| | Elin Prysor<br>A2.2 Seilio ymddygiad personol ar werthoedd moesegol a sicrhau eu bod yn treiddio i bob agwedd ar ddiwylliant a gweithrediad y sefydliad | • Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi bod yn rhagweithiol, gan arwain sesiynau hyfforddi a rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer y trefniadau goddefebau. Yn ddiweddar, adolygwyd y strwythur i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.<br>• Mae swyddogion, fel Archwilwyr Mewnol, yn llofnodi datganiad blynyddol dan y Cod Moeseg.<br>• Cymeradwywyd y Siarter Archwilio Mewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 19 Ionawr 2022.<br>• Cynhaliodd Cyngor Sir Caerfyrddin archwiliad annibynnol o foeseg o fewn y Cyngor yn ystod 2019. Mae Archwiliad Mewnol dilynol o drefniadau’r Cyngor ynghylch moeseg yn mynd rhagddo (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd).<br>• Dosbarthwyd Holiadur er mwyn dadansoddi’r anghenion o ran hyfforddiant i’r Staff drwy gylchlythyr y Cyngor. Roedd y neges yn gofyn am eu barn am ddiwylliant moesegol y Cyngor a bwriedir llunio modiwl hyfforddi yn sgil yr adborth. | Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth foesegol | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. Mae’r holl gamau gweithredu wedi dechrau ac maent yn parhau. |
| | Geraint Edwards<br>A2.3 Datblygu a chynnal polisïau a gweithdrefnau cadarn sy'n rhoi pwyslais ar werthoedd moesegol y cytunwyd arnynt | • Mae Llawlyfr y Gweithwyr yn cael adolygu’n flynyddol, mae ar gael ar CeriNet, mae'n nodi'r disgwyliadau o ran ymddygiad staff ac yn cynnwys y Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol.<br>• Hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a recriwtio a dethol gan gynnwys cyfleoedd cyfartal yn orfodol i bob un o Reolwyr Cyngor Sir Ceredigion.<br>• Rhaid i bob aelod Staff gwblhau modiwl e-ddysgu ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.<br>• Cymeradwywyd Strategaeth Gaffael 2018-22 gan y Cyngor ar 19 Mehefin 2018.<br>• Mae hyfforddiant caffael hefyd yn cael ei gyflwyno i’r Staff.<br>• Polisïau’r Cyngor ar Recriwtio ac ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Prosesau arfarnu yn ystyried gwerthoedd ac ymddygiad moesegol | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | | | Polisi penodiadau staff | ✓ | | |
| | | | Polisi caffael | ✓ | | |
| | Duncan Hall | • Mae'r Telerau ac Amodau safonol ar gyfer pawb sy'n Cyflenwi | Gwerthoedd Cytunedig ar gyfer | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | A2.4 Sicrhau ei bod yn ofynnol i gyrff allanol sy'n darparu gwasanaethau ar ran y sefydliad weithredu ag uniondeb ac yn unol â'r safonau moesegol uchel a ddisgwylir gan y sefydliad | Nwyddau a gwasanaethau yn cynnwys amodau sy’n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.<br>• Strategaeth Gaffael 2018-2022<br>• Defnyddir meddalwedd mewnol yn ôl-weithredol i chwilio am daliadau a allai fod wedi’u talu ddwywaith.<br>• Mae’r Cyngor wedi llunio Polisi Atal Caethwasiaeth Fodern (a anfonwyd at gontractwyr y Cyngor), Datganiad Blynyddol 2019-2020 ar Atal Caethwasiaeth, a Chod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. | gweithio mewn partneriaeth<br>- Datganiad o foeseg busnes yn cyfleu ymrwymiad i werthoedd moesegol i gyflenwyr allanol<br>- Gwerthoedd moesegol yn cael sylw mewn contractau gyda darparwyr gwasanaeth allanol | | | cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | | | Protocolau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth | ✓ | | |
| A3 Parchu rheolaeth y gyfraith | Elin Prysor<br>A3.1 Sicrhau bod yr Aelodau a'r Staff yn dangos ymrwymiad cadarn i reolaeth y gyfraith, ac yn glynu wrth ddeddfau a rheoliadau perthnasol | • Cyfansoddiad y Cyngor<br>• Caiff pwerau statudol a goblygiadau cyfreithiol eu cynnwys ym mhob adroddiad lle mae angen i'r Cabinet wneud penderfyniad.<br>• Caiff cyngor/goblygiadau cyfreithiol ac ariannol eu cynnwys ym mhob adroddiad priodol y mae angen penderfynu arno.<br>• Mae MO a’r Gwasanaeth Cyfreithiol ar gael i roi cyngor fel y bo'n briodol.<br>• Mae’r gwasanaeth IA ar gael i roi cyngor fel y bo’n briodol.<br>• Mae MO yn mynd i gyfarfodydd y Grŵp Arweiniol / y Cabinet / y Cyngor.<br>• Mae MO yn mynd i lawer o gyfarfodydd cyhoeddus fel mater o drefn, yn ôl y gofyn, os yw ar gael.<br>• Os yw MO yn absennol, mae'r Dirprwy MO yn mynd i gyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor.<br>• Nid yw’r Grŵp Rheoli Aur yn cwrdd mwyach.<br>• Mae Deddf 2021 yn cael effaith ar gyrff corfforaethol, gan gynnwys y Cyngor, ac mae gwaith wedi cael ei wneud ar sicrhau cydymffurfiaeth, gan gynnwys trwy gyfrwng y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad (mae Aelodau o bob grŵp gwleidyddol yn mynychu hwn), adroddiadau i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a’r Cyngor, ac mae cynllun Gweithredu y Cyngor wedi cael ei baratoi a’i ddiweddaru yn rheolaidd, a chynhaliwyd cyfarfodydd gyda CLOs a Swyddogion perthnasol, pan fo hynny’n briodol. | Darpariaethau statudol | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | | | Canllawiau statudol yn cael eu dilyn | ✓ | | |
| | | | Cyfansoddiad | ✓ | | |
| | Elin Prysor / Duncan Hall / Alex Jenkins | • Mae disgrifiadau swydd a manylebau’r person yn diffinio | Disgrifiadau/ manylebion swydd | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | A3.2 Creu'r amodau i sicrhau bod y Swyddogion statudol, deiliaid swyddi allweddol eraill, a'r aelodau yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol. | swyddogaethau a chyfrifoldebau gofynnol swyddi'n glir.<br>• Mae disgrifiadau o rôl yr Aelodau'n nodi eu cyfrifoldebau.<br>• Cydymffurfio â Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol (CIPFA, cyhoeddwyd 13 Ebrill 2016).<br>• Cydymffurfio â Datganiad CIPFA ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus (CIPFA, cyhoeddwyd 9 Ebrill 2019) a’r cyfraniad a gyhoeddwyd yn nogfen gysylltiedig CIPFA, Rhoi Egwyddorion ar Waith (2019)).<br>• Nodir y cylchoedd gorchwyl yn y Cyfansoddiad.<br>• Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.<br>• Rheoliadau Ariannol a Rheolau'r Weithdrefn Ariannol (Dogfen F yn y Cyfansoddiad).<br>• Rheolau Gweithdrefn Contract (Dogfen G yng Nghyfansoddiad y Cyngor).<br>• Codau Ymddygiad (gweler uchod).<br>• Cydymffurfio â chodau penodol e.e. Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (‘PSIAS’, Mawrth 2017)<br>• Rhoi diweddariadau i aelodau'r Pwyllgor Archwilio am dwyll, gan gynnwys adroddiad blynyddol y gwasanaeth IA am atal twyll.<br>• Mae’r Swyddogion Statudol yn atebol i'r Prif Weithredwr (‘CE’) a’r Cyngor.<br>• Cyfarfodydd rheolaidd rhwng CE, Swyddog A.151 ac MO.<br>• Mae gan y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol (‘CMIA’) fynediad rhydd a dilyffethair i Aelodau a Swyddogion ar bob lefel, a’r hawl i gael mynediad yn unol â Chyfansoddiad a Siarter Archwilio Mewnol y Cyngor.<br>• Cyhoeddir y Gofrestr o Fuddiannau’r Aelodau ar Wefan y Cyngor.<br>• Sicrhaodd Deddf 2021 Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2021 ac mae’n gwneud newidiadau i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.<br>• Diweddarwyd Cylch Gorchwyl GAC yn unol â’r Ddeddf newydd. | Cydymffurfiaeth gyda datganiad CIPF ynghylch rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn llywodraeth leol (CIPFA 2016) | ✓ | | cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | | | Cylch gorchwyl | ✓ | | |
| | | | Cefnogaeth pwyllgor | ✓ | | |
| | Elin Prysor / Duncan Hall<br>A3.3 Ceisio gwneud y defnydd gorau o'r holl bwerau er budd dinasyddion, cymunedau a rhanddeiliaid eraill | • Mae'r Prif Swyddogion yn rhoi cymorth a chyngor i'r Aelodau. Mae'n ofynnol cynnwys cyngor/goblygiadau ariannol a chyfreithiol mewn adroddiadau/penderfyniadau a gyhoeddir fel y bo'n briodol. | Cofnod o'r cyngor cyfreithiol a ddarparwyd gan Swyddogion | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | Elin Prysor<br>A3.4 Ymdrin yn effeithiol ag achosion o dorri | • Mae gan MO fynediad uniongyrchol at CE ac mae'n adrodd i'r Cyngor yn gyffredinol ac fel rhan o ddyletswydd statudol.<br>• Mae MO neu gynrychiolydd enwebedig yn mynd i holl gyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor. Mae MO yn gweithredu | Darpariaethau MO a darpariaethau Swyddog A.151 | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | darpariaethau cyfreithiol a rheoleiddiol | polisi drws 'agored' ar gyfer Aelodau sydd am gael cyngor am 'ymddygiad' a 'llywodraethu'.<br>• Mae MO a Swyddog A.151 yn cyfarfod â CE bob mis.<br>• Mae MO a Swyddog A.151 yn aelodau allweddol o’r Grŵp Arweiniol.<br>• Mae'r eitemau a gyflwynir i'r Aelodau benderfynu arnynt yng nghyfarfodydd y Cabinet, y Cyngor a'r Pwyllgorau yn destun cyngor cyfreithiol ac ariannol, a cheir cyfeiriadau at y cyngor ym mhob adroddiad.<br>• Caiff pwerau statudol a goblygiadau cyfreithiol eu cynnwys ym mhob adroddiad lle mae angen i'r Cabinet wneud penderfyniad.<br>• Caiff cyngor/goblygiadau cyfreithiol ac ariannol eu cynnwys ym mhob adroddiad priodol y mae angen penderfynu arno.<br>• Mae MO a’r Gwasanaeth Cyfreithiol ar gael i roi cyngor cyn cyfarfodydd ac yn ystod cyfarfodydd. | Cofnod o'r cyngor cyfreithiol a ddarparwyd gan Swyddogion | ✓ | | arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | | | Darpariaethau statudol | ✓ | | |
| Mae angen arweinyddiaeth a strwythurau priodol, yn ogystal â phobl sy'n meddu ar sgiliau, cymwysterau a meddylfryd priodol, ar lywodraeth leol i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol ac i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig o fewn y cyfnodau a bennir. Rhaid i sefydliad llywodraeth leol sicrhau bod ganddo'r capasiti i gyflawni ei fandad ei hun ac i wneud yn siŵr bod polisïau ar waith i sicrhau bod gan ei reolwyr gapasiti gweithredol ar gyfer y sefydliad yn ei gyfanrwydd. Bydd yr unigolion a'r amgylchedd y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo yn newid dros gyfnod, felly bydd angen parhaus i ddatblygu ei gapasiti, yn ogystal â'r sgiliau a'r profiad o ran arwain aelodau staff unigol. Caiff arweinyddiaeth sefydliad llywodraeth leol ei chryfhau wrth i bobl o lawer o gefndiroedd gwahanol gymryd rhan ynddi, gan adlewyrchu strwythur ac amrywiaeth cymunedau. | | | | | | |
| **Is-egwyddorion** | Ymddygiad | Tystiolaeth | Yn ddisgwyliedig | ✓/X | Sgôr | Gweithred |
| **E1 Datblygu capasiti'r endid** | Geraint Edwards<br>E1.1 Adolygu gweithrediadau, perfformiad a'r defnydd o asedau yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn dal i fod yn effeithiol | • Mae hyfforddiant cynefino corfforaethol a rheoli llinell bellach ar waith. Cyflwynwyd cynlluniau Datblygu Rheolwyr Corfforaethol a chynefino corfforaethol ym mis Ebrill 2018 a’u diwygio ym mis Hydref 2022. Mae’r sesiynau cynefino corfforaethol yn rhan o’r gofynion hyn a rhaid i bob aelod newydd o Staff fynychu sesiwn gynefino. Mae Uwch-reolwyr yn bresennol yn y sesiynau hyn a gynhelir wyneb yn wyneb neu’n rhithiol.<br>• Caiff CeriNet (y fewnrwyd a’r adnodd Adnoddau Dynol i'r Staff a'r rheolwyr) ei hadolygu’n gyson a’i gwella i sicrhau ei bod yn effeithiol.<br>• Rheolir Dysgu a Datblygu trwy system CeriNet erbyn hyn, gan ddarparu cyfleoedd i'r holl staff. Cyflwynir modiwlau e-ddysgu i sicrhau bod hyfforddiant a datblygu yn gost-effeithiol lle bynnag y bo modd.<br>• Cynllun Perfformiad Personol blynyddol parhaus – mae Adolygiadau Perfformiad yn cysylltu gydag amcanion Corfforaethol a strategol.<br>• Mae'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn darparu fforwm ar gyfer rheoli perfformiad a pharatoi cynlluniau gweithredu i gyflawni gwelliannau corfforaethol o ran adolygu perfformiad staff. Cryfhawyd y rhain ymhellach trwy gyflwyno arfarniadau blynyddol i’r holl Staff trwy system Adnoddau Dynol Ceri.<br>• Darperir rhaglen gynefino i Aelodau newydd. Trefnir hyfforddiant parhaus ar faterion penodol e.e. rheoli'r Trysorlys.<br>• Mae Aelodau'n mynd i amryw o ddigwyddiadau, seminarau a chynadleddau (gweler uchod).<br>• Mae proses Adolygu Datblygiad Personol ar waith ar gyfer yr Aelodau. | Adolygiadau rheolaidd o weithgareddau, allbynnau a chanlyniadau a gynlluniwyd. | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | Geraint Edwards<br>E1.2 Gwella'r defnydd o adnoddau trwy ddefnyddio technegau priodol fel meincnodi ac opsiynau eraill i benderfynu sut i ddyrannu adnoddau'r awdurdod er mwyn cyflawni canlyniadau'n effeithiol ac yn effeithlon | • Defnyddio ymchwil ac ymarferion meincnodi.<br>• Trwy gyflwyno system gyflogres AD Ceri, bu modd sicrhau bod data ystyrlon am Staff ar gael i'r Rheolwyr bob mis er mwyn iddynt fonitro costau, trosiant ac absenoldebau. | Defnyddio ymchwil ac ymarferion meincnodi | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |

Tudalen 58

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Alun Williams / Diana Davies<br>E1.3 Cydnabod manteision partneriaethau a chydweithio lle gellir sicrhau gwerth ychwanegol | • Gweithredu partneriaethau sy'n cyflawni canlyniadau y cytunir arnynt yn effeithiol.<br>• Datblygwyd Partneriaethau effeithiol mewn nifer o feysydd a gwasanaethau, gan gynnwys:<br>  • Gwella Ysgolion;<br>  • Iechyd a Gofal cymdeithasol; a<br>  • Gwastraff.<br>• Mae partneriaethau ychwanegol wedi'u cynnwys yn y Rhestr o Brosiectau Cydweithredu strategol. | Gweithredu partneriaethau sy'n cyflawni canlyniadau y cytunir arnynt yn effeithiol | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | Geraint Edwards<br>E1.4 Paratoi a chynnal cynllun gweithlu effeithiol i wella'r broses strategol o ddyrannu adnoddau | Mae’r broses o gynllunio’r gweithlu mewn modd strategol wedi’i rhoi ar waith gan ddefnyddio pecyn cymorth cynllunio'r gweithlu ac mae’n cael ei gwblhau gan bob maes gwasanaeth. Mae Cynllun y Gweithlu 2022-2027 yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a chaiff ei gyhoeddi ar ôl cael ei gymeradwyo gan y Cabinet ar ddechrau 2023. Pan fydd yn ei le, adroddir diweddariadau am gynnydd Cynllun y Gweithlu i’r Pwyllgor Craffu. | Cynllun y Gweithlu<br><br>Cynllun datblygu sefydliadol | ✓<br><br>✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| **E2 Datblygu capasiti arweinyddiaeth y sefydliad ac unigolion eraill** | Elin Prysor / Geraint Edwards<br>E2.1 Datblygu protocolau i sicrhau bod arweinwyr etholedig a phenodedig yn negodi â'i gilydd ynghylch eu swyddogaethau yn nyddiau cynnar y berthynas, a'u bod yn parhau i ddeall eu swyddogaethau a'u hamcanion | • Mae’r strwythur Swyddogion Uwch ac Arweinwyr wedi diffinio’r rolau hyn, gan gynnwys sut y maent yn integreiddio â’i gilydd.<br>• Mae cyd-gyfarfodydd yr Uwch-reolwyr yn sicrhau bod swyddogaethau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn glir.<br>• Mae disgrifiadau swyddi'n diffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau gofynnol y swyddi yn glir.<br>• Mae'r <u>Cyfansoddiad</u> yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r Aelodau (Rhan 3.4, Tabl 4) a'r Uwch-swyddogion (rhan 2 Erthygl 2)<br>• Mae'r Pecyn Cymorth Cynllunio Strategol yn cynnwys elfen o gynllunio olyniaeth a rheoli talent.<br>• Darperir cyfleoedd Dysgu a Datblygu i'r rheini sy'n ysgwyddo rôl arweiniol ac i ddarpar arweinwyr. | Disgrifiadau swyddi<br><br>CE ac arweinwyr yn paru i ystyried y ffordd orau o sefydlu a chynnal dulliau cyfathrebu effeithiol | ✓<br><br>✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | Elin Prysor / Duncan Hall<br>E2.2 Cyhoeddi datganiad sy'n pennu'r mathau o benderfyniadau a ddirprwyir a'r rheini a gedwir er mwyn i'r corff llywodraethu benderfynu arnynt ar y cyd | • Ceir Cynllun Dirprwyo (Y <u>Cyfansoddiad</u>, Rhan 3.5) sy'n nodi cyfrifoldebau'r Aelodau a'r Swyddogion yn glir.<br>• Ceir protocolau ynghylch perthnasoedd gwaith rhwng yr Aelodau a'r swyddogion (e.e. Protocol Swyddog-Aelod).<br>• Ceir Codau Ymddygiad ar gyfer Aelodau a Swyddogion.<br>• Ceir gweithgorau Swyddogion ac Aelodau ac maent yn gweithredu'n effeithiol.<br>• Adolygir <u>Rheolau Gweithdrefn Contract (‘CPR’) (Rhan 4 Dogfen G yn y Cyfansoddiad)</u> a’r <u>Rheoliadau Ariannol sy’n cyd-fynd â gweithdrefnau ariannol (Rhan 4 Dogfen F yn y Cyfansoddiad)</u> yn rheolaidd e.e. diweddarwyd CPR ym mis Mawrth 2019. | Cynllun dirprwyo wedi'i adolygu o leiaf yn flynyddol yn sgil newidiadau cyfreithiol a sefydliadol<br><br>Rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol a adolygir yn rheolaidd | ✓<br><br>✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | Elin Prysor<br>E2.3 Sicrhau bod gan yr arweinydd a'r prif weithredwr swyddogaethau arweiniol diffiniedig a | • Mae <u>Cyfansoddiad</u> y Cyngor yn nodi'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau.<br>• Sefydlwyd strwythur Corfforaethol y Cyngor i sicrhau bod modd i'r Swyddogion Statudol gyflawni eu rolau mewn ffordd effeithiol. | Datganiad clir o rolau a chyfrifoldebau ein gilydd a sut y cânt eu rhoi yn eu lle | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | neilltuol o fewn strwythur lle mae'r prif weithredwr yn arwain yr awdurdod i weithredu'r strategaeth ac i reoli'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ac allbynnau eraill a bennwyd gan yr Aelodau, a lle mae'r naill yn cadw cydbwysedd o ran awdurdod y llall | • Mae CE yn gyfrifol am adolygu'r strwythur hwn yn ôl y gofyn.<br>• Penderfynodd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ar 15.10.21 i gytuno ar set ddiwygiedig y Disgrifiadau Rôl Aelodau, a gynlluniwyd i'w defnyddio gyda Fframwaith Datblygiad (Cymhwysedd) aelodau Cymreig, o Fanylebau Person a Disgrifiadau Rôl Aelodau Fframwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ('CLILC'), sy'n cynnwys disgrifiad rôl o'r Arweinydd (Mae adroddiad er gwybodaeth wedi cael ei baratoi hefyd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 19.1.21) | | | | |
| | Elin Prysor/Lowri Edwards/Geraint Edwards<br>E2.4 Datblygu gallu'r Aelodau a'r uwch-reolwyr i ddarparu arweinyddiaeth effeithiol ar y cyd ac i sicrhau bod modd i'r sefydliad ymateb yn llwyddiannus i ofynion cyfreithiol a gofynion polisi sy'n newid, yn ogystal â newidiadau a risgiau economaidd, gwleidyddol ac amgylcheddol trwy:<br><br>– sicrhau bod yr aelodau a'r staff yn gallu cael hyfforddiant cynefino priodol wedi'i deilwra i'w rôl, a bod cyfleoedd hyfforddi a datblygu parhaus sy'n gydnaws ag anghenion unigolion a'r sefydliad ar gael ac yn cael eu hybu<br>– sicrhau bod yr aelodau a'r swyddogion yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ac yn cael yr adnoddau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, a sicrhau eu bod yn gallu diweddaru eu gwybodaeth yn barhaus<br>– sicrhau datblygiad personol, sefydliadol a system gyfan drwy ddysgu ar y cyd, gan gynnwys y gwersi a ddysgir o wendidau | • Rhaglen Gynefino gynhwysfawr i'r Aelodau (hen a newydd) yn dilyn Etholiadau Lleol 2022<br>• Modiwlau e-ddysgu ar gael i'r Aelodau a chânt eu hannog i'w cwblhau.<br>• Mynediad at gyrsiau/briffiau ar ddeddfwriaeth newydd.<br>• Darparu cyfleoedd i Swyddogion gael hyfforddiant sgiliau ac atgoffa parhaus.<br>• Gweithdai i'r Aelodau a drefnir yn ôl yr angen.<br>• Adolygiadau personol ar gyfer Swyddogion.<br>• Darparu cyfleoedd i'r Aelodau gael hyfforddiant sgiliau ac atgoffa, a'u hadolygu'n barhaus (gweler uchod), gan gynnwys Cynllun Adolygu Datblygiad Personol.<br>• Fe'i gwneir fel rhan o fanyleb person swyddi cyllid a chyfreithiol allweddol (cymhwyster gorfodol, gofynion swydd). | Mynediad at gyrsiau/briffiau ar ddeddfwriaeth newydd | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |

Tudalen 60

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | llywodraethu mewnol ac allanol | | | | | |
| | Lowri Edwards/ Geraint Edwards<br>E2.5 sicrhau bod yr Aelodau a'r Staff yn gallu cael mynediad at raglen gynefino briodol sydd wedi'i theilwra i'w swyddi a bod cyfleoedd hyfforddi a datblygu parhaus sy'n cydweddu â gofynion unigolion a'r sefydliad ar gael ac yn cael eu hybu | • Nod y Cyngor yw sicrhau lefel safon Siarter Cymru ar gyfer Cymorth a Datblygiad Aelodau.<br>• Mae disgrifiadau rôl aelodau yn eu lle ac yn cael eu diweddaru pan fydd amgylchiadau’n newid.<br>• Datblygwyd proses ar gyfer Adolygiadau Datblygiad Personol Aelodau a defnyddir y wybodaeth i ddatblygu Cynllun Hyfforddiant Aelodau.<br>• Mae cynlluniau Datblygu Rheolwyr Corfforaethol a Chynefino yn eu lle.<br>• Mae cyflwyno CeriNet fel mewnrwyd ac adnodd AD i'r staff a'r rheolwyr wedi gwella effeithiolrwydd. Mae gwybodaeth gynefino ar gael, ynghyd â Llawlyfr Staff a Phecyn Adnoddau i Reolwyr.<br>• Caiff pecynnau e-ddysgu eu datblygu a’u cyflwyno yn rheolaidd ar gyfer hyfforddiant gorfodol ac anorfodol i staff ac Aelodau.<br>• Cynhelir Adolygiadau Perfformiad gan yr holl Staff fel rhan o fodiwl Rheoli Perfformiad system Ceri.<br>• Mae’r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn darparu’r fforwm ar gyfer anghenion rheoli perfformiad ac ar ôl hynny, wrth baratoi cynlluniau gweithredu er mwyn cyflawni gwelliannau corfforaethol wrth adolygu perfformiad Staff.<br>• Darparir rhaglen gynefino ar gyfer Aelodau newydd a darparwyd rhaglen gynefino gynhwysfawr newydd ar ôl yr etholiad (o fis Mai 2022), a fydd yn cynnwys modiwlau e-ddysgu ychwanegol. Trefnir hyfforddiant parhaus ar gyfer materion penodol. Mae aelodau yn mynychu digwyddiadau, seminarau a chynadleddau amrywiol (gweler uchod). | Strategaeth datblygu'r Aelodau<br>Cynefino a hyfforddiant parhaus Aelodau a rhaglen ddatblygu<br>Mentora a rhaglenni cymorth cymheiriaid<br>Cynlluniau datblygu personol ar gyfer Aelodau a Swyddogion | ✓<br>✓<br>✓<br>✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | Lowri Edwards/ Geraint Edwards<br>E2.6 Sicrhau bod gan yr Aelodau a'r Swyddogion sgiliau, gwybodaeth, adnoddau a chymorth priodol i gyflawni eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, a sicrhau bod modd iddynt ddiweddaru eu gwybodaeth yn barhaus | • Mae cyfleoedd Dysgu a Datblygu ar gael i Staff ac Aelodau ar amryw o bynciau.<br>• Gall yr holl Staff gael mynediad at ddigwyddiadau dysgu a datblygu drwy system hunanwasanaeth Ceri.<br>• Gall rheolwyr hefyd gadw lle i Staff mewn digwyddiadau perthnasol drwy'r system Hunanwasanaeth i Reolwyr.<br>• Darperir hyfforddiant parhaus i’r Aelodau.<br>• Cynhelir hunanasesiad craffu bob blwyddyn. | Er enghraifft, ar gyfer yr Aelodau, gall hyn gynnwys y gallu i:<br>• graffu a herio<br>• cydnabod pan fydd angen cyngor arbenigol allanol<br>• hyrwyddo ffydd<br>• gweithio mewn partneriaeth<br>• arwain y sefydliad | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | • gweithredu fel arweinydd cymunedol<br><br>Systemau a thechnoleg effeithlon yn cael eu defnyddio ar gyfer cymorth effeithiol | <br><br>✓ | | |
| | Geraint Edwards<br>E2.7 Sicrhau datblygiad personol, sefydliadol a system gyfan drwy ddysgu ar y cyd, gan gynnwys gwersi a ddysgwyd o wendidau llywodraethu mewnol ac allanol | • Rydym yn cynllunio olyniaeth trwy drafod a chymryd camau gweithredu o fewn meysydd gwasanaeth a chyda phartneriaid, ac ni ellir darparu tystiolaeth o hyn bob amser. Datblygir hyn ymhellach trwy becyn cymorth cynllunio'r gweithlu Strategol.<br>• Mae Rhaglen Rheolwyr Ceredigion yn darparu cyfleoedd datblygu personol, gan gynnwys trefniadau llywodraethu a gwybodaeth sefydliadol. | Trefniadau ar gyfer cynllunio olyniaeth | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | Alun Williams<br>E2.8 Sicrhau bod strwythurau ar waith i annog y cyhoedd i gymryd rhan | • Rhestr ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaethau.<br>• Polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad.<br>Craffu Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd ( 2016) (Dogfen N yn y Cyfansoddiad) Mae'r Cyngor yn ymgynghori ac yn ymgysylltu'n barhaus â thrigolion lleol, cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn y sir i gael gwybod beth yw eu barn a'u safbwyntiau pan fydd yn paratoi cynlluniau a/neu strategaethau newydd. Mae bob amser yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r adborth sy'n dod i law cyn cytuno ar y fersiynau terfynol.<br>• Grwpiau ffocws Defnyddwyr Gwasanaeth.<br>• Y pwyllgor Craffu wedi cwblhau arolwg ynghylch hunanasesu. | Paneli dinasyddion a phreswylwyr<br><br>Cylch gorchwyl y fforwm rhanddeiliaid<br><br>Strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu | ✓<br><br>✓<br><br>✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | Lowri Edwards<br>E2.9 Mynd ati i ystyried effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth a sicrhau bod yr arweinwyr yn barod i gael adborth adeiladol drwy adolygiadau gan gymheiriaid ac arolygiadau | • Cynllun datblygu'r Aelodau.<br>• Adolygu datblygiad personol yr Aelodau.<br>• Cyhoeddir cofnodion presenoldeb bob blwyddyn.<br>• Anogir a chynorthwyir Aelodau i gwblhau Adroddiadau Blynyddol, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.<br>• Mae Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn mynychu'r Rhwydwaith Cenedlaethol, wedi'i hwyluso gan WLGA.<br>• Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn mynychu Grŵp Rhwydweithio Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Cymru i ddatblygu'r rôl a chymharu'r rôl o fewn Awdurdodau Lleol.<br>• Hyfforddiant wedi'i ddarparu i'r Aelodau (fel rhan o'r rhaglen gynefino i Aelodau (o fis Mai 2022)) hyfforddiant Aelodau Cabinet, hyfforddiant y Pwyllgor Moeseg a Safonau (rôl), | Adolygu perfformiad aelodau unigol yn rheolaidd gan ystyried eu presenoldeb ac ystyried unrhyw hyfforddiant neu anghenion datblygu<br><br>Adolygiadau gan Gymheiriaid | ✓<br><br>X | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | hyfforddiant Dyletswyddau Arweinydd Grŵp Gwleidyddol a hyfforddiant y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (rôl). | | | | |
| | Geraint Edwards<br>E2.10 Sicrhau bod Staff yn atebol trwy adolygiadau perfformiad rheolaidd sy'n ystyried anghenion hyfforddi neu ddatblygu | • Pecyn cymorth Cynllunio'r Gweithlu strategol yn cynnwys nodi anghenion hyfforddi a dysgu ar gyfer pob maes gwasanaeth.<br>• Mae Arfarniadau Perfformiad yn cofnodi anghenion hyfforddi a datblygu drwy system CeriNet.<br>• Caiff cynlluniau datblygu staff wedi'u cysylltu ag arfarniadau eu cryfhau wrth gyflwyno modiwl Rheoli Perfformiad yn CeriNet.<br>• Rhoi polisïau Adnoddau Dynol priodol ar waith a sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol. | Cynllun hyfforddiant a datblygu | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | | | Mae Cynlluniau datblygu'r staff yn gysylltiedig â'r arfarniadau | ✓ | | |
| | | | Rhoi polisïau adnoddau dynol priodol ar waith a sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol | ✓ | | |
| | Geraint Edwards/Lowri Edwards<br>E2.11 Sicrhau bod trefniadau ar waith i gynnal iechyd a lles y gweithlu ac i gynorthwyo unigolion i gynnal eu lles meddwl a chorfforol | • Polisïau Adnoddau Dynol.<br>• Polisi Gweithle Di-fwg.<br>• Polisi Camddefnyddio Alcohol a Chyffuriau.<br>• Mae'r Cyngor wedi cyflwyno amryw o adnoddau ac opsiynau i wella iechyd a lles y Staff.<br>• Cyflwynwyd Strategaeth Iechyd a Lles 2021-2026 er mwyn cynorthwyo'r gwelliant yn iechyd a lles y gweithlu.<br>• Mae'r Cyngor wedi penodi Swyddog Iechyd a Llesiant y Gweithwyr er mwyn cydlynu a hybu iechyd a llesiant o fewn y gweithlu.<br>• Cyflwynwyd pecyn cymorth Gofal yn Gyntaf i gyflogeion sy'n cynnig:<br>• Gwasanaeth cwnsela; a<br>• Chyngor am faterion ariannol, cyfreithiol, defnyddwyr, gofalu am bobl hŷn, gofal plant a chyflogaeth.<br>• Mae'r Cymorth arall sydd ar gael i Staff yn cynnwys:<br>o Rhaglen iechyd a lles Rhyngweithiol Therapi Ymddygiad Gwybyddol;<br>o Cynllun gofal llygaid;<br>o Cynllun talebau gofal plant;<br>o Iechyd Da; a<br>o Hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar ar gyfer Staff a Rheolwyr.<br>• Mae gwasanaeth cwnsela hefyd ar gael i'r Aelodau. | Polisïau Adnoddau Dynol | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |

| F. Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus mewn ffordd gadarn | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae angen i lywodraeth leol sicrhau bod y sefydliadau a'r strwythurau llywodraethu y mae'n eu goruchwylio wedi rhoi system rheoli perfformiad effeithiol ar waith, a bod modd iddynt gynnal y system honno, i hwyluso darpariaeth effeithiol ac effeithlon o wasanaethau a gynlluniwyd. Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhannau pwysig ac annatod o system rheoli perfformiad ac maent yn hanfodol i gyflawni canlyniadau. Dylid ystyried risg a rhoi sylw iddi fel rhan o bob gweithgaredd penderfynu.<br>Mae system rheolaeth ariannol gadarn y n hanfodol i weithredu polisïau ac i gyflawni canlyniadau arfaethedig, oherwydd ei bod yn gorfodi disgyblaeth ariannol, dyrannu adnoddau'n strategol, cyflenwi gwasanaeth effeithlon, ac atebolrwydd.<br>Mae hefyd yn hanfodol bod diwylliant a strwythur craffu ar waith fel rhan allweddol o brosesau penderfynu, llunio polisïau ac adolygu atebol. Mae diwylliant gweithio cadarnhaol sy'n derbyn, yn hybu ac yn annog her adeiladol yn hollbwysig i graffu llwyddiannus ac i gyflawni llwyddiannus. Mae'n bwysig nodi nad yw diwylliant o'r fath yn digwydd yn awtomatig, ond yn hytrach drwy ymrwymiad cyhoeddus parhaus y rheini sydd mewn awdurdod. | | | | | | |
| **Is-egwyddorion** | Ymddygiad | Tystiolaeth | Yn ddisgwyliedig | ✓/X | Sgôr | Gweithred |
| **F1 Rheoli risg** | Alun Williams<br>F1.1 Cydnabod bod rheoli risg yn rhan annatod o bob gweithgaredd a bod rhaid ei ystyried ym mhob rhan o'r broses benderfynu | • Cymeradwyodd y Cabinet y Fframwaith Rheoli Risgiau Corfforaethol ar 24 Medi 2019, ac mae'n cael ei ddiweddaru o hyd.<br>• Ystyrir y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn holl gyfarfodydd y Grŵp Arweiniol a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, mewn cyfarfodydd Rheoli Perfformiad Corfforaethol, a chan y Pwyllgor Archwilio fel eitem sefydlog ar ei agendâu.<br>• Mae Rheoli Risg yn rhan annatod o'r broses o baratoi cynlluniau busnes gweithredol, a phennu Polisïau a Strategaethau.<br>• Cofnodir risgiau prosiectau a thrawsnewid.<br>• Mae pob Cynllun yn cynnwys logiau Risg, gan gynnwys<br>  ○ Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig;<br>  ○ Cynlluniau Busnes (Lefel 1); a<br>  ○ Chynlluniau Gwasanaeth (lefel 2).<br>• Caiff trefniadau Rheoli Risg corfforaethol eu harchwilio'n rheolaidd.<br>• Mae rheoli risg yn rhan o raglenni archwilio gwasanaethau unigol / y sefydliad.<br>• 'Risgiau' yw sylfaen rhaglenni gwaith archwilio yr Archwiliad Mewnol, yn unol â'r gofyniad gan system meddalwedd rheoli archwilio MKI/Pentana, ac estynnwyd templed adrodd y Cabinet er mwyn cynnwys risgiau a goblygiadau sy'n codi. | Protocol rheoli risg | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | Alun Williams<br>F1.2 Rhoi trefniadau rheoli risg cadarn ac integredig ar waith a sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol | • Cymeradwyodd y Cabinet y Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risgiau ar 24 Medi 2019.<br>• Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn eitem sefydlog ar agenda pob cyfarfod o'r Grŵp Arweiniol. Adroddir diweddariadau yn ystod pob Cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i ddarparu gwybodaeth barhaus a sicrwydd bod risgiau yn parhau i gael eu rheoli. Mae'r Pwyllgor yn cyfeirio materion at Bwyllgorau Craffu, pan fo hynny'n briodol.<br>• Mae gofyn cael diweddariadau rheolaidd ynghylch Risg ar gyfer Perfformiad Corfforaethol.<br>• Mae'r Grŵp Trawsnewid ac Effeithlonrwydd Trawsbleidiol yn monitro'r Risgiau Trawsnewid yn rheolaidd.<br>• Cyflawnir gwaith penodol i Fonitro Risg Prosiect. | Polisi/strategaeth rheoli risg wedi'i chymeradwyo yn ffurfiol, ei mabwysiadu, ei hadolygu a'i diweddaru yn rheolaidd | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | Alun Williams<br>F1.3 Sicrhau bod y cyfrifoldebau ar gyfer | • Caiff pob Risg ei dyrannu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol (Perchennog Risg). | Protocol rheoli risg | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni |

Tudalen 64

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | rheoli risgiau unigol wedi’u dyrannu’n glir | | | | | arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| **F2 Rheoli perfformiad** | Alun Williams<br>F2.1 Monitro'r camau i ddarparu gwasanaeth yn effeithiol, gan gynnwys cynllunio, pennu manylion, gweithredu a chynnal adolygiad annibynnol ar ôl ei roi ar waith | • Mae rheoli perfformiad corfforaethol yn gysylltiedig â’r Amcanion Llesiant a Gwella, Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 a chynlluniau BGC. Mae gan y Cyngor nifer o ddangosyddion lleol hefyd sy’n ei helpu i bennu a yw wedi cyflawni’r blaenoriaethau yn ei Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.<br>• Cymeradwyodd y Cyngor yr Hunanasesiad ac Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ac Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant 2021-22.<br>• Defnyddir gwybodaeth feincnodi wrth ailfodelu gwasanaethau.<br>• Asesiadau allanol a mewnol gan:<br>o Archwilio Cymru;<br>o Estyn;<br>o Arolygiaeth Gofal Cymru (‘ASGC’);<br>o Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (‘IPCO’); a<br>o Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (‘ICO’).<br>• Hunanasesiad (Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu) – trafodwyd yr ymarfer hunanasesu yn y gweithdy ar 28.11.22 a chaiff ei gynnal yn 2023.<br>• Mae Gwasanaethau Unigol yn cyflawni hunanasesiadau gan ddefnyddio matrics perfformiad.<br>• Mae IA yn cynnal hunanasesiad bob blwyddyn ac mae’n destun adolygiad annibynnol allanol/adolygiad gan gymheiriaid bob 5 mlynedd fel sy’n ofynnol gan PSIAS. EQA wedi’i gwblhau mis Mai 2022, adroddiad a chynllun gweithredu dilynol wedi’i gyflwyno i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 27.9.22 ynghyd â Hunanasesiad Archwiliol Mewnol CMIA.<br>• Perfformiad o ran costau (gan ddefnyddio mewnbynnau ac allbynnau).<br>• Mae Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cwrdd bob chwarter. Mae pob Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn adrodd i'r Panel hwn a chyhoeddir y Dyddiadau adrodd yn yr adroddiad. Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n mynd i'r cyfarfodydd er mwyn iddynt allu pennu meysydd i'w cynnwys yn eu Blaenraglenni Gwaith. | Map perfformiad sy'n cynnwys mesurau perfformiad pob gweithgaredd allweddol. | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | | | Gwybodaeth meincnodi | ✓ | | |
| | | | Perfformiad o ran costau (gan ddefnyddio mewnbynnau ac allbynnau) | ✓ | | |
| | | | Calendr o ddyddiadau ar gyfer cyflwyno, cyhoeddi a dosbarthu adroddiadau amserol a ddilynir. | ✓ | | |
| | Alun Williams / Lowri Edwards/Elin Prysor<br>F2.2 Gwneud penderfyniadau ar sail dadansoddiad a chyngor perthnasol, clir a gwrthrychol sy'n nodi'r goblygiadau a'r risgiau sy'n ymhlyg yn sefyllfa a rhagolwg ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol y sefydliad | • Mae'r Prif Swyddogion yn rhoi cymorth a chyngor i'r Aelodau.<br>• Mae'n ofynnol cynnwys cyngor/goblygiadau ariannol a chyfreithiol mewn adroddiadau/penderfyniadau a gyhoeddir fel y bo'n briodol.<br>• Diweddarwyd templed yr adroddiadau i’r Cyngor / Cabinet er mwyn cynnwys cyfeiriad at y goblygiadau cyfreithiol, y goblygiadau o ran staffio, y goblygiadau o ran eiddo/asedau a risgiau.<br>• Mae’r Prif Swyddog Cyllid yn rhoi cyngor.<br>• Cyhoeddir yr holl adroddiadau a chofnodion yn brydlon ac maent yn agored i'r cyhoedd eu gweld, gan gynnwys:<br>o Opsiynau ar gyfer argymhellion.<br>o Gofynnir i gadeiryddion pwyllgorau craffu ddwyn materion i sylw'r Cabinet | Trafodaeth rhwng Aelodau a Swyddogion ar anghenion gwybodaeth Aelodau i gefnogi gwneud penderfyniadau | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | | | Cyhoeddi agendâu a chofnodion cyfarfodydd | ✓ | | |

Tudalen 65

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ○ Y Pwyllgor Archwilio yn cyfeirio materion i'r Pwyllgor Craffu ac yn derbyn adroddiadau yn ôl.<br>• Mae'r holl gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn gyhoeddus, yn amodol ar ystyried gwybodaeth eithriedig yn ôl y diffiniad ohoni yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 ac yn gyfarfodydd hybrid yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.<br>• Mae MO yn rhoi cyngor.<br>• Cytundeb ar y wybodaeth y bydd ei hangen a'r terfynau amser. | Cytundeb ar y wybodaeth y bydd ei hangen a'r terfynau amser | ✓ | | |
| | Lowri Edwards<br>F2.3 Sicrhau bod trefn graffu neu oruchwylio effeithiol ar waith sy'n annog her a thrafodaeth adeiladol ynghylch polisïau ac amcanion cyn penderfynu, yn ystod y broses benderfynu ac ar ôl penderfynu, gan wella perfformiad y sefydliad ac unrhyw sefydliad y mae'n gyfrifol amdano | • Mae trefniadau craffu ar waith a gefnogir ac sy'n cynnig cyfleoedd i herio penderfyniadau ac i adolygu'r gwasanaethau a ddarperir. Nod y drefn graffu yw darparu gwerth ychwanegol i'r agenda gwelliant parhaus trwy ei rôl fel "cyfaill beirniadol". Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu hefyd yn darparu cyfleoedd i gyflawni gwaith cyn penderfynu a gwaith llunio polisïau. Mae hon yn swyddogaeth sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf. Nod y Cyngor yw craffu cyn gwneud penderfyniadau lle bo modd.<br>• Cymeradwywyd y Protocol Ymgysylltu â’r Cyhoedd Trosolwg a Chraffu (2016) (Dogfen N, y Cyfansoddiad) gan y Cyngor a’i ddefnyddio ar sawl achlysur.<br>• Mae trefniadau ar waith i gasglu barn y cyhoedd trwy’r cyfryngau cymdeithasol a’i rannu gyda’r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu er mwyn ei hystyried.<br>• Cyhoeddir yr holl agendâu a chofnodion ar wefan y Cyngor.<br>• Cyhoeddir blaenraglenni gwaith ar wefan y Cyngor.<br>• Cyhoeddir cylchoedd gorchwyl ar wefan y Cyngor.<br>• Hyfforddiant i’r Aelodau ar rôl y Pwyllgor Craffu.<br>• Hyfforddiant wedi’i ddarparu i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu.<br>• Mae manylion aelodaeth yr holl Bwyllgorau Craffu ar gael ar wefan y Cyngor.<br>• Mae Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y Cyngor yn gyfrifol am gadw llygad ar effeithiolrwydd cyffredinol BGC.<br>• Ymgymerwyd â gwaith gyda Swyddfa Cenedlaethau’r Dyfodol i ddatblygu Fframwaith Craffu mewn perthynas â WFGA.<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. | Rôl a chyfrifoldeb ar gyfer craffu wedi'i sefydlu ac yn glir | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | | | Agenda a chofnodion cyfarfodydd craffu | ✓ | | |
| | | | Tystiolaeth o welliannau o ganlyniad i graffu | ✓ | | |
| | | | Cylch gorchwyl | ✓ | | |
| | | | Hyfforddiant i Aelodau | ✓ | | |
| | | | Aelodaeth | ✓ | | |
| | | | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn destun craffu effeithiol | ✓ | | |
| | Lowri Edwards/Alun Williams<br>F2.4 Rhoi adroddiadau rheolaidd i'r Aelodau a'r uwch-reolwyr ynghylch cynlluniau cyflenwi gwasanaethau a'r camau a gymerwyd i gyflawni canlyniadau | • Adolygodd y Cyngor ei drefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn 2017 er mwyn gwella’r gwaith o fonitro ei gynlluniau busnes a’i ddangosyddion perfformiad. Mae’r rhain yn gysylltiedig â’r Amcanion Llesiant Corfforaethol a Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 hefyd.<br>• Mae Bwrdd Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cyfarfod bob chwarter, ac estynnir gwahoddiad i Gadeiryddion Pwyllgorau Craffu fynychu’r rhain.<br>• Pennir y dyddiadau adrodd ar ddechrau'r flwyddyn.<br>• Cyfeirir Trawsnewid a Risgiau at Baneli a chyfarfodydd Llywodraeth Leol ar y cyd.<br>• Gall Pwyllgorau Craffu ofyn am adroddiadau unrhyw bryd. | Calendr o ddyddiadau ar gyfer cyflwyno, cyhoeddi a dosbarthu adroddiadau amserol a ddilynir | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Duncan Hall<br>F2.5 Sicrhau bod cysondeb rhwng camau pennu (fel cyllidebau) ac adroddiadau ar ôl gweithredu (e.e. datganiadau ariannol) | • Mae gwaith monitro ariannol yn digwydd yn rheolaidd ar draws y Cyngor dan drefniadau cyfrifyddu datganoledig, a darperir adroddiadau ffurfiol i'r Cabinet. Mae gwaith monitro hefyd yn rhan o'r adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol.<br>• Mae'n ofynnol cynnwys goblygiadau ariannol ym mhob adroddiad i'r Cabinet.<br>• Mae'r Rheoliadau Ariannol a’r Rheolau'r Weithdrefn Ariannol (Dogfen F yn y Cyfansoddiad) a'r Rheoliadau Contractau (Dogfen G yn y Cyfansoddiad) i gyd yn gyfredol. Cymeradwywyd y Strategaeth Gaffael 2018-2022 gyfredol yn 2018.<br>• Arferion cyfrifyddu – cydymffurfir â Chodau Ymarfer. Paratoir dangosyddion darbodus a darperir adroddiadau arnynt i'r Cyngor. Cânt eu monitro drwy gydol y flwyddyn. Mae'r gyllideb yn cael ei monitro'n gyson drwy gydol y flwyddyn. Mae IA hefyd yn adolygu'r rheolaethau dros gasglu a monitro incwm.<br>• Caiff Cynlluniau Busnes/Gwasanaeth eu monitro i sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cyflawni. | Safonau ariannol, canllawiau<br><br>Rheoliadau ariannol a rheolau sefydlog | ✓<br><br>✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| **F3 Rheolaeth fewnol gadarn** | Alun Williams / Amanda Roberts / Alex Jenkins<br>F3.1 Alinio'r strategaeth rheoli risg a'r polisïau ar reolaeth fewnol â'r gwaith o gyflawni amcanion | • Cymeradwyodd y Cabinet y Polisi a’r Strategaeth Rheoli Risgiau ynghyd â’r Fframwaith Rheoli Risgiau ar 24 Medi 2019.<br>• Cyflwynir diweddariadau ynghylch trefniadau Parhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl yn rheolaidd yn unol â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, Risg CORP04.<br>• Mae’r Grŵp Parhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl yn cyfarfod bob chwarter.<br>• Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol yn cael ei asesu o safbwynt risg ac mae’n ystyried nodau ac amcanion y Cyngor, a'i bolisïau a'i weithdrefnau corfforaethol, gan gynnwys adolygu’r trefniadau corfforaethol ar gyfer Rheoli Risg a phrofi’r mesurau rheoli lliniarol sydd ar waith ar gyfer sampl o’r risgiau a nodir yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.<br>• Cymeradwywyd Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol 2021-2022 gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 10 Mawrth 2022, ac maent yn parhau i ystyried y risgiau ychwanegol sy’n deillio o’r pandemig.<br>• Gall cynllun archwilio blynyddol IA roi sylw i unrhyw angen i ail-flaenoriaethu gwaith, gan ganiatáu i IA ymateb i unrhyw newidiadau o ran risg yn y Cyngor.<br>• Mae’r adroddiadau archwilio mewnol a roddir i’r Rheolwyr yn tynnu sylw at y risgiau o beidio â gweithredu unrhyw gamau y mae’r gwasanaeth IA yn eu hargymell. Mae camau gweithredu sylfaenol ac arwyddocaol a argymhellir yn cael eu dilyn i fyny a’u hadrodd i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Os yw’r CMIA o’r farn nad yw Rheolwr wedi rhoi sylw i unrhyw risgiau sylfaenol, adroddir hyn i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, y mae ganddo y disgresiwn i ofyn i’r Rheolwr fynychu ac esbonio’r rheswm dros y diffyg cydymffurfiaeth.<br>• Mae’r Archwilydd a benodwyd yn ystyried trefniadau’r Cyngor er mwyn sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac yn | Strategaeth rheoli risg<br><br>Cynllun Archwilio 2018/19<br><br>Adroddiadau archwilio | ✓<br><br>✓<br><br>✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach |

Tudalen 67

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ei lythyr, mae wedi nodi bod y Cyngor wedi cydymffurfio â’i gyfrifoldebau ynghylch y defnydd a wneir o’i adnoddau.<br>• Mae Amcanion y Cyngor yn cyd-fynd â Strategaethau. | | | | |
| | Alun Williams / Alex Jenkins<br>F3.2 Gwerthuso a monitro'r prosesau rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rheolaidd | • Cymeradwyodd y Cabinet Fframwaith Rheoli Risgiau’r Cyngor ar 24 Medi 2019, ac mae’r Cyngor yn parhau i lunio strategaethau a chynlluniau sy’n ystyried y risgiau sy’n deillio o bandemig COVID-19.<br>• Mae'r Grŵp Rheoli Argyfyngau a Pharhad Busnes yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu Cynlluniau a Threfniadau Argyfyngau a Pharhad Busnes Corfforaethol a Meysydd Gwasanaeth, yn ogystal ag argymhellion sy'n codi o ddigwyddiadau ac ymarferion blaenorol i ddarparu tystiolaeth o'r risg, i bennu'r tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac i gofnodi unrhyw wersi a ddysgwyd er mwyn mynd i'r afael â nhw.<br>• Mae gwerthuso risg bob amser yn ymddangos ar agendâu.<br>• Cymeradwywyd Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol 2022/23 gan y Pwyllgor Archwilio ar 10 Mawrth 2022, ac mae’n parhau i ystyried y risgiau ychwanegol sy’n deillio o’r pandemig.<br>• Gall cynllun archwilio blynyddol IA roi sylw i unrhyw angen i ail-flaenoriaethu gwaith, gan ganiatáu i IA ymateb i unrhyw newidiadau o ran risg yn y Cyngor.<br>• Cyflwynir Adroddiadau Cynnydd Chwarterol rheolaidd ynglŷn ag Archwilio Mewnol i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu at ddibenion monitro (e.e. cyflwynwyd Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Mehefin 2022 i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 27 Medi 2022).<br>• Cyflwynir crynodeb o’r gwaith a’r farn archwilio ar sicrwydd yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn. Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol IA ar gyfer 2021/22 gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 6 Mehefin 2022<br>• Adolygiadau IA dilynol er mwyn monitro gweithrediad camau gweithredu gofynnol.<br>• Caiff y rheolaethau mewnol a’r prosesau risg a llywodraethu eu monitro yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol (cymeradwywyd y fersiwn diwethaf gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 19/1/22) a'r Cynllun a’r Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol. | Cafodd y strategaeth/polisi rheoli risg ei chymeradwyo a'i mabwysiadu'n ffurfiol, ac mae'n cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd. | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach |
| | Alex Jenkins<br>F3.3 Sicrhau bod trefniadau gwrth-dwyll a llygredd effeithiol ar waith | • Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd (CIPFA, 2014).<br>• Mae gan yr Archwilwyr Mewnol weithdrefnau ar waith os caiff twyll ei ganfod.<br>• Mae Swyddog yn y tîm IA yn Dechnegydd Atal Twyll achrededig.<br>• Mae Swyddog yn y tîm IA yn meddu ar Dystysgrif mewn Arferion Ymchwilio gan CIPFA (‘CCIP’).<br>• Mae ‘Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian) a ddiweddarwyd ac a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 17 Mehefin 2021 (cadarnhawyd y cofnodion ar 23 Medi 2021) wedi’i pharatoi o ran y Cod Ymarfer ac mae wedi’i diweddaru i sicrhau bod yr holl ofynion wedi’u cynnwys. | Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd (CIPFA, 2014) | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Mae IA yn ymgymryd â gwaith atal twyll pan fo angen (yn ogystal ag ymdrin ag achosion o dwyll a ganfuwyd fel yr ystyriwyd yn gynharach).<br>• Mae’r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Menter Twyll Cenedlaethol flynyddol Archwilio Cymru. IA sy’n cydgysylltu’r gwaith hwn ar hyn o bryd.<br>• Mae IA yn cyflwyno Adroddiad Atal Twyll i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bob blwyddyn (<u>cyflwynwyd Adroddiad Atal Twyll 2021/22 i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 6 Mehefin 2022</u>).<br>• Monitro ac ymateb i rybuddion ynghylch twyll (NAFN, rhwydweithiau ehangach, cymheiriaid, ac ati);<br>• Aelodaeth a chyfranogiad gweithredol mewn grwpiau a rhwydweithiau proffesiynol (Tisonline, KHub, ac ati);<br>• Mae IA yn cynnig cyngor i wasanaethau ynghylch gweithredu systemau a phrosesau newydd er mwyn sicrhau y caiff rheolaethau mewnol effeithiol eu cynnal;<br>• Mae Swyddogion enwebedig yn y Cyngor yn cael hyfforddiant twyll amrywiol er mwyn cynnal eu gwybodaeth a’u harbenigedd;<br>• Pan fo hynny’n briodol, cyhoeddir gwybodaeth am erlyniadau llwyddiannus ar wefan y Cyngor (ac yn y wasg leol)<br>• Caiff taliadau grant Covid-19 eu harchwilio cyn iddynt gael eu talu (gan ei bod yn haws stopio taliad na’i adfer);<br>• Ychwanegwyd archwiliadau rheolaeth ariannol allweddol i’r cynllun archwilio, er mwyn archwilio rheolaethau, llywodraethu a risgiau tra bod staff yn gweithio gartref<br>• Gall cynllun archwilio blynyddol IA roi sylw i unrhyw angen i ail-flaenoriaethu gwaith, gan ganiatáu i IA ymateb i unrhyw newidiadau o ran risg yn y Cyngor. | | | | |
| | Alex Jenkins<br>F3.4 Sicrhau bod yr archwiliwr mewnol yn rhoi sicrwydd ychwanegol o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth | • Cymeradwywyd <u>AGS 2020/21</u> gan y Cyngor ar 25 Tachwedd 2021 gyda’r Datganiad o’r Cyfrifon. Mae AGS yn cynnwys barn flynyddol CMIA ynghylch sicrwydd.<br>• Mae CMIA sy’n astudio ar hyn o bryd i ennill cymhwyster CIPFA yn bennaeth ar y swyddogaeth IA, mae ganddo CMIA brofiad sylweddol ym maes llywodraeth leol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan dîm sy’n meddu ar sgiliau a gwybodaeth briodol. Adroddir yn rheolaidd i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am weithgarwch IA. Mae blaenraglen waith gadarn sy’n seiliedig ar risg a gweithgarwch cynllunio busnes yn eu lle.<br>• Mae IA yn gwerthuso ac yn gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu yn unol â PSOAS, a gaiff ei hunanasesu a’i adrodd i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bob blwyddyn, ynghyd ag unrhyw welliannau gofynnol. Cynhelir adolygiad gan gymheiriaid bob 5 mlynedd a chwblhawyd yr un diweddaraf ym mis Mai 2022. Cafodd yr adroddiad a’r cynllun gweithredu dilynol ei gyflwyno i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Medi 2022.<br>• Mae Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd i reolwyr unigol ar ôl pob adolygiad archwilio – yna defnyddir y rhain i ddarparu lefel | Datganiad Llywodraethu Blynyddol | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | | | Gwasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol gydag adnoddau ac yn cael ei gynnal | ✓ | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gorfforaethol gyffredinol o sicrwydd yn flynyddol, sy'n bwydo i mewn i’r AGS.<br>• Ailstrwythurwyd y gwasanaeth Archwilio Mewnol ym mis Mai 2019 ac eto ym mis Tachwedd 2020. Mae pob swydd wedi’i llenwi er 1 Rhagfyr 2020.<br>• Mae dau aelod staff wrthi’n astudio ar gyfer cymhwyster hyfforddiant proffesiynol Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd. | | | | |
| | Elin Prysor<br>F3.5 Sicrhau bod pwyllgor Archwilio a Llywodraethu neu grŵp neu swyddogaeth o'r fath sy'n annibynnol ar y weithrediaeth ac sy'n atebol i'r corff llywodraethu yn: darparu ffynhonnell arall o sicrwydd effeithiol ynghylch y trefniadau i reoli risg ac i gynnal amgylchedd rheoli effeithiol, gan sicrhau bod ei argymhellion yn cael sylw a'u rhoi ar waith | • Sefydlwyd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy'n pennu ei gynllun gwaith ei hun. Mae aelod o'r wrthblaid yn cadeirio'r Pwyllgor (tan mis Mai 2022 pan fydd Unigolyn Lleyg yn Gadeirydd, yn unol â darpariaethau Deddf 2021).<br>• Gwaith paratoi parhaus a gweithredu newidiadau sy’n effeithio ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yng ngoleuni Deddf 2021. Hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, mewn adroddiad yn ystod y Cyfarfod ar 24.2.2021, o newidiadau i’w rôl ynghylch adroddiadau hunanasesu y Cyngor, ac ynghylch asesiadau perfformiad panel, yn ogystal â’r ffaith bod yr enw yn cael ei newid, ynghyd â’r newidiadau i’r Cadeirydd/Is-Gadeirydd a’r cyfansoddiad.<br>• Diweddarwyd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 6 Rhagfyr 2018.<br>• Cyflwynwyd adroddiad a oedd yn cynnig diweddariad am Ddeddf 2021 i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 3.6.2021, a fyddai’n cynnwys rhoi diweddariad i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ynghylch newidiadau i’r Cyfansoddiad sy’n effeithio ar y Pwyllgor, gan gynnwys:<br>- Recriwtio aelodau lleyg ac Is-Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu CJC Canolbarth Cymru; ac<br>- Ynghylch swyddogaethau’r Pwyllgor sy’n ymwneud ag:<br>o adolygu ac asesu asesiad perfformiad y Cyngor;<br>o ystyried adroddiad Hunanasesu blynyddol drafft y Cyngor;<br>o ystyried unrhyw adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ac ymateb drafft y Cyngor;<br>o adolygu swyddogaeth trin cwynion y Cyngor; a’r rôl ynghylch Asesiadau Perfformiad y Panel (o fis Mai 2022).<br>• Mae newidiadau a wnaethpwyd yn ystod 2021-2022 yn cynnwys paratoadau ar gyfer:<br>- newidiadau i’r cylch gorchwyl/cylch gwaith/cyfansoddiad (gan gynnwys argymhellion i’r Cyngor gan y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad a newidiadau i’r Cyfansoddiad a gymeradwywyd gan y Cyngor yn ystod ei Gyfarfod ar 23.9.2021);<br>- newid yr enw i’r ‘Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu’;<br>- yr Aelodaeth fydd 2/3 Cynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (yn unol â’r diffiniad yn y Ddeddf) – recriwtio wedi cael ei gwblhau (cymeradwywyd y penodiadau gan y Cyngor ar 9.12.21); | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cydymffurfio ag arferion gorau – gweler Pwyllgorau Archwilio: Canllawiau Ymarferol ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (CIPFA, 2013)<br>Cylch gorchwyl<br>Aelodaeth<br>Hyfforddiant | ✓<br>✓<br>✓<br>✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | - Dyletswydd y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Ddirprwy Gadeirydd ei hun;<br>- Rhaid i'r Cadeirydd fod yn unigolyn lleyg – recriwtio wedi cael ei gwblhau (cymeradwywyd y penodiadau gan y Cyngor ar 9.12.21) a phenodir y Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd o blith yr Aelodau Lleyg;<br>- Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac<br>- Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol fydd yn gallu cadeirio.<br>• Cwblhawyd adolygiad o faint y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a chymeradwywyd y ffaith y bydd ei faint yn newid o fis Mai 2022 (9).<br>• Mae gan y Pwyllgor Archwilio aelod lleyg effeithiol. Ystyrir aelodaeth y Pwyllgor Archwilio Llywodraethu yn unol â Deddf 2021: cwblhawyd y broses o recriwtio aelodau lleyg, gan ystyried gofynion Deddf 2021 a'r ffaith bod cyfnod yr aelod lleyg presennol yn y swydd wedi dod i ben.<br>• Cymeradwywyd Cyfeiriad Swydd, Manyleb person a meini prawf gan y Cyngor ar 10/12/20.<br>• Hunanasesiad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu – mae'r ymarfer hunanasesu yn mynd rhagddo.<br>• Cyhoeddir adroddiadau a chofnodion ar wefan y Cyngor.<br>• Diweddarwyd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.<br>• Mae manylion aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r holl bwyllgorau craffu ar gael ar wefan y Cyngor.<br>• Mae'r CMIA a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cwrdd yn rheolaidd.<br>• Mae MO a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cwrdd yn ôl y gofyn.<br>• Cyfarfodydd rheolaidd rhwng MO a CMIA.<br>• Cyfarfodydd rheolaidd rhwng MO a CMIA ac Archwilio Cymru yn ôl yr angen.<br>• Cyfarfodydd rheolaidd rhwng Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r rheolydd allanol Archwilio Cymru (gyda Swyddogion a heb Swyddogion)<br>• Darperir hyfforddiant / diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.<br>• Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn mynd i Grŵp Rhwydweithio Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Cymru i ddatblygu'r rôl a chymharu'r rôl o fewn Awdurdodau Lleol. | | | | |
| **F4 Rheoli data** | Arwyn Morris<br>F4.1 Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i gasglu, storio, defnyddio a rhannu data'n ddiogel, gan gynnwys prosesau i ddiogelu data personol | • Mae Strategaeth TGCh a Digidol newydd ar gyfer 2018-2022 wedi'i chymeradwyo.<br>• Mae'r holl bolisïau'n gyfredol gan gynnwys; (y rhain oll wedi'u cymeradwyo yn ystod mis Chwefror 2019).<br>○ Polisi Diogelu Data a GDPR;<br>○ Polisi Diogelu Gwybodaeth; a<br>○ Pholisi Rheoli Cofnodion. | Fframwaith a gweithdrefnau rheoli data.<br>Allem ni ychwanegu'r dyddiadau i'r polisïau os gwelwch yn dda | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Rhaid i’r holl Staff gwblhau modiwl e-ddysgu gorfodol am Ddiogelu Gwybodaeth.<br>• Rhaid i’r holl Staff gwblhau modiwl e-ddysgu gorfodol am Ddiogelu Data.<br>• Swyddog Diogelu Data Dynodedig.<br>• Cyswllt Cwsmeriaid y Swyddog Arweiniol Corfforaethol yw’r Perchennog Risg Gwybodaeth Uwch (‘SIRO’) ac mae wedi mynychu hyfforddiant priodol ar gyfer y rôl hwnnw.<br>• Pennwyd y Swyddogion cyfrifol canlynol:<br>  ○ Swyddog Diogelwch TG (‘ITSO’); a<br>  ○ Swyddog Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion (‘IRMO’)<br>• Yn ogystal, mae'r grwpiau/pwyllgorau a ganlyn yn ystyried diogelwch Gwybodaeth:<br>  ○ Y Grŵp Diogelu Data Corfforaethol; a’r<br>  ○ Pwyllgor Argyfyngau a Pharhad Busnes.<br>• Cynhelir asesiadau allanol, gan gynnwys cydymffurfiaeth â’r Cod Ymddygiad.<br>• Cynhelir Archwiliad Mewnol rheolaidd o'r gofynion Cofrestru diogelu data.<br>• Rhoddwyd gweithdrefnau ar waith yn sgil archwiliad Archwilio Cymru.<br>• Mae swyddogion yn ystyried cyflwyno hysbysiadau preifat mewn perthynas â cheisiadau i’r holl Aelodau, gan gynnwys y Pwyllgor Rheoli Datblygu.<br>• Mae hyfforddiant wedi cael ei drefnu ar gyfer Aelodau ar eu rhwymedigaethau o dan y GDPR fel rhan o’r hyfforddiant newydd i Aelodau, ac mae adran ar y ddeddfwriaeth honno wedi cael ei chynnwys bellach yn y protocol ar gyfer Aelodau mewn cynllunio. | Swyddog diogelu data dynodedig<br>Polisïau a gweithdrefnau Diogelu Data. | ✓<br>✓ | | |
| | Arwyn Morris<br>F4.2 Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith a gweithredu'n effeithiol wrth rannu data â chyrff eraill | • Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi llofnodi Cytundeb Cymru ar Rannu Gwybodaeth Bersonol (WASPI) ac felly mae'n defnyddio fframwaith WASPI ar gyfer ei Gytundebau Rhannu Gwybodaeth.<br>• Fel rheol, anfonir cytundebau at y Swyddog Diogelu Data.<br>• Ceir cofrestr gyhoeddus ar Wefan WASPI hefyd.<br>• Cynhelir asesiadau allanol rheolaidd e.e. Cydymffurfiaeth â’r Cod Ymddygiad.<br><br>***Cyfres gyffredin o egwyddorion a safonau sydd ar waith pan fydd sefydliadau sy'n bartneriaid yn rhannu gwybodaeth bersonol yw'r Cytundeb. Bydd y sefydliadau sy'n mabwysiadu'r Cytundeb yn dangos eu hymrwymiad i fodloni'r amodau, y rhwymedigaethau a'r gofynion y cytunwyd arnynt o fewn y fframwaith. | Cytundeb rhannu data<br>Cofrestr rhannu data<br>Cytundebau prosesu data | ✓<br>✓<br>✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | Arwyn Morris<br>F4.3 Adolygu ac archwilio'n rheolaidd ansawdd a chywirdeb y data a ddefnyddir i wneud | • Polisi Rheoli Cofnodion.<br>• Polisi Diogelu Data / GDPR.<br>• Monitro perfformiad mewnol a thystiolaeth.<br>• Mae croes-gyfateb data yn digwydd ar draws y gwahanol wasanaethau. | Data gweithdrefnau ac adroddiadau ansawdd.<br>Allem ni ychwanegu'r dyddiadau i'r | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | penderfyniadau ac i fonitro perfformiad | • Caiff gwerthoedd Dangosyddion Perfformiad eu dilysu gyda thystiolaeth.<br>• Amserlen Cadw Dogfennau – wedi'i chyhoeddi ar y fewnrwyd erbyn hyn. | polisïau os gwelwch yn dda<br>Oes enghraifft o Fonitro perfformiad mewnol | | | |
| | | | Gweithdrefnau dilysu data<br>Pa weithgarwch dilysu data a gyflawnir | ✓ | | |
| **F5 Rheoli arian cyhoeddus mewn ffordd gadarn** | Duncan Hill<br>F5.1 Sicrhau bod rheolaeth ariannol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau hirdymor a pherfformiad ariannol a gweithredol byrdymor | • Sefydlwyd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ('MTFS') gyfredol yn ystod 2013-14 a chafodd ei diweddaru'n helaeth a'i chymeradwyo gan y Cyngor ar 24 Chwefror 2016. Mae'r MTFS gyfredol yn trafod y cyfnod o 2018/2019 ymlaen, ond mae bellach wedi'i diwygio i adlewyrchu setliad refeniw dros dro 2021/2022 ac wedi'i diweddaru i:<br>o Adlewyrchu effaith Covid-19<br>o Adlewyrchu 'Hybu Economi Ceredigion – Strategaeth Weithredu 2020-35'<br>o Diwygio'r cynllun arbedion trawsnewid<br>o Rhagamcanu y pwysau o ran costau<br>o Adlewyrchu newidiadau o ran data, rheoliadau, cynlluniau, polisïau a strategaethau<br>ac mae'n cael ei chyflwyno i'r Cabinet i'w chymeradwyo 23.2.2021 ac wedyn yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor ar 5.2.2021.<br>• Mae hwn bellach yn cynnwys fframwaith polisi er mwyn pennu'r cyllidebau bob blwyddyn, yn ogystal â chynllun tair blynedd. Mae MTFS yn ymddangos fel risg corfforaethol a gaiff ei ddiweddaru o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Roedd y gwaith blynyddol o osod cyllideb yn cynnwys asesiad risg hefyd. Mae'r Cyngor yn ymateb i'r cynnig yn Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2016 (Archwilio Cymru bellach), gan ystyried yr adroddiad yng ngoleuni'r MTFS trwy sicrhau bod trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i ymateb i'r sialensiau sylweddol yn y dyfodol.<br>• ofynnol i ystyried blaenoriaethau gwasanaethau, gan roi sylw i'r cyfyngiadau ariannol ar yr un pryd.<br>• Sefydlwyd cynllun/amserlen ar gyfer prosiect y gyllideb flynyddol i sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei chymeradwyo o fewn y cyfnod statudol yn unol â fframwaith cyllideb y Cyngor.<br>• Darperir adroddiadau rheolaidd am y gyllideb i'r Cabinet a'r Grŵp Arweiniol trwy gydol y flwyddyn, ac mae'r cyllidebau gweithredol yn cael eu monitro bob mis. | Rheolaeth ariannol yn ategu darparu gwasanaethau a thrawsnewid yn ogystal â sicrhau stiwardiaeth dda. | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Duncan Hill<br>F5.2 Sicrhau bod rheolaeth ariannol ddatblygedig yn cael ei hintegreiddio i bob lefel gynllunio a rheoli, gan gynnwys rheoli risgiau a rheolaethau ariannol | • Caiff y gyllideb ei monitro'n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn, o fewn gwasanaethau, gan y Cabinet a chan weithgorau Aelodau a Swyddogion e.e. Grŵp Datblygu a CMG ac arbedion y rhaglen trawsnewid i'r Grŵp Ymgynghorol Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd.<br>• Cynhelir cyfarfodydd chwarterol o'r Panel Gweithredol, os oes angen, gyda'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol ynghyd ag Arweinydd y Cyngor, CE, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a'r Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb am Gyllid. | Adroddiadau monitro cyllideb | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau.  Nid oes angen camau pellach. |

| G. Defnyddio arferion gweithio da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae atebolrwydd yn ymwneud â sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac yn darparu gwasanaethau yn atebol amdanynt. Mae atebolrwydd effeithiol yn ymwneud nid yn unig ag adrodd ar gamau gweithredu a gwblhawyd, ond hefyd sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu deall ac ymateb pan fydd y sefydliad yn cynllunio ac yn cyflawni ei weithgareddau mewn modd tryloyw. Mae'r swyddogaeth archwilio allanol a mewnol yn cyfrannu at atebolrwydd effeithiol. | | | | | | |
| **Is-egwyddorion** | Ymddygiad | Tystiolaeth | Yn ddisgwyliedig | ✓/X | Sgôr | Gweithred |
| **G1 Defnyddio arferion gwaith da o ran tryloywder** | Lowri Edwards/Arwyn Morris/Alun Williams<br>G1.1 Ysgrifennu a rhannu adroddiadau â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill mewn ffordd ddealladwy sy'n briodol ar gyfer y gynulleidfa darged a sicrhau eu bod yn hawdd cael gafael arnynt a'u pwyso a'u mesur | • Gwefan y Cyngor.<br>• Darlledir cyfarfodydd y Cyngor a’r Cabinet ar y we.<br>• Ceir templedi safonol ar gyfer y Cabinet, y Pwyllgorau Craffu a'r Cyngor.<br>• Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.<br>• Defnyddio Modern.Gov er mwyn cyhoeddi agendâu a Gwybodaeth am Gynghorwyr.<br>• Mae’r Cyngor yn rhoi ar waith y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2021, gan gynnwys y gofyniad i’r Cyngor ymgynghori a chyhoeddi strategaeth cyfranogiad y cyhoedd i gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol ac i wella tryloywder.<br>• Mae’r Cyngor yn cydymffurfio â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 sy’n caniatáu mynediad o bell i gyfarfodydd ac sy’n nodi’r gofynion o ran mynediad y cyhoedd at ddogfennau/cyhoeddi dogfennau.<br>• Mae’r gwaith yn mynd rhagddo i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf 2021, a fydd yn cynnwys sut y byddwn yn annog cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau hefyd, er ein bod yn aros am ganllawiau terfynol gan Lywodraeth Cymru am y rhan hon o’r ddeddfwriaeth.<br>• Mae map ffyrdd y Cyngor wedi darparu’r wybodaeth ddiweddaraf i ddinasyddion am y gwasanaethau a ddarperir oherwydd pandemig Covid-19, er mwyn cynnig eglurder i breswylwyr y Sir.<br>• Mae offer wedi cael eu gosod yn Siambr y Cyngor er mwyn gallu cynnal cyfarfodydd hybrid, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.<br>• Mae’r Cyngor yn darparu ffyrdd amgen i ddinasyddion droi at wybodaeth os nad ydynt yn gallu manteisio ar wasanaethau digidol. Gall y Dinesydd ffonio Canolfan Gyswllt y Cyngor neu ymweld â’i Lyfrgelloedd, lle y gellir troi at gyfrifiaduron neu fanteisio ar wasanaeth Wi-Fi 4G am ddim y gall unrhyw un ei ddefnyddio ar eu dyfais eu hunain. | Gwefan<br><br>Darlledir cyfarfodydd y Cyngor ar y we | ✓<br><br>✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | Lowri Edwards<br>G1.2 Taro cydbwysedd rhwng darparu swm priodol | • Mae manylion cyswllt y Cynghorwyr, eu cofnodion presenoldeb ac aelodaeth y Pwyllgorau ar gael ar Wefan y Cyngor. | Adroddiadau blynyddol y Cynghorwyr | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni |

Tudalen 75

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | o wybodaeth i fodloni'r galwadau am dryloywder a gwella craffu cyhoeddus, heb iddi fod yn rhy feichus i'w darparu nac i ddefnyddwyr ei deall | • Mae adroddiadau blynyddol Cynghorwyr ar gael ar Wefan y Cyngor.<br>• Mae’r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu ar gael ar Wefan y Cyngor.<br>• Mae Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd ar gael ar Wefan y Cyngor. | Adroddiad blynyddol | ✓ | | arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| **G2 Defnyddio arferion gwaith da o ran adrodd** | Alun Williams<br>G2.1 Adrodd o leiaf bob blwyddyn ar berfformiad, gwerth am arian a gwarchod adnoddau | • Cyhoeddir Hunanasesiad ac Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ac Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant y Cyngor Sir ar wefan Sir Ceredigion i roi gwybod i ddinasyddion Ceredigion am weithgareddau a chamau gweithredu a gyflawnir gan y Cyngor er mwyn cynorthwyo ei Amcanion Llesiant a Gwella. Mae hwn hefyd yn rhan o hunanasesiad y Cyngor. Mae crynodeb o'r cynllun hefyd ar gael mewn swyddfeydd cyhoeddus i'n dinasyddion ei weld.<br>• Cyhoeddir datganiadau ariannol blynyddol ar Wefan y Cyngor. | Adroddiad blynyddol ffurfiol sy'n cynnwys pwyntiau allweddol a godwyd gan graffwyr allanol ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar ddarparu gwasanaethau | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | | | Datganiadau cyllid blynyddol | ✓ | | |
| | Alun Williams<br>G2.2 Sicrhau bod yr Aelodau a'r uwch-reolwyr yn ysgwyddo perchnogaeth dros y canlyniadau | • Cymeradwyaeth briodol.<br>• Trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.<br>• Perchnogaeth dros gynllunio a thrawsnewid. | Cymeradwyaeth briodol | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | Elin Prysor<br>G2.3 Sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i asesu'r graddau y mae'r egwyddorion a geir yn y Fframwaith wedi'u rhoi ar waith, a chyhoeddi canlyniadau'r asesiad hwn, gan gynnwys cynllun gweithredu ar gyfer gwella a thystiolaeth o lywodraethu da (datganiad llywodraethu blynyddol) | • Mae AGS y Cyngor yn dangos sut y mae’n cydymffurfio â saith egwyddor graidd y Fframwaith Llywodraethu a’r is-egwyddorion a geir yn y Fframwaith ac yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, gan gynnwys y modd y mae’n rhoi trefniadau priodol ar waith i lywodraethu ei waith, yn hwyluso defnydd effeithiol o’i swyddogaethau, ac yn trefnu i reoli risgiau (lluniwyd y Fframwaith Llywodraethu yn 2010 ac fe’i hadolygwyd yn unol â Fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government* (2016)). Mae hefyd yn cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.<br>• Cynhaliwyd asesiad o'r fframwaith llywodraethu corfforaethol i sicrhau cydymffurfiaeth e.e. fe’i ddiweddarwyd yng ngoleuni’r newidiadau y bu’n rhaid eu gwneud oherwydd pandemig COVID-19. Y Cyngor sy’n penderfynu a ddylid cymeradwyo’r AGS e.e. diweddarwyd a chymeradwywyd y Datganiad gan y Cyngor ar 25 Tachwedd 2021 (ochr yn ochr â’r cyfrifon).<br>• Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor yn dangos sut y mae wedi rhoi’r trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol ar waith i gyflawni’i waith yn effeithiol. Mae’r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn ddatganiad cyhoeddus sy’n nodi sut y bydd y Cyngor yn bodloni’r ymrwymiad hwnnw. | Datganiad Llywodraethu Blynyddol | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Elin Prysor<br>G2.4 Sicrhau bod y Fframwaith yn cael ei ddefnyddio ar gyfer sefydliadau a reolir ar y cyd neu a rennir, fel y bo'n briodol | • Caiff AGS ei rannu gyda'r cyfrifon, ei adolygu a'i ddiweddaru, gydag Aelodau a Swyddogion yn darparu proses ymgysylltu ehangach. | Datganiad Llywodraethu Blynyddol | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | Duncan Hill<br>G2.5 Sicrhau bod y wybodaeth am berfformiad a ddarperir gyda'r datganiadau ariannol yn cael ei pharatoi ar sail gyson ac amserol a bod modd cymharu'r datganiadau â sefydliadau tebyg | • Mae'n ofynnol cynnwys goblygiadau ariannol ym mhob adroddiad i'r Cabinet. Mae'r Rheoliadau Ariannol a Rheolau'r Weithdrefn Ariannol (Dogfen F yn y Cyfansoddiad) a Rheolau'r Weithdrefn Gontractau (Dogfen G yn y Cyfansoddiad) yn gyfredol. Cymeradwywyd Strategaeth Gaffael 2018-2022 yn 2018.<br>• Arferion cyfrifyddu – Codau Ymarfer yn cael eu dilyn. Paratoir dangosyddion darbodus a darperir adroddiadau arnynt i'r Cyngor. Cânt eu monitro trwy gydol y flwyddyn. Mae'r gyllideb yn cael ei monitro'n gyson drwy gydol y flwyddyn. Mae IA hefyd yn adolygu'r rheolaethau dros gasglu a monitro incwm. | Y fformat yn dilyn arferion gorau | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| **G3 Sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol** | Elin Prysor<br>G3.1 Sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu ar sail y camau unioni a argymhellir gan archwilwyr allanol | • Ceir perthynas waith dda â'r rheoleiddwyr allanol, gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn, AGC, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ('FSA') a'r Asiantaeth Safonau Bwyd, fel rheoleiddwyr allweddol.<br>• Cofnodwyd Protocol Archwilio Cymru ac mae gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau y rhoddir sylw i'r holl 'Ffurflenni Ymateb Rheolwyr' o bob adroddiad Archwilio Cymru ac y cyflwynir ymatebion y Gwasanaeth i'r Grŵp Arweiniol, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac Archwilio Cymru.<br>• O ran monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion, y Swyddog Llywodraethu yw pwynt cyswllt Archwilio Cymru ar gyfer Ffurflenni Ymateb Rheolwyr ('MRFs') heb eu llenwi ar gyfer 2019/20 & 2020/21, a materion parhaus ynghylch llywodraethu/MRFs sy'n ymwneud â pherfformiad. Nodir y system hon mewn Protocol, a gymeradwywyd gan y Grŵp Arweiniol ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a chyflwynwyd fersiwn wedi ddiweddaru (i adlewyrchu'r ffaith bod y Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol yn ei swydd) yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 9.9.2021.<br>• Cynhelir cyfarfodydd misol hefyd rhwng swyddogion Perfformiad ac Archwilio Cymru, a gellir eu trefnu gyda swyddogion eraill yn ôl yr angen. Cynhelir deialog rheolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru.<br>• Caiff argymhellion gan Archwilio Cymru eu cyflawni fel rhan o'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.<br>• Cyflwynir holl adroddiadau Archwilio Cymru i'r grŵp Arweiniol a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, sy'n monitro'r gwaith o gyflawni'r camau unioni. | Argymhellion wedi llywio gwelliant cadarnhaol | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau.<br><br>Monitro cynnydd Camau Gweithredu/argymhellion. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Mae'r broses o fonitro'r cynnydd a wneir o ran y Camau Gweithredu wedi cael ei datblygu. | | | | |
| | Alex Jenkins<br>G3.2 Sicrhau bod gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol, sy'n gallu cysylltu'n uniongyrchol â'r Aelodau, ar waith, ei fod yn rhoi sicrwydd o ran trefniadau llywodraethu, a bod ei argymhellion yn cael eu rhoi ar waith | • Mae'r Prif Archwiliwr Mewnol yn astudio i ennill cymhwyster IIA ar hyn o bryd, ac wedyn cymhwyster Siartredig, ac mae ganddo profiad sylweddol o lywodraeth leol, ac yn cael ei gefnogi gan dîm sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau priodol.<br>• Mae'r rheolwr Archwilio yn astudio ar gyfer cymhwyster IIA ac mae dau archwilydd yn datblygu sgiliau archwilio TGCh.<br>• Mae Swyddogion IA yn dilyn cymwysterau archwilio er mwyn gwella eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u cymhwysedd.<br>• Cwblhawyd proses i ailstrwythuro IA ym mis Mai 2019, ac un arall ym mis Tachwedd 2020. Mae pob swydd wedi'i llenwi er 1 Rhagfyr 2020.<br>• Mae CMIA newydd wedi bod yn ei le o 1 Ionawr 2022, ac mae ganddo brofiad sylweddol o faes IA, ac yn cael ei gynorthwyo gan Reolwr Archwilio gwybodus a medrus.<br>• Mae gan rôl CMIA fynediad rhydd a dilyffethair i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac mae'r ddau yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.<br>• Mae blaenraglen waith gadarn sy'n seiliedig ar risg a gweithgarwch cynllunio busnes yn ei lle.<br>• Adroddir yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am weithgarwch IA, h.y. Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn monitro perfformiad cynnydd a gwelliant a rhoddir crynodeb o'r gwaith a'r farn archwilio ynghylch sicrwydd bob blwyddyn mewn Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhelir adolygiadau dilynol er mwyn monitro bod camau gweithredu cywirol yn cael eu cymryd.<br>• Adolygir Siarter Archwilio Mewnol yn rheolaidd a chaiff ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (cymeradwywyd y fersiwn diwethaf gan y Pwyllgor Archwilio ar 19/1/22).<br>• Mae CMIA yn rhoi barn wrthrychol flynyddol ar sicrwydd ym mhrosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'r Cyngor yn seiliedig ar y sicrwydd unigol a roddir i Reolwyr ar ôl pob adolygiad archwilio ac mae hyn yn cyfrannu at yr AGS.<br>• Cyflwynir adroddiadau blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am gydymffurfiaeth â PSIAS gyda chynllun gwella sy'n deillio o hynny. Adolygiad asesu gan gymheiriaid bob pum mlynedd (yr adolygiad diweddaraf wedi'i gwblhau ym Mai 2022, yr adroddiad a'r Cynllun Gwella dilynol wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Medi 2022).<br>• Cenhadaeth IA yw gwella a diogelu gwerth sefydliadol trwy ddarparu sicrwydd, cyngor a mewnwelediad gwrthrychol sy'n seiliedig ar risg. Nodir manylion hyn yn y Siarter Archwilio mewnol, sy'n nodi hawl mynediad IA hefyd (yn unol â Rheoliadau Ariannol/Cyfansoddiad y Cyngor). | Cydymffurfio â Datganiad CIPFA ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol (2010) a datganiad 2019 CIPFA ar rôl Archwilio Mewnol<br><br>Cydymffurfio â PSIAS | ✓<br><br>✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.<br><br>Mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn cynnwys nifer lawr y staff bellach. Mae hyfforddiant yn mynd rhagddo.<br><br>Mae camau gweithredu yn eu lle i sicrhau pontio esmwyth wrth gyfnewid rôl CMIA<br><br>Trefnu adolygiad cymheiriaid 5 mlynedd gydag Ynys Môn |

Tudalen 78

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amanda Roberts / Alex Jenkins<br>G3.3 Croesawu her gan gymheiriaid, adolygiadau ac arolygiadau gan gyrff rheoleiddiol, a rhoi'r argymhellion ar waith | • Ceir perthynas waith dda â Llywodraeth Cymru, y prif reoleiddiwr. Ceir deialog reolaidd â chynrychiolwyr Archwilio Cymru.<br>• Rhoddir argymhellion Archwilio Cymru ar waith trwy'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.<br>• Mae'r Cyngor yn dysgu ac mae'n mynd ati i wella o hyd.<br>• Cynhelir asesiad allanol bob pum mlynedd o IA, yn unol â’r hyn sy’n ofynnol gan PSIAS.<br>• Cynhaliwyd yr Asesiad Allanol diwethaf o’r gwasanaeth Archwilio Mewnol ym mis Mai 2022 gan Gyngor Sir Fôn ac adroddwyd amdano i’r Pwyllgor Archwilio, ynghyd â’r Cynllun Gwella dilynol ar 27 Medi 2022.<br>• Adroddir am gynnydd, perfformiad a gwelliant IA i’r Pwyllgor Archwilio bob chwarter. | Argymhellion wedi llywio gwelliant cadarnhaol | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | Elin Prysor<br>G3.4 Cael sicrwydd o ran y risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau trwy drydydd parti, a darparu tystiolaeth o hyn yn y datganiad llywodraethu blynyddol | • AGS.<br>• Mae’r Aelodau a’r Swyddogion yn cynnal adolygiad o’r AGS bob blwyddyn. | Datganiad llywodraethu blynyddol | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | Alun Williams / Diana Davies<br>G3.5 Wrth weithio mewn partneriaeth, sicrhau bod y trefniadau atebolrwydd yn glir a bod yr angen am atebolrwydd cyhoeddus ehangach wedi'i gydnabod a'i fodloni | • Cylch gorchwyl a Chynllun Llesiant BGC.<br>• Adroddiad blynyddol gan BGC.<br>• Mae Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am gadw llygad ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd.<br>• Caiff cytundebau Partneriaeth ac Atebolrwydd eu sefydlu mewn prosiectau cydweithredol. | Cylch gorchwyl Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r cynlluniau llesiant | ✓ | 9/10 | Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. |
| | | | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymgysylltu â chraffu | ✓ | | |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

# 2022-23




DRAFT

**Cymeradwywyd gan y Cyngor [x]**

# Cynnwys


1 Crynodeb Gweithredol ....................3

2 Asesiad o effeithiolrwydd prif elfennau'r fframwaith llywodraethu ....................5

3 Cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2022-23 ....................7

4 Barn am lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei rhoi ....................36

5 Y materion a nodwyd ar gyfer y llynedd (2022-2023) ....................42

6 Cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer materion i'w hystyried yn ystod 2023-202467

7 Casgliad ....................72

8 Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ....................72


DRAFFT

## 1 CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Cyngor Sir Ceredigion ('y Cyngor') yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ei ddinasyddion. Caiff yr ymrwymiad hwnnw ei egluro yn Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 y Cyngor ac mae'n disgrifio sut y bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r heriau sydd o'i flaen ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd. Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y cyfnod hwn yw bod y Cyngor *'yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy sy'n rhoi gwerth am arian er mwyn cynnal economi gref, amgylchedd iach a hyrwyddo lles ein pobl a'n cymunedau'* a bwriedir gwireddu'r weledigaeth trwy gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol, sef:

1. Hybu'r Economi; Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth;
2. Creu cymunedau gofalgar ac iach;
3. Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu;
4. Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd.

I fod yn llwyddiannus, rhaid bod gan y Cyngor sylfaen gref o drefniadau llywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn. Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor yn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, yn unol â'n gwerthoedd. Ategir y Cod Lleol gan Fframwaith Sicrwydd Llywodraethu sy'n egluro'r sicrwydd y bydd y Cyngor yn ceisio ei gael, a'r modd y gwneir hynny.

Mae copi o God Llywodraethu Corfforaethol Lleol a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor yn https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/cynghorwyr-a-phwyllgorau/datganiad-llywodraethu-blynyddol/

Dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae dyletswydd ar y Cyngor hefyd i drefnu ei fod yn sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y caiff ei swyddogaethau eu cyflawni, gan ystyried cyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ei fusnes a hwyluso camau i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risgiau. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) mewn grym ac mae'r Cyngor wedi cymryd y camau angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Datblygwyd Fframwaith Llywodraethu yn 2010 ac mae wedi'i ddiwygio yn unol â fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government 2016.* Defnyddir y fframwaith i adolygu'r trefniadau llywodraethu bob blwyddyn.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn cyflwyno trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant sydd i gyfrannu cymaint ag y modd i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae disgwyl hefyd iddynt gymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni eu hamcanion.

Yn dilyn yr adolygiad ac yn unol â gofynion y Fframwaith, mae Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol mewn grym ac wedi'i adolygu ar gyfer 2023-24.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn dod â holl drefniadau'r Cyngor ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd ynghyd mewn un ddogfen. Mae'r Cod yn seiliedig ar y canllawiau arfer gorau a nodir yn fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government*.

Yn dilyn adolygiad gan Archwilio Cymru o Wasanaeth Cynllunio'r Cyngor a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod Ebrill i Orffennaf 2021 (cyhoeddwyd yr adroddiad yn Hydref 2021), mae'r Cyngor yn gweithio i gefnogi Archwilio Cymru gyda'u Hadolygiad Dilynol o'r Gwasanaeth Cynllunio. Ymatebir i unrhyw argymhellion fel cyfeiriad yn y cynllun gweithredu isod.

Mae Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor yn seiliedig ar y fframwaith rhyngwladol *International Framework: Good Governance in the Public Sector* (CIPFA/IFAC, 2014) a'r saith egwyddor a ganlyn:

A: Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith
B: Sicrhau ei fod yn agored ac yn ymgysylltu'n gynhwysfawr â rhanddeiliaid
C: Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
D: Penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig gystal ag y bo modd
E: Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo
F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus yn gadarn
G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol (y ddogfen hon), sy'n esbonio sut y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r saith egwyddor craidd a'r is-egwyddorion sydd yn ei Fframwaith Llywodraethu a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, a sut y mae'n bodloni gofyniad Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn rhoi sicrwydd ynghylch cydymffurfio ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Mae Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn cydnabod pwysigrwydd cael sylfaen gref o ran trefniadau llywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn. Maent yn addo ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion a gaiff eu hamlygu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, a gwella trefniadau llywodraethu'r Cyngor ymhellach.

Mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn cadarnhau eu bod wedi cael eu hysbysu ynghylch goblygiadau'r adolygiad gan yr uwch-reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, ac maent yn fodlon y bydd y camau a amlinellir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn mynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella.

Llofnodwyd ar ran **Cyngor Sir Ceredigion**

| **Arweinydd y Cyngor** | **Prif Weithredwr** |
|---|---|
| Dyddiad: xx/xx/xxxx | Dyddiad: xx/xx/xxxx |

## 2 Asesiad o effeithiolrwydd prif elfennau'r Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddangos bod ganddo'r trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol ar waith i berfformio'n effeithiol.

Mae Arweinydd y Cyngor yn darparu cyfeiriad strategol clir ac mae'r Cyfansoddiad yn diffinio rolau'r Cynghorwyr a'r Swyddogion yn glir. Mae Timau Archwilio Mewnol ac Allanol, y Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ymrwymo i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn effeithiol ac yn gadarn.

Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu yn erbyn fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government* (2016). Roedd yr adolygiad yn cynnwys gweithdy ar gyfer Aelodau/Swyddogion, lle y dadansoddwyd ac adolygwyd dogfen Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor, a'r newidiadau pellach a wnaed ar ôl y gweithdy wedi'u hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cafwyd cyfraniadau i'r adolygiad gan yr Aelodau a ganlyn: Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghyd â chynghorydd ac



DRAFT

aelodau lleyg y Pwyllgor. Yn ogystal, roedd y canlynol hefyd wedi cymryd rhan: Swyddog Monitro; Rheolwr Corfforaethol–Archwilio Mewnol; Swyddog Llywodraethu; Swyddog Arweiniol Corfforaethol–Gwasanaethau Democrataidd; Rheolwr Corfforaethol–Gwasanaethau Democrataidd; Swyddog Arweiniol Corfforaethol–Pobl a Threfniadaeth; a Rheolwr Corfforaethol–Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd.

Yn ystod y gweithdy, cyflwynwyd a sgoriwyd pob ymddygiad ar sail system sgorio, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 1/2 | Annerbyniol – angen gweithredu'n syth |
| 3/4 | Yn llai na boddhaol – angen gweithredu ar frys (cyn pen 3-6 mis) |
| 5/6 | Boddhaol – angen gweithredu (cyn diwedd y flwyddyn, 9-12 mis) |
| 7/8 | Derbyniol – gallai fod angen mân addasiadau |
| 9/10 | Da – ystyrir bod y Llywodraethu, yn gyffredinol, yn dda a'i fod yn bodloni arfer gorau – nid oes angen unrhyw gamau gweithredu pellach |

Mae pob sgôr yn y Ddogfen Fframwaith Reoleiddio yn sgôr allan o 10 e.e. mae sgôr 7/8 yn golygu sgôr rhwng 7 a 8 allan o gyfanswm o 10 marc.

Dosbarthwyd y Fframwaith Llywodraethu i swyddogion eraill sydd â chyfrifoldebau llywodraethu/rheoli yn y Cyngor hefyd. Cyflwynwyd y fframwaith adolygu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Ionawr 2023.

Mae effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu yn seiliedig ar dystiolaeth a sicrwydd sy'n deillio o:

- Archwiliadau ac Arolygiadau Mewnol ac Allanol;
- Rheolaeth Ariannol;
- Rheoli Risgiau a Pherfformiad;
- Safonau Moesegol a Chyfreithiol;
- Y Cyfarwyddwyr Corfforaethol ac Uwch-Reolwyr Eraill, gan gynnwys Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro;
- Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; a'r
- Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Yn ogystal, mae'r Rheolwr Corfforaethol–Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad annibynnol o'r Fframwaith Llywodraethu ac o'r dull sgorio a'r dystiolaeth bob blwyddyn. Cwblhawyd yr adolygiad o Fframwaith 2022/23 ym mis Ionawr 2023, gan gynnig sicrwydd 'uchel' bod system gadarn o ran craffu a chadernid yn ei lle. Adroddwyd hyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2023.

Mae'r Cyngor wedi llunio Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n amlinellu'r systemau a'r prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli'r awdurdod, ac sy'n amlinellu'r gweithgareddau a ddefnyddir ganddo i fod yn atebol i'r gymuned, ymgysylltu â hi a'i harwain. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro'r

modd y caiff ei amcanion strategol eu cyflawni, gan ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol cost-effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r cod hwnnw, a bwriedir iddi reoli risg at lefel resymol. Ni all ddileu pob risg y bydd yr awdurdod yn methu â chyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion, ac felly dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei roi. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus y bwriedir iddi adnabod a blaenoriaethu'r risgiau sy'n ymwneud â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor; gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n digwydd a'u heffaith os byddant yn digwydd; a rheoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol ar gael ar wefan y Cyngor yn https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/cynghorwyr-a-phwyllgorau/datganiad-llywodraethu-blynyddol/

Mae cod Rheolaeth Ariannol CIPFA yn gosod safonau rheolaeth ariannol ar gyfer awdurdodau lleol. Ei nod yw cefnogi arferion effeithiol o ran rheolaeth ariannol a chynorthwyo awdurdodau lleol i ddangos eu cynaliadwyedd cyllidebol. Mae Swyddog Adran 151 wedi cynnal adolygiad hunanasesu ac yn fodlon bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r cod.

## 3 Cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2022-23

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn amlinellu ymrwymiad yr awdurdod lleol i egwyddorion llywodraethu da. Yn y paragraffau canlynol, amlinellir y cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2022-23.

**A. Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith:**

**Ymddwyn gydag uniondeb**

- Cod Ymddygiad i Aelodau (diweddarwyd yn 2016) sydd ar gael ar wefan y Cyngor, ei fewnrwyd (CeriNet) dan Adnoddau Cynghorwyr, ac yn y Cyfansoddiad.
- Siart Llif Cod Ymddygiad yr Aelodau (diweddarwyd yn 2016).
- Cod Ymddygiad i Swyddogion* (adolygiad wedi'i gynnal ac wrthi'n aros i gael ei gymeradwyo), sydd ar gael gyda'r holl bolisïau a strategaethau Corfforaethol trwy wefan y Cyngor/CeriNet.
- Hyfforddiant Ymsefydlu gorfodol a hyfforddiant dilynol am y Cod Ymddygiad a moeseg i'r holl Aelodau.
- Darparwyd hyfforddiant ynghylch Moeseg/Twyll ar y cyd ag yswiriwr y Cyngor yn ystod gweithdy chwarterol 2021 y Rheolwyr Corfforaethol gan fod yn sail i fodiwl e-ddysgu ar gyfer yr holl Staff.
- Mae Archwilio Mewnol a'r Gwasanaethau Llywodraethu, gan gydweithio â Dysgu a Datblygu, wedi paratoi senarios ar gyfer hyfforddiant. Cefnogwyd yr hyfforddiant gan adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar o Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian) y Cyngor.

- Rhoddir cyngor dydd i ddydd gan y Swyddog Monitro a'r Swyddog Cymorth Craffu.
- Polisi Disgyblu (Tachwedd 2017).
- Adolygiadau Datblygiad Personol wedi'u cynnal i adolygu perfformiad.
- Cofrestr o fuddiannau Aelodau, sydd ar gael gan Wasanaethau Democrataidd y Cyngor, wedi'i adolygu gan y Swyddog Monitro.
- Mae ffurflenni Datgelu Budd a Lletygarwch i Swyddogion ac Aelodau ar CeriNet.
- Y Swyddog Monitro yn cadw golwg ac yn adolygu ffurflenni Prif Swyddogion yn flynyddol.
- Mae'r Swyddog Monitro yn cynghori Prif Swyddogion ac Aelodau ar yr angen i ddatgelu cysylltiadau personol agos â Swyddogion neu Aelodau eraill.
- Mae'r Swyddog Monitro yn parhau i gynghori Swyddogion ynghylch ffurflenni buddiannau. Ceir nodiadau atgoffa rheolaidd trwy gyfrwng Diweddariadau Newyddion ar system CeriNet ac yn y Grŵp Arweiniol.
- Gweithgarwch cyfateb data'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) i amlygu staff sy'n gyfarwyddwyr cwmnïau sydd â chysylltiadau â'r Cyngor – bydd Archwilio Mewnol yn ymchwilio i unrhyw ddiffyg datgelu ac yn adrodd i'r Swyddog Monitro.
- Ymestyn y broses datgelu budd i gynnwys gofyniad ynghylch pobl gysylltiedig: Aelodau a Swyddogion i ddatgelu os ydynt yn perthyn yn agos i Swyddogion neu Aelodau eraill neu athrawon. Mae angen datganiad/ffurflen benodol yn nodi a yw hyn yn cynnwys Prif Swyddog (ac i nodi'r berthynas).
- Ymestyn y broses datgelu budd i gynnwys gofyniad bod Aelodau yn nodi swyddi Cyfarwyddwyr – enw a rhif y cwmni, di-dâl/â thâl, budd preifat neu benodiad gan y Cyngor. Y Swyddog Monitro i atgoffa'r Aelodau o'r angen i ddatgelu'n gywir pob swydd Cyfarwyddwr (gan gynnwys cwmnïau segur).
- Ymestyn y broses datgelu budd i gynnwys gofyniad bod Aelodau yn nodi rôl o fewn aelodaeth – arsylwr, aelod, gwirfoddolwr, aelod o'r Pwyllgor, aelod Bwrdd neu Ymddiriedolwr.
- Datgelu buddiannau swyddogion i gynnwys gofyniad i ddatgan a ydynt hwy neu aelod agos o'r teulu, neu unrhyw berson neu sefydliad sy'n gweithredu ar eu rhan, ar Fwrdd, pwyllgor rheoli neu grŵp rheoli arall sefydliad y mae'r Cyngor yn ymwneud yn sylweddol ag ef.
- Mae adolygiad wrthi'n cael ei gynnal o'r cyrff allanol sydd wedi penodi Aelodau, gan gynnwys gwerth ychwanegol, a diweddaru'r Cyfansoddiad.
- Y Swyddog Monitro i wneud ymholiadau gydag ysgrifenyddion cwmnïau yn ôl yr angen i ganfod sail buddiannau Aelodau sy'n ymddiriedolwyr/Cyfarwyddwyr mewn sefydliadau neu gwmnïau elusennol, a'r rhesymeg. Gwneir ymdrech i ddiwygio Erthyglau Cymdeithasu neu ymddiswyddiad cyfarwyddwyr y Cyngor os oes angen.
- Mae gofyn i aelodau ddiweddaru'r Gofrestr Fuddiannau yn unol â'r Cod Ymddygiad, a phob blwyddyn, yn ogystal mae'n gyfle i gyfeirio at unrhyw rolau/cysylltiadau personol agos ac ati. Yn ogystal, rhaid i Aelodau ddatgelu buddiannau mewn cyfarfodydd, mae hyn yn cynnwys aelodau annibynnol/lleyg.
- Cadw Cofrestr Swyddi dan Gyfyngiad Gwleidyddol ar gyfer Swyddogion a Pholisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol ar gael i weithwyr ar CeriNet. Cyhoeddi Cofrestr o Swyddi o dan Gyfyngiad Gwleidyddol ar wefan y Cyngor.
- Ffurflenni goddefebau (*dispensations*) i aelodau wedi'u diweddaru yn 2022.
- Y Swyddog Monitro yn cwrdd ag arweinwyr grwpiau gwleidyddol bob chwarter i ystyried eu dyletswyddau newydd i gynnal safonau ymddygiad Aelodau yn eu grŵp.
- Arweinwyr grwpiau gwleidyddol i gydweithio â'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ôl yr angen i gyflawni eu dyletswyddau newydd.

DRAFT

- Arweinwyr grwpiau gwleidyddol i gwblhau templed sy'n nodi'r camau a gymerwyd i ddangos cydymffurfiaeth â'u dyletswyddau newydd.
- Gweithdrefn Penderfyniadau Lleol ar gyfer Aelodau: Aelod heb grŵp/cysylltiad gwleidyddol yn cael cyngor/cefnogaeth Cadeirydd/Is-Gadeirydd y Cyngor.
- Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi cael hyfforddiant ar ei ddyletswyddau newydd (o fis Mai 2022) dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021').
- Diwygiwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Rheoli Datblygu i nodi'n glir ei ddiben, ei rôl a'i gyfrifoldebau, a sut mae'n cysylltu â Blaenoriaethau Corfforaethol.
- Diwygiwyd y ddogfen Gweithdrefnau Gweithredol ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Mae proses 'cyfnod callio' wedi'i sefydlu er mwyn adolygu ceisiadau cynllunio, a allai, o'u cymeradwyo, fod yn wyro sylweddol oddi wrth bolisi.
- Mae'r Cynllun Dirprwyo yn cynnwys meini prawf ar gyfer ceisiadau y mae'n rhaid eu cyfeirio at y Pwyllgor Rheoli Datblygu, a'r ceisiadau hynny y gellir eu dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol.
- Mae Protocol Arfer Da i Gynghorwyr yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi'i lunio a'i gynnwys yn y Cyfansoddiad.
- Mae perthynas waith dda yn bodoli gyda'r holl brif reoleiddwyr.
- Caiff y Cyfansoddiad ei adolygu'n rheolaidd, gyda diweddariadau parhaus yn ôl yr angen, gan gynnwys cyflwyno newidiadau arfaethedig i Weithgor Trawsbleidiol y Cyfansoddiad, i wneud argymhellion i'r Cyngor ar newidiadau i'r Cyfansoddiad. Y Swyddog Monitro/Swyddog Llywodraethu yn adrodd i'r Cyngor i ddiweddaru dirprwyaethau a'r Cyfansoddiad.
- Mae Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 yn cynnwys Amcanion Llesiant Corfforaethol sy'n nodi blaenoriaethau ac amcanion lefel uchel y Cyngor ynghyd â chamau gweithredu ategol yn flynyddol.
- Mae'r Amcanion Llesiant a Gwella yn adeiladu ar y meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 ac fe'u hadolygir yn flynyddol. Datblygir y rhain mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd ac Aelodau.
- Rhaid i bob aelod o staff gwblhau modiwl hyfforddi E-ddysgu gorfodol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
- Ystyrir materion ynghylch ymddygiad a safonau Aelodau gan Bwyllgor Moeseg a Safonau y Cyngor. Cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus yn rheolaidd, ac fe'u cadeirir gan unigolyn annibynnol – pennu goddefebau, ac ystyried materion strategol/polisi a chael diweddariadau gan achosion Panel Dyfarnu Cymru (APW) a chanfyddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Rhoddir cyngor i'r Pwyllgor a'r Aelodau gan y Swyddog Monitro a'r Swyddog Safonau.
- Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Moeseg a Safonau i'r Cyngor ym mis Hydref 2022.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried adroddiadau llywodraethu ac adroddiadau gan reolydd allanol. Caiff ei gadeirio gan aelod anweithredol.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnal ymarfer meincnodi bob blwyddyn er mwyn cynnig sicrwydd pellach am yr adolygiad ar y broses Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Swyddog Monitro yn adolygu ac yn adrodd ar y broses yn flynyddol.
- Mae 'Strategaeth i Oresgyn Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' effeithiol ar waith (diweddarwyd Mehefin 2021).
- Cyflwynir Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ynghylch Atal Twyll i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ddiwedd y flwyddyn.

- Diweddarir aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am dwyll gan gynnwys adroddiad atal twyll blynyddol Archwilio Mewnol a gyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ddiwedd y flwyddyn.
- Cynhaliwyd Archwiliad Moeseg yn ystod 2019. Gwnaed gwaith Archwilio Mewnol dilynol hefyd ar drefniadau'r Cyngor o ran moeseg (wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd).
- Mae Polisi Chwythu'r Chwiban ar gael i Gyflogeion a Chontractwyr (mae wedi'i adolygu ac yn aros am gymeradwyaeth ar hyn o bryd).
- Rhaid i bob aelod o Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol ynghylch Chwythu'r Chwiban. Mae'r Swyddog Monitro yn cadw cofrestr o atgyfeiriadau ac yn adrodd i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu bob 6 mis.
- Cyhoeddwyd Polisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol diwygiedig ar 1.10.2021.
- Rhoddir sylw i'r holl gŵynion yn unol â'r gweithdrefnau corfforaethol, sy'n cynnwys camau anffurfiol a ffurfiol, a chaiff y rhain eu cyfleu i Staff yn rheolaidd.
- Caiff y system gŵynion ei monitro gan y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol.
- Ystyrir Adroddiad Cwynion Blynyddol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor. Mae'n cynnwys y Gwersi a Ddysgwyd o'r cwynion a dderbyniwyd.
- Caiff Agenda/Cofnodion pob pwyllgor eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor, gan gynnwys datgelu buddiannau.
- Caiff Hysbysiadau am Benderfyniadau'r Cabinet eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.
- Parhau y mae'r paratoi at gyhoeddi cofrestr penderfyniadau dirprwyedig.
- Cofrestr Contractau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**Dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol**

- Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn hyrwyddo cydymffurfiaeth foesegol er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd ymddiriedaeth a hyder bod Aelodau a Swyddogion yn gweithio yn unol â'r safonau moesegol a moesol uchaf.
- Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi bod yn rhagweithiol, gan arwain ar sesiynau hyfforddiant a rhoi gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer trefniadau goddefebau. Adolygwyd y strwythur yn ddiweddar er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Mae swyddogion fel Archwilwyr Mewnol yn llofnodi cadarnhad Cod Moeseg yn flynyddol.
- Mae gwaith dilynol hefyd ar y gweill ar drefniadau Archwilio Mewnol yn ymwneud â Moeseg y Cyngor (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd).
- Cynhaliodd Cyngor Sir Gâr archwiliad annibynnol o foeseg o fewn y Cyngor yn ystod 2019.
- Caiff Llawlyfr Gweithwyr ei adolygu'n flynyddol, mae ar gael ar CeriNet, mae'n nodi ymddygiad disgwyliedig Gweithwyr ac mae'n cynnwys y Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol.
- Mae hyfforddiant ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth a recriwtio a dethol, gan gynnwys cyfle cyfartal, yn orfodol i holl Reolwyr Cyngor Sir Ceredigion.
- Rhaid i'r holl staff gwblhau modiwl e-ddysgu ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Mae Amodau a Thelerau safonol ar gyfer yr holl Gyflenwyr Nwyddau a gwasanaethau yn cynnwys amodau sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.
- Cymeradwywyd Strategaeth Gaffael 2018-2022 gan y Cyngor ar 19 Mehefin 2018.
- Yn raddol mae hyfforddiant ynghylch caffael yn cael ei gyflwyno i'r Staff hefyd.
- Polisi DBS a Pholisi Recriwtio'r Cyngor.

- Dosbarthwyd yr Holiadur Dadansoddi Anghenion Hyfforddiant ar ffurf cylchlythyr gan y Cyngor i'r Staff, yn holi eu barn am ddiwylliant moesegol y Cyngor ac mae modiwl hyfforddiant wedi'i gynllunio er mwyn ymateb i'r adborth.

**Parchu rheolaeth y gyfraith**

- Cyfansoddiad y Cyngor.
- Mae cylch gorchwyl wedi'i gynnwys yn y Cyfansoddiad.
- Rhoddir ystyriaeth i Egwyddorion Diogelu Data a phrosesu gwybodaeth bersonol yng nghyd-destun Pwyllgorau'r Cyngor a'r holl Aelodau.
- Mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer pob Aelod (Cyflwyniad i'r Cyngor, gan gynnwys GDPR).
- Caiff pwerau statudol a goblygiadau cyfreithiol eu cynnwys ym mhob adroddiad Cabinet lle gwneir penderfyniad.
- Rhoddir cyngor/goblygiadau Cyfreithiol ac Ariannol am yr holl adroddiadau priodol y mae gofyn gwneud penderfyniad amdanynt.
- Mae'r Swyddog Monitro a'r Gwasanaethau Cyfreithiol ar gael i roi cyngor pan fo hynny'n briodol.
- Mae'r Swyddog Monitro yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Arweiniol/Cabinet/Cyngor ac mae'n mynychu nifer o gyfarfodydd cyhoeddus yn rheolaidd, yn ôl y gofyn, os bydd ar gael ar y pryd. Yn absenoldeb y Swyddog Monitro, bydd y Dirprwy Swyddog Monitro yn mynychu cyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor.
- Mae gan y Swyddog Monitro fynediad uniongyrchol i'r Prif Weithredwr ac mae'n adrodd i'r Cyngor yn gyffredinol ac fel rhan o ddyletswydd statudol.
- Mae'r Swyddog Monitro yn gweithredu polisi drws 'agored' i Aelodau sy'n dymuno cael cyngor ynghylch 'ymddygiad' a 'llywodraethu'.
- Mae disgrifiadau swydd a manylebau person yn diffinio'n glir y rolau a'r cyfrifoldebau sy'n ofynnol ar gyfer swyddi.
- Mae disgrifiadau rôl Aelodau yn nodi eu gwahanol gyfrifoldebau.
- Cydymffurfir â Datganiad CIPFA ynghylch Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol (CIPFA, cyhoeddwyd 13 Ebrill 2016).
- Cydymffurfir â Datganiad CIPFA ynghylch Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus (CIPFA, cyhoeddwyd 9 Ebrill 2019) a chyhoeddwyd cyfraniad yn nogfen gysylltiedig CIFPA, *Putting Principles into Practice* (2019).
- Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Rheoliadau Ariannol (Dogfen F y Cyfansoddiad).
- Rheolau Gweithdrefn Contractau (Dogfen G yng Nghyfansoddiad y Cyngor).
- Cydymffurfiaeth â Chodau Penodol e.e. Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus i Archwilwyr Mewnol ('PSIAS', Mawrth 2017)
- Diweddarir aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar dwyll gan gynnwys adroddiad atal twyll blynyddol yr Archwiliad Mewnol.
- Swyddogion statudol sy'n atebol i'r Prif Weithredwr a'r Cyngor.
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Prif Weithredwr, Swyddog Adran151 a'r Swyddog Monitro.
- Mae gan y Rheolwr Corfforaethol–Archwilio Mewnol ('CMIA') fynediad rhydd a dilyffethair i Aelodau a Swyddogion ar bob lefel, yn ogystal â hawl mynediad yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor a'r Siarter Archwilio Mewnol.
- Mae Swyddog yn y tîm Archwilio Mewnol yn Dechnegydd Atal Twyll achrededig, ac mae ail swyddog bellach yn gwneud y cymhwyster hefyd.
- Mae gan Swyddog yn y tîm Archwilio Mewnol dystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwilio ('CCIP').

DRAFT

- Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Menter Twyll Genedlaethol flynyddol Archwilio Cymru, sydd wedi'i chydlynu ar hyn o bryd gan yr Archwilwyr Mewnol.
- Mae monitro yn digwydd ac ymatebir i rybuddion ynghylch twyll (NAFN, rhwydweithiau ehangach, cymheiriaid, ac ati).
- Aelodaeth a chyfranogiad weithredol mewn grwpiau a rhwydweithiau proffesiynol (Tisonline, KHub, ac ati).
- Mae Swyddogion enwebedig yn y Cyngor yn gwneud hyfforddiant amrywiol ynghylch twyll er mwyn cynnal eu gwybodaeth a'u harbenigedd.
- Pan fo hynny'n briodol, cyhoeddir erlyniadau llwyddiannus ar wefan y Cyngor (ac yn y wasg leol).

**B. Sicrhau ei fod yn agored a'i fod yn ymgysylltu'n gynhwysfawr â rhanddeiliaid**

**Bod yn agored**

- Mae holl gyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau yn agored i'r cyhoedd ac mae agendâu a phapurau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor (ac eithrio adroddiadau eithriedig, gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972).
- Caiff cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet eu darlledu.
- Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, mae trefniadau wedi'u gwneud i alluogi cynnal cyfarfodydd hybrid o fis Mai 2022. Mae offer newydd wedi'u gosod yn y Siambr. Mae cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet yn cael eu darlledu ar dudalennau Facebook y Cyngor. Gall aelodau'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd o bell neu yn bersonol.
- Cyhoeddir yr holl Adroddiadau Blynyddol, Datganiad Cyfrifon ac Adroddiadau Cynnydd Gwelliant Statudol o fewn terfynau amser ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.
- Cynllun cyhoeddi'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
- Mae llu o feysydd gwasanaeth ar gael ar-lein gan gynnwys gwybodaeth a hunanwasanaeth y dreth gyngor.
- Mae amcanion a gwerthoedd y Cyngor wedi'u nodi yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022.
- Gwefan Cyngor Sir Ceredigion.
- Mae cyfeiriadau e-bost y Swyddog Monitro a Moeseg a Safonau generig wedi'u creu.
- Ymatebion rheolaidd ac amserol i'r wasg ac ymholiadau eraill i Reolwyr ac aelodau, yn ogystal ag ymatebion Rhyddid Gwybodaeth cynhwysfawr.
- Mae'r adolygiad o gynllun Cyhoeddi'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn mynd rhagddo.
- Polisi Rhyddid Gwybodaeth (Mawrth 2018).
- Mae Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth Corfforaethol yn eu swydd.
- Hysbysiad Preifatrwydd Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth.
- Cymeradwywyd Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd Trosolwg a Chraffu (2018) (Dogfen N y Cyfansoddiad) gan y Cyngor ac fe'i defnyddiwyd sawl gwaith.
- Ceir protocol er mwyn siarad yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu (Rhan 4 Dogfen I y Cyfansoddiad).
- Mae Protocol ar fynediad gan Aelodau'r Cabinet i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor (Rhan 5 Dogfen M2 y Cyfansoddiad).
- Datblygwyd offeryn a chanllawiau Asesiad Effaith Integredig ('IIA') ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol, ac mae wrthi'n cael eu rhoi ar waith.

- Mae templed adroddiad y Cyngor / Cabinet wedi'i ddiweddaru i gynnwys cyfeiriad at oblygiadau cyfreithiol, goblygiadau staffio, goblygiadau eiddo / asedau a risgiau ac i adlewyrchu Strategaeth Gorfforaethol newydd 2022-2027.
- Defnyddir canllawiau a thempledi safonol er mwyn adrodd i'r Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac mae'r rhain oll yn cynnwys canlyniadau Asesiadau Effaith Integredig.
- Mae Protocol mewn grym ar gyfer perthnasoedd gwaith rhwng Aelodau a Swyddogion (e.e. Protocol Swyddog-Aelod) (Rhan 5 y Cyfansoddiad)
- Cyhoeddir calendr o ddyddiadau cyfarfodydd, gan gynnwys blaenraglenni gwaith y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau ar wefan y Cyngor.
- Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sefydliadol ar gael fel modiwl dewisol yn y Rhaglen Rheolwr Corfforaethol, sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a defnyddio Asesiadau Effaith Integredig.
- Mae'r Rhestr Gyfeirio Ymgysylltu ac Ymgynghori yn cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid cynnal ymgynghoriad ai peidio am newid arfaethedig ac mae canllawiau ynghylch lledaenu canlyniadau ymgynghori ar gael i Swyddogion.
- Adroddir am y cydymffurfio â PSIAS bob blwyddyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chynllun gwella yn dilyn hyn. Cynhelir gweithgarwch adolygu asesu gan gymheiriaid bob pum mlynedd (cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf ym mis Mai 2022 gan Gyngor Sir Ynys Môn, cyflwynwyd yr adroddiad a'r cynllun gwella dilynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Medi 2022).
- Cenhadaeth Archwilio Mewnol yw gwella a diogelu gwerth sefydliadol trwy gynnig sicrwydd, cyngor a barn wrthrychol ac sy'n seiliedig ar risg. Nodir manylion hyn yn

DRAFT

y Siarter Archwilio fewnol, sy'n nodi hawl mynediad Archwilio Mewnol hefyd (yn unol â Rheoliadau Ariannol/Cyfansoddiad y Cyngor).

- Pennir cytundebau Atebolrwydd a Phartneriaeth mewn prosiectau ar y cyd.

## 4 Barn am lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei rhoi

Mae'r Rheolwr Corfforaethol–Archwilio Mewnol (CMIA) yn paratoi Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn, a gyflwynir fel rheol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Mae'r adroddiad yn amlinellu canlyniadau unigol a chyfunol yr adolygiadau archwilio a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ac mae'n rhoi'r farn archwilio gyffredinol am sicrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio hwnnw. Mae'r sicrwydd a roddir hefyd yn rhoi sylw i gynnydd o ran gweithredu gwelliannau, ystyriaeth o'r gofrestr risgiau, a'r sicrwydd a roddir mewn adroddiadau a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr allanol. Yn yr adroddiad ceir manylion ynghylch cwmpas y gwaith archwilio, a'r angen i ailflaenoriaethu'n gyson er mwyn sicrhau bod gwaith digonol yn cael ei gyflawni ar gyfer rhoi sicrwydd.

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys canlyniadau hunanasesiad blynyddol y gwasanaeth archwilio mewnol, sy'n seiliedig ar dempled Nodyn Cymhwyso CIPFA i Lywodraeth Leol. Roedd y templed yn destun adolygiad allanol gan gymheiriaid ym mis Mai 2022, a'r bwriad yw ailadrodd asesiad allanol bob pum mlynedd fel sy'n ofynnol gan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Mae'r cynlluniau gwella sy'n deillio o'r asesiadau hyn yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiadau Cynnydd chwarterol a gyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a chânt eu hadolygu'n flynyddol yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol.

Mae'r Cynlluniau Gwella yn nodi'r gwelliannau a wnaed ac y bwriedir eu gwneud yn sgil yr argymhellion sy'n codi o'r asesiadau, ynghyd â chanlyniadau Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella'r gwasanaeth yn unol â gofynion PSIAS, er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn medru monitro cynnydd y gwasanaeth.

Lluniwyd Adroddiad am gynnydd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-2023 a Chynllun Gweithredu'r Flwyddyn Gyfredol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 3 Mehefin 2021.

Mae Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/4/2022-30/6/2022 (a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Medi 2022, a'r cyfnodau dilynol i'w disgwyl ar 17 Ionawr 2023, 9 Mawrth 2023 a 2 Mehefin 2022) yn cynnwys y camau gweithredu a gymerwyd hyd yma er mwyn cyflawni'r gwelliannau arfaethedig a nodwyd.

Mae strwythur staffio'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi bod yn gyflawn yn ystod y flwyddyn 2022-2023.

Ar 10 Mawrth 2022 hefyd, cyflwynodd y CMIA y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/23 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Diben hwn yw sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni ar lefel ddigon eang i ategu'r farn flynyddol am effeithiolrwydd y systemau llywodraethu, gwaith rheoli risgiau, a rheolaeth fewnol ar

draws y Cyngor. Roedd y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/23 yn crynhoi'r meysydd gwaith yr oedd yr Adran Archwilio Mewnol yn bwriadu canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn, gan ystyried y sefyllfa oherwydd y pandemig.

Mae'r gwasanaeth wedi cael ei ddarparu ar sail fwy adweithiol eleni, yn yr un modd â'r flwyddyn flaenorol, oherwydd yr amryw risgiau a gyflwynwyd yn sgil newidiadau angenrheidiol i arferion gweithio'r Cyngor, er enghraifft grantiau untro'n cael eu rhoi, grwpiau'n cael eu sefydlu i dargedu meysydd penodol lle'r oedd newid yn digwydd, mwy o staff yn gweithio gartref, ac ati. Mae gwaith archwilio mewnol wedi'i asesu yn barhaus ac mae anghenion a blaenoriaethau cyfnewidiol y Cyngor wedi cael eu hystyried yn rheolaidd. Yn ychwanegol i'r gwaith adweithiol hwn, rhoddir sicrwydd ar gyfer 2022/23 ar adolygiadau a gynllunnir ac sy'n cael eu cario ymlaen neu'n cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn er mwyn asesu lefel flynyddol y sicrwydd ar gyfer y Cyngor. Mae'r holl gamau gweithredu a gymerwyd wedi bod yn gyson â'r nodyn cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Cynghori ar Safonau Archwilio Mewnol. At hynny, mae rhagor o adnoddau wedi'u neilltuo i ddatblygu'r system mapio sicrwydd er mwyn ategu ymhellach y sicrwydd a roddir ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gan y Cyngor, er enghraifft, rwymedigaeth daer i ddyfarnu grantiau amrywiol i fusnesau cymwys yn y Sir, ac oherwydd hawliadau twyllodrus posibl, mae Archwilio Mewnol wedi parhau i adolygu sampl o geisiadau cyn talu (mae'n haws stopio taliadau nag adfer yr arian wedi hynny), gan ychwanegu gwerth i weithrediadau'r Cyngor o ganlyniad i amgylchiadau sy'n newid, fel y'i cefnogir gan nodiadau arweiniad y Bwrdd Cynghori Safonau Archwilio Mewnol.

Daeth y CMIA i'r casgliad yn ei Hadroddiad Blynyddol 2021/22 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 06/06/2022 bod gan y Cyngor fframwaith boddhaol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol ar waith i reoli cyflawni amcanion y sefydliad yn ystod y flwyddyn, yn seiliedig ar:

- nifer, cwmpas a'r sicrwydd a gafwyd o'r adolygiadau mewnol ac allanol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022,
- a'r ffaith bod y rheolwyr wedi derbyn y camau a gymerwyd (pan fo modd).

Fodd bynnag, oherwydd effaith barhaus y pandemig, dylid nodi na chafodd unrhyw ysgolion eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, cynhaliwyd archwiliadau penodol wrth archwilio'r Grant Gwella Addysg a'r grant Datblygu Disgyblion (PDG).

Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn destun adolygiad gan Archwilio Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r wybodaeth sydd ganddo ac â deddfwriaeth. Yn ogystal, mae'r Adran Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad annibynnol blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Blynyddol ac o'r dull sgorio a'r dystiolaeth, fel y nodir ym Mhwynt 2 uchod.

Swyddog Arweiniol Corfforaethol–Cyswllt Cwsmeriaid y Cyngor yw Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yr awdurdod, ac mae'n gyfrifol hefyd am Ddiogelu Data a Diogelwch TGCh.

Yn draddodiadol, roedd Fforwm SIRO yn cynnwys arbenigwyr am faterion: e.e. Cyfleusterau, Diogelu Data, Diogelwch TG, Pennaeth TG, Cyfreithiol, AD a rhywfaint o gynrychiolaeth adrannol. Mae hwn yn cyfarfod bob chwarter i drafod materion sy'n ymwneud â risg gwybodaeth a rheoli gwybodaeth.

Mae rolau allweddol a threfniadau craffu presennol y Tîm Asedau Gwybodaeth fel a ganlyn:

- Swyddog Diogelwch TG ('ITSO') sy'n cynghori ynghylch diogelwch data, a chynghorwyr ac ymgynghorwyr allanol yn cael eu defnyddio o bryd i'w gilydd i roi prawf ar drefniadau diogelwch yr Awdurdod a chynghori yn eu cylch;
- Swyddog Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion ('IRMO') sy'n cynghori ynghylch cydymffurfio â'r gyfraith ac sy'n sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith ac y glynir wrthynt;
- Mae'r Grŵp Corfforaethol Diogelu Data (a elwir yn fewnol yn gyfarfod Grŵp Corfforaethol Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth / Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol) yn cwrdd bob chwarter, a chaiff ei gadeirio gan y Pennaeth Polisi Gwasanaeth (Dirprwy Pennaeth TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid);
- Cyflwynir Adroddiadau Blynyddol yn ôl yr angen i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor.

Yn ogystal:

- Y Swyddog Diogelwch TG ('ITSO') yw Is-gadeirydd Fforwm Diogelwch Sector Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (WARP Cymru) sy'n cwrdd bob chwarter.
- Y Swyddog Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion ('IRMO') yw Cadeirydd Cymdeithas Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion Cymru ac mae'n trefnu digwyddiadau ar draws Cymru.
- Mae'r IRMO yn aelod o Banel Sicrhau Ansawdd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Yn dilyn yr adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu, bernir bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn dda ar y sail bod mwyafrif y sgorau a roddwyd yn 9/10.

Mae cyflwyno'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n amlinellu'r ffordd y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i egwyddorion craidd Fframwaith *Delivering Good Governance in Local Government* CIPFA/SOLACE yn cynnig arweiniad i'r holl Aelodau a Swyddogion am yr agenda lywodraethu.

Bydd adolygu'r Cod Llywodraethu Lleol yn rheolaidd yn rhoi lefel uchel o sicrwydd bod y trefniadau llywodraethu'n addas i'w diben.

DRAFT

## 5 Y materion a nodwyd ar gyfer y llynedd (2022-2023)

Mae'r tabl canlynol yn cofnodi'r camau gweithredu a gymerwyd yn ystod 2022-23 i ddatrys y materion a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2021-2022:

Sylwer: bydd unrhyw gamau gweithredu nad ydynt wedi'u cwblhau'n llawn erbyn y dyddiad cwblhau yn cael eu cario ymlaen i Gynllun Gweithredu 2023-2024.

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| A1.1 Sicrhau bod yr Aelodau a'r Swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle maent yn gweithredu'n amlwg ac yn gyson er budd y cyhoedd, gan warchod enw da'r sefydliad drwy wneud hynny | Y Swyddog Monitro (SM) i barhau i gynghori Aelodau ymhellach am yr angen i ddatgelu lletygarwch/rhoddion.<br><br>Y Swyddog Monitro i roi cyngor i Brif Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgelu:<br>• cysylltiadau personol agos gyda Swyddogion neu Aelodau eraill, Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion<br><br>Y SM a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd i barhau i gynnal adolygiad o Aelodau sydd â swyddi cyfarwyddwyr, ymddiriedolaethau neu aelodaeth pan gânt eu penodi i bwyllgorau a chyrff allanol, a'r Swyddog Monitro i ystyried adborth aelodau a gwerth ychwanegol, gan barhau i | Y SM yn parhau i gynghori'r Aelodau bod angen datgelu rhoddion / lletygarwch.<br><br>Y SM yn cynghori aelodau ar yr angen i ddatgelu cysylltiadau personol agos â Swyddogion neu Aelodau eraill, a pharhau i'w hatgoffa o hynny.<br><br>Mae adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion yn dal i fynd rhagddo.<br><br>Mae adolygiad o'r Aelodau sydd â swyddi cyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr neu aelodaeth yn parhau.<br><br>Y SM i ystyried adborth aelodau a gwerth ychwanegol. | EP/LE | Mawrth 2023 |

Tudalen 113

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | ddiweddaru'r Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion ac Aelodau.<br><br>Diweddaru'r ffurflen Goddefebau i Aelodau<br><br>Ni chynhaliwyd arfarniadau oherwydd pandemig Covid-19 ond maent bellach wedi ailddechrau (wedi'u cynnal ym mis Mai 2021 ac yn parhau i gael eu cynnal yn rhithwir).<br><br>Cod Ymddygiad diwygiedig ar gyfer Swyddogion i'w gyhoeddi ar ôl ei ddiweddaru a'i gymeradwyo.<br><br>Swyddogion i gwblhau modiwl e-hyfforddiant gorfodol ar Foeseg/Twyll ar ôl ei gwblhau a'i gymeradwyo.<br><br>Sefydlwyd camau gweithredu / dogfennau llywodraethu'r Pwyllgor Cynllunio/Rheoli Datblygu, hyfforddiant i'w ddarparu a chynnydd i'w adolygu yn ystod 2022-2023.<br>. | Mae'r ffurflen Goddefebau i aelodau wedi'i diweddaru.<br><br>Arfarniadau wedi'u hailddechrau.<br><br>Cod Ymddygiad diwygiedig ar gyfer Swyddogion i'w gyhoeddi ar ôl ei gymeradwyo.<br><br>Modiwl e-ddysgu Moeseg/Twyll yn dal i aros am gymeradwyaeth.<br><br>Trafodaethau wrthi'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gydag Archwilio Cymru i gefnogi eu Hadolygiad Dilynol o'r Gwasanaeth Cynllunio.<br>Ymatebir i unrhyw argymhellion. | | |

DRAFT

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| A1.2 Sicrhau bod Aelodau'n cymryd yr awenau wrth sefydlu egwyddorion neu werthoedd gweithredu safonol penodol ar gyfer y Sefydliad a'i Staff a'u bod yn cael eu cyfathrebu a'u deall. Dylai'r rhain adeiladu ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) | Camau gweithredu/dogfennau llywodraethu'r Pwyllgor Cynllunio/Rheoli Datblygu wedi'u sefydlu, hyfforddiant i'w roi a chynnydd i'w adolygu yn ystod 2022-2023. | Trafodaethau wrthi'n cael eu cynnal gydag Archwilio Cymru i gefnogi eu Hadolygiad Dilynol o'r Gwasanaeth Cynllunio. Ymatebir i unrhyw argymhellion. | EP/LE | Mawrth 2023 |
| A1.3 Arwain trwy esiampl a defnyddio'r gwerthoedd neu'r egwyddorion gweithredol safonol hyn fel fframwaith er mwyn gwneud penderfyniadau a chymryd camau eraill. | Y Grŵp Arweiniol i gael diweddariad am e-Ddysgu gydag AD yn adrodd i'r Grŵp Arweiniol. | Wedi'i gwblhau<br><br>Hyfforddiant Cod Ymddygiad wedi'i roi i bob Aelod yn dilyn Etholiadau Lleol 2022 | GE | Mawrth 2023 – wedi'i gyflawni |

DRAFT

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| A1.4 Arddangos, mynegi ac ymgorffori'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol drwy bolisïau a phrosesau priodol a adolygir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol | Cofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig i'w chyhoeddi.<br><br>Parhau i fonitro'r nifer sy'n gwneud modiwl e-ddysgu gorfodol Chwythu'r Chwiban. Ar hyn o bryd mae'n is na'r hyn sy'n ofynnol.<br><br>Adolygu polisi Chwythu'r Chwiban. | Mae gwaith ar gyhoeddi Cofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig yn dal i fynd rhagddo.<br><br>Parhau i fonitro cwblhau'r modiwl e-ddysgu gorfodol Chwythu'r Chwiban.<br><br>Adolygwyd y polisi Chwythu'r Chwiban; mae'n aros i gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a'r Cabinet. | EP/HR | Mawrth 2023 |
| A3.1 Sicrhau bod aelodau a Staff yn dangos ymrwymiad cadarn i'r gyfraith, yn ogystal â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol | Hyfforddiant pellach i'w ddarparu i'r holl Aelodau ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag Egwyddorion Diogelu Data a hysbysiadau preifatrwydd. Hysbysiadau preifatrwydd i Gynghorwyr yn cael eu datblygu ac i'w darparu. | Hyfforddiant wedi'i roi i'r holl Aelodau ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag Egwyddorion Diogelu Data.<br><br>Hysbysiadau preifatrwydd i Gynghorwyr yn cael eu datblygu ac i'w darparu gan y Swyddog Diogelu Data. | EP/LE | Mawrth 2023 |



DRAFT

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| B1.1 Sicrhau bod diwylliant agored ar waith, drwy ddangos, cofnodi a mynegi ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored | Cwblhau adolygiad o Gynllun Cyhoeddi'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, sydd ar y gweill. | Diweddarwyd y Polisi Rhyddid Gwybodaeth a'r Polisi Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR). Mae adolygiad o Gynllun Cyhoeddi'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn mynd rhagddo. | LE/AW/MNH | Mawrth 2023 |
| B3.1 Sefydlu polisi clir ar y math o faterion y bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ystyrlon â dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill yn eu cylch, neu'n eu cynnwys ynddynt, i sicrhau bod gwasanaeth (neu ddarpariaeth arall) yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig | O ganlyniad i bandemig Covid-19, bu angen i benderfyniadau gael eu gwneud gan y Grŵp Rheoli Aur am resymau brys (o dan swyddogaeth weithredol dros dro trosglwyddo pŵer sydd ar waith tan 31.8.2021 ac ar gyfer gweithdrefnau gweithredol o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ar ôl y dyddiad hwnnw), felly mae wedi bod yn amhosibl i nifer o wasanaethau ymgynghori wyneb yn wyneb yn y gymuned ar hyn o bryd, felly diwygiwyd y sgorio i adlewyrchu hyn.<br><br>Parhau i fwrw ymlaen â'r adolygiad o'r Polisi Ymgysylltu â'r Gymuned a fydd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y dyfodol. | Nid yw'r Grŵp Rheoli Aur yn cwrdd bellach.<br><br>Mae Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi newydd, 'Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd' wedi'i gyhoeddi. Angen adolygu rhoi'r polisi hwn ar waith cyn bod y cam gweithredu wedi'i gwblhau. | AW | Mawrth 2023 |

Tudalen 117

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| D2.3 Ystyried a monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir | Parhau i roi ystyriaeth i newidiadau deddfwriaethol e.e. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.<br><br>Gweithredu newidiadau deddfwriaethol, megis ynghylch Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac ystyried/monitro'r risgiau sy'n wynebu pob partner wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir. | Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi cyfrif am newidiadau deddfwriaethol.<br><br>Bydd risgiau sy'n wynebu pob partner wrth weithio ar y cyd yn parhau i gael eu hystyried/monitro. | AW/EP | Mawrth 2023 |
| G3.1 Sicrhau y gweithredir ynghylch argymhellion sy'n ymwneud â chamau cywiro gan archwilwyr allanol | Monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion | Parhau y mae'r monitro ar gynnydd camau gweithredu/argymhellion | EP/AW | Mawrth 2023 |

DRAFT

## 6 Cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer materion i'w hystyried yn ystod 2023-2024

Yn sgil gweithredu ac adolygu fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government* (2016), nodwyd y materion a ganlyn i'w datrys yn ystod 2023-24:

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| A1.1 Sicrhau bod yr Aelodau a'r Swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle maent yn gweithredu'n amlwg ac yn gyson er budd y cyhoedd, gan warchod enw da'r sefydliad drwy wneud hynny | Y Swyddog Monitro i barhau i gynghori Aelodau ar y Cod Ymddygiad.<br><br>MO i barhau i gynghori'r Prif Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgelu:<br><br>• cysylltiadau personol agos gyda Swyddogion neu Aelodau eraill, Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion<br><br>Adolygu – Aelodau sydd â swyddi cyfarwyddwr, ymddiriedolaethau, neu aelodaeth, y Swyddog Monitro i ystyried adborth gan aelodau a gwerth ychwanegol.<br><br>Cyhoeddir y Cod Ymddygiad diwygiedig i Swyddogion ar ôl iddo gael ei gymeradwyo. | Ymgorffori ymddwyn gydag uniondeb ymhellach. | EP/LE | Mawrth 2024 |

Tudalen 119

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | Swyddogion i gwblhau modiwl e-hyfforddiant Gorfodol ynghylch Moeseg/Twyll ar ôl iddo gael ei gwblhau a'i gymeradwyo.<br><br>Camau gweithredu/dogfennau llywodraethu'r Pwyllgor Cynllunio/Rheoli Datblygu wedi'u sefydlu, hyfforddiant i'w roi a chynnydd i'w adolygu yn ystod 2022-2023.<br><br>Trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gydag Archwilio Cymru i gefnogi eu Hadolygiad Dilynol o'r Gwasanaeth Cynllunio. Ymatebir i unrhyw argymhellion. | | | |
| A1.2 Sicrhau bod Aelodau'n cymryd yr awenau wrth sefydlu egwyddorion neu werthoedd gweithredu safonol penodol ar gyfer y Sefydliad a'i Staff a'u bod yn cael eu cyfathrebu a'u deall. | Camau gweithredu/dogfennau llywodraethu'r Pwyllgor Cynllunio/Rheoli Datblygu wedi'u sefydlu, hyfforddiant i'w roi a chynnydd i'w adolygu yn ystod 2022-2023.<br><br>Trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gydag Archwilio Cymru i gefnogi eu Hadolygiad Dilynol o'r Gwasanaeth | Ymgorffori ymhellach Egwyddorion a gwerthoedd Gweithredu Safonol, gan gynnwys eu cyfathrebu. | EP/LE | Mawrth 2024 |

DRAFT

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| Dylai'r rhain adeiladu ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) | Cynllunio. Ymatebir i unrhyw argymhellion. | | | |
| A1.4 Arddangos, mynegi ac ymgorffori'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol drwy bolisïau a phrosesau priodol a adolygir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol | Cyhoeddi Cofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig – ar y gweill.<br><br>Parhau i fonitro'r niferoedd sy'n cwblhau'r modiwl e-ddysgu Gorfodol am Chwythu'r Chwiban.<br><br>Mae polisi Chwythu'r Chwiban wedi'i adolygu ac yn aros i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a'r Cabinet.<br><br>Ffurflenni diwygiedig Datgelu Buddiannau a Chod Ymddygiad i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu.<br><br>Adroddiad ar weithgarwch generig chwythu'r chwiban i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu. | Ymgorffori'r egwyddorion Gweithredu Safonol ymhellach a chyfathrebu drwy gyhoeddi dogfennau. | EP/ HR | Mawrth 2024 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| A3.1 Sicrhau bod aelodau a staff yn dangos ymrwymiad cryf i reolaeth y gyfraith yn ogystal â chadw at gyfreithiau a rheoliadau perthnasol | Hysbysiadau preifatrwydd i Gynghorwyr yn cael eu datblygu ac i'w darparu gan y Swyddog Diogelu Data. | Dangos ymrwymiad cryf i reolaeth y gyfraith a chadw at gyfreithiau a rheoliadau perthnasol | EP/LE/AM | Mawrth 2024 |
| A3.2 Creu amodau i sicrhau bod y Swyddogion statudol, deiliaid swyddi allweddol eraill ac Aelodau yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol. | CMIA i gwblhau cymhwyster proffesiynol | Sicrhau bod deiliaid swyddi allweddol yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol. | EP/AJ | Mawrth 2024 |
| B1.1 Sicrhau bod diwylliant agored ar waith, drwy ddangos, cofnodi a mynegi ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored | Adolygu Cynllun Cyhoeddi'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. | Dangos ymrwymiad i fod yn agored. | LE/AW/MNH | Mawrth 2024 |
| B3.1 Sefydlu polisi clir ar y math o faterion y bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ystyrlon â dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill yn eu cylch, neu'n eu cynnwys ynddynt, i sicrhau bod gwasanaeth (neu ddarpariaeth arall) yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig. | Mae Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi newydd, 'Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd' wedi'i gyhoeddi. Angen ystyriaeth i roi'r polisi hwn ar waith cyn bod y cam gweithredu wedi'i gwblhau. | Gwella Ymgysylltu â'r Gymuned. | AW | Mawrth 2024 |

DRAFT

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| D2.3 Ystyried a monitro'r risgiau sy'n wynebu pob partner wrth gydweithio gan gynnwys risgiau a rennir | Parhau i ystyried newidiadau deddfwriaethol e.e. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.<br><br>Gweithredu newidiadau deddfwriaethol, megis ynghylch Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac ystyried/monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir. | Rheoli risg a chydymffurfio â deddfwriaeth er mwyn dangos ymrwymiad i'r gyfraith. | AW/EP | Mawrth 2024 |
| E2.2 Cyhoeddi datganiad sy'n nodi'r mathau o benderfyniadau sy'n cael eu dirprwyo a'r penderfyniadau sydd wedi'u neilltuo i'r corff llywodraethu eu gwneud ar y cyd | Cofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig i'w chyhoeddi. | Mwy o eglurder ynghylch pa benderfyniadau sy'n cael eu dirprwyo drwy gyfathrebu drwy gyhoeddiadau. | EP | Mawrth 2024 |
| G3.1 Sicrhau y gweithredir ar sail argymhellion ynghylch camau cywiro, a wneir gan archwilwyr allanol | Monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion – yn parhau. | Sicrwydd a rheoli risg | EP/AW | Mawrth 2024 |

DRAFT

## 7 Casgliad

Mesurodd yr adolygiad blynyddol o’r fframwaith llywodraethu gynnydd yn erbyn Fframwaith newydd *Delivering Good Governance* (2016) CIPFA/SOLACE a chanfuwyd bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn dderbyniol neu’n dda. Cadarnhaodd yr adolygiad fod trefniadau llywodraethu’r Cyngor yn effeithiol ac yn addas i’r diben.

Mae’r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn ystod y flwyddyn, gan gofnodi llwyddiant yn erbyn pob un o’r saith egwyddor graidd.

Mae datblygu Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy’n dod â’r holl godau a’r holl ddogfennau lleol ynghyd mewn un ddogfen yn rhoi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu clir ar waith.

Mae’r Cyngor wedi nodi nifer o fân faterion i’w datrys yn ystod 2023/24 ac mae wedi’u nodi mewn cynllun gweithredu er mwyn eu cwblhau (gweler uchod). Caiff y camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad uniongyrchol i’r pandemig eu cofnodi, fel y bo’n briodol.

## 8 Ardystio’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Yn ystod y flwyddyn i ddod, y bwriad yw cymryd camau i fynd i’r afael â’r materion uchod er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i’r afael â’r angen am welliannau a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd, trwy gydol 2023/24, a byddwn yn monitro’r modd y caiff y camau eu rhoi ar waith a’r modd y maent yn gweithredu, fel rhan o’n hadolygiad blynyddol nesaf. Cydnabyddir y gallai’r pandemig atal rhai o’r camau hyn, a rhoddir sylw i hynny ac adroddir yn briodol wrth y Cyngor yn ei gylch yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24.

DRAFT

# Cod
# Llywodraethu Corfforaethol Lleol

DRAFT




**Cymeradwywyd gan y Cyngor ar [nodwch ddyddiad]**

# Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyflwyniad** | 3 |
| **2** | **Cyfrifoldebau dros Lywodraethu Corfforaethol** | 3 |
| **3** | **Monitro ac Adolygu** | 3 |
| **4** | **Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol** | 4 |
| **5** | **Y Fframwaith Llywodraethu** | 5 |
| | ○ Egwyddor A: Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith. | 6 |
| | ○ Egwyddor B: Sicrhau ei fod yn agored a'i fod yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid. | 14 |
| | ○ Egwyddor C: Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy. | 18 |
| | ○ Egwyddor D: Penderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen i wneud y gorau o'r camau i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig | 21 |
| | ○ Egwyddor E: Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion tu mewn iddo. | 23 |
| | ○ Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus mewn ffordd gadarn | 26 |
| | ○ Egwyddor G Defnyddio arferion gweithio da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol | 33 |
| **6** | **Dogfennau Cysylltiedig** | 39 |


DRAFT

## 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i ddangos ei fod wedi rhoi'r trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol ar waith er mwyn iddo berfformio'n effeithiol. Mae'r Cod Llywodraethu Lleol hwn yn ddatganiad cyhoeddus sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn bodloni'r ymrwymiad hwn.

Defnyddir y term llywodraethu corfforaethol i ddisgrifio'r ffordd y mae sefydliadau'n cyfarwyddo ac yn rheoli'r hyn y maent yn ei wneud i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid, gan weithredu er budd y cyhoedd ar bob adeg.

Mae llywodraethu corfforaethol da yn peri iddi fod yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflawni eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n dangos atebolrwydd, tryloywder, effeithiolrwydd, uniondeb, didueddrwydd a chynwysoldeb. Llywodraethu corfforaethol yw'r strwythur hefyd ar gyfer pennu amcanion strategol a monitro perfformiad.

## 2. Cyfrifoldebau dros Lywodraethu Corfforaethol

Mae cyfrifoldeb ar bob Aelod a Swyddog i gynnal egwyddorion llywodraethu da. Hwn yw un o brif gyfrifoldebau Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr.

Mae'r Grŵp Arweiniol, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, yn gyfrifol am ddatblygu, cyflwyno ac adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn.

## 3. Monitro ac Adolygu

Mae'n ofynnol i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr sicrhau bod trefniadau Llywodraethu Corfforaethol yn cael eu hadolygu'n flynyddol i fesur i ba raddau y mae'r Cyngor yn bodloni gofynion yr egwyddorion craidd a'r is-egwyddorion a geir yng Nghod Fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r trefniadau Llywodraethu fel y'u disgrifir yn y Cod hwn. Mae cylch gorchwyl llawn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi'i gynnwys yn y Cyfansoddiad.

Adroddir ar ganlyniadau'r adolygiad trwy'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Adolygir unrhyw newidiadau i'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac fe'u cymeradwyir gan y Cyngor.

Trwy'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, bydd y Cyngor yn sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn cynnwys ystyried:

- Gwaith Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol
- Barn arolygiaethau ac asiantaethau adolygu eraill
- Barn Swyddogion Statudol y Cyngor
- Materion cyffredinol sy'n ymwneud â gweithredu'r Cod
- Y broses o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r camau y bwriedir eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion llywodraethu sy'n codi



DRAFT

### 4. Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ('DLlB')

Bob Blwyddyn, bydd y Cyngor yn cyhoeddi DLlB.

Bydd yn darparu asesiad cyffredinol o drefniadau Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor ac arfarniad o'r trefniadau rheoli sydd ar waith i reoli prif risgiau'r Cyngor.

Bydd y Datganiad hefyd yn rhoi manylion y meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau.

Adolygir y Datganiad gan y Grŵp Arweiniol a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, cyn i'r Cyngor ei gymeradwyo'n derfynol ac i Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr ei lofnodi.

Cyhoeddir y Datganiad ar wefan y Cyngor ac fel rhan o Ddatganiad Cyfrifon Blynyddol y Cyngor ac fe'i adolygir gan ein Harchwilwyr Allanol.

### 5. Y Fframwaith Llywodraethu

Yn 2014 cydweithiodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (SSCCCh) a Ffederasiwn Rhyngwladol y Cyfrifwyr (FfRhC) i gynhyrchu'r Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus (2014). Cynhyrchwyd y fframwaith hwn gyda'r nod o annog gwell darpariaeth gwasanaethau a gwell atebolrwydd drwy osod meincnod ar gyfer llywodraethu da yn y sector cyhoeddus.


Mae'r Fframwaith Rhyngwladol yn dweud mai 'swyddogaeth sylfaenol llywodraethu da yn y sector cyhoeddus yw sicrhau bod endidau yn cyflawni eu canlyniadau arfaethedig tra'n gweithredu er budd y cyhoedd bob amser.' Mae'r fframwaith yn nodi 7 egwyddor allweddol ar gyfer cyflawni llywodraethu da, sydd wedi'u nodi yn Ffigur 1 isod. Roedd egwyddorion A a B yn nodi'r gofynion cyffredinol ar gyfer gweithredu er budd y cyhoedd bob amser, tra bod egwyddorion C i G yn nodi'r gofynion eraill y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn sicrhau llywodraethu da.

DRAFT

## 5. Y Fframwaith Llywodraethu

Mae Ffigur 1 isod yn diffinio'r perthnasoedd rhwng yr Egwyddorion ar gyfer Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus sydd wedi'i osod allan yn y Fframwaith Rhyngwladol:

**Figure 1: Relationships between the Principles for Good Governance in the Public Sector**




Yn 2016, bu SSCCCh yn gweithio ar y cyd â Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (CPWALI) i ddatblygu eu *Cyflawni Llywodraethu Da mewn Fframwaith Llywodraeth Leol (*2016). Mae'r fframwaith hwn yn seiliedig ar egwyddorion craidd y Fframwaith Rhyngwladol, sydd wedi eu dehongli mewn cyd-destun llywodraeth leol.

Datblygwyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn unol â fframwaith *Delivering Good Governance in Local Government* (Rhifyn 2016) a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE, a nodiadau cyfarwyddyd fframwaith *Delivering Good Governance in Local Government – Guidance notes for Welsh authorities* (Rhifyn 2016) gan CIPFA/SOLACE.

Diben y Cod Llywodraethu Corfforaethol hwn yw dangos bod strwythurau llywodraethu'r Cyngor yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd a'r is-egwyddorion a geir yn y Fframwaith, ac mae'r tabl isod yn dangos trefniadau llywodraethu'r Cyngor mewn perthynas ag ef.

| Egwyddor A: Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith | |
|---|---|
| **Is-egwyddor** | **Sut ydym ni'n bodloni'r Egwyddorion hyn** |
| **Ymddwyn ag uniondeb** | • Cod Ymddygiad yr Aelodau (diweddarwyd yn 2016) ac ar gael ar wefan y Cyngor, ar y fewnrwyd (CeriNet) o dan Adnoddau Cynghorwyr, ac yn y Cyfansoddiad.<br>• Siart lif Cod Ymddygiad yr Aelodau (diweddarwyd yn 2016).<br>• Cod Ymddygiad y Swyddogion * (diweddariad wedi'i gwblhau ac yn aros i'w gymeradwyo ar hyn o bryd) ar gael, ynghyd â'r holl bolisïau a strategaethau corfforaethol, ar wefan y Cyngor/CeriNet.<br>• Cadarnhad unigol o ran cydymffurfiaeth.<br>• Darperir hyfforddiant cynefino a hyfforddiant dilynol ar y Cod Ymddygiad a moeseg i'r holl Aelodau.<br>• Darparwyd hyfforddiant Moeseg/Twyll ar y cyd ag yswiriwr y Cyngor yn ystod gweithdy chwarterol y Rheolwyr Corfforaethol ar 28.5.2021. Mae sleidiau o'r cyflwyniad yn ffurfio sylfaen modiwl e-ddysgu ar gyfer yr holl Staff a'r Archwilwyr Mewnol ('IA') a'r Gwasanaethau Llywodraethu sy'n gweithio gyda'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu i baratoi sefyllfaoedd ar gyfer hyfforddiant. Cefnogir yr hyfforddiant gan adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar o Strategaeth y Cyngor ynghylch Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian).<br>• Darparir cyngor o ddydd i ddydd gan y Swyddog Monitro ('MO') a'r Swyddog Cymorth Craffu.<br>• Polisi Disgyblu (Tachwedd 2017).<br>• Adolygiad Datblygiad Personol.<br>• Mae Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau ar gael gan Wasanaethau Democrataidd y Cyngor. Fe'i hadolygir gan y Swyddog Monitro.<br>• Ceir ffurflenni datgan buddiannau a lletygarwch ar gyfer Swyddogion ac Aelodau ar CeriNet.<br>• Mae MO yn anfon negeseuon atgoffa a chyngor rheolaidd i'r staff drwy e-ddiweddariadau newyddion mewnol.<br>• Mae MO yn monitro ac yn adolygu datganiadau'r Prif Swyddogion bob blwyddyn.<br>• Rhoddodd MO wybod i'r Prif Swyddogion fod angen iddynt ddatgan cysylltiadau personol agos â Swyddogion eraill neu Aelodau.<br>• Y broses datganiad o fuddiannau i'w hymestyn i gynnwys gofyniad ynghylch partïon cysylltiedig: bod swyddogion ac Aelodau yn datgan os oes perthynas agos rhyngddynt â swyddogion eraill, Aelodau neu athrawon.<br>Datganiad/manylion penodol yn ofynnol os yw hyn yn cynnwys /ddim yn cynnwys Prif Swyddog (a nodi'r berthynas).<br>• Y broses datganiad o fuddiannau i'w hymestyn i gynnwys y gofyniad bod Aelodau yn datgan swyddi Cyfarwyddwyr – enw a rhif y cwmni, am dâl (neu beidio), budd preifat neu benodiad yn y Cyngor. |

| | |
|---|---|
| | MO i atgoffa'r Aelodau o'r angen i ddatgan yn fanwl gywir yr holl swyddi Cyfarwyddwyr (gan gynnwys cwmnïau segur).<br>• Y broses datganiad o fuddiannau i'w hymestyn i gynnwys y gofyniad bod Aelodau yn nodi rôl benodol o fewn yr aelodaeth – sylwedydd, aelod, gwirfoddolwr, aelod o'r Pwyllgor, aelod o'r Bwrdd neu Ymddiriedolwr.<br>• Y broses datganiad o fuddiannau i'w hymestyn i gynnwys y gofyniad i ddatgan os yw ef/hi neu aelod agos o'r teulu neu unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n gweithredu ar ei ran, ar Fwrdd, pwyllgor rheoli neu grŵp rheoli arall sefydliad y mae'r Cyngor yn cael trafodion arwyddocaol â nhw.<br>• Mae'r Cod Ymddygiad i Swyddogion wedi cael ei adolygu'n sylweddol a chaiff ei ddiweddaru cyn bo hir.<br>• Cyngor wedi'i ddiweddaru am Ddatganiadau a Chofrestru Buddiannau Cyflogeion y Cyngor (gan diweddariadau e-bost yn cynnig newyddion).<br>• Mae arfer MO o hysbysu Swyddogion ynghylch datgelu buddiannau yn parhau. Ceir nodiadau atgoffa rheolaidd trwy gyfrwng Diweddariadau Newyddion ar system CeriNet ac yn y Grŵp Arweiniol.<br>• Datganiad o ddiddordeb y Prif Swyddogion a rhwynedigaeth parhaus i ddatgan buddiannau.<br>• Prif Swyddogion wedi'u hysbysu trwy ddiweddariad newyddion system CeriNet am ebost MO ynghylch datgan buddiannau a Lletygarwch a nodyn atgoffa wedi'i anfon at y Prif Swyddogion.<br>• Cynhelir adolygiad ar hyn o bryd o'r cyrff allanol sydd wedi penodi Aelodau, gan gynnwys gwerth ychwanegol, a hefyd, diweddaru'r Cyfansoddiad.<br>• MO i wneud ymholiadau gydag ysgrifenyddion cwmni fel y bo angen i bennu sail buddiannau Aelodau o fewn sefydliadau neu gwmnïau elusennol, a'r sail resymegol. Ceisio diwygio'r Erthyglau Cymdeithasu hefyd neu ymddiswyddo o swyddi Cyfarwyddwyr y Cyngor os oes angen.<br>• Datgelu budd gan Aelodau a Swyddogion mewn cyfarfodydd, ceir cyfle i wneud cyfeiriad at unrhyw rolau/cysylltiadau personol agos ac ati.<br>• Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion.<br>• Cwblhawyd ffurflenni Goddefeb wedi'u diweddaru ar gyfer Aelodau.<br>• Mae gofyn i aelodau ddiweddaru'r Gofrestr Buddiannau yn unol â'r Cod Ymddygiad, ac yn ogystal, bob blwyddyn, sy'n gyfle i gyfeirio at unrhyw rolau/cysylltiadau personol agos ac ati. Bellach, mae hyn yn cynnwys aelodau lleyg/annibynnol o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Cyhoeddir llyfryn Cofrestr Buddiannau ar gyfer pob Aelod ar Wefan y Cyngor.<br>• Anfonir cyngor rheolaidd rhagweithiol a nodiadau atgoffa i Aelodau a Swyddogion yn ôl y gofyn.<br>• MO i gynghori Swyddogion ymhellach o'r angen i ddatgelu buddiannau mewn sefydliadau sy'n mynd yn groes i fuddiannau'r Cyngor, neu y gallent fynd yn groes iddynt, gan gynnwys: |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | - Contractwyr;<br>- Llywodraethwyr Ysgol;<br>- Clercod Cynghorau Tref a Chymuned;<br>- Aelodau cynghorau Tref a Chymuned; a<br>- Llywodraethwyr Ysgol.<br>• MO i gynghori Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan:<br>- Swyddi Cyfarwyddwr; a<br>- Chyflogaeth arall<br>Gan gynnwys a yw’n gwrthdaro gyda buddiannau’r Cyngor neu beidio.<br>• Diweddarwyd ffurflenni goddefebau i Aelodau (2020).<br>• Rhaid i Swyddogion Cymwys Proffesiynol ac Athrawon fodloni gofynion eu sefydliad/corff proffesiynol.<br>• Mae aelodau yn cwblhau modiwl hyfforddiant AD.<br>• Rhoddir hyfforddiant am safonau ymddygiad i Reolwyr a Staff.<br>• Mae MO yn dosbarthu i arweinwyr grwpiau gwleidyddol ddiweddariadau/penderfyniadau gan Banel Dyfarnu Cymru, a’i rôl ef yw penderfynu ynghylch achosion honedig o dorri amodau gan aelodau etholedig a chyfetholedig yn erbyn cod ymddygiad statudol eu hawdurdod.<br>• MO yn cwrdd ag arweinwyr grwpiau gwleidyddol bob chwarter i ystyried eu dyletswyddau newydd i gynnal safonau ymddygiad yr Aelodau yn eu grŵp.<br>• Arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn ymgysylltu â’r Pwyllgor Moeseg a Safonau fel y bo angen yn unol â’u dyletswyddau newydd.<br>• Arweinwyr grwpiau gwleidyddol i gwblhau templed yn amlinellu’r camau gweithredu a gyflawnwyd i dystio eu bod wedi cydymffurfio â’u dyletswyddau newydd.<br>• Gweithdrefn Datrys yn Lleol ar gyfer Aelodau: Aelod heb fod mewn grŵp/heb ymlyniad yn cael cyngor/cymorth gan Gadeirydd/Is-gadeirydd y Cyngor.<br>• Mae gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau ddyletswyddau newydd (o fis Mai 2022) dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (‘Deddf 2021’), a fydd yn cynnwys:<br>- Monitro cydymffurfiaeth gan arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor gyda’u dyletswyddau dan A.52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000;<br>- Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor am faterion sy’n ymwneud â’u dyletswyddau dan A.52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000.<br>- Mae’r ddyletswydd i fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn ymwneud â safonau ymddygiad, a sicrhau bod hyn yn weladwy ac yn cael ei ddangos yn gyson a gyda thystiolaeth er mwyn diogelu enw da y Cyngor. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Rheoli Datblygu (y Pwyllgor Rheolaeth Datblygu gynt) wedi cael ei ddiwygio.<br>• Mae'r ddogfen Gweithdrefnau Gweithredol ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi cael ei diwygio.<br>• Mae'r Cynllun Dirprwyaethau yn cynnwys meini prawf ar gyfer ceisiadau, y mae'n rhaid eu cyfeirio i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, a'r ceisiadau hynny y gellir eu dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol.<br>• Mae Protocol ar gyfer Ymarfer Da i Gynghorwyr yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi cael ei gynhyrchu a'i gynnwys yn y Cyfansoddiad.<br>• Mae grŵp 'oeri' wedi'i sefydlu o fewn Gweithdrefnau Gweithredol y Pwyllgor Rheoli Datblygu er mwyn adolygu ceisiadau cynllunio, a allai, os caiff ei gymeradwyo, fod yn ymadawiad sylweddol â pholisi. Ceir perthynas waith dda â Llywodraeth Cymru, fel un o'r prif reoleiddwyr. Ceir deialog reolaidd â chynrychiolwyr Archwilio Cymru.<br>• Adolygwyd a chymeradwywyd gweledigaeth y Cyngor gan y Cabinet, ac mae'r weledigaeth yn pennu nifer o Amcanion Strategol hirdymor.<br>• Mae Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 yn cynnwys Amcanion Llesiant a Gwella ac yn amlinellu blaenoriaethau ac amcanion lefel uchel y Cyngor gyda chamau gweithredu ategol yn flynyddol.<br>• Ceir deialog reolaidd ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('PSOW') a rheoleiddwyr eraill gan gynnwys Estyn, AGC, ICO ac IPCO.<br>• Mae cofnodion pob pwyllgor yn cynnwys eitem lle y mae gofyn i'r Aelodau a'r Swyddogion ddatgan buddiannau.<br>• Mae'r Cyfansoddiad yn destun adolygiadau cynhwysfawr, ac yn cael ei ddiweddaru yn ôl y gofyn, gan gynnwys newidiadau arfaethedig i'r Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad, i wneud argymhellion am newidiadau i'r Cyfansoddiad i'r Cyngor. Mae diwygiad pellach yn mynd rhagddo, gan bod y Cyfansoddiad yn ddogfen fyw, er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac yn unol â'r angen.<br>• Mae Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad, sy'n cynnwys Cydbwysedd Gwleidyddol, yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried cynigion ynghylch diweddariadau i'r Cyfansoddiad.<br>• Mae MO/Swyddog Llywodraethu yn adrodd i'r Cyngor er mwyn diweddaru dirprwyaethau a'r Cyfansoddiad.<br>• Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu'r camau gweithredu a fydd yn gwella'r Gwasanaeth Cynllunio, gan gynnwys gwneud penderfyniadau.<br>• Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol, a gyflwynwyd ym mis Medi 2017, ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ('WFGA'). Anfonwyd nodiadau atgoffa i'r Staff nad ydynt wedi cwblhau'r modiwl eto ac mae Grwpiau Arweiniol yn cael adroddiadau o bryd i'w gilydd. |

DRAFT

- Ystyriwyd materion ynghylch safonau ac ymddygiad aelodau gan Bwyllgor Moeseg a Safonau y Cyngor. Cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus yn rheolaidd, ac fe'u cadeirir gan unigolyn annibynnol – pennu goddefebau, ac ystyried materion strategaeth/polisi a chael diweddariadau gan Lyfr Achosion PSOW ac achosion APW.
- Prif ddyletswyddau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yw gwella'r safonau o ran ymddygiad yr Aelodau a gweithredu Cod Ymddygiad yr Aelodau.
- Hyfforddiant Cod Ymddygiad wedi'i ddarparu i'r holl Aelodau.
- Mae MO yn cynghori'r Pwyllgor a'r Aelodau.
- Mae'r Pwyllgor Safonau a Moeseg yn chwarae rhan weithredol o ran hyfforddi Aelodau.
- Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Moeseg a Safonau i'r Cyngor ym mis Hydref 2022.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cynnal ymarfer meincnodi bob blwyddyn er mwyn darparu rhagor o sicrwydd ynglŷn ag adolygu proses y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ('AGS').
- Adolygiad Archwiliad Mewnol ac adrodd ar y broses yn flynyddol. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cwrdd yn rheolaidd i ystyried adroddiadau llywodraethu a rheoleiddwyr allanol. Dan gadeiryddiaeth aelod lleyg.
- Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Cyngor.
- Cyhoeddir Cofnod o'r Penderfyniadau a wneir gan Grŵp Arweiniol Covid-19 ('Grŵp Rheoli Aur') ar Wefan y Cyngor.
- Diweddarwyd a chymeradwywyd 'Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' effeithiol gan y Cyngor ar 17.6.21(cadarnhawyd y cofnodion ar 23.9.21).
- Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ynghylch Atal Twyll i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ddiwedd y flwyddyn.
- Mae NFI yn tynnu sylw at Staff sy'n gyfarwyddwyr cwmnïau sy'n ymdrin â'r Cyngor – os na fydd hyn wedi'i ddatgan, bydd IA yn ymchwilio ac yn rhoi adroddiad i MO.
- Cedwir cofrestr o'r Swyddogion mewn swyddi â chyfyngiadau gwleidyddol, ac mae'r Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol ar gael i'r gweithwyr ar CeriNet.
- Cynhaliwyd Archwiliad Moeseg yn ystod 2019. Mae Archwiliad Mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch Moeseg yn mynd rhagddo hefyd (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd).
- Mae Polisi Chwythu'r Chwiban ar gael i Gyflogeion a Chontractwyr (diweddarwyd yn 2018 – yn cael ei adolygu ar hyn o bryd) ar CeriNet a chaiff ei ddiweddaru yn ôl yr angen.
- MO yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ('CLO') ac mae'n cynghori'r sawl sy'n chwythu'r chwiban, pan fo hynny'n briodol.

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol ynghylch Chwythu'r Chwiban. Mae MO yn cadw cofrestr o gyfeiriadau ac yn adrodd i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu bob 6 mis.<br>• Rhoddir sylw i bob cwyn yn unol â'r gweithdrefnau corfforaethol sy'n cynnwys camau ffurfiol ac anffurfiol a chaiff y rhain eu cyfleu i Staff yn rheolaidd.<br>• Caiff y system gwynion ei monitro gan y Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth Corfforaethol.<br>• Polisi Pryderon Corfforaethol a Chwynion diwygiedig wedi'i gyhoeddi 1.10.2021.<br>• Gweithredir gwelliannau o ganlyniad i gwynion/ argymhellion a gafwyd.<br>• Hysbysiad Preifatrwydd Rhyddid Gwybodaeth a Chwynion y Cyngor.<br>• Ystyrir Adroddiad Cwynion Blynyddol gan y Pwyllgor Archwilio a llywodraethu a'r Cabinet cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor, ac fe'i cyflwynwyd i'r Cyngor a'i nodi.<br>• Mae'r Adroddiad Cwynion Blynyddol yn cynnwys Gwersi a Ddysgwyd o'r cwynion a gafwyd.<br>• Mae datgan buddiannau yn eitem ar agendâu a chofnodion y Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r holl bwyllgorau eraill.<br>• Cyhoeddir cofnodion pob Pwyllgor ar Wefan y Cyngor.<br>• Cyhoeddir Hysbysiadau o Benderfyniadau'r Cabinet ar Wefan y Cyngor.<br>• Mae'r gwaith o baratoi ar gyfer cyhoeddi cofrestr penderfyniadau dirprwyedig yn parhau. Cyhoeddir penderfyniadau dirprwyedig y Pwyllgor Rheoli Datblygiad y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar gyfer pob cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygiad.<br>• Cyhoeddir Cofrestr Contractau ar Wefan y Cyngor.<br>• Newidiadau y mae angen eu gwneud i'r Cyfansoddiad ynghylch y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ôl Deddf 2021 wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor 23.9.21, 3.3.22, 8.7.22 a 20.10.22.<br>• Mae'r Pwyllgor Llywodraethu a Archwilio yn gynnwys 6 Aelod o'r Cyngor Sir a 3 aelod lleyg (9 at ei gilydd). |
| **Dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol** | • Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn hyrwyddo cydymffurfiaeth foesegol i sicrhau bod gan y cyhoedd ffydd a hyder bod yr Aelodau a'r Swyddogion yn gweithio yn unol â'r safonau moesegol a moesol uchaf.<br>• Mae swyddogion, fel Archwilwyr Mewnol, yn llofnodi datganiad blynyddol dan y Cod Moeseg.<br>• Cymeradwywyd y Siarter Archwilio Mewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.<br>• Cynhaliodd Cyngor Sir Caerfyrddin archwiliad annibynnol o foeseg o fewn y Cyngor yn ystod 2019. Mae Archwiliad Mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch moeseg yn mynd rhagddo (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd).<br>• Dosbarthwyd Holiadur er mwyn dadansoddi'r anghenion o ran hyfforddiant i'r Staff drwy gylchlythyr y Cyngor. Roedd y neges yn gofyn am eu barn am ddiwylliant moesegol y Cyngor a bwriedir llunio modiwl hyfforddi yn sgil yr adborth. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Mae Llawlyfr y Gweithwyr yn cael adolygu'n flynyddol, mae ar gael ar CeriNet, mae'n nodi'r disgwyliadau o ran ymddygiad staff ac yn cynnwys y Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol.<br>• Hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a recriwtio a dethol gan gynnwys cyfleoedd cyfartal yn orfodol i bob un o Reolwyr Cyngor Sir Ceredigion.<br>• Rhaid i bob aelod Staff gwblhau modiwl e-ddysgu ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.<br>• Cymeradwywyd Strategaeth Gaffael 2018-22 gan y Cyngor ar 19 Mehefin 2018.<br>• Mae hyfforddiant caffael hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Staff.<br>• Polisïau'r Cyngor ar Recriwtio ac ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.<br>• Mae'r Telerau ac Amodau safonol ar gyfer pawb sy'n Cyflenwi Nwyddau a gwasanaethau yn cynnwys amodau sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.<br>• Defnyddir meddalwedd mewnol yn ôl-weithredol i chwilio am daliadau a allai fod wedi'u talu ddwywaith.<br>• Mae'r Cyngor wedi llunio Polisi Atal Caethwasiaeth Fodern (a anfonwyd at gontractwyr y Cyngor), Datganiad Blynyddol 2019-2020 ar Atal Caethwasiaeth, a Chod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. |
| **Parchu rheolaeth y gyfraith** | • Cyfansoddiad y Cyngor<br>• Rhoddir ystyriaeth i'r Egwyddorion Diogelu Data, a phrosesu gwybodaeth bersonol yng nghyd-destun Pwyllgorau'r Cyngor a'r holl Aelodau.<br>• Mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer yr holl Aelodau (Cyflwyniad i'r Cyngor, gan gynnwys Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data) yn dilyn Etholiadau Mai 2022.<br>• Caiff pwerau statudol a goblygiadau cyfreithiol eu cynnwys ym mhob adroddiad lle mae angen i'r Cabinet wneud penderfyniad.<br>• Caiff cyngor/goblygiadau cyfreithiol ac ariannol eu cynnwys ym mhob adroddiad priodol y mae angen penderfynu arno.<br>• Mae MO a'r Gwasanaeth Cyfreithiol ar gael i roi cyngor fel y bo'n briodol.<br>• Mae'r gwasanaeth IA ar gael i roi cyngor fel y bo'n briodol.<br>• Mae MO yn mynd i gyfarfodydd y Grŵp Arweiniol / y Cabinet / y Cyngor.<br>• Mae MO yn mynd i lawer o gyfarfodydd cyhoeddus fel mater o drefn, yn ôl y gofyn, os yw ar gael.<br>• Os yw MO yn absennol, mae'r Dirprwy MO yn mynd i gyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor.<br>• Mae Deddf 2021 yn cael effaith ar gyrff corfforaethol, gan gynnwys y Cyngor, ac mae gwaith wedi cael ei wneud ar sicrhau cydymffurfiaeth, gan gynnwys trwy gyfrwng y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad (mae Aelodau o bob grŵp gwleidyddol yn mynychu hwn), adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Cyngor, ac mae cynllun Gweithredu y Cyngor wedi cael ei baratoi a'i ddiweddaru yn rheolaidd, a chynhaliwyd cyfarfodydd gyda CLOs a Swyddogion perthnasol, pan fo hynny'n briodol.<br>• Cylch Gorchwyl Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi'I ddiweddaru yn unol â'r Ddeddf newydd |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Mae disgrifiadau o rôl yr Aelodau'n nodi eu cyfrifoldebau.<br>• Cydymffurfio â Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol (CIPFA, cyhoeddwyd 13 Ebrill 2016).<br>• Cydymffurfio â Datganiad CIPFA ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus (CIPFA, cyhoeddwyd 9 Ebrill 2019) a'r cyfraniad a gyhoeddwyd yn nogfen gysylltiedig CIPFA, Rhoi Egwyddorion ar Waith (2019)).<br>• Nodir y cylchoedd gorchwyl yn y Cyfansoddiad.<br>• Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.<br>• Rheoliadau Ariannol a Rheolau'r Weithdrefn Ariannol (Dogfen F yn y Cyfansoddiad).<br>• Rheolau Gweithdrefn Contract (Dogfen G yng Nghyfansoddiad y Cyngor).<br>• Codau Ymddygiad (gweler uchod).<br>• Cydymffurfio â chodau penodol e.e. Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ('PSIAS', Mawrth 2017)<br>• Rhoi diweddariadau i aelodau'r Pwyllgor Archwilio am dwyll, gan gynnwys adroddiad blynyddol y gwasanaeth IA am atal twyll.<br>• Mae'r Swyddogion Statudol yn atebol i'r Prif Weithredwr ('CE') a'r Cyngor.<br>• Cyfarfodydd rheolaidd rhwng CE, Swyddog A.151 ac MO.<br>• Mae gan y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol ('CMIA') fynediad rhydd a dilyffethair i Aelodau a Swyddogion ar bob lefel, a'r hawl i gael mynediad yn unol â Chyfansoddiad a Siarter Archwilio Mewnol y Cyngor.<br>• Cyhoeddir y Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau ar Wefan y Cyngor.<br>• Mae'r Prif Swyddogion yn rhoi cymorth a chyngor i'r Aelodau.<br>• Mae gan MO fynediad uniongyrchol at CE ac mae'n adrodd i'r Cyngor yn gyffredinol ac fel rhan o ddyletswydd statudol.<br>• Mae MO neu gynrychiolydd enwebedig yn mynd i holl gyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor.  Mae MO yn gweithredu polisi drws 'agored' ar gyfer Aelodau sydd am gael cyngor am 'ymddygiad' a 'llywodraethu'.<br>• Mae MO a Swyddog A.151 yn cyfarfod â CE bob mis.<br>• Mae MO a Swyddog A.151 yn aelodau allweddol o'r Grŵp Arweiniol.<br>• Mae'r eitemau a gyflwynir i'r Aelodau benderfynu arnynt yng nghyfarfodydd y Cabinet, y Cyngor a'r Pwyllgorau yn destun cyngor cyfreithiol ac ariannol, a cheir cyfeiriadau at y cyngor ym mhob adroddiad.<br>• Diweddarwyd a chymeradwywyd 'Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' effeithiol gan y Cyngor ar 17 Mehefin 2021(cadarnhawyd y cofnodion ar 23 Medi 2021).<br>• Ymchwiliadau Mewnol, Archwiliad Allanol effeithiol.<br>• Polisi Chwythu'r Chwiban (wrthi'n cael ei adolygu) a Pholisi Disgyblu.<br>• Mae Swyddog yn y tîm IA yn Dechnegydd Atal Twyll achrededig.<br>• Mae Swyddog yn y tîm IA yn meddu ar Dystysgrif mewn Arferion Ymchwilio gan CIPFA ('CCIP').<br>• Mae'r Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Menter Twyll Cenedlaethol flynyddol Archwilio Cymru, a gydlynir gan yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Cyflwynir adroddiad blynyddol IA ynghylch Atal Twyll i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ddiwedd y flwyddyn.<br>• Monitro ac ymateb i rybuddion o dwyll (NAFN, rhwydweithiau ehangach, cymheiriaid, ac ati).<br>• Aelodaeth a chyfranogiad weithredol mewn grwpiau a rhwydweithiau proffesiynol (Tisonline, KHub, ac ati).<br>• Mae IA yn cynnig cyngor i wasanaethau ynghylch gweithredu systemau a phrosesau newydd i sicrhau y caiff rheolaethau mewnol effeithiol eu cynnal.<br>• Mae Swyddogion Enwebedig y Cyngor yn ymgymryd â hyfforddiant amrywiol ynghylch twyll er mwyn cynnal eu gwybodaeth a'u harbenigedd.<br>• Pan fo hynny'n briodol, cyhoeddir gwybodaeth am erlyniadau llwyddiannus ar wefan y Cyngor (ac yn y wasg leol).<br>• Caiff taliadau grant Covid-19 eu harchwilio cyn eu talu (gan ei bod yn haws stopio taliad na'i adfer).<br>• Ychwanegwyd archwiliadau rheolaeth ariannol allweddol i'r cynllun archwilio, er mwyn archwilio rheolaethau, llywodraethu a risgiau tra bod staff yn gweithio gartref.<br>• Gall cynllun archwilio blynyddol IA roi sylw i unrhyw anghenion i ail-flaenoriaethu gwaith, gan ganiatáu i IA ymateb i unrhyw newidiadau o ran risg yn y Cyngor. |

| **Egwyddor B: Sicrhau ei fod yn agored a'i fod yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid** | |
|---|---|
| **Is-egwyddor** | **Sut ydym ni'n bodloni'r Egwyddorion hyn** |
| **Bod yn agored** | • Mae'r holl adroddiadau Blynyddol statudol ar gael ar Wefan y Cyngor.<br>• Cynllun cyhoeddi y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.<br>• Mae llu o feysydd gwasanaeth ar gael ar-lein gan gynnwys gwybodaeth a hunan-wasanaeth treth gyngor.<br>• Nodir nodau a gwerthoedd y Cyngor yn Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.<br>• Gwefan Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd<br>• Darlledir cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet.<br>• Mae cyfeiriadau e-bost generig wedi cael eu creu ar gyfer MO a Moeseg a Safonau.<br>• Ymatebion rheolaidd ac amserol i'r wasg ac ymholiadau eraill i Reolwyr ac aelodau, yn ogystal ag ymatebion FOI cynhwysfawr.<br>• Mae adolygiad o'r cynllun Cyhoeddi FOI yn mynd rhagddo.<br>• Polisi Rhyddid Gwybodaeth (Mawrth 2018).<br>• Mae Rheolwr Corfforaethol Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn ei swydd.<br>• Hysbysiad Preifatrwydd Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth.<br>• Polisi Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (Mawrth 2018).<br>• Mae holl gyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau yn agored i'r cyhoedd, a chyhoeddir yr agendâu a'r cofnodion ar wefan y Cyngor (ac eithrio adroddiadau esempt);<br>• Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd Trosolwg a Chraffu (2018) (Dogfen N yn y Cyfansoddiad), ac fe'i defnyddiwyd ar sawl achlysur. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Protocol ar gyfer siarad yn y Pwyllgor Rheoli Datblygiad yn ei le (Rhan 4, Dogfen I yn y Cyfansoddiad).<br>• Protocol i'r Aelodau Cabinet gael mynediad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor (Rhan 5 Dogfen M2 Cyfansoddiad).<br>• Yn unol â gofynion Deddf 2021, mae trefniadau wedi cael eu gwneud er mwyn gallu cynnal cyfarfodydd hybrid o fis Mai 2022. Offer newydd wedi cael eu gosod yn y Siambr. Cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet yn cael eu darlledu ar dudalennau Facebook y Cyngor. Gall aelodau'r cyhoedd fod yn bresennol i weld cyfarfodydd o bell neu mewn person.<br>• Lluniwyd offeryn a chanllawiau Asesu Effaith Integredig ('IIA') i lywio proses benderfynu effeithiol, ac maent yn cael eu rhoi ar waith.<br>• Diweddarwyd templed yr adroddiadau i'r Cyngor / Cabinet er mwyn cynnwys cyfeiriad at y goblygiadau cyfreithiol, y goblygiadau o ran staffio, y goblygiadau o ran eiddo / asedau a risgiau ac adlewyrchu'r Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 newydd.<br>• Defnyddir templedi safonol a chanllawiau ar gyfer adroddiadau i'r Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac mae pob un ohonynt yn cynnwys canlyniadau IIA.<br>• Lle bo'n briodol, mae eitemau y mae angen i'r Cabinet, y Cyngor a'r Pwyllgorau benderfynu arnynt yn destun cyngor cyfreithiol ac ariannol y cyfeirir ato ym mhob adroddiad.<br>• Mae Protocol ar waith ar gyfer perthnasoedd gwaith rhwng Aelodau a Swyddogion (e.e. Protocol Swyddog-Aelod).  (Rhan 5 o'r Cyfansoddiad).<br>• Mae'r Protocol Ymarfer Da wedi cael ei greu i helpu Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu i sicrhau y caiff penderfyniadau ynghylch ceisiadau eu gwneud ar sail ystyriaethau cynllunio perthnasol cadarn, ac nid amgylchiadau personol yr ymgeiswyr.<br>• Cyhoeddir calendr o ddyddiadau cyfarfodydd, gan gynnwys blaenraglenni gwaith y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau, ar wefan y Cyngor.<br>• Cyhoeddir adroddiadau blynyddol, Datganiadau o'r cyfrifon, adroddiadau cynnydd am wella yn unol â'r amserlen ofynnol ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.<br>• Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sefydliadol ar gael fel modiwl dewisol o'r Rhaglen Rheolwyr Corfforaethol, sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r defnydd o'r IIAs.<br>• Mae Rhestr Wirio Ymgysylltu ac Ymgynghori ar gael i'r Swyddogion i'w cynorthwyo i benderfynu a ddylid cynnal ymgynghoriad ynghylch newid arfaethedig, ynghyd â chanllawiau ynghylch rhannu canlyniadau ymgynghoriad.<br>• Adroddir casgliadau IIA i'r Cyngor, y Cabinet a'r pwyllgor Trosolwg a Chraffu.  Aeth 8 IIA gerbron y Cabinet o 01.04.2022 i 07.12.2022 (2022-23 rhan o'r flwyddyn).<br>• Mae'r Cyngor, ar y cyd â phartneriaid, wedi cynnal gweithgarwch ymgysylltu sylweddol er mwyn paratoi Cynllun Llesiant Lleol ac Asesiad Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ('BGC'). |

| | |
|---|---|
| | • Pennwyd amcanion llesiant ar gyfer 2022-2023 er mwyn cyflawni Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.<br>• Adolygwyd y Polisi Cwynion Corfforaethol ac mae wedi'i cael ei weithredu<br>• Adolygwyd Polisi a Gweithdrefn Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>• Lluniwyd offeryn Penderfynu ar Ymgyngoriadau (Coeden Ymgynghori a siart lif). Mae'n cynnwys defnyddio adborth.<br>• Mae gweithgarwch ymgynghori pellach yn cynnwys:<br>  o Mae swydd Ymgysylltu a Chydraddoldeb newydd wedi cael ei chreu trwy ailstrwythuro'r gwasanaeth Polisi a Pherfformiad; ac<br>  o Mae'r holl ymgynghoriadau cyfredol ar gael ar wefan y Cyngor; ac<br>  o Cyhoeddir ymgyngoriadau yn yr adran Gorfforaethol ar Wefan y Cyngor.<br>• Hyrwyddir ymgynghoriadau trwy Gyfryngau Cymdeithasol.<br>• Mae canllawiau wedi'u cyhoeddi ar fewnrwyd Cyngor Ceredigion i'r holl staff eu dilyn o ran rhannu adborth â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae arwyddion diweddar yn dangos bod Swyddogion yn gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn. |
| **Ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid sefydliadol** | • Mae Cylch Gorchwyl BGC ar gael wefan y Cyngor.<br>• Mae Cylch Gorchwyl Grwpiau Prosiect BGC ar gael.<br>• Cynhelir ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori ar y cyd.<br>• Mae'r holl ymgyngoriadau cyfredol ar gael ar Wefan y Cyngor.<br>• Mae prosiectau cydweithredol ar waith ar y cyd â rhanddeiliaid sefydliadol, ac mae trefniadau llywodraethu clir ar waith.<br>• Rhoddwyd trefniadau craffu ar waith ar gyfer BGC.<br>• Cymeradwywyd offeryn a chanllawiau IIA i'w rhoi ar waith.<br>• Datblygwyd siart llif a Choeden Penderfynu Ymgynghori ac maent ar gael.<br>• Mae Rhestr Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth gan gynnwys rhanddeiliaid y dylai'r awdurdod ymgysylltu â nhw yn ei lle, ynghyd â Pholisi Ymgysylltu a Chyfranogiad.<br>• Mae Canllawiau a Thempledi Safonau Cydweithio ar gyfer Prosiectau Strategol Newydd ar gael.<br>Mae partneriaethau yn Cynnwys:<br>  o BGC;<br>  o Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru;<br>  o Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol;<br>  o Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru; a<br>  o Tyfu Canolbarth Cymru.<br>• Mae'r adolygiad ffurfiol o'r partneriaethau sy'n rhan o'r BGC wedi'i gwblhau. Mae strwythur newydd y partneriaethau wedi bod yn weithredol er mis Mehefin 2018 ac adolygir y partneriaethau yn rheolaidd.<br>• Cynhaliwyd adolygiad o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn 2019 a chraffwyd ar y gwaith hwn.<br>• Darperir cyngor i'r Aelodau a'r Swyddogion sy'n gwasanaethu ar gyrff allanol.<br>• Cyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Cabinet am gyfarfodydd a gweithgareddau partneriaethau. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Sefydlwyd partneriaethau fel Tyfu Canolbarth Cymru, gyda threfniadau llywodraethu.<br>• Cyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Grŵp Arweiniol a'r Cabinet am gyfarfodydd a gweithgareddau partneriaethau.<br>• Adolygir metrigau partneriaethau yn fewnol, lle bo'n briodol.<br>• Mae'r Tîm Cyfreithiol yn rhan o'r gwaith o ddrafftio ac adolygu Cylchoedd Gorchwyl Cytundebau Rhyngawdurdodol ('IAA') a phwyllgorau ffurfiol.<br>• Lluniwyd cyfres o ddogfennau sy'n ymwneud â phrosiectau cydweithredu strategol y mae'r Awdurdod yn ystyried ymuno â nhw. Mae'r dogfennau'n cynnwys canllawiau, safonau a thempledi niferus ar gyfer gwahanol gamau'r prosiectau cydweithredu.<br>• Mae'r Grwpiau Gweithredol wedi cynnal Hunanasesiadau.<br>• Sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Tyfu Canolbarth Cymru. |
| **Ymgysylltu â rhanddeiliaid yn effeithiol, gan gynnwys dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaethau** | • Lluniwyd Coeden benderfynu a siart lif ynghylch ymgynghori ar gyfer y Staff a'r Aelodau.<br>• Rhestr Wirio Ymgysylltu ac Ymgynghori.<br>• Polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad.<br>• Lluniwyd Tudalen Ymgysylltu, Ymgynghoriadau a Phartneriaethau Cymunedol ar CeriNet, sy'n cynnwys dolenni i Bolisi Ymgysylltu a Chyfranogiad, Rhestr Gyfeirio Ymgysylltu ac Ymgynghori, Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth ac Offeryn Gwneud Penderfyniadau wrth Ymgynghori.<br>• Mae Polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad newydd ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion, 'Siarad, Gwrando a Chydweithio' wedi cael ei pharatoi a'i gytuno trwy'r broses ddemocrataidd yn yr hydref 2022<br>• Asesir pob IIA ar gyfer y Cabinet gan y Rheolwr Ymgysylltu a Chyfranogiad, gan gynnwys a oes gweithgarwch ymgysylltu, cynnwys ac ymgynghori effeithiol wedi digwydd a phroses wybodus er mwyn gwneud penderfyniadau strategol.<br>• Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Cyhoedd<br>• Rhestr Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaethau.<br>• Mae gofyn cynnal ymgynghoriad ffurfiol gyda rhanddeiliaid ar gyfer pob cynnig sy'n ymwneud ag ad-drefnu ysgol, trwy gydymffurfio gyda Chod Trefniadaeth Ysgol Llywodraeth Cymru.<br>• Mae'r holl ymgyngoriadau cyfredol ar gael ar Wefan y Cyngor.<br>• Mae fframwaith monitro partneriaethau yn rhoi adroddiadau i'r Grŵp Arweiniol am yr holl benderfyniadau allweddol a wnaed gan y partneriaethau presennol.<br>• Rhestr Wirio Ymgysylltu ac Ymgynghori.<br>• Strategaeth Gorfforaethol (2022-2027).<br>• Pecyn Cymorth IIA.<br>• Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol (diwygiwyd Awst 2018).<br>• Canllawiau ar Frandio Corfforaethol (Mai 2019).<br>• Cofnodion cyfarfodydd a digwyddiadau ymgysylltu strwythuredig.<br>• Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol (2019-2022) yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a chaiff Strategaeth newydd ei datblygu yn 2023.<br>• Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd Trosolwg a Chraffu (2016) (Dogfen N yn y Cyfansoddiad). |

| | |
|---|---|
| | • Mae’r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio i gael barn y cyhoedd am faterion sy’n cael eu hystyried gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.<br>• Darperir adroddiadau cryno am weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu i'r Aelodau a defnyddwyr gwasanaethau.<br>• Cofnodion grwpiau ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig<br>• Cynnwys y gymuned mewn modd effeithiol wrth gyflawni’r gwaith asesu llesiant.<br>• Gwnaed gwaith effeithiol o gynnwys y gymuned gan ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth o gefndiroedd gwahanol er mwyn cyfrannu at y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.<br>• Lledaenu canlyniadau ymgynghori a chaiff adroddiadau am yr ymarferion ymgysylltu a’r ymgynghoriadau a gwblhawyd eu postio ar dudalen gyhoeddus y Cyngor ar y we am ymgynghoriadau er mwyn rhoi adborth i’r cyhoedd.<br>• Cyflwynwyd prosesau er mwyn monitro adborth e.e.  cyflwynir unrhyw adroddiadau ymgynghori/ymgysylltu i’r pwyllgor Craffu a’r Cabinet er mwyn cyfrannu at eu proses o wneud penderfyniadau.<br>• Caiff adborth o weithgarwch ymgysylltu a sut yr ystyriwyd safbwyntiau pobl ei gofnodi yn yr IIAs.<br>• Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru ar yr adolygiad o’n Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol.  Paratowyd cyfres o gwestiynau a fframwaith ymgysylltu ac ymgynghori ar y cyd ac o ganlyniad i hynny, cafwyd adborth gan bobl â nodweddion gwarchodedig.<br>• Cyflawnwyd Asesiad Llesiant (BGC) a fydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu Cynllun Llesiant Lleol y BGC sydd i’w gyhoeddi ym mis Mai 2023.<br>• Mae’r Amcanion Llesiant Corfforaethol wedi’u eu cynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 y Cyngor ac fe’u hadolygir bob blwyddyn.<br>• Cyhoeddir adroddiad blynyddol ar y cynnydd a sicrhawyd yn erbyn amcanion Llesiant a blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor ar Wefan y Cyngor.<br>• Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu CCUHP - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.<br>• Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Safonau Cyfranogi. |

| **Egwyddor C: Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy** | |
|---|---|
| **Is-egwyddor** | **Sut ydym ni’n bodloni’r Egwyddorion hyn** |
| **Diffinio canlyniadau** | • Mae Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor wedi’u cynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 y Cyngor a chânt eu hadolygu bob blwyddyn a’u hadrodd yn yr Hunanasesiad ac Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ac Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a gyhoeddir ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.<br>• Mae'r Cyngor wedi penderfynu ar bwrpas a gweledigaeth y Cyngor ac maent wedi'u cynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.  Mae'r |

| | |
|---|---|
| | strategaeth yn dangos sut y bydd yr awdurdod yn cefnogi ac yn hyrwyddo llesiant dinasyddion Ceredigion.<br>• Mae'r holl drefniadau Cynllunio yn adlewyrchu'r Edefyn Aur ac maent yn cyfeirio at gynlluniau Corfforaethol, gan gynnwys:<br>  o Cynlluniau Busnes;<br>  o Y Cynllun Strategol;<br>  o Adroddiadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol;  ac<br>  o Amcanion Llesiant a Gwella.<br>• Mae'r offeryn a chanllawiau IIA ar gael ac mae hyfforddiant wedi cael ei ddarparu i Swyddogion ac Aelodau.<br>• Mae Polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad ar gael.<br>• Amlinellir y wybodaeth am berfformiad yn Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella'r Cyngor.<br>• Paratoir Cynlluniau Busnes bob blwyddyn a chânt eu monitro bob chwarter gan Fwrdd Perfformiad sy'n cynnwys Aelodau o'r Cabinet a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.<br>• Mae'r pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n craffu'n fanwl ar y broses o bennu'r gyllideb.<br>• Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>• Mae'r trefniadau perfformiad chwarterol yn darparu protocol her i sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cyflawni.<br>• Mae'r broses cynllunio busnes yn cynnwys dyrannu adnoddau.<br>• Mae'r trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol yn cynnwys asesiad chwarterol o'r risgiau rhag cyflawni canlyniadau neu ddarparu gwasanaethau.<br>• Mae'r gwaith o reoli risgiau'n cynnwys logiau risg ar gyfer:<br>  o Cynlluniau Busnes (Lefel 1);<br>  o Cynlluniau Gwasanaeth (Lefel 2).<br>• Caiff mesurau perfformiad lleol eu cynnwys mewn cynlluniau Busnes a chynlluniau cyflenwi gwasanaethau.<br>• Mae Cynlluniau Cyfalaf yn cynnwys:<br>  o Hawliau Tramwy;<br>  o Priffyrdd;<br>  o Cynllun y Gyllideb Flynyddol;  a<br>  o Thrawsnewid.<br>• Cymeradwyodd y Cabinet y Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risgiau, ynghyd â'r Fframwaith Rheoli Risgiau, ar 24 Medi 2019.<br>• Cyflwynir hyfforddiant rheoli risgiau i'r Aelodau a'r Uwch-reolwyr.<br>• Lluniwyd pecyn e-ddysgu rheoli risgiau ar gyfer yr holl staff eraill.<br>• Ystyrir data am berfformiad gwasanaeth a gyhoeddir, gan gynnwys costau a gwerth am arian, yn rheolaidd mewn adroddiadau gwasanaeth. |
| **Manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy** | • Mae'r Archwiliwr penodedig yn ystyried trefniadau'r Cyngor i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Yn ei lythyr, dywed fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran defnyddio ei adnoddau.<br>• Cyhoeddwyd yr Archwiliad diweddaraf o Gynllun Gwella'r Cyngor (2020-2021) ym mis Tachwedd 2020.  Daeth yr adroddiad i gasgliad cadarnhaol fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i raddau digonol i gyflawni ei ddyletswyddau. |

DRAFT

- Llenwir ffurflen arfarnu cyfalaf ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd, sy'n cynnwys y gofyniad ar gyfer y prosiect, ac fe'i defnyddir i asesu gwerth am arian a goblygiadau refeniw prosiectau mawr.
- Mae'r Strategaeth Buddsoddi Cyfalaf yn rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.
- Mae'r Awdurdod wedi cymryd y camau canlynol i roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith:
  - Paratoi datganiad ac amcanion llesiant;
  - Cynnwys y Nodau Llesiant a'r egwyddor Datblygu cynaliadwy yn y broses cynllunio busnes;
  - Datblygu canllawiau ac offeryn IIA newydd;
  - Sefydlu grŵp a chynllun gweithredu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
  - Mae'r Cyfansoddiad yn cael ei fonitro a'i adolygu o hyd;
  - Cyhoeddwyd asesiad Llesiant Lleol BGC ym mis Mawrth 2017;
  - Cytunwyd ar drefniadau craffu ar gyfer BGC;
  - Bydd adroddiadau'r Cabinet yn cynnwys asesiad o'r effaith gymdeithasol / economaidd / amgylcheddol;
  - Datblygwyd modiwl e-ddysgu gorfodol am y Ddeddf ac fe'i hyrwyddwyd ymhlith holl Staff y Cyngor;
  - Rhaid cyflawni asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, y gymuned a'r Gymraeg ar gyfer unrhyw gynnig i ailstrwythuro ysgolion, fel sy'n ofynnol dan God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru; ac
  - Mae'r Aelodau wedi cyfrannu at Fframwaith Craffu Swyddog Cenedlaethau'r Dyfodol o ran WFGA.
- Mae datganiad polisi caffael Cymru yn cydweddu â Strategaeth Gaffael 2018-2022 y Cyngor.
- Mae'r offeryn a'r canllawiau IIA ar gael ac fe'u defnyddir i gefnogi'r broses benderfynu.
- Anogir craffu cyn penderfynu lle bo modd.
- Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.
- Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.
- Y Rhaglen Drawsnewid.
- Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mai 2018.
- Mae Rhestrau Gwirio Ymgysylltu ac Ymgynghori ar gael ar CeriNet.
- Cynllun Gweithredu Grŵp WFGA ar draws y Cyngor.
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024.
- Mae adroddiad monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021-2022 wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Safonau'r Gymraeg.
- Adroddiad Monitro Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg.
- Cyflwynwyd Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Blynyddol 2021/22 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 21.9.22 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 24.11.22.
- Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl e-ddysgu gorfodol am Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
- Cafodd yr Aelodau Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Chydraddoldeb fel rhan o'u Rhaglen Gynefino.

DRAFT

| Egwyddor D: Penderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen i wneud y gorau o'r camau i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig | |
|---|---|
| **Is-egwyddor** | **Sut ydym ni'n bodloni'r Egwyddorion hyn** |
| **Penderfynu ar ymyriadau** | • Mae canllawiau ac offeryn IIA ar gael, a darparwyd hyfforddiant i Swyddogion ac Aelodau.<br>• Sefydlwyd grŵp rheoli prosiectau corfforaethol i ffurfioli'r gwaith o ddatblygu a rheoli prosiectau.<br>• Defnyddir templedi adrodd safonol yn y broses benderfynu.<br>• Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sefydliadol ar gael fel modiwl dewisol o'r Rhaglen Rheolwyr Corfforaethol, sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r defnydd o'r IIAs, ac mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac MO (CLO-Cyfreithiol a Llywodraethu) yn rhoi cyngor yn ôl yr angen.<br>• Cyhoeddwyd Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg (cymeradwywyd gan y Cabinet ar 24.9.10) ynghyd â rhaglen hyfforddiant i Aelodau, Rheolwyr Uwch a Rheolwyr, ar CeriNet ac mae ar gael i'r holl Aelodau o Staff. Diwygiwyd y dogfennau i adlewyrchu risgiau ychwanegol a gwybodaeth gefndirol er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus. Adroddir y Gofrestr Risg Corfforaethol yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu<br>• Diweddarwyd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn rheolaidd.<br>• Mae offeryn coeden penderfyniadau ymgynghori yn cynnwys adran sy'n cynnig canllawiau am ledaenu canlyniadau ymgynghori.<br>• Ceir her ariannol o ran arbedion ar Wefan y Cyngor. |
| **Cynllunio ymyriadau** | • Defnyddir calendr i roi gwybod am derfynau amser, a chyhoeddir dyddiadau'r Bwrdd / Panel Gweithredol gyda'r adroddiadau.<br>• Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol 2019-2022 yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Caiff strategaeth newydd ei datblygu yn 2023.<br>• Mae gan BGC Ceredigion Gynllun Llesiant Lleol a ddatblygwyd ac a ddarparwyd ar y cyd â rhanddeiliaid a phartneriaid allanol.<br>• Mae BGC wedi cynnal Asesiad Llesiant Lleol sydd wedi cyfrannu at y Cynllun Llesiant Lleol ac Amcanion Llesiant y Cyngor dros y blynyddoedd nesaf.<br>• Mae gan bob prosiect cydweithredu mawr drefniadau llywodraethu a rheoli, gan gynnwys rheoli risg.<br>• Ystyrir pob prosiect gan y Panel Rheoli Prosiect Corfforaethol, a fynychir gan IA hefyd ac mae'n fforwm effeithiol ar gyfer cynghori/herio ac amlygu risgiau wrth i feysydd Gwasanaeth ddatblygu prosiectau, gan gynnwys prosiectau cydweithio.<br>• Mae'r Panel Rheoli Prosiect Corfforaethol yn helpu i sicrhau bod prosiectau yn rhoi ystyriaeth gynnar i: Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol; i ganllawiau eraill; i gyllid, caffael, llywodraethu a threfniadau cyfreithiol; i oblygiadau AD; Iechyd a Diogelwch; ac Archwilio. Gwella trefniadau prosiect cyn adrodd i'r Grŵp Datblygu a phrosesau awdurdodi eraill.<br>• Helpu i bennu'r gofynion cyfalaf i'w cynnwys mewn rhaglenni cyfalaf yn y dyfodol.<br>• Bydd newidiadau deddfwriaethol yn cael eu hystyried e.e. mae'r gwaith yn parhau mewn perthynas â gweithredu newidiadau deddfwriaethol |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | megis newidiadau Deddf LGEW 2021 ac ystyried/monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir.<br>• Mae trefniadau Craffu ar y Cyd priodol yn eu lle mewn perthynas â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru. Yn yr un modd, bydd gan Gyd-Bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru drefniadau is-bwyllgor priodol yn eu lle (Cyd-Bwyllgor Craffu, Safonau ac Archwilio a Llywodraethu) – mae'r trefniadau yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth a'i Reolau Sefydlog.<br>• Sicrhau bod Staff sy'n meddu ar sgiliau rheoli prosiectau ar gael.<br>• Pennwyd a chymeradwywyd dangosyddion perfformiad lleol ar gyfer pob elfen gwasanaeth a'u cynnwys yn y cynllun gwasanaeth, a rhoddir adroddiadau rheolaidd yn eu cylch.<br>• Gweithredir y broses Cynllunio Busnes ar gyfer 2022-23 a rhennir Cynlluniau Busnes Lefel 1 gyda'r Tîm Perfformiad ac Ymchwil.<br>• Nodwyd mesurau perfformiad ym mhob Cynllun Busnes Lefel 1 y maent yn eu tro wedi cael eu trosi i'r Dangosfwrdd adrodd ar gyfer pob gwasanaeth. Mae'r mesurau hyn wedi cael eu craffu yn agos ac wedi cael eu cymeradwyo'n derfynol gan yr arweinwyr uwch. Mae gwasanaethau yn adrodd yn erbyn y mesurau hyn fel rhan o'r broses rheoli perfformiad ar gyfer y flwyddyn.<br>• Mae'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cynnwys:<br>o Cyfarfodydd wythnosol y Grŵp Arweiniol;<br>o Adroddiadau cynnydd chwarterol ynghylch Cynlluniau Busnes lefel 1;<br>o Cyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad bob chwarter; a<br>o Chyfarfodydd y Panel Gweithredol bob chwarter.<br>• Mae Cynlluniau Busnes yn cynnwys gwybodaeth gyllidebol ac ariannol, ac maent yn rhan o'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol chwarterol.<br>• Fframwaith y Gyllideb.<br>• Cyfrifyddiaeth Gwasanaethau – Monitro'r gyllideb.<br>• Mae'r Rheoliadau Ariannol a Rheolau'r Weithdrefn Ariannol (Dogfen F yn y Cyfansoddiad) a'r Canllawiau Rheoli Cyllidebol i gyd yn gyfredol. Datganiadau Sicrwydd y Prif Swyddog. Adolygir y rheolaethau mewnol sydd ar waith yn rheolaidd gan Archwilio Mewnol, yn unol â'r cynllun archwilio blynyddol sy'n seiliedig ar risg.<br>• Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.<br>• Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.<br>• Cymeradwywyd Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol 2022/2023 gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 10 Mawrth 2022. |
| **Gwneud y gorau o'r camau i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig** | • Mae newidiadau trwy'r cynllun arbedion corfforaethol wedi bod trwy broses lywodraethu gadarn er mwyn sicrhau bod yr holl arbedion yn cysylltu â'r canlyniad a ddymunir.<br>• Mae'r Rheoliadau Ariannol a Rheolau'r Weithdrefn Ariannol (Dogfen F yn y Cyfansoddiad) a'r Canllawiau Rheoli Cyllidebol i gyd yn gyfredol. Datganiadau Sicrwydd y Prif Swyddog.<br>• Adolygir y rheolaethau mewnol sydd ar waith yn rheolaidd gan IA, yn unol â'r cynllun archwilio blynyddol sy'n seiliedig ar risg.<br>• Cymeradwywyd Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol 2022/2023 gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 10/3/22.<br>• Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar waith. |

| | |
|---|---|
| | • Mae'r cynllun arbedion corfforaethol wedi bod yn destun proses lywodraethu gadarn i sicrhau bod yr holl arbedion yn gysylltiedig â'r canlyniad arfaethedig.<br>• Buddion Cymunedol wedi'u corffori yn ein prosesau a'n polisïau ac wedi cael eu cymhwyso, eu monitro a'u hadrodd arno yn rheolaidd.<br>• Caiff Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ei hintegreiddio yn ein prosesau. |

| **Egwyddor E: Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion tu mewn iddo** | |
|---|---|
| **Is-egwyddor** | **Sut ydym ni'n bodloni'r Egwyddorion hyn** |
| **Datblygu capasiti'r endid** | • Mae hyfforddiant cynefino corfforaethol a rheoli llinell bellach ar waith. Cyflwynwyd cynlluniau Datblygu Rheolwyr Corfforaethol a chynefino corfforaethol ym mis Ebrill 2018 a'u diwygio ym mis Hydref 2022. Mae'r sesiynau cynefino corfforaethol yn rhan o'r gofynion hyn a rhaid i bob aelod newydd o Staff fynychu sesiwn gynefino. Mae Uwch-reolwyr yn bresennol yn y sesiynau hyn a gynhelir wyneb yn wyneb neu'n rhithiol.<br>• Caiff CeriNet (y fewnrwyd a'r adnodd Adnoddau Dynol i'r Staff a'r rheolwyr) ei hadolygu'n gyson a'i gwella i sicrhau ei bod yn effeithiol.<br>• Rheolir Dysgu a Datblygu trwy system CeriNet erbyn hyn, gan ddarparu cyfleoedd i'r holl staff. Cyflwynir modiwlau e-ddysgu i sicrhau bod hyfforddiant a datblygu yn gost-effeithiol lle bynnag y bo modd.<br>• Cynllun Perfformiad Personol blynyddol parhaus – mae Adolygiadau Perfformiad yn cysylltu gydag amcanion Corfforaethol a strategol.<br>• Mae'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn darparu fforwm ar gyfer rheoli perfformiad a pharatoi cynlluniau gweithredu i gyflawni gwelliannau corfforaethol o ran adolygu perfformiad staff. Cryfhawyd y rhain ymhellach trwy gyflwyno arfarniadau blynyddol i'r holl Staff trwy system Adnoddau Dynol Ceri.<br>• Darperir rhaglen gynefino i Aelodau newydd. Trefnir hyfforddiant parhaus ar faterion penodol e.e. rheoli'r Trysorlys.<br>• Mae Aelodau'n mynd i amryw o ddigwyddiadau, seminarau a chynadleddau (gweler uchod).<br>• Mae proses Adolygu Datblygiad Personol ar waith ar gyfer yr Aelodau.<br>• Defnyddio ymchwil ac ymarferion meincnodi.<br>• Trwy gyflwyno system gyflogres AD Ceri, bu modd sicrhau bod data ystyrlon am Staff ar gael i'r Rheolwyr bob mis er mwyn iddynt fonitro costau, trosiant ac absenoldebau.<br>• Gweithredu partneriaethau sy'n cyflawni canlyniadau y cytunir arnynt yn effeithiol.<br>• Datblygwyd Partneriaethau effeithiol mewn nifer o feysydd a gwasanaethau, gan gynnwys:<br>    ○ Gwella Ysgolion;<br>    ○ Iechyd a Gofal cymdeithasol; a<br>    ○ Gwastraff.<br>• Mae partneriaethau ychwanegol wedi'u cynnwys yn y Rhestr o Brosiectau Cydweithredu strategol. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Mae'r broses o gynllunio'r gweithlu mewn modd strategol wedi'i rhoi ar waith gan ddefnyddio pecyn cymorth cynllunio'r gweithlu ac mae'n cael ei gwblhau gan bob maes gwasanaeth. Mae Cynllun y Gweithlu 2022-2027 yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a chaiff ei gyhoeddi ar ôl cael ei gymeradwyo gan y Cabinet ar ddechrau 2023. Pan fydd yn ei le, adroddir diweddariadau am gynnydd Cynllun y Gweithlu i'r Pwyllgor Craffu. |
| **Datblygu capasiti arweinyddiaeth y sefydliad ac unigolion eraill** | • Mae'r strwythur Swyddogion Uwch ac Arweinwyr wedi diffinio'r rolau hyn, gan gynnwys sut y maent yn integreiddio â'i gilydd.<br>• Mae cyd-gyfarfodydd yr Uwch-reolwyr yn sicrhau bod swyddogaethau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn glir.<br>• Mae disgrifiadau swyddi'n diffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau gofynnol y swyddi yn glir.<br>• Mae'r <u>Cyfansoddiad</u> yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r Aelodau (Rhan 3.4, Tabl 4) a'r Uwch-swyddogion (rhan 2 Erthygl 2)<br>• Ceir Cynllun Dirprwyo (Y <u>Cyfansoddiad</u>, Rhan 3.5) sy'n nodi cyfrifoldebau'r Aelodau a'r Swyddogion yn glir.<br>• Mae'r Pecyn Cymorth Cynllunio Strategol yn cynnwys elfen o gynllunio olyniaeth a rheoli talent.<br>• Darperir cyfleoedd Dysgu a Datblygu i'r rheini sy'n ysgwyddo rôl arweiniol ac i ddarpar arweinwyr.<br>• Ceir protocolau ynghylch perthnasoedd gwaith rhwng yr Aelodau a'r swyddogion (e.e. Protocol Swyddog-Aelod).<br>• Ceir Codau Ymddygiad ar gyfer Aelodau a Swyddogion.<br>• Ceir gweithgorau Swyddogion ac Aelodau ac maent yn gweithredu'n effeithiol.<br>• Adolygir <u>Rheolau Gweithdrefn Contract ('CPR') (Rhan 4 Dogfen G yn y Cyfansoddiad)</u> a'r <u>Rheoliadau Ariannol sy'n cyd-fynd â gweithdrefnau ariannol (Rhan 4 Dogfen F yn y Cyfansoddiad)</u> yn rheolaidd e.e. diweddarwyd CPR ym mis Mawrth 2019.<br>• Sefydlwyd strwythur Corfforaethol y Cyngor i sicrhau bod modd i'r Swyddogion Statudol gyflawni eu rolau mewn ffordd effeithiol.<br>• Mae CE yn gyfrifol am adolygu'r strwythur hwn yn ôl y gofyn.<br>• Rhaglen Gynefino gynhwysfawr i'r Aelodau.<br>• Mynediad at gyrsiau/briffiau ar ddeddfwriaeth newydd.<br>• Darparu cyfleoedd i Swyddogion gael hyfforddiant sgiliau ac atgoffa parhaus.<br>• Gweithdai i'r Aelodau a drefnir yn ôl yr angen.<br>• Adolygiadau personol ar gyfer Swyddogion.<br>• Darparu cyfleoedd i'r Aelodau gael hyfforddiant sgiliau ac atgoffa, a'u hadolygu'n barhaus (gweler uchod), gan gynnwys Cynllun Adolygu Datblygiad Personol.<br>• Fe'i gwneir fel rhan o fanyleb person swyddi cyllid a chyfreithiol allweddol (cymhwyster gorfodol, gofynion swydd).<br>• Nod y Cyngor yw sicrhau lefel safon Siarter Cymru ar gyfer Cymorth a Datblygiad Aelodau.<br>• Mae disgrifiadau rôl aelodau yn eu lle ac yn cael eu diweddaru pan fydd amgylchiadau'n newid.<br>• Datblygwyd proses ar gyfer Adolygiadau Datblygiad Personol Aelodau a defnyddir y wybodaeth i ddatblygu Cynllun Hyfforddiant Aelodau.<br>• Mae cynlluniau Datblygu Rheolwyr Corfforaethol a Chynefino yn eu lle. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Mae gwybodaeth gynefino, Llawlyfr Staff a Phecyn Adnoddau i Reolwyr ar gael ar Ceri.<br>• Caiff pecynnau e-ddysgu eu datblygu a'u cyflwyno yn rheolaidd ar gyfer hyfforddiant gorfodol ac anorfodol i staff ac Aelodau.<br>• Cynhelir Adolygiadau Perfformiad gan yr holl Staff fel rhan o fodiwl Rheoli Perfformiad system Ceri.<br>• Hyfforddiant wedi'i ddarparu i Aelodau (fel rhan o raglen sefydlu ar gyfer Aelodau (o fis Mai 2022)) Hyfforddiant Aelod Cabinet, hyfforddiant Pwyllgor Moeseg a Safonau (rôl), hyfforddiant Arweinydd Grŵp Gwleidyddol a Hyfforddiant Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (rôl).Mae aelodau yn mynychu digwyddiadau, seminarau a chynadleddau amrywiol (gweler uchod).<br>• Mae cyfleoedd Dysgu a Datblygu ar gael i Staff ac Aelodau ar amryw o bynciau, drwy system hunanwasanaeth Ceri.<br>• Gall rheolwyr hefyd gadw lle i Staff mewn digwyddiadau perthnasol drwy'r system Hunanwasanaeth i Reolwyr.<br>• Cynhelir hunanasesiad craffu bob blwyddyn.<br>• Rydym yn cynllunio olyniaeth trwy drafod a chymryd camau gweithredu o fewn meysydd gwasanaeth a chyda phartneriaid, ac ni ellir darparu tystiolaeth o hyn bob amser. Datblygir hyn ymhellach trwy becyn cymorth cynllunio'r gweithlu Strategol.<br>• Mae Rhaglen Rheolwyr Ceredigion yn darparu cyfleoedd datblygu personol, gan gynnwys trefniadau llywodraethu a gwybodaeth sefydliadol.<br>• Rhestr ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaethau.<br>• Polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad.<br>• Cyhoeddir cofnodion presenoldeb bob blwyddyn.<br>• Anogir a chynorthwyir Aelodau i gwblhau Adroddiadau Blynyddol, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.<br>• Mae Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn mynychu'r Rhwydwaith Cenedlaethol, wedi'i hwyluso gan WLGA.<br>• Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn mynychu Grŵp Rhwydweithio Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Cymru i ddatblygu'r rôl a chymharu'r rôl o fewn Awdurdodau Lleol.<br>• Hyfforddiant wedi'i ddarparu i'r Aelodau (fel rhan o'r rhaglen gynefino i Aelodau (o fis Mai 2022)) hyfforddiant Aelodau Cabinet, hyfforddiant y Pwyllgor Moeseg a Safonau (rôl), hyfforddiant Dyletswyddau Arweinydd Grŵp Gwleidyddol a hyfforddiant y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (rôl).<br>• Cynllun datblygu'r Aelodau.<br>• Adolygu datblygiad personol yr Aelodau.<br>• Anogir a chynorthwyir Aelodau i gwblhau Adroddiadau Blynyddol, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.<br>• Polisïau Adnoddau Dynol.<br>• Polisi Gweithle Di-fwg.<br>• Polisi Camddefnyddio Alcohol a Chyffuriau.<br>• Mae'r Cyngor wedi cyflwyno amryw o adnoddau ac opsiynau i wella iechyd a lles y Staff.<br>• Cyflwynwyd Strategaeth Iechyd a Lles 2021-2026 er mwyn cynorthwyo'r gwelliant yn iechyd a lles y gweithlu. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Mae'r Cyngor wedi penodi Swyddog Iechyd a Llesiant y Gweithwyr er mwyn cydlynu a hybu iechyd a llesiant o fewn y gweithlu.<br>• Cyflwynwyd pecyn cymorth Gofal yn Gyntaf i gyflogeion sy'n cynnig:<br>  ○ Gwasanaeth cwnsela; a<br>  ○ Chyngor am faterion ariannol, cyfreithiol, defnyddwyr, gofalu am bobl hŷn, gofal plant a chyflogaeth.<br>• Mae'r Cymorth arall sydd ar gael i Staff yn cynnwys:<br>  ○ Rhaglen iechyd a lles Rhyngweithiol Therapi Ymddygiad Gwybyddol;<br>  ○ Cynllun gofal llygaid;<br>  ○ Cynllun talebau gofal plant;<br>  ○ Iechyd Da; a<br>  ○ Hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar ar gyfer Staff a Rheolwyr.<br>• Mae gwasanaeth cwnsela hefyd ar gael i'r Aelodau. |

| **Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus mewn ffordd gadarn** | |
|---|---|
| **Is-egwyddor** | **Sut ydym ni'n bodloni'r Egwyddorion hyn** |
| **Rheoli risg** | • Cymeradwyodd y Cabinet y Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risgiau ar 24 Medi 2019.<br>• Mae'r Fframwaith Rheoli Risgiau Corfforaethol yn parhau i gael ei ddiweddaru.<br>• Ystyrir y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn holl gyfarfodydd y Grŵp Arweiniol a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, mewn cyfarfodydd Rheoli Perfformiad Corfforaethol, a chan y Pwyllgor Archwilio fel eitem sefydlog ar ei agendâu.<br>• Mae Rheoli Risg yn rhan annatod o'r broses o baratoi cynlluniau busnes gweithredol, a phennu Polisïau a Strategaethau.<br>• Cofnodir risgiau prosiectau a thrawsnewid.<br>• Mae pob Cynllun yn cynnwys logiau Risg, gan gynnwys<br>  ○ Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig;<br>  ○ Cynlluniau Busnes (Lefel 1); a<br>  ○ Chynlluniau Gwasanaeth (lefel 2).<br>• Caiff trefniadau Rheoli Risg corfforaethol eu harchwilio'n rheolaidd.<br>• Mae rheoli risg yn rhan o raglenni archwilio gwasanaethau unigol / y sefydliad.<br>• 'Risgiau' yw sylfaen rhaglenni gwaith archwilio yr Archwiliad Mewnol, yn unol â'r gofyniad gan system meddalwedd rheoli archwilio MKI/Pentana, ac estynnwyd templed adrodd y Cabinet er mwyn cynnwys risgiau a goblygiadau sy'n codi.<br>• Mae gofyn cael diweddariadau rheolaidd ynghylch Risg ar gyfer Perfformiad Corfforaethol.<br>• Cyflawnir gwaith penodol i Fonitro Risg Prosiect.<br>• Caiff pob Risg ei dyrannu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol (Perchennog Risg). |
| **Rheoli perfformiad** | • Mae rheoli perfformiad corfforaethol yn gysylltiedig â'r Amcanion Llesiant a Gwella, Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 a chynlluniau BGC. Mae gan y Cyngor nifer o ddangosyddion lleol hefyd sy'n ei helpu |

| | |
|---|---|
| | i bennu a yw wedi cyflawni'r blaenoriaethau yn ei Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.<br>• Hunanasesiad ac Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ac Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant cymeradwyo gan y Cyngor yn flynyddol.<br>• Defnyddir gwybodaeth feincnodi wrth ailfodelu gwasanaethau.<br>• Asesiadau allanol a mewnol gan:<br>o Archwilio Cymru;<br>o Estyn;<br>o Arolygiaeth Gofal Cymru ('ASGC');<br>o Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ('IPCO'); a<br>o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ('ICO').<br>• Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gwneud hunanasesiad blynyddol.<br>• Mae Gwasanaethau Unigol yn cyflawni hunanasesiadau gan ddefnyddio matrics perfformiad.<br>• Mae IA yn cynnal hunanasesiad bob blwyddyn ac mae'n destun adolygiad annibynnol allanol/adolygiad gan gymheiriaid bob 5 mlynedd fel sy'n ofynnol gan PSIAS. EQA wedi'i gwblhau mis Mai 2022.<br>• Perfformiad o ran costau (gan ddefnyddio mewnbynnau ac allbynnau).<br>• Mae Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cwrdd bob chwarter. Mae pob Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn adrodd i'r Panel hwn a chyhoeddir y Dyddiadau adrodd yn yr adroddiad. Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n mynd i'r cyfarfodydd er mwyn iddynt allu pennu meysydd i'w cynnwys yn eu Blaenraglenni Gwaith.<br>• Mae'r Prif Swyddogion yn rhoi cymorth a chyngor i'r Aelodau.<br>• Diweddarwyd templed yr adroddiadau i'r Cyngor / Cabinet er mwyn cynnwys cyfeiriad at y goblygiadau cyfreithiol, y goblygiadau o ran staffio, y goblygiadau o ran eiddo/asedau a risgiau.<br>• Mae'n ofynnol cynnwys goblygiadau ariannol ym mhob adroddiad i'r Cabinet.<br>• Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn rhoi cyngor.<br>• Mae MO yn rhoi cyngor.<br>• Cytundeb ar y wybodaeth y bydd ei hangen a'r terfynau amser.<br>• Mae trefniadau craffu ar waith a gefnogir ac sy'n cynnig cyfleoedd i herio penderfyniadau ac i adolygu'r gwasanaethau a ddarperir. Nod y drefn graffu yw darparu gwerth ychwanegol i'r agenda gwelliant parhaus trwy ei rôl fel "cyfaill beirniadol". Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu hefyd yn darparu cyfleoedd i gyflawni gwaith cyn penderfynu a gwaith llunio polisïau. Mae hon yn swyddogaeth sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf. Nod y Cyngor yw craffu cyn gwneud penderfyniadau lle bo modd.<br>• Cymeradwywyd y Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd Trosolwg a Chraffu (2016) (Dogfen N, y Cyfansoddiad) gan y Cyngor a'i ddefnyddio ar sawl achlysur.<br>• Mae trefniadau ar waith i gasglu barn y cyhoedd trwy'r cyfryngau cymdeithasol a'i rannu gyda'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu er mwyn ei hystyried.<br>• Hyfforddiant i'r Aelodau ar rôl y Pwyllgor Craffu.<br>• Hyfforddiant wedi'i ddarparu i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Mae manylion aelodaeth yr holl Bwyllgorau Craffu ar gael ar wefan y Cyngor.<br>• Mae Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y Cyngor yn gyfrifol am gadw llygad ar effeithiolrwydd cyffredinol BGC.<br>• Ymgymerwyd â gwaith gyda Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu Fframwaith Craffu mewn perthynas â WFGA.<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.<br>• Adolygodd y Cyngor ei drefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn 2017 er mwyn gwella'r gwaith o fonitro ei gynlluniau busnes a'i ddangosyddion perfformiad. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'r Amcanion Llesiant Corfforaethol a Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 hefyd.<br>• Cyfeirir Trawsnewid a Risgiau at Baneli a chyfarfodydd Llywodraeth Leol ar y cyd.<br>• Gall Pwyllgorau Craffu ofyn am adroddiadau unrhyw bryd.<br>• Mae gwaith monitro ariannol yn digwydd yn rheolaidd ar draws y Cyngor dan drefniadau cyfrifyddu datganoledig, a darperir adroddiadau ffurfiol i'r Cabinet. Mae gwaith monitro hefyd yn rhan o'r adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol.<br>• Mae'r Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau'r Weithdrefn Ariannol (Dogfen F yn y Cyfansoddiad) a'r Rheoliadau Contractau (Dogfen G yn y Cyfansoddiad) i gyd yn gyfredol. Cymeradwywyd y Strategaeth Gaffael 2018-2022 gyfredol yn 2018.<br>• Arferion cyfrifyddu – cydymffurfir â Chodau Ymarfer. Paratoir dangosyddion darbodus a darperir adroddiadau arnynt i'r Cyngor. Cânt eu monitro drwy gydol y flwyddyn. Mae'r gyllideb yn cael ei monitro'n gyson drwy gydol y flwyddyn. Mae IA hefyd yn adolygu'r rheolaethau dros gasglu a monitro incwm.<br>• Caiff Cynlluniau Busnes/Gwasanaeth eu monitro i sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cyflawni. |
| **Rheolaeth fewnol gadarn** | • Cymeradwyodd y Cabinet y Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risgiau ynghyd â'r Fframwaith Rheoli Risgiau ar 24 Medi 2019.<br>• Cyflwynir diweddariadau ynghylch trefniadau Parhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl yn rheolaidd yn unol â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, Risg CORP04.<br>• Mae'r Grŵp Parhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl yn cyfarfod bob chwarter.<br>• Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol yn cael ei asesu o safbwynt risg ac mae'n ystyried nodau ac amcanion y Cyngor, a'i bolisïau a'i weithdrefnau corfforaethol, gan gynnwys adolygu'r trefniadau corfforaethol ar gyfer Rheoli Risg a phrofi'r mesurau rheoli lliniarol sydd ar waith ar gyfer sampl o'r risgiau a nodir yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.<br>• Mae'r adroddiadau archwilio mewnol a roddir i'r Rheolwyr yn tynnu sylw at y risgiau o beidio â gweithredu unrhyw gamau y mae'r gwasanaeth IA yn eu hargymell. Mae camau gweithredu sylfaenol ac arwyddocaol a argymhellir yn cael eu dilyn i fyny a'u hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Os yw'r CMIA o'r farn nad yw Rheolwr wedi rhoi sylw i unrhyw risgiau sylfaenol, adroddir hyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, y mae ganddo y disgresiwn i ofyn i'r Rheolwr fynychu ac esbonio'r rheswm dros y diffyg cydymffurfiaeth. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Mae'r Archwilydd a benodwyd yn ystyried trefniadau'r Cyngor er mwyn sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac yn ei lythyr, mae wedi nodi bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau ynghylch y defnydd a wneir o'i adnoddau.<br>• Mae Amcanion y Cyngor yn cyd-fynd â Strategaethau.<br>• Fframwaith Rheoli Risgiau'r Cyngor.<br>• Mae'r Grŵp Rheoli Argyfyngau a Pharhad Busnes yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu Cynlluniau a Threfniadau Argyfyngau a Pharhad Busnes Corfforaethol a Meysydd Gwasanaeth, yn ogystal ag argymhellion sy'n codi o ddigwyddiadau ac ymarferion blaenorol i ddarparu tystiolaeth o'r risg, i bennu'r tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac i gofnodi unrhyw wersi a ddysgwyd er mwyn mynd i'r afael â nhw.<br>• Mae gwerthuso risg bob amser yn ymddangos ar agendâu.<br>• Cymeradwywyd Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol gan y Pwyllgor Llywodraethu a Archwilio.<br>• Gall cynllun archwilio blynyddol IA roi sylw i unrhyw angen i ail-flaenoriaethu gwaith, gan ganiatáu i IA ymateb i unrhyw newidiadau o ran risg yn y Cyngor.<br>• Cyflwynir Adroddiadau Cynnydd Chwarterol rheolaidd ynglŷn ag Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu at ddibenion monitro.<br>• Cyflwynir crynodeb o'r gwaith a'r farn archwilio ar sicrwydd yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn.<br>• Adolygiadau IA dilynol er mwyn monitro gweithrediad camau gweithredu gofynnol.<br>• Caiff y rheolaethau mewnol a'r prosesau risg a llywodraethu eu monitro yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol a'r Cynllun a'r Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol.<br>• Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd (CIPFA, 2014).<br>• Mae gan yr Archwilwyr Mewnol weithdrefnau ar waith os caiff twyll ei ganfod.<br>• Mae IA yn ymgymryd â gwaith atal twyll pan fo angen (yn ogystal ag ymdrin ag achosion o dwyll a ganfuwyd fel yr ystyriwyd yn gynharach).<br>• Mae Swyddog yn y tîm IA yn Dechnegydd Atal Twyll achrededig.<br>• Mae Swyddog yn y tîm IA yn meddu ar Dystysgrif mewn Arferion Ymchwilio gan CIPFA ('CCIP').<br>• Mae 'Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian) wedi'i pharatoi o ran y Cod Ymarfer ac mae wedi'i diweddaru i sicrhau bod yr holl ofynion wedi'u cynnwys.<br>• Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Menter Twyll Cenedlaethol flynyddol Archwilio Cymru. IA sy'n cydgysylltu'r gwaith hwn ar hyn o bryd.<br>• Mae IA yn cyflwyno Adroddiad Atal Twyll i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bob blwyddyn.<br>• Monitro ac ymateb i rybuddion ynghylch twyll (NAFN, rhwydweithiau ehangach, cymheiriaid, ac ati);<br>• Aelodaeth a chyfranogiad gweithredol mewn grwpiau a rhwydweithiau proffesiynol (Tisonline, KHub, ac ati); |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Mae IA yn cynnig cyngor i wasanaethau ynghylch gweithredu systemau a phrosesau newydd er mwyn sicrhau y caiff rheolaethau mewnol effeithiol eu cynnal;<br>• Mae Swyddogion enwebedig yn y Cyngor yn cael hyfforddiant twyll amrywiol er mwyn cynnal eu gwybodaeth a'u harbenigedd;<br>• Ychwanegwyd archwiliadau rheolaeth ariannol allweddol i'r cynllun archwilio, er mwyn archwilio rheolaethau, llywodraethu a risgiau tra bod staff yn gweithio gartref<br>• Cymeradwywyd AGS 2021/22 gan y Cyngor ar 19 Ionawr 2022 gyda'r Datganiad o'r Cyfrifon. Mae AGS yn cynnwys barn flynyddol CMIA ynghylch sicrwydd.<br>• Mae CMIA sy'n astudio ar hyn o bryd i ennill cymhwyster CIPFA yn bennaeth ar y swyddogaeth IA, mae ganddo CMIA brofiad sylweddol ym maes llywodraeth leol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan dîm sy'n meddu ar sgiliau a gwybodaeth briodol. Adroddir yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am weithgarwch IA. Mae blaenraglen waith gadarn sy'n seiliedig ar risg a gweithgarwch cynllunio busnes yn eu lle.<br>• Mae Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd i reolwyr unigol ar ôl pob adolygiad archwilio – yna defnyddir y rhain i ddarparu lefel gorfforaethol gyffredinol o sicrwydd yn flynyddol, sy'n bwydo i mewn i'r AGS.<br>• Ailstrwythurwyd y gwasanaeth Archwilio Mewnol ym mis Mai 2019 ac eto ym mis Tachwedd 2020. Mae pob swydd wedi'i llenwi er 1 Rhagfyr 2020.<br>• Mae dau aelod staff wrthi'n astudio ar gyfer cymhwyster hyfforddiant proffesiynol Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd.<br>• Sefydlwyd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy'n pennu ei gynllun gwaith ei hun. Mae aelod o'r wrthblaid yn cadeirio'r Pwyllgor (tan mis Mai 2022 pan fydd Unigolyn Lleyg yn Gadeirydd, yn unol â darpariaethau Deddf 2021).<br>• Diweddarwyd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 6 Rhagfyr 2018.<br>• Cwblhawyd adolygiad o faint y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a chymeradwywyd y ffaith y bydd ei faint yn newid i 9 aelod (1/3 Aelodau Lleyg).<br>• Ystyrir aelodaeth y Pwyllgor Archwilio Llywodraethu yn unol â Deddf 2021: cwblhawyd y broses o recriwtio aelodau lleyg, gan ystyried gofynion Deddf 2021 a'r ffaith bod cyfnod yr aelod lleyg presennol yn y swydd wedi dod i ben.<br>• Cymeradwywyd Cyfeiriad Swydd, Manyleb person a meini prawf gan y Cyngor ar 10/12/20.<br>• Mae manylion aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r holl bwyllgorau craffu ar gael ar wefan y Cyngor.<br>• Mae'r CMIA a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cwrdd yn rheolaidd.<br>• Mae MO a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cwrdd yn ôl y gofyn.<br>• Cyfarfodydd rheolaidd rhwng MO a CMIA.<br>• Cyfarfodydd rheolaidd rhwng MO a CMIA ac Archwilio Cymru yn ôl yr angen. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Cyfarfodydd rheolaidd rhwng Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r rheolydd allanol Archwilio Cymru (gyda Swyddogion a heb Swyddogion)<br>• Darperir hyfforddiant / diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. |
| **Rheoli data** | • Mae Strategaeth TGCh a Digidol newydd ar gyfer 2018-2022 wedi'i chymeradwyo.<br>• Mae'r holl bolisïau'n gyfredol gan gynnwys;  (y rhain oll wedi'u cymeradwyo yn ystod mis Chwefror 2019).<br>    o Polisi Diogelu Data a GDPR;<br>    o Polisi Diogelu Gwybodaeth;  a<br>    o Pholisi Rheoli Cofnodion.<br>• Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl e-ddysgu gorfodol am Ddiogelu Gwybodaeth.<br>• Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl e-ddysgu gorfodol am Ddiogelu Data.<br>• Swyddog Diogelu Data Dynodedig.<br>• Cyswllt Cwsmeriaid y Swyddog Arweiniol Corfforaethol yw'r Perchennog Risg Gwybodaeth Uwch ('SIRO') ac mae wedi mynychu hyfforddiant priodol ar gyfer y rôl hwnnw.<br>• Pennwyd y Swyddogion cyfrifol canlynol:<br>    o Swyddog Diogelwch TG ('ITSO');  a<br>    o Swyddog Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion ('IRMO')<br>• Yn ogystal, mae'r grwpiau/pwyllgorau a ganlyn yn ystyried diogelwch Gwybodaeth:<br>    o Y Grŵp Diogelu Data Corfforaethol;  a'r<br>    o Pwyllgor Argyfyngau a Pharhad Busnes.<br>• Cynhelir asesiadau allanol, gan gynnwys cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad.<br>• Cynhelir Archwiliad Mewnol rheolaidd o'r gofynion Cofrestru diogelu data.<br>• Rhoddwyd gweithdrefnau ar waith yn sgil archwiliad Archwilio Cymru.<br>• Mae swyddogion yn ystyried cyflwyno hysbysiadau preifat mewn perthynas â cheisiadau i'r holl Aelodau, gan gynnwys y Pwyllgor Rheoli Datblygu.<br>• Mae hyfforddiant wedi cael ei drefnu ar gyfer Aelodau ar eu rhwymedigaethau o dan y GDPR fel rhan o'r hyfforddiant newydd i Aelodau, ac mae adran ar y ddeddfwriaeth honno wedi cael ei chynnwys bellach yn y protocol ar gyfer Aelodau mewn cynllunio.<br>• Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi llofnodi Cytundeb Cymru ar Rannu Gwybodaeth Bersonol (WASPI) ac felly mae'n defnyddio fframwaith WASPI ar gyfer ei Gytundebau Rhannu Gwybodaeth.<br>• Fel rheol, anfonir cytundebau at y Swyddog Diogelu Data.<br>• Ceir cofrestr gyhoeddus ar Wefan WASPI hefyd.<br>• Cynhelir asesiadau allanol rheolaidd e.e. Cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad.<br>***Cyfres gyffredin o egwyddorion a safonau sydd ar waith pan fydd sefydliadau sy'n bartneriaid yn rhannu gwybodaeth bersonol yw'r Cytundeb.  Bydd y sefydliadau sy'n mabwysiadu'r Cytundeb yn dangos eu hymrwymiad i fodloni'r amodau, y rhwymedigaethau a'r gofynion y cytunwyd arnynt o fewn y fframwaith.<br>• Monitro perfformiad mewnol a thystiolaeth. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Mae croes-gyfateb data yn digwydd ar draws y gwahanol wasanaethau.<br>• Caiff gwerthoedd Dangosyddion Perfformiad eu dilysu gyda thystiolaeth.<br>• Amserlen Cadw Dogfennau – wedi'i chyhoeddi ar y fewnrwyd erbyn hyn. |
| **Rheoli arian cyhoeddus mewn ffordd gadarn** | • Sefydlwyd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ('MTFS') gyfredol yn ystod 2013-14 a chafodd ei diweddaru'n helaeth a'i chymeradwyo gan y Cyngor ar 24 Chwefror 2016. Mae'r MTFS gyfredol yn trafod y cyfnod o 2018/2019 ymlaen, ond mae bellach wedi'i diwygio i adlewyrchu setliad refeniw dros dro 2021/2022 ac wedi'i diweddaru i:<br>  • Adlewyrchu effaith Covid-19<br>  • Adlewyrchu 'Hybu Economi Ceredigion – Strategaeth Weithredu 2020-35'<br>  • Diwygio'r cynllun arbedion trawsnewid<br>  • Rhagamcanu y pwysau o ran costau<br>  • Adlewyrchu newidiadau o ran data, rheoliadau, cynlluniau, polisïau a strategaethau<br>ac mae'n cael ei chyflwyno i'r Cabinet i'w chymeradwyo 23.2.2021 ac wedyn yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor ar 5.2.2021.<br>• Mae hwn bellach yn cynnwys fframwaith polisi er mwyn pennu'r cyllidebau bob blwyddyn, yn ogystal â chynllun tair blynedd. Mae MTFS yn ymddangos fel risg corfforaethol a gaiff ei ddiweddaru o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Roedd y gwaith blynyddol o osod cyllideb yn cynnwys asesiad risg hefyd. Mae'r Cyngor yn ymateb i'r cynnig yn Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2016 (Archwilio Cymru bellach), gan ystyried yr adroddiad yng ngoleuni'r MTFS trwy sicrhau bod trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i ymateb i'r sialensiau sylweddol yn y dyfodol.<br>• Mae Cynllun Strategol wedi ei ddatblygu ac wedi gwella'r rhaglen o waith sy'n ofynnol i ystyried blaenoriaethau gwasanaethau, gan roi sylw i'r cyfyngiadau ariannol ar yr un pryd.<br>• Sefydlwyd cynllun/amserlen ar gyfer prosiect y gyllideb flynyddol i sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei chymeradwyo o fewn y cyfnod statudol yn unol â fframwaith cyllideb y Cyngor.<br>• Darperir adroddiadau rheolaidd am y gyllideb i'r Cabinet a'r Grŵp Arweiniol trwy gydol y flwyddyn, ac mae'r cyllidebau gweithredol yn cael eu monitro bob mis.<br>• Caiff y gyllideb ei monitro'n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn, o fewn gwasanaethau, gan y Cabinet a chan weithgorau Aelodau a Swyddogion e.e. Grŵp Datblygu a CMG ac arbedion y rhaglen trawsnewid i'r Grŵp Ymgynghorol Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd.<br>• Cynhelir cyfarfodydd chwarterol o'r Panel Gweithredol, os oes angen, gyda'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol ynghyd ag Arweinydd y Cyngor, CE, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a'r Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb am Gyllid. |

DRAFT

| **Egwyddor G: Defnyddio arferion gweithio da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol** | |
|---|---|
| **Is-egwyddor** | **Sut ydym ni'n bodloni'r Egwyddorion hyn** |
| **Defnyddio arferion gwaith da o ran tryloywder** | • Gwefan y Cyngor.<br>• Darlledir cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet ar y we.<br>• Ceir templedi safonol ar gyfer y Cabinet, y Pwyllgorau Craffu a'r Cyngor.<br>• Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.<br>• Defnyddio Modern.Gov er mwyn cyhoeddi agendâu a Gwybodaeth am Gynghorwyr.<br>• Mae'r Cyngor yn rhoi ar waith y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2021, gan gynnwys y gofyniad i'r Cyngor ymgynghori a chyhoeddi strategaeth cyfranogiad y cyhoedd i gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol ac i wella tryloywder.<br>• Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf 2021, a fydd yn cynnwys sut y byddwn yn annog cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau hefyd, er ein bod yn aros am ganllawiau terfynol gan Lywodraeth Cymru am y rhan hon o'r ddeddfwriaeth.<br>• Mae offer wedi cael eu gosod yn Siambr y Cyngor er mwyn gallu cynnal cyfarfodydd hybrid, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.<br>• Mae'r Cyngor yn darparu ffyrdd amgen i ddinasyddion droi at wybodaeth os nad ydynt yn gallu manteisio ar wasanaethau digidol.  Gall y Dinesydd ffonio Canolfan Gyswllt y Cyngor neu ymweld â'i Lyfrgelloedd, lle y gellir troi at gyfrifiaduron neu fanteisio ar wasanaeth Wi-Fi 4G am ddim y gall unrhyw un ei ddefnyddio ar eu dyfais eu hunain.<br>• Mae manylion cyswllt y Cynghorwyr, eu cofnodion presenoldeb ac aelodaeth y Pwyllgorau ar gael ar Wefan y Cyngor.<br>• Mae adroddiadau blynyddol Cynghorwyr ar gael ar Wefan y Cyngor.<br>• Mae'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu ar gael ar Wefan y Cyngor.<br>• Mae Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd ar gael ar Wefan y Cyngor. |
| **Defnyddio arferion gwaith da o ran adrodd** | • Cyhoeddir Hunanasesiad ac Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ac Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant y Cyngor ar wefan Cyngor Sir Ceredigion i roi gwybod i ddinasyddion Ceredigion am weithgareddau a chamau gweithredu a gyflawnir gan y Cyngor er mwyn cynorthwyo ei Amcanion Llesiant a Gwella.  Mae hwn hefyd yn rhan o hunanasesiad y Cyngor.  Mae crynodeb o'r cynllun hefyd ar gael mewn swyddfeydd cyhoeddus i'n dinasyddion ei weld.<br>• Cyhoeddir datganiadau ariannol blynyddol ar Wefan y Cyngor.<br>• Cymeradwyaeth briodol.<br>• Trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.<br>• Perchnogaeth dros gynllunio a thrawsnewid.<br>• Mae AGS y Cyngor yn dangos sut y mae'n cydymffurfio â saith egwyddor graidd y Fframwaith Llywodraethu a'r is-egwyddorion a geir yn y Fframwaith ac yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, gan gynnwys y modd y mae'n rhoi trefniadau priodol ar waith i lywodraethu ei waith, yn hwyluso defnydd effeithiol o'i swyddogaethau, ac yn trefnu i reoli risgiau (lluniwyd y Fframwaith Llywodraethu yn 2010 ac fe'i |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | hadolygwyd yn unol â Fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government* (2016)). Mae hefyd yn cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br>• Cynhaliwyd asesiad o'r fframwaith llywodraethu corfforaethol i sicrhau cydymffurfiaeth. Y Cyngor sy'n penderfynu a ddylid cymeradwyo'r AGS.<br>• Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor yn dangos sut y mae wedi rhoi'r trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol ar waith i gyflawni'i waith yn effeithiol. Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn ddatganiad cyhoeddus sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn bodloni'r ymrwymiad hwnnw.<br>• Caiff AGS ei rannu gyda'r cyfrifon, ei adolygu a'i ddiweddaru, gydag Aelodau a Swyddogion yn darparu proses ymgysylltu ehangach.<br>• Mae'n ofynnol cynnwys goblygiadau ariannol ym mhob adroddiad i'r Cabinet. Mae'r Rheoliadau Ariannol a Rheolau'r Weithdrefn Ariannol (Dogfen F yn y Cyfansoddiad) a Rheolau'r Weithdrefn Gontractau (Dogfen G yn y Cyfansoddiad) yn gyfredol. Cymeradwywyd Strategaeth Gaffael 2018-2022 yn 2018.<br>• Arferion cyfrifyddu – Codau Ymarfer yn cael eu dilyn. Paratoir dangosyddion darbodus a darperir adroddiadau arnynt i'r Cyngor. Cânt eu monitro trwy gydol y flwyddyn. Mae'r gyllideb yn cael ei monitro'n gyson drwy gydol y flwyddyn. Mae IA hefyd yn adolygu'r rheolaethau dros gasglu a monitro incwm. |
| **Sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol** | • Ceir perthynas waith dda â'r rheoleiddwyr allanol, gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn, AGC, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ('FSA') a'r Asiantaeth Safonau Bwyd, fel rheoleiddwyr allweddol.<br>• Cofnodwyd Protocol Archwilio Cymru ac mae gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau y rhoddir sylw i'r holl 'Ffurflenni Ymateb Rheolwyr' o bob adroddiad Archwilio Cymru ac y cyflwynir ymatebion y Gwasanaeth i'r Grŵp Arweiniol, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac Archwilio Cymru.<br>• O ran monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion, y Swyddog Llywodraethu yw pwynt cyswllt Archwilio Cymru ar gyfer Ffurflenni Ymateb Rheolwyr ('MRFs') heb eu llenwi ar gyfer 2019/20 & 2020/21, a materion parhaus ynghylch llywodraethu/MRFs sy'n ymwneud â pherfformiad. Nodir y system hon mewn Protocol, a gymeradwywyd gan y Grŵp Arweiniol ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.<br>• Cynhelir cyfarfodydd misol hefyd rhwng swyddogion Perfformiad ac Archwilio Cymru, a gellir eu trefnu gyda swyddogion eraill yn ôl yr angen. Cynhelir deialog rheolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru.<br>• Caiff argymhellion gan Archwilio Cymru eu cyflawni fel rhan o'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.<br>• Cyflwynir holl adroddiadau Archwilio Cymru i'r grŵp Arweiniol a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, sy'n monitro'r gwaith o gyflawni'r camau unioni.<br>• Mae'r broses o fonitro'r cynnydd a wneir o ran y Camau Gweithredu wedi cael ei datblygu.<br>• Mae'r Prif Archwiliwr Mewnol yn astudio i ennill cymhwyster IIA ar hyn o bryd, ac wedyn cymhwyster Siartredig, ac mae ganddo profiad |

DRAFT

sylweddol o lywodraeth leol, ac yn cael ei gefnogi gan dîm sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau priodol.

- Mae'r rheolwr Archwilio yn astudio ar gyfer cymhwyster IIA ac mae dau archwilydd yn datblygu sgiliau archwilio TGCh.
- Mae Swyddogion IA yn dilyn cymwysterau archwilio er mwyn gwella eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u cymhwysedd.
- Mae CMIA newydd wedi bod yn ei le o 1 Ionawr 2022, ac mae ganddo brofiad sylweddol o faes IA, ac yn cael ei gynorthwyo gan Reolwr Archwilio gwybodus a medrus.
- Mae gan rôl CMIA fynediad rhydd a dilyffethair i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac mae'r ddau yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.
- Mae blaenraglen waith gadarn sy'n seiliedig ar risg a gweithgarwch cynllunio busnes yn ei lle.
- Adroddir yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am weithgarwch IA, h.y. Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn monitro perfformiad cynnydd a gwelliant a rhoddir crynodeb o'r gwaith a'r farn archwilio ynghylch sicrwydd bob blwyddyn mewn Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhelir adolygiadau dilynol er mwyn monitro bod camau gweithredu cywirol yn cael eu cymryd.
- Adolygir Siarter Archwilio Mewnol yn rheolaidd a chaiff ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Mae CMIA yn rhoi barn wrthrychol flynyddol ar sicrwydd ym mhrosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'r Cyngor yn seiliedig ar y sicrwydd unigol a roddir i Reolwyr ar ôl pob adolygiad archwilio ac mae hyn yn cyfrannu at yr AGS.
- Cynhaliwyd yr Asesiad Allanol diwethaf o'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ym mis Mai 2022 gan Gyngor Sir Fôn ac adroddwyd amdano i'r Pwyllgor Archwilio, ynghyd â'r Cynllun Gwella dilynol ar 27 Medi 2022.
- Cenhadaeth IA yw gwella a diogelu gwerth sefydliadol trwy ddarparu sicrwydd, cyngor a mewnwelediad gwrthrychol sy'n seiliedig ar risg. Nodir manylion hyn yn y Siarter Archwilio mewnol, sy'n nodi hawl mynediad IA hefyd (yn unol â Rheoliadau Ariannol/Cyfansoddiad y Cyngor).
- Rhoddir argymhellion Archwilio Cymru ar waith trwy'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.
- AGS.
- Mae'r Aelodau a'r Swyddogion yn cynnal adolygiad o'r AGS bob blwyddyn.
- Cylch gorchwyl a Chynllun Llesiant BGC.
- Adroddiad blynyddol gan BGC.
- Mae Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am gadw llygad ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd.
- Caiff cytundebau Partneriaeth ac Atebolrwydd eu sefydlu mewn prosiectau cydweithredol.

DRAFT

## 6. Dogfennau Cysylltiedig

Mae’r tabl canlynol yn amlinellu’r Prif Ddogfennau, y Prosesau sydd wedi Cyfrannu atynt a’r gwaith Monitro Rheoleiddiol sy’n mynd rhagddo i gefnogi’r gwaith o gyflawni’r egwyddorion craidd.

| Y Prif Ddogfennau sy’n cefnogi’r gwaith o gyflawni’r Egwyddorion craidd | | Prosesau Perthnasol / Monitro Rheoleiddiol |
|---|---|---|
| Polisi Camddefnyddio Alcohol a Chyffuriau<br>Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>Datganiad Blynyddol o’r Cyfrifon<br>Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)<br>Cynllun Rheoli Asedau Eiddo<br>Adroddiadau’r Cabinet a’r Pwyllgorau<br>Cod Ymddygiad yr Aelodau<br>Cod Ymddygiad y Swyddogion<br>Polisi Ymgysylltu â’r Gymuned<br>Polisi Pryderon a Chwynion<br>Llyfryn Gwybodaeth am Bryderon a Chwynion<br>Cod Adroddiadau Cyfrinachol<br>Cyfansoddiad<br>Rheolau’r Weithdrefn Gontractau 2017<br>Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol 2019-2022 gan gynnwys Cysylltiadau â’r Cyfryngau<br>Strategaeth Gorfforaethol Iechyd, Diogelwch a Llesiant<br>Cofrestr Risgiau Corfforaethol<br>Strategaeth Gorfforaethol 2017 - 2022<br>Polisi Diogelu Data a Pholisi’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data<br>Polisi Datgan a Chofrestru Lletygarwch a Buddiannau<br>Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd<br>Polisi Urddas yn y Gwaith<br>Polisi Disgyblu<br>Polisi’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd/Recriwtio Diogel<br>Polisi Trais Domestig<br>Polisi Ymgysylltu â’r Gymuned (2013) | Polisi Rheoli Perfformiad y Gweithwyr<br>Polisi Rheoli Newid<br>Polisi Ategol Grymoedd y Farchnad<br>Polisi Rheoli Perfformiad Enghreifftiol<br>Polisi Atal Caethwasiaeth Fodern<br>Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol<br>Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2018-2019 ymlaen<br>Lwfansau’r Aelodau 2019-2020<br>Llawlyfr yr Aelodau<br>Datblygiad Personol yr Aelodau<br>Rhestr o Daliadau’r Aelodau<br>Strategaeth Dysgu a Datblygu’r Aelodau<br>Cofnodion Cyfarfodydd<br>Strategaeth Swyddfeydd<br>Datganiadau o Fuddiannau’r Swyddogion a’r Aelodau<br>Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch<br>Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu<br>Polisïau Tâl<br>Polisi a Chanllawiau i Ddiogelu Plant ac Oedolion sydd mewn Perygl<br>Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol<br>Pecyn Cymorth Ymgysylltu â’r Cyhoedd<br>Strategaeth Gaffael 2018-22<br>Polisi Adleoli<br>Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 Rhan II (‘RIPA’)<br>Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, Defnyddio Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol | Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu<br>Y Grŵp Arweiniol<br>Fforwm Caffael Ceredigion<br>Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol<br>Bwrdd Perfformiad Rheoli Perfformiad Corfforaethol<br>Panel Gweithredol Rheoli Perfformiad Corfforaethol<br>Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd<br>Y Pwyllgor Moeseg a Safonau<br>Fforwm y Gweithwyr<br>Asiantaethau Arolygu ac Adolygu allanol<br>Grŵp Iechyd Da<br>Archwilio Mewnol<br>Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru<br>Y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu<br>Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Panel yr Heddlu a Throseddu<br>Y Grŵp Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd<br>Y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad<br>Archwilio Cymru<br>Pwyllgor y Gymraeg |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Polisi Cwynion (cyhoeddus) 2015<br>Polisi Diogelu Data 2019<br>Strategaeth Economaidd 2020-2035<br>Polisi E-bost<br>Polisi'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol<br>Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd<br>Trosolwg a Chraffu<br>Rhestr Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaethau<br>Adroddiadau Archwilio Allanol<br>Safonau Rheoli Cyllid<br>Rheolau'r Weithdrefn Ariannol 2009<br>Blaenraglen Benderfyniadau<br>Polisi Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000<br>Gweithdrefn Cwynion<br>Polisi Honorariwm<br>Polisi Iechyd a Diogelwch 2019<br>Polisi Rheoli Incwm ac Adennill Costau Gwasanaethau<br>Strategaeth TGCh a Digidol<br>Polisi Diogelwch Gwybodaeth 2019<br>Adroddiadau Arolygiadau<br>Pecyn Cymorth Asesu Effaith Integredig<br>Cynllun Archwilio Mewnol | a Chael Gafael ar Ddata Cyfathrebu<br>Dogfen Polisïau a Gweithdrefnau Corfforaethol<br>RIPA Cyfryngau Cymdeithasol<br>Polisi Dethol a Recriwtio<br>Polisi Gweithle Di-fwg<br>Polisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion<br>Cofnod Penderfyniadau<br>Strategaeth Rheoli Risgiau<br>Cynllun Dirprwyo<br>Cynlluniau Gwasanaeth<br>Polisi a Gweithdrefn Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol<br>Polisi Golygyddol a Gweinyddol y Cyfryngau Cymdeithasol<br>Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020–2024<br>Polisi Rheoli Straen<br>Polisi a Gweithdrefn Atal o'r Gwaith<br>Strategaeth Hyfforddi a Datblygu<br>Polisi Rheoli'r Trysorlys<br>Cynllun Llesiant a Gwella<br>Polisi Gweithredoedd Annerbyniol<br>Polisi Chwythu'r Chwiban<br>Safonau'r Gymraeg<br>Cynllun y Gweithlu<br>Cynllun Strategol<br>Polisi Cydbwysedd Bywyd a Gwaith | |

DRAFT

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **20 Ebrill 2023** |
| **Teitl:** | **Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028**<br><br>**Er Penderfyniad** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau, Y Cynghorydd Bryan Davies** |

**Cefndir**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod fframwaith cyfreithiol cyffredin sy'n seiliedig ar saith o Nodau Llesiant a phum ffordd o weithio. Y nod yw cynnal a darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n diwallu'r anghenion presennol, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ddyletswydd i gyrff cyhoeddus penodol gydweithio a ffurfio Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol ymhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'n rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy gyfrannu at gyflawni'r Nodau Llesiant a pharatoi Cynllun Llesiant Lleol bob 5 mlynedd.

Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wneud y canlynol:

- Paratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal.
- Paratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer ei ardal gan amlinellu'r nodau lleol a'r camau y bwriedir eu cymryd i'w cyflawni.

**Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion**

Mae'r Asesiad o Lesiant Lleol yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'i ddiben yw amlinellu'r hyn sy'n bwysig i bobl a chymunedau yng Ngheredigion o ran llesiant.

Asesiad o Lesiant Lleol 2022 yw'r ail asesiad a gyhoeddwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ers i'r Ddeddf gael ei chyflwyno. Mae'r data, yr ymchwil a'r dystiolaeth a gasglwyd o wrando ar bobl a rhanddeiliaid wedi

cyfrannu'n fawr at yr Asesiad. Ystyriwyd hefyd dueddiadau'r dyfodol wrth baratoi'r Asesiad.

Cafodd Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion ei gymeradwyo a'i gyhoeddi gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ebrill 2022. Defnyddiwyd y dystiolaeth a oedd ynddo fel y sail ar gyfer Cynllun Llesiant Lleol 2023-2028 ac felly mae'n ddogfen bwysig i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wrth benderfynu ynghylch yr hyn y bydd yn ei wneud dros y 5 mlynedd nesaf i wella llesiant pobl a chymunedau yn y sir.

Gallwch weld copi o'r Asesiad o Lesiant Lleol ar y wefan:

Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022

**Cymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028**

Cafodd y ffactorau a ystyriwyd yn yr Asesiad uchod eu harchwilio a bu iddynt gyfrannu at y prif amcanion yng Nghynllun Llesiant Lleol 2023-2028. Ar ôl hynny, cafodd fersiwn ddrafft Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028 ei pharatoi ac ymgynghorwyd â'r cyhoedd rhwng 25 Hydref 2022 a 31 Ionawr 2023. Gan fod Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion yn un o'r ymgynghoreion statudol, ystyriodd y Pwyllgor Cydlynu fersiwn ddrafft y Cynllun Llesiant Lleol yn ei gyfarfod ar 23 Tachwedd 2022.

Roedd yr adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus yn nodi bod 88% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn cytuno â'r Amcanion Llesiant a'u bod o'r farn mai'r blaenoriaethau a gyflwynwyd yn fersiwn ddrafft Cynllun Llesiant Lleol 2023-2028 oedd y blaenoriaethau iawn. Mae'r holl sylwadau a gafwyd a'r llythyron yn ymateb i'r cynllun wedi'u nodi'n llawn yn Adroddiad Adborth yr Ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Llesiant Lleol sydd i'w weld yn Atodiad 1. Mae mwy o fanylion ynghylch y gwaith dadansoddi hefyd i'w gweld yn y ddogfen honno.

Mae'r casgliadau cyffredinol yn yr adroddiad hwn yn nodi bod y Cynllun wedi cael derbyniad da ar y cyfan. Roedd llawer o sylwadau defnyddiol wedi'u gwneud a bydd y rhain yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r cynllun cyflawni a fydd yn un manwl.

Lle bo'n briodol, defnyddiwyd y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad wrth wneud newidiadau i'r Cynllun ac ar ben yr holl awgrymiadau a'r sylwadau a gafwyd yn y llythyrau a ddaeth i law, rhoddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Llywodraeth Cymru arweiniad gwerthfawr. Mae hyn oll wedi'i gynnwys yn y Cynllun Llesiant Lleol terfynol cyn belled ag y bo modd gwneud hynny a bydd elfennau ychwanegol yn dylanwadu ar y modd y datblygir y cynllun cyflawni.

Ar ôl gwneud newidiadau i'r cynllun yn seiliedig ar y prif bwyntiau a nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad, cyflwynwyd y cynllun i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng

nghyfarfod y Bwrdd ar 6 Mawrth 2023. Roedd pob aelod o'r Bwrdd yn cefnogi'r gwelliannau a wnaed, ac yn sgil hynny cytunwyd ar fersiwn derfynol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion. **Gweler Atodiad 2.**

Bellach mae'n ofynnol i'r sefydliadau sy'n aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gymeradwyo'r Cynllun drwy eu trefniadau llywodraethu arferol cyn y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gymeradwyo'r Cynllun yn derfynol a mynd ati i gyhoeddi'r Cynllun ym mis Mai 2023.

Wrth gwblhau'r broses o ran Cyngor Sir Ceredigion, cyflwynwyd y Cynllun yn y lle cyntaf i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 22 Mawrth 2023 lle cafodd y Cynllun ei gymeradwyo. Ar ôl hynny, cyflwynwyd y Cynllun gerbron y Cabinet ar 4 Ebrill ac yn awr, mae'r cynllun gerbron y Cyngor llawn.

Mae Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau ar gyfer Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion ac mae wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3** i'r adroddiad hwn.

| | | |
|---|---|---|
| | **A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os 'nac oes', nodwch pam** | Oes - gweler Atodiad 3 |
| | ***Crynodeb:*** | |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **Hirdymor:** | Mae cynllunio hirdymor wedi bod yn rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun hwn. Mae'r nodau a'r camau gweithredu yn y cynllun wedi'u datblygu i ymateb yn uniongyrchol i'r problemau hirdymor a nodwyd yn Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion. |
| | **Cydweithio:** | Mae holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cydweithio drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynllun a bydd y gwaith o gyflawni'r cynllun yn cael ei wneud ar y cyd gan bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| | **Cynnwys:** | Mae rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn rhan o bob cam o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi hyrwyddo cyfranogi, ymgysylltu a chyd-gynhyrchu. Mae'r rhain wedi |

cynnwys sesiynau gyda grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

**Atal:** Rhoddodd Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion gyfle i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus nodi achosion sylfaenol y problemau y mae angen mynd i'r afael â hwy. Mae'r nodau a'r camau gweithredu yn canolbwyntio ar annog pobl i weithredu drostynt eu hunain ac maent yn rhoi ffocws cryf ar atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Mae'r camau gweithredu yn ceisio lleihau lefel yr ymyrraeth ym mywydau pobl dros amser lle bynnag y bo modd, gan sicrhau bod hyblygrwydd ar gael i addasu i amgylchiadau sy'n newid.

**Integreiddio:** Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ystyried sut mae'r nodau a'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun yn effeithio ar gyrff cyhoeddus yn y sir.
Mae'r nodau a'r camau gweithredu wedi'u datblygu gan feithrin dealltwriaeth o gyfrifoldeb ar y cyd wrth sicrhau canlyniadau ar draws y gwasanaethau a'r sefydliadau.
Mae egwyddorion y cynllun yn seiliedig ar sefydliadau'r sector cyhoeddus yn cydweithio ar draws y sir i ychwanegu gwerth at yr hyn sydd eisoes yn cael ei wneud.

**Argymhelliad:** **Bod y Cyngor yn cymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028**

**Rhesymau dros y penderfyniad:** **Gan fod Cyngor Sir Ceredigion yn Aelod Statudol o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, mae angen iddo gymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion cyn y gall y Bwrdd Gwasanaethau**

| | |
|---|---|
| | **Cyhoeddus gytuno'n derfynol i'r cynllun a mynd ati i'w gyhoeddi.** |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Mae Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion wedi'i ddynodi i gymryd trosolwg cyffredinol o effeithiolrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus drwy graffu ar benderfyniadau'r Bwrdd a'r camau eraill y mae'n eu cymryd. Rhoddir adroddiad am waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r pwyllgor hwn yn dilyn pob cyfarfod o'r Bwrdd. |
| **Fframwaith Polisi:** | Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028 |
| **Amcanion Llesiant Corfforaethol:** | Hybu'r economi, Cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth<br>Creu cymunedau gofalgar ac iach<br>Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu<br>Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd |
| **Goblygiadau o ran Cyllid a Chaffael:** | O fewn y gyllideb bresennol |
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| **Goblygiadau o ran Staff:** | Dim |
| **Goblygiadau o ran eiddo / asedau** | Dim |
| **Risgiau:** | Ddim yn berthnasol |
| **Pwerau Statudol:** | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| **Papurau Cefndir:** | Gweler isod |
| **Atodiadau:** | Atodiad 1 – Adroddiad Adborth – yr ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Llesiant Lleol<br><br>Atodiad 2 - Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028<br><br>Atodiad 3 - Asesiad Effaith Integredig |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Alun Williams |

| | |
|---|---|
| **Swyddog Adrodd:** | Naomi McDonagh, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil |
| **Dyddiad:** | 29 Mawrth 2023 |



# CYNLLLUN LLESIANT LLEOL

# CEREDIGION

## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion

## 2023-2028

Caru·Love Ceredigion

**Cysylltwch â ni**


✉ **Post:**
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

**Ffôn:**
01545 570881


Mae **Fersiwn Testun Plaen** neu **Fersiwn Hawdd ei Ddarllen** o'r ddogfen yma ar gael o Gyngor Sir Ceredigion

**Statws:** Drafft
**Cymeradwywyd gan y BGC:**
**Dyddiad Cyhoeddi:**

*(Tudalen flaen wedi'i dylunio gan ddefnyddio adnoddau o Freepik.com)*







# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Rhagair | 4 |
| 2. | Cyflwyniad | 5 |
| 3. | Cynllun ar Dudalen – Crynodeb o amcanion ac uchelgeisiau'r Cynllun Llesiant | 6 |
| 4. | Y Cynllun Llesiant a pham mae ei angen arnom: | 7 |
| | • Y saith nod Llesiant | 7 |
| | • Datblygu cynaliadwy | 8 |
| | • Y Pum Ffordd o Weithio | 8 |
| 5. | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion – cydweithio yng Ngheredigion | 9 |
| 6. | Strategaethau, cynlluniau a rhaglenni gwaith allweddol eraill | 10 |
| 7. | Sut rydym wedi datblygu'r cynllun | 10 |
| 8. | Ein hamcanion llesiant | 11 |
| 9. | Cyflawni a Monitro Cynnydd | 24 |
| 10. | Cyfrannu at y saith Nod Llesiant | 25 |

## Rhagair



Mae'n bleser gennyf gyflwyno Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion. Dyma'r ail Gynllun Llesiant 5 mlynedd ac mae'n adeiladu ar gynllun 2018-2023, gan ystyried gofynion a disgwyliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

> "Gobeithio y bydd yr hyn y mae Cymru yn ei wneud heddiw, y bydd y byd yn ei wneud yfory"
> - Y Cenhedloedd Unedig

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn unigryw i Gymru ac yn cynnig cyfle pwysig i wneud newid cadarnhaol, hirhoedlog i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol gan sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn cydweithio er budd llesiant Cymru.

Buom bob amser yn ffodus i gael trefniadau gweithio da rhwng partneriaid yng Ngheredigion, ac mae'r Ddeddf hon yn darparu'r uchelgais, y caniatâd, a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

Trwy'r asesiad o lesiant a chlywed gan ein cymunedau, gwerthfawrogwn yr amgylchedd rydym yn byw ynddo ond gwyddom ein bod yn wynebu heriau, nid yn unig oherwydd yr effaith y mae Covid-19 wedi'i chael, ond oherwydd bydd costau byw, amcanestyniadau poblogaeth a phrinder sgiliau yn cael effeithiau pellgyrhaeddol. Hefyd disgwyliwn weld effeithiau cynyddol newid hinsawdd ar gymunedau.

Mae'r rhain yn faterion cymhleth sydd wedi'u plethu trwy ein cymunedau ond mae angen mynd i'r afael â nhw mewn ffordd gydweithredol. Mae hyn yn rhoi cyfle i gymunedau siapio eu dyfodol hirdymor ac rydym wedi ymrwymo i lunio a darparu gwasanaethau'n well gyda chymunedau er mwyn gwella llesiant yng Ngheredigion.

***Y Cynghorydd Bryan Davies – Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ac Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion***

## Cyflwyniad

**Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion**

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion wedi ymrwymo i gydweithio i wella llesiant yng Ngheredigion nawr ac yn y dyfodol. Nid yw gweithio mewn partneriaeth yn rhywbeth newydd ac mae gennym hanes hir o weithio fel hyn. Mae ein cynllun llesiant yn amlinellu'r pethau y bydd BGC Ceredigion yn cydweithio i'w cyflawni dros y pum mlynedd nesaf; ein hamcanion a'n camau llesiant, yn ogystal â sut rydym am i Geredigion edrych ymhen 10 mlynedd. Mae rhagor o wybodaeth am Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar gael yma.

Mae'r Cynllun Llesiant hwn wedi'i lywio gan yr Asesiad o Lesiant Leol cynhwysfawr a gynhaliwyd yn ystod 2021-2022. Edrychodd yr asesiad hwn ar yr asedau a'r heriau y mae ein cymunedau yn eu hwynebu o ran eu llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ac elfen bwysig ynddo oedd yr ymgysylltiad â chymunedau yng Ngheredigion. Edrychwyd ar gyfoeth o ddata.

Cafodd y cyfoeth hwn o ddata, gan gynnwys amcanestyniadau poblogaeth hirdymor, tueddiadau amgylcheddol ac economaidd ei goladu gan helpu i sefydlu'r Amcanion Llesiant arfaethedig y mae'r Cynllun Llesiant hwn yn seiliedig arnynt. Ymgysylltwyd â'n cymunedau, ein partneriaid, Llywodraeth Cymru, a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ymhlith eraill, i geisio barn ac awgrymiadau pellach ynghylch a oedd yr amcanion yn briodol ac yn adlewyrchu anghenion llesiant y sir. Mae Bwrdd Gwasanaethau Ceredigion yn gweld y Cynllun Llesiant hwn fel cyfle pwysig i gryfhau a dwyn ynghyd rhaglenni gwaith heb ffiniau sefydliadol.

Ein cam nesaf fydd datblygu a gweithredu cynllun cyflawni gyda chamau gweithredu manwl i'w cwblhau; byddwn yn parhau i gynnwys ein cymunedau i lunio ein gwaith, cymhwyso egwyddorion adolygu parhaus a rhannu ein cynnydd wrth i ni fynd yn ein blaenau. Mae'r amcanion llesiant a'n huchelgeisiau i'w cyflawni wedi'u crynhoi ar y dudalen nesaf.

CRYNODEB O AMCANION AC UCHELGEISIAU'R CYNLLUN HWN:

| **TRAWSBYNCIOL** | **MYND I'R AFAEL Â CHALEDI A THLODI**<br><br>**Cydweithio i gyflawni uchelgeisiau cyffredin ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau yng Ngheredigion oherwydd gall y rhain gael effaith ar draws y pedwar piler llesiant – llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Piler Llesiant** | **1. Llesiant Economaidd** | **2. Llesiant Cymdeithasol** | **3. Llesiant Amgylcheddol** | **4. Llesiant Diwylliannol** |
| **Amcanion** | **Cydweithio i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion.** | **Cydweithio i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau a defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol.** | **Cydweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.** | **Cydweithio er mwyn i gymunedau deimlo'n ddiogel a'u bod wedi'u cysylltu, gan hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.** |
| **Uchelgeisiau** | Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod anghenion lleol a bylchau sgiliau yn cael eu nodi ac yn cael sylw.<br><br>Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu yn y dyfodol i gyflawni amcanion y BGC.<br><br>Ystyried ffyrdd arloesol o wneud cadwyni cyflenwi yn fwy effeithlon gan gefnogi'r economi leol yr un pryd.<br><br>Sefydliadau'r BGC yn ysgogi cyfranogiad mwy cynhwysol mewn gwaith teg, cynaliadwy fel rhan o'r ymdrechion i ddatblygu economi llesiant. | Rhoi sylw i anghydraddoldebau daearyddol trwy waith seiliedig ar le sydd wedi'i wreiddio yn y gymuned er mwyn sicrhau grymuso hirdymor.<br><br>Gwella mynediad anghyfartal at fwyd iach a gweithio i wella cynaliadwyedd y system fwyd yng Ngheredigion.<br><br>Presgripsiynu cymdeithasol, gwyrdd a glas, a ddarperir gan wasanaethau sydd wedi'u cydgysylltu'n dda, yw'r dull atgyfeirio arferol a derbyniol ar gyfer gwella iechyd.<br><br>Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella a hyrwyddo potensial cysylltedd digidol. | Cyflawni gweithgarwch datgarboneiddio o fewn cymunedau a sefydliadau'r BGC.<br><br>Cyrraedd statws Sero Net erbyn 2030<br><br>Uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer adferiad gwyrdd.<br><br>Paratoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd. | Ceredigion yn fan lle mae amrywiaeth ddiwylliannol a'r Gymraeg yn cael eu dathlu.<br><br>Y gymuned yn cael ei chynnwys er mwyn i bobl deimlo eu bod wedi'u grymuso ac yn wybodus er mwyn sicrhau diogelwch cymunedol lleol.<br><br>Ceredigion yn lle diogel gydag amgylchedd awyr agored hygyrch ac iach y mae pawb yn ei ddefnyddio a'i fwynhau. |

Tudalen 174

## Y Cynllun Llesiant a pham mae ei angen arnom




**Y saith nod llesiant**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn i bob gwasanaeth cyhoeddus, e.e., cynghorau, iechyd, yr heddlu, yr amgylchedd, tân a sefydliadau trydydd sector i gydweithio i wella llesiant i bawb yng Nghymru a gweithio tuag at y saith nod llesiant;

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r Ddeddf hefyd yn manylu ar y ffyrdd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodedig gydweithio i wella llesiant Cymru. Mae'n gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig. Bydd hyn yn ein helpu i greu Cymru lle rydym ni i gyd am fyw, nawr ac yn y dyfodol.


## Datblygu cynaliadwy

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae hyn yn golygu bod angen i ni weithio mewn ffordd sy'n gwella llesiant pobl heddiw heb wneud dim a allai wneud pethau'n waeth i genedlaethau o fabanod, plant, pobl ifanc, oedolion, a phobl hŷn yn y dyfodol, mewn geiriau eraill, ein holl deuluoedd, hen bobl a phobl ifanc, ein ffrindiau a'n cymdogion. Rydym wedi defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i ddatblygu ein cynllun.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn gweld y Cynllun Llesiant hwn fel cyfle pwysig i gryfhau'r gwaith a wneir gyda'n gilydd i wella llesiant ein cymunedau a'i gyfraniad at yr effaith genedlaethol a rhyngwladol ehangach.

## Y Pum Ffordd o Weithio

I'n helpu i roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau, mae Deddf Llesiant 2015 yn gofyn bod cyrff cyhoeddus yn ystyried y "Pum Ffordd o Weithio". Mae'r ffyrdd hyn o weithio'n ein helpu i gydweithio'n well fel un gwasanaeth cyhoeddus, i fynd i'r afael â'r heriau a wynebwn fel sir, i leihau tlodi, gwella cydraddoldeb, creu economi carbon isel, neu gyfrannu at gymunedau hyfyw, diogel, wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd.



**Cydweithio yng Ngheredigion**
Mae Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngheredigion wedi cytuno i ddod at ei gilydd i ddatblygu gwasanaeth cydweithredol sy'n rhoi cymunedau wrth ei wraidd. Maent wedi cytuno i symud y rhwystrau rhwng gwasanaethau cyhoeddus a gweithio mewn ffordd ataliol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal trwy gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol sydd wedi cydweithio i ddatblygu'r cynllun hwn.

Ni all unrhyw un o'n pedwar amcan gael eu cyflawni'n effeithiol ar ei ben ei hun gan un sefydliad yn unig ac felly bydd gan holl bartneriaid y BGC a nodir isod rôl i'w chwarae wrth gyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn y cynllun hwn.

**Aelod-Sefydliadau Statudol**
Cyngor Sir Ceredigion
Cyfoeth Naturiol Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Sefydliadau a wahoddwyd i gymryd rhan**
Llywodraeth Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Prifysgol Aberystwyth
Coleg Ceredigion
Un Llais Cymru
Heddlu Dyfed Powys
Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion

**Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion**

**Strategaethau, cynlluniau a rhaglenni gwaith allweddol eraill:**

Mae BGC Ceredigion yn cydnabod bod strategaethau, cynlluniau a rhaglenni gwaith corfforaethol eraill yn eu lle eisoes yn y sir a lle bo'n briodol gellir gwella effaith y rhain ymhellach trwy gydweithio. Mae enghreifftiau yn cynnwys; Datganiad Ardal Canolbarth Cymru CNC, Cynlluniau Seilwaith Gwyrdd, Model Cymdeithasol Llesiant, Strategaeth Economaidd Cyngor Sir Ceredigion, Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd (Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru) ymhlith eraill.


Bydd y BGC yn sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried lle bo'n briodol ac yn cyfrannu at y gwaith a wneir, gan sicrhau bod cysylltiadau perthnasol yn cael eu gwneud a bod cyflawni yn cael ei gryfhau.

**Adnoddau**

Er nad oes unrhyw adnoddau ychwanegol i gefnogi'r cynllun hwn a'r ffyrdd gwahanol o weithio, rydym yn cydnabod, trwy gydweithio a chynnwys cymunedau, y gallwn fod yn fwy effeithlon, darparu gwasanaethau â mwy o ffocws, rhannu ein hasedau, a chael llawer mwy o effaith.

**Sut rydym wedi datblygu'r Cynllun**

Cyn i ni ddatblygu'r cynllun hwn, cynhaliwyd asesiad o lesiant. Pwrpas yr asesiad yw cael darlun cynhwysfawr o gyflwr llesiant pobl a chymunedau lleol Ceredigion, nawr ac i'r dyfodol. Fe'i defnyddiwyd fel sail tystiolaeth i osod yr amcanion yn y cynllun hwn a helpu i lywio'r hyn y bydd BGC Ceredigion yn ei wneud dros y 5 mlynedd nesaf i wella llesiant pobl a chymunedau yn y sir. Mae Ffigur 1.5 yn dangos cylch cynllunio'r BGC o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).




Roedd ein hasesiad wedi dweud llawer wrthym am lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol pobl a chymunedau Ceredigion. Mae'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr asesiad, yn feintiol ac yn ansoddol, ac fe'u lluniwyd yn ystod camau dadansoddi data, ymgysylltu ac ysgrifennu'r asesiad.

Tudalen 178

Mae'r Asesiad wedi'i lywio gan ddata, ymchwil a chasglu tystiolaeth, o wrando ar bobl a rhanddeiliaid a thrwy ystyried tueddiadau'r dyfodol a'r pethau y gallwn eu rhagweld a allai ddigwydd yfory y mae angen i ni ddechrau cynllunio ar eu cyfer heddiw.

Defnyddiwyd canfyddiadau'r Asesiad hwn i helpu i ddechrau gwaith manylach i ddarganfod beth sydd bwysicaf a beth y gellir ei wneud i wella lles pobl. Cytunwyd ar yr amcanion canlynol, sy'n ffurfio sylfaen i Gynllun Lles Lleol 2023-2028.

**Ein Hamcanion Llesiant:**

1. **Llesiant Economaidd:** Byddwn yn cydweithio i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion.

2. **Llesiant Cymdeithasol:** Byddwn yn cydweithio i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau ac yn defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol.

3. **Llesiant Amgylcheddol:** Byddwn yn cydweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.

4. **Llesiant Diwylliannol:** Byddwn yn cydweithio er mwyn i gymunedau deimlo'n ddiogel a'u bod wedi'u cysylltu, gan hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

**Yn ogystal â'r pedwar amcan hyn, teimlwyd bod angen ffocws penodol ar fynd i'r afael â chaledi a thlodi gan fod ganddo'r potensial i gysylltu â phob un o'r amcanion. Felly, mae hwn wedi cael ei adnabod fel thema drawsbynciol.**

Parhaodd sgyrsiau gyda'n cymunedau ac eraill, megis Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gasglu barn ar yr amcanion a'r hyn y dylai'r BGC ei wneud i'w cyflawni.

Archwiliwyd yr ymatebion hyn a'u mireinio ymhellach drwy weithdy o'r BGC, gyda chyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Ystyriwyd hefyd Amcanion Llesiant unigol sefydliadau statudol y BGC ar draws y sir a'r blaenoriaethau rhanbarthol, gan arwain at y Cynllun Llesiant Drafft, ynghyd â fersiwn Hawdd ei Ddarllen a fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc, a ymgynghorwyd arnynt yn ystod mis Tachwedd, Rhagfyr 2022 a mis Ionawr 2023. Gwahoddwyd adborth drwy arolygon papur ac ar-lein, yn ogystal â thrwy ymgysylltu â grwpiau penodol â diddordeb megis, LHDTQ+ (Pride y Gaeaf 2022), Mencap Ceredigion a fforymau megis y Fforwm Anabledd. Cynhaliwyd gweithdai penodol hefyd gyda disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd yn

ogystal â'r Cyngor Ieuenctid er mwyn casglu eu barn. Roedd negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, bwletinau staff a phosteri gyda chodau QR hefyd yn cael eu harddangos a chysylltwyd â chynghorau Tref a Chymuned yn uniongyrchol er mwyn hyrwyddo cyfleoedd i gyfrannu a derbyn adborth. Mae BGC Ceredigion yn ddiolchgar i Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru am ddarparu cyngor ar gynnwys y dogfennau ymgynghori a'r gwaith o gyflwyno'r gweithdai i bobl ifanc. Ceir crynodeb o'r ymatebion yn Atodiad 1 (Adroddiad Adborth Ymgynghori y Cynllun Llesiant Lleol 2023-2028) a rhoddwyd y sylw dyladwy i'r rhain yn y Cynllun Llesiant terfynol ar gyfer 2023-2028.

**Prosiect Dewi 2021-2026**

Mae BGC Ceredigion yn ffodus o gael mewnbwn ac arbenigedd gan Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, a dderbyniodd Arian Cymunedol y Loteri Genedlaethol i gefnogi, arwain a chynghori ar wella cyd-gynhyrchu a chyfranogiad wrth baratoi ar gyfer Cynllun Llesiant 2023-2028 ac yn ystod ei gyflawni.

Bydd hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn partneriaeth â phobl sydd wedi byw profiadau i ddatblygu atebion i heriau mewn Gwasanaethau Cyhoeddus a chymunedau. Bydd cynnwys pobl sydd â diddordeb yn y maes yn helpu i gyrraedd y nodau llesiant ac yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.

Cydnabyddir bod cyfranogi a chyd-gynhyrchu yn ffyrdd penodol o weithio ac mae gwreiddio'r ffyrdd hyn o weithio yn llwyddiannus yn gofyn am adnodd i staff ddatblygu'r sgiliau hyn. Bydd Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn cynorthwyo ac yn llywio'r BGC ar wella cyd-gynhyrchu a chyfranogi trwy gydol cyfnod y Cynllun Lles a bydd yn weithredol wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r holl amcanion isod.

| **Amcan Trawsbynciol: Mynd i'r Afael â Chaledi a Thlodi** |
| --- |
| **Pam mae hon yn thema drawsbynciol â blaenoriaeth:**<br><br>• Mae tlodi plant yng Ngheredigion yn uwch na'r cyfartaledd ac wedi gweld y cynnydd ail uchaf yn genedlaethol ers 2014/15. Yng Ngheredigion mae 3,459 o blant yn byw mewn tlodi[1].<br><br>• Mae'r data sydd ar gael yn awgrymu bod tlodi mewn gwaith yn cynyddu ac mae'n parhau i fod yn her allweddol i aelwydydd, yn enwedig yng Ngogledd Aberystwyth, Aberteifi ac Aber-porth a De Aberystwyth[2].<br><br>• Mae tlodi incwm yn un o Dangosyddion Cenedlaethau Llywodraeth Cymru. Mae'r dangosydd yn mesur anghydraddoldeb incwm, dim safonau byw. Dydy Ceredigion ddim yn perfformio yn dda ar y mesur yma, mae bron traean yr aelwydydd yng Ngheredigion (10,250) yn byw mewn tlodi (ar lai na 60% o incwm cyfartalog y DU)[3] ac mae'r ffigur yn cynyddu. Rhwng 2018 a 2020 roedd y nifer o aelwydydd yn byw mewn tlodi wedi cynyddu gan 9% (neu 856 o aelwydydd).<br><br>• Roedd plant a phobl ifanc o ardaloedd o dlodi yn wynebu risg uwch o iechyd meddwl a llesiant gwael. Mae pandemig COVID-19 yn creu heriau newydd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol o ran adnabod plant sydd mewn 'perygl'. Ers y pandemig, mae'r rhanbarth wedi gweld cynnydd yn nifer y Plant a Phobl Ifanc sy'n ceisio cymorth gydag anawsterau emosiynol a meddyliol cymhleth[4].<br><br>• Amlygodd yr Arolwg Llesiant lefel y pryder ymhlith ymatebwyr yr arolwg ynghylch teuluoedd sy'n wynebu tlodi bwyd a fforddiadwyedd bwyd yn y dyfodol. Pan ofynnwyd – 'beth sy'n eich pryderu chi fwyaf am gyfrifoldeb byd-eang eich sir yn y dyfodol?', nodwyd tlodi bwyd fel y pryder pennaf, wrth i 61% o ymatebwyr ddewis yr ateb hwn[5]. |



[1] "Child poverty in your area 2014/15 – 2019/20". End Child Poverty Coalition. Ar-lein: http://www.endchildpoverty.org.uk/local-child-poverty-data-2014-15- 2019-20/. Adalwyd: 25.09.2021.
[2] CACI Paycheck Directory MSOA. 2020.
[3] CACI Paycheck Directory (2020). 'No of HH below 60% GB median income.' [Mewnol].
[4] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2022). 'Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022'. [Ar-lein]. Ar gael ar: Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022 (Cyrchwyd: 10.10.22).
[5] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2022). 'Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022'. [Ar-lein]. Ar gael ar: Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022 (Cyrchwyd: 10.10.22).

- Mae tlodi yn parhau i fod yn un o heriau mwyaf y Sir. Enillion ac incwm isel, gofal plant fforddiadwy, gostyngiad yn y Credyd Cynhwysol a chostau tai uchel/tai fforddiadwy sy'n ysgogi tlodi yng Ngheredigion

- Mae llawer o'r stoc tai yng Ngheredigion yn anaddas oherwydd bod yr adeiladau hyn mor hen, sy'n golygu ei bod yn anodd eu gwresogi a'u haddasu er mwyn gwella diogelwch a'u perfformiad wrth ddefnyddio ynni mewn ffordd effeithlon, ac o ganlyniad, mae preswylwyr Ceredigion yn wynebu costau ynni uwch. Yn 2019, y gost ganolrifol flynyddol amcangyfrifedig am ynni yng Ngheredigion ar gyfer fflatiau a oedd yn bodoli eisoes oedd £651 ac roedd yn £1,158 ar gyfer cartrefi a oedd yn bodoli eisoes, ac mae'r ddau yma lawer yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (£525 ar gyfer fflatiau a oedd yn bodoli eisoes a £907 ar gyfer tai a oedd yn bodoli eisoes)[6]. Mae'n debygol iawn y bydd y ffigurau hyn wedi codi o ganlyniad i'r argyfwng ynni presennol yn y DU. Bydd hyn yn cael effaith niweidiol ar bobl hŷn, yn enwedig y rhai sydd eisoes yn byw mewn sefyllfa o dlodi tanwydd, gan bod angen i'r gwres fod ar dymheredd uwch a bydd angen ei adael ymlaen am gyfnod hwy fel arfer. At hynny, lleolir cyfran uchel o aelwydydd Ceredigion oddi ar y prif rhwydwaith nwy, sy'n golygu bod preswylwyr yn ddibynnol ar danwydd drytach megis olew, trydan neu LPG a thariffau tanwydd deuol[7].

**Ein huchelgeisiau hir-dymor:**

Nid yw caledi, tlodi ac anghydraddoldeb yn cael ei brofi bellach gan drigolion Ceredigion; gyda llai o effaith ar draws pob un o'r pedwar piler llesiant - llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud:**

0.1 Bydd y BGC yn blaenoriaethu mynd i'r afael â chaledi a thlodi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, gan groesgyfeirio at y pileri llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

0.2 Bydd yr is-grŵp tlodi yn gweithredu fel llais i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi a chaledi yng Ngheredigion. Y grŵp hwn fydd y llygaid a'r clustiau, gan wybod beth sydd ei angen ar gymunedau a dinasyddion a'r wybodaeth sydd gan bartneriaid. Bydd buddion ac adnoddau i liniaru effaith tlodi yn cael eu casglu a'u rhannu mewn ffordd gydlynol er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd pawb sydd angen cymorth.



Gall y Cyngor benderfynu ar uchafswm y diwrnodau y gellir talu Aelodau Cyfetholedig amdanynt mewn blwyddyn. Ar gyfer y cyfnod rhwng 2014/15 a 2022/23 penderfynodd y Cyngor y byddai cyfyngiad yn cael ei gyflwyno a oedd yn cyfateb i uchafswm o 10 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y mae unigolyn wedi'i gyfethol iddo. **Argymhellir felly y dylid gosod yr un uchafswm o ddiwrnodau ar gyfer 2023-2024.**

**7. DARPARIAETH BENSIYNAU**

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu y dylai'r hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fod yn berthnasol i holl Aelodau etholedig y Cyngor fel ag yr oedd yn flaenorol. Mae'r Cyngor eisoes yn caniatáu i'r Aelodau ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**8. LWFANSAU TEITHIO, CYNHALIAETH A LLETY DROS NOS**

Nid oes newidiadau arfaethedig o ran lwfansau neu drefniadau hawlio ar gyfer teithio, cynhaliaeth a llety dros nos.

**9. RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I'R AELODAU**

Rhaid i'r Awdurdod gadw Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol flynyddol i'r Aelodau, ac mae'r Rhestr arfaethedig ar gyfer 2023-2024 yn amgaeedig - Atodiad A.

Bydd unrhyw newidiadau a wneir yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 19eg Mai 2023 yn cael eu nodi cyn cyhoeddi a chyflwyno'r rhestr i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**10. CEFNOGAETH I AELODAU**

Mae'r Panel wedi penderfynu y dylai pob awdurdod sicrhau, trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, bod ei holl aelodau'n cael cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylai pob aelod etholedig gael cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngrwyd digonol i'w galluogi i gael mynediad electronig at wybodaeth briodol. Mae'r Panel wedi penderfynu y dylid rhoi cymorth o'r fath heb gostau i'r aelod unigol. Ni ddylai'r priod awdurdod ddidynnu symiau o gyflogau aelodau fel cyfraniad at y costau cymorth y mae'r awdurdod wedi penderfynu eu bod yn angenrheidiol ar gyfer effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd aelodau.

Yn 2018/19, cymeradwyodd y Cyngor gynnig i gyflwyno cynllun lwfans misol o £10 y gellir optio i mewn iddo i dalu am gostau ffôn, band eang a phostio ar gyfer yr Aelodau. **Argymhellir bod y cynllun hwn - y gellir optio i mewn iddo - yn parhau yn 2023-2024.**

Dylid nodi hefyd fod Gwasanaeth Cwnsela'r Cyngor ar gael i'r Aelodau ers 2018/19.

**12. RHESTR O'R TALIADAU A WNEIR I'R AELODAU A'R AELODAU CYFETHOLEDIG A ENWIR YN 2023-2024**

Rhaid i'r Cyngor baratoi rhestr flynyddol o'r taliadau y mae'n bwriadu eu gwneud i'r Aelodau a'r Aelodau Cyfetholedig a enwir. Rhaid paratoi'r rhestr ddim hwyrach na phedair wythnos ar ôl Cyfarfod Blynyddol yr Awdurdod. Mae'r rhestr berthnasol ar gyfer 2023-2024 i'w gweld yn Atodlen 1, a bydd angen ei diweddaru yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol ar 19ain Mai 2023. Bydd y symiau a nodir yn y rhestr daliadau ar gyfer 2023-2024 yn adlewyrchu'r cyfraddau y cyfeirir atynt uchod.

**13. DISGRESIWN**

Pan gyhoeddir adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, rhaid i brif gynghorau gydymffurfio â'r gofynion statudol a gweithredu'r holl benderfyniadau perthnasol. Ar hyn o bryd nid oes opsiynau ar gael o ran lefelau cydnabyddiaeth prif gynghorau sy'n gofyn am benderfyniad gan y Cyngor. Ni ellir amrywio lefelau'r taliadau y mae gan Aelodau hawl iddynt drwy bleidlais prif gyngor.

Dim ond Aelod unigol all gyfathrebu'n ysgrifenedig â'r Swyddog Priodol (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd) os yw'n dymuno, fel unigolyn, gwrthod y cyfan neu ran o'r taliad y mae ganddo hawl i'w gael.

**14. PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Ystyriwyd yr adroddiad drafft gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2023 ac fe gytunwyd i argymell y cynigion i'r Cyngor.

| | | |
|---|---|---|
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam**<br><br>**Crynodeb:**<br>**Hirdymor:** Amherthnasol<br>**Integreiddio:** Amherthnasol<br>**Cydweithio:** Amherthnasol<br>**Cynnwys:** Amherthnasol<br>**Atal:** Amherthnasol | Nid oes angen un – nid yw'r adroddiad ynglŷn â newid mewn gwasanaeth. |

**Argymhelliad/Argymhellion:** **Argymhellir bod y Cyngor yn <u>nodi'r</u> canlynol:**

1. **Talu'r Cyflogau Sylfaenol a'r Uwch Gyflogau yn unol â'r hyn a bennwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, fel y nodir yn Atodlen 1, Atodiad A;**

2. **Talu'r Cyflogau Dinesig sy'n daladwy i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor, fel y nodir yn Atodlen 1, Atodiad A;**

3. **Y Rhestr sy'n dangos y taliadau eraill, fel y nodir yn Atodlen 1;**

**Argymhellir bod y Cyngor yn <u>cymeradwyo'r</u> canlynol:**

1. **Parhau â'r arfer presennol o beidio â thalu costau teithio wrth gyflawni dyletswyddau yn yr etholaeth;**

2. **Cymeradwyo bod y lwfansau teithio, cynhaliaeth, llety dros nos a pharcio ceir yn**

**2023/24 yn parhau ar yr un lefelau ag yr oeddent yn 2022/23;**

3. **Parhau â'r cynllun lwfans misol y gellir optio i mewn iddo gydag uchafswm o £10 i dalu am gostau ffôn, band eang a phostio;**

4. **Adlewyrchu talu'r lwfans hwn yn y Datganiad Taliadau blynyddol a wneir i Aelodau;**

5. **Talu ffioedd i Aelodau Cyfetholedig yn amodol ar uchafswm cyfwerth â 10 diwrnod llawn ar gyfer pob pwyllgor y cafodd unigolyn ei gyfethol iddo ar sail taliad hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn;**

6. **Parhau i gyhoeddi cyfanswm y swm a ad-dalwyd gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn heb ei bennu'n benodol i unrhyw Aelod a enwyd o ran y costau gofal a ad-dalwyd;**

7. **Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau ar gyfer 2023-2024, yn amodol ar gynnwys unrhyw newidiadau y penderfyna'r Cyngor arnynt yn y cyfarfod hwn; ac**

8. **Awdurdodi'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd i gynnwys unrhyw newidiadau cyn cyhoeddi'r ddogfen ar ôl y Cyfarfod Blynyddol sydd i'w gynnal ar 19ain Mai 2023.**

| | |
|---|---|
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | **Er mwyn cymeradwyo Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau ar gyfer 2023-2024 fel sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth.** |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Amherthnasol |
| **Fframwaith Polisi:** | Penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol;<br>Cyfansoddiad y Cyngor |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | Amherthnasol |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Goblygiadau ychwanegol ar y Gyllideb ar gyfer 2023-2024 o ganlyniad i gynnydd yn y cyflogau sylfaenol a'r uwch-gyflogau. Mae'r cynnydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor, 2il Mawrth 2023. |

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | Dim |
| **Goblygiadau Staffio:** | Dim |
| **Goblygiadau Eiddo/Asedau:** | Dim |
| **Risg/Risgiau:** | Dim |
| **Pwerau Statudol:** | Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011 fel y'i diwygiwyd gan Adrannau 62 hyd 67, Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013;<br>Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol;<br>Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dyddiedig Chwefror 2021;<br>Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021. |
| **Papurau Cefndir:** | Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dyddiedig Chwefror 2022. |
| **Atodiadau:** | Atodiad A - Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau 2023-2024;<br>Atodiad B – Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dyddiedig Chwefror 2023. |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Lowri Edwards<br>Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd (Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd) |
| **Swyddog Adrodd:** | Lowri Edwards |
| Dyddiad: | 27 Mawrth 2023 |

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I'R AELODAU**

**BLWYDDYN FWRDEISTREFOL 2023-2024**
**(o xxx Mai 2023 ymlaen; fel y cymeradwywyd gan y Cyngor XXX 2023)**

Mae'r Cynllun hwn yn cael ei greu o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) sy'n ymwneud â'r taliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol.

**1. Cyflog Sylfaenol**

1.1 Bydd Cyflog Sylfaenol yn cael ei dalu i bob Aelod etholedig o'r Awdurdod.

1.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfradd y Cyflog Sylfaenol yn cael ei hadolygu bob blwyddyn fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

1.3 Lle mae cyfnod swydd Aelod yn dechrau neu'n gorffen, heblaw am ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl ef/hi i gael y Cyflog Sylfaenol ar sail pro-rata.

1.4 Nid oes mwy nag un Cyflog Sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

**2. Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig**

2.1 Bydd Aelodau mewn swyddi penodol yn cael Uwch Gyflog fel y nodir yn **Atodlen 1**.

2.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfraddau'r Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel y pennir gan Adroddiad Blynyddol neu Adroddiad Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

2.3 Dim ond un Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig sy'n daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

2.4 Ni all Uwch Gyflog a Chyflog Dinesig gael eu talu i Aelod o'r Awdurdod.

2.5 Mae pob Uwch Gyflog a Chyflog Dinesig yn cynnwys y Cyflog Sylfaenol.

2.6 Ni chaiff Uwch Gyflog ei dalu i fwy na nifer yr aelodau a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol ac ni all fod yn fwy na hanner cant y cant o gyfanswm aelodaeth yr awdurdod, ac eithrio i gynnwys Deiliad Swydd dros dro sy'n derbyn Uwch Gyflog ac sy'n cyflenwi i'r teulu yn absenoldeb y deiliad swydd a benodwyd.

2.7 Caniateir i Aelodau o'r Cabinet 'rannu swydd'. Bydd pob "rhannwr" yn cael cyfran briodol o'r cyflog fel y nodir yn Atodlen 1. Serch hynny, ni ellir mynd y tu hwnt i'r uchafswm statudol ar gyfer cabinetau felly bydd y ddau rannwr swydd yn cyfrif tuag at yr uchafswm.

2.8 **Ni all** Aelod o'r Awdurdod sy'n derbyn Uwch Gyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) neu Awdurdod Tân ac Achub (ATA) y mae ef / hi wedi cael ei enwebu iddynt.

2.9 Lle mae tymor Aelod sy'n derbyn Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig yn dechrau neu'n gorffen ar adeg wahanol i ddechrau neu ddiwedd y flwyddyn arferol, bydd ei hawl ef/hi i'r Cyflog yn un pro-rata.

## 3. Penderfyniad i Beidio â Derbyn y Lwfans

3.1 Gall Aelod, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i Swyddog Priodol[1] yr awdurdod, ddewis, yn bersonol, i beidio â derbyn unrhyw ran o'i hawl i unrhyw gyflog, lwfans neu ffi sy'n daladwy o dan y Cynllun hwn o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad.

## 4. Atal Aelod

4.1 Pan fydd Aelod o'r Awdurdod yn cael ei atal, yn llwyr neu'n rhannol, o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, bydd rhan o'r Cyflog Sylfaenol sy'n daladwy iddo/iddi mewn perthynas â'r cyfnod y mae ef neu hi wedi cael ei atal/ei hatal yn cael ei ymatal gan yr Awdurdod (Adran 155 (1) y Mesur).

4.2 Pan fydd Aelod sy'n derbyn Uwch Gyflog yn cael ei atal, yn llwyr neu'n rhannol, rhag bod yn Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod beidio â gwneud taliadau Uwch Gyflog i'r Aelod drwy gydol cyfnod yr atal (Adran 155 (1) y Mesur). Os yw'r atal rhannol yn ymwneud ag elfen gyfrifoldeb benodol y taliad yn unig, gall yr aelod gadw'r Cyflog Sylfaenol.

## 5. Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd

5.1 Pan fydd taliad unrhyw gyflog, lwfans neu ffi wedi cael ei wneud i Aelod o'r Awdurdod neu i Aelod Cyfetholedig mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan fydd yr Aelod dan sylw:

(a) wedi'i atal/hatal neu wedi'i atal/hatal yn rhannol o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau'r Aelod / Aelod Cyfetholedig yn unol â Rhan 3 Deddf 2000 neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno;
(b) wedi rhoi'r gorau i fod yn Aelod neu Aelod Cyfetholedig o'r Awdurdod; neu
(c) mewn unrhyw ffordd arall heb yr hawl i dderbyn cyflog, lwfans neu ffi mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw,

bydd yr Awdurdod yn ei wneud yn ofynnol bod y cyfryw ran o'r lwfans sy'n ymwneud ag unrhyw gyfnod o'r fath yn cael ei ad-dalu.

[1] Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

## 6. Taliadau

6.1 Bydd taliadau'r holl lwfansau yn cael eu gwneud trwy *gredyd banc uniongyrchol* mewn rhandaliadau o un rhan o ddeuddeg o hawl blynyddol yr Aelod ar y diwrnod gwaith olaf bob mis.

6.2 Pan fydd y taliad wedi arwain at Aelod yn derbyn mwy na'i hawl ef/hi i gyflogau, lwfansau neu ffioedd, bydd yr Awdurdod yn gofyn bod y rhan honno sy'n ordaliad yn cael ei had-dalu.

6.3 Mae'r holl daliadau yn ddarostyngedig i'r didyniadau treth ac Yswiriant Gwladol priodol.

## 7. Cyfraniad tuag at Costau Gofal a Chymorth Personol

7.1 Dylai aelodau, gan gynnwys aelodau cyfetholedig, gael yr hawl i ad-daliad o'u costau gofal, ar gyfer gweithgareddau y mae'r cyngor unigol wedi'u dynodi'n fusnes swyddogol neu'n ddyletswydd gymeradwy a allai gynnwys amser priodol a rhesymol ar gyfer paratoi a theithio. Mater i'r awdurdodau unigol yw penderfynu ar drefniadau penodol i roi hyn ar waith; rhaid i bob awdurdod sicrhau bod unrhyw daliadau a wneir â chysylltiad priodol â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy.

7.2 Rhaid i'r cyfraniad fod am y **costau ychwanegol** a ysgwyddwyd gan yr Aelodau i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau cymeradwy.

7.3 Gellir gwneud hawliad mewn perthynas â dibynnydd o dan 16 mlwydd oed neu berson ifanc dan oed neu oedolyn sydd fel arfer yn byw gyda'r aelod fel rhan o'i deulu ac na ellir ei adael heb oruchwyliaeth.

7.4 Gellir hawlio ad-daliad pan am gofal neu gymorth yr Aelod eu hyn ble nad yw'r cymorth a/neu gost unrhyw anghenion ychwanegol ar gael gan yr awdurdod, neu pan nad yw'r awdurdod yn talu'n uniongyrchol amdanynt (megis Mynediad i Waith, Taliadau Personol, yswiriant).

7.5 Gellir hawlio cyfraniadau ar gyfer gofal ffurfiol neu anffurfiol fel a ganlyn:

- Costau gofal ffurfiol (wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru) i'w talu yn unol â thystiolaeth.
- Costau gofal anffurfiol (heb gofrestru) i'w talu hyd at gyfradd uchaf sy'n gyfwerth â Chyflog Byw Gwirioneddol y DU ar yr adeg pan aethpwyd i'r costau.

Ni ellir talu costau gofal i rywun sy'n rhan o aelwyd yr aelod.

7.6 Dylid gwneud yr holl hawliadau am gyfraniad tuag at costau gofal a chymorth personol yn ysgrifenedig i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd gan roi manylion yr amserau, y dyddiadau a'r rhesymau dros hawlio. Mae'n ofynnol i gyflwyno derbynebau ar gyfer trefniadau gofal ffurfiol ac anffurfiol.

## 8. Absenoldeb Teuluol

8.1 Mae gan Aelodau hawl o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 i gyfnod o absenoldeb teuluol, lle os ydynt yn bodloni'r amodau a ragnodir, y mae ganddynt hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd yr awdurdod.

8.2 Mae Absenoldeb Teuluol yn cynnwys absenoldebau mamolaeth, newydd-anedig, mabwysiadu ac absenoldeb rhiant o fusnes swyddogol.

8.3 Wrth gymryd absenoldeb teuluol mae gan Aelodau’r hawl i gadw cyflog sylfaenol beth bynnag yw eu cofnod presenoldeb yn union cyn cychwyn yr absenoldeb teuluol.

8.4 Petai deiliad uwch gyflog yn gymwys i gael absenoldeb teuluol bydd yn gallu parhau i dderbyn ei uwch gyflog drwy gydol yr absenoldeb.

8.5 Os bydd yr awdurdod yn cytuno ei bod yn angenrheidiol i benodi eilydd i ddirprwyo yn ystod absenoldeb teuluol y deiliad ar uwch gyflog, bydd yr Aelod sy’n dirprwyo yn gymwys i dderbyn uwch gyflog hefyd os yw'r awdurdod yn penderfynu felly.

8.6 Os bydd y taliad i’r eilydd a benodir yn achosi i’r awdurdod gael mwy na’r nifer uchaf o Uwch Gyflogau a bennwyd ar ei gyfer, bydd hyn yn cael ei ganiatáu am gyfnod penodiad yr eilydd.

8.7 Os bydd y Cyngor yn cytuno i benodi eilydd gyda thâl ar gyfer absenoldeb teuluol, rhaid hysbysu’r Panel o’r manylion o fewn 14 diwrnod o’r penderfyniad, gan gynnwys y swydd dan sylw a hyd y penodiad. Rhaid diwygio Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i’r Aelodau hefyd i adlewyrchu goblygiadau’r absenoldeb teuluol.

## 9. Absenoldeb Salwch Rhai sydd ar Uwch Gyflogau

9.1 Mae’r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol (a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn 2014) yn benodol iawn mewn perthynas â hawliau, ac ar gael i aelodau etholedig prif gynghorau’n unig. Nid yw absenoldeb oherwydd afiechyd wedi’i gynnwys.

9.2 Mae’r Panel wedi ystyried pryderon a godwyd ynghylch y trefniadau o’u cymharu â rhai absenoldeb teuluol ac felly mae wedi diwygio’r Fframwaith i ddarparu trefniadau penodol ar gyfer salwch hirdymor fel y nodir isod:

a) Diffinnir salwch hirdymor fel absenoldeb ardystiedig o dros 4 wythnos.

b) Y cyfnod absenoldeb salwch hiraf a ganiateir o fewn y cynigion hyn yw 26 wythnos neu nes bod cyfnod mewn swydd yr unigolyn yn dod i ben, pa un bynnag a ddaw gyntaf (ond os caiff yr unigolyn ei ail-benodi, bydd unrhyw gyfnod sy’n weddill o’r 26 wythnos yn cael ei gynnwys).

c) O fewn y paramedrau hyn, gall rhywun sydd ar gyflog uwch sydd ar absenoldeb salwch hirdymor, yn ôl disgresiwn yr awdurdod, barhau i dderbyn tâl am y swydd.

d) Yr awdurdod fydd yn penderfynu p'un ai i benodi eilydd ai peidio, ond bydd yr eilydd yn gymwys i dderbyn y cyflog uwch priodol ar gyfer y swydd.

e) Os bydd cyflog yr eilydd yn golygu bod yr awdurdod yn talu mwy o uwch gyflogau na'r hyn a ganiateir ar gyfer yr awdurdod hwnnw yn yr Adroddiad Blynyddol, caniateir ychwanegiad dros gyfnod talu'r eilydd.

f) Pan fydd awdurdod yn cytuno i gael eilydd gyda thâl, rhaid hysbysu'r Panel o'r manylion o fewn 14 diwrnod o'r penderfyniad, gan gynnwys y swydd dan sylw ac amcangyfrif o hyd penodiad yr eilydd. Rhaid diwygio Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol yr awdurdod fel y bo angen hefyd.

g) Nid yw hyn yn berthnasol i aelodau etholedig prif gynghorau nad ydynt ar uwch gyflogau, am eu bod yn parhau i dderbyn cyflog sylfaenol am o leiaf chwe mis, p'un ai ydyn nhw'n mynychu ai peidio, ac mae unrhyw estyniad y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw'n fater ar gyfer yr awdurdod.

9.3 Nid yw'r trefniant hwn yn berthnasol i aelodau cyfetholedig.

9.4 Mae'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol yn berthnasol i aelodau etholedig mewn achosion o absenoldeb mamolaeth, absenoldeb newydd-anedig, absenoldeb mabwysiadu ac absenoldeb rhiant, o fusnes swyddogol (gweler uchod).

## 10. Gwasanaeth Cwnsela

10.1 Gall yr Aelodau ddefnyddio Gwasanaeth Cwnsela'r Cyngor. Mae'r gwasanaeth yn gyfrinachol ac ni chedwir cofnodion ynglŷn â'r sawl sydd wedi cysylltu â'r gwasanaeth.

## 11. Taliadau Aelodau Cyfetholedig

Rhaid i ffi ddyddiol Aelodau Cyfetholedig (gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod) gael ei thalu i aelodau cyfetholedig, ar yr amod eu bod yn Aelodau Cyfetholedig statudol gyda hawliau pleidleisio.

11.2 Bydd taliadau Aelodau Cyfetholedig yn cael eu capio ar uchafswm sy'n cyfateb i 10 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y gall unigolyn gael ei gyfethol iddo.

11.3 Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd wedi'i ddynodi fel y "swyddog priodol" a bydd yn pennu amser paratoi, amser teithio a hyd y cyfarfod. Telir y ffi ar sail y penderfyniad hwn.

11.4 Gall y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd benderfynu ymlaen llaw a yw'r cyfarfod wedi'i raglennu ar gyfer diwrnod llawn, a thelir y ffi ar sail y penderfyniad hwn, hyd yn oed os bydd y cyfarfod yn dod i ben cyn bod pedair awr wedi mynd heibio.

11.5 Mae cyfarfod hanner diwrnod yn cael ei ddiffinio fel un hyd at 4 awr.

11.6 Mae cyfarfod diwrnod llawn yn cael ei ddiffinio fel un dros 4 awr.

11.7 Gall y taliadau fod ar gyfer cyfnodau mynychu cyfarfodydd priodol, digwyddiadau hyfforddi awdurdodedig, cynadleddau, a chwrdd â swyddogion ymlaen llaw.

11.8 Mae’r amser a dreulir yn paratoi ac yn teithio i/o gyfarfodydd yn cael ei ystyried wrth asesu lefel y ffi sy’n daladwy. Gellir ystyried yr amser paratoi a theithio hefyd felly wrth benderfynu a yw’r cyfnod dros 4 awr ai peidio.

11.9 Mae’r ffi ddyddiol a’r ffi hanner diwrnod ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau a’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel y’u pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn cael eu nodi yn **Atodlen 1**.

11.10 Mae’r ffi ddyddiol a’r ffi hanner diwrnod ar gyfer Aelodau Cyfetholedig statudol eraill sydd â hawliau pleidleisio, fel y’u pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn cael eu nodi yn **Atodlen 1**.

## 12. Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth

### 12.1 Egwyddorion Cyffredinol

12.2 Gall Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig hawlio costau teithio wrth deithio ar fusnes yr Awdurdod ar gyfer 'dyletswyddau cymeradwy' fel y nodir yn **Atodlen 2**. Lle bo aelodau'n teithio ar fusnes yr Awdurdod, disgwylir iddynt deithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-effeithiol. Wrth asesu cost-effeithiolrwydd bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i amser teithio. Gall cais costau gan Aelod nad yw'n teithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-effeithiol gael ei leihau gan y swm priodol.

12.3 Os yw Cynghorydd yn bwriadu hawlio costau teithio a threuliau, rhaid i bresenoldeb wyneb yn wyneb mewn cynadleddau, seminarau, cyfarfodydd allanol a digwyddiadau hyfforddi tu allan i’r Sir, gysylltu â’r Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Democrataidd er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn y gyllideb a bod angen mynychu'n bersonol.

12.4 Lle’n bosibl dylai Aelodau rannu cludiant.

12.5 Dylai'r pellter a hawlir am filltiroedd fod am y daith fyrraf resymol ar y ffordd o'r man ymadael hyd at y pwynt lle mae’r ddyletswydd yn digwydd, ac yn yr un modd o'r man lle y mae’r ddyletswydd yn digwydd i'r man dychwelyd.

12.6 Mae cyfraddau Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth Aelodau wedi'u nodi yn **Atodlen 3** ac maent yn destun adolygiad blynyddol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

12.7 Pan fydd Aelod yn cael ei atal/hatal yn llwyr neu’n rhannol o'i gyfrifoldebau/chyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i unrhyw lwfansau teithio a chynhaliaeth sy’n daladwy iddo/iddi mewn perthynas â'r cyfnod y mae ef neu hi yn cael ei atal/hatal gael eu hymatal gan yr Awdurdod.

**13. Teithio mewn Cerbyd Personol**

13.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu mai'r cyfraddau teithio uchaf sy'n daladwy fydd y cyfraddau a nodir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) ar gyfer y defnydd o geir preifat, beiciau modur a beiciau pedal yn ogystal â thâl ychwanegol am deithwyr eraill.

13.2 Mae'r cyfraddau milltiredd ar gyfer cerbydau preifat fel y'u pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi'u nodi yn **Atodlen 3**.

13.3 Pan fydd Aelod yn defnyddio ei g/cherbyd preifat ar gyfer dibenion dyletswydd gymeradwy, rhaid i'r cerbyd gael ei yswirio at ddefnydd busnes. Rhaid darparu prawf o yswiriant priodol i'r Awdurdod ar gais.

**14. Teithio ar Gludiant Cyhoeddus**

14.1 **Taith Trên / Bws**

Oni bai bod caniatâd arbennig wedi'i roi, bydd pob tocyn a brynir yn docyn ail-ddosbarth.

Bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn prynu tocynnau bws a rheilffyrdd gofynnol i Aelodau cyn y teithiau. Yn yr achos annhebygol bod angen i Aelod brynu tocyn yn uniongyrchol, bydd y taliad yn cael ei ad-dalu ar ôl cyflwyno'r tocyn a ddefnyddiwyd a / neu dderbynneb.

14.2 **Costau Tacsi**

Bydd costau tacsi ond yn cael eu had-dalu lle mae eu defnydd wedi eu caniatáu ar gyfer achosion brys, lle nad oes cludiant cyhoeddus ar gael yn rhesymol, neu fod gan Aelod angen personol penodol. Bydd ad-daliad ar sail derbynneb yn unig.

14.3 **Costau Teithio Eraill**

Bydd hawl gan Aelodau i gael ad-daliad o ran ffioedd tollau, ffioedd parcio, garejis dros nos a chostau eraill sy'n gysylltiedig â theithio angenrheidiol. Bydd ad-daliad ar sail derbynneb yn unig.

**15. Llety Dros Nos**

15.1 Bydd aros dros nos yn cael ei ganiatáu lle mae busnes yr Awdurdod yn ymestyn i ddau ddiwrnod neu fwy yn unig, neu os yw'r lleoliad mor bell y byddai teithio'n gynnar yn y bore neu'n hwyr y nos yn afresymol. Rhaid i bob arhosiad dros nos gael ei ganiatáu ymlaen llaw gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

15.2 Bydd llety dros nos yn cael ei archebu gan y Gwasanaethau Democrataidd. Lle bynnag y bo modd, bydd y llety dros nos yn cael ei ragdalu neu ei anfonebu.

15.3 Bydd llety dros nos a archebwyd yn uniongyrchol gan Aelod yn cael ei ganiatáu mewn achos o argyfwng yn unig. Bydd ad-dalu ond yn digwydd pan fydd derbynneb yn cael ei chyflwyno ac ystyrir bod y lefel yn rhesymol ac nad yw'n fwy na'r cyfraddau a nodir yn **Atodlen 3**.

**16. Lwfans Cynhaliaeth**

16.1 Mae'r gyfradd gynhaliaeth am ddiwrnod er mwyn cwrdd â chostau prydau bwyd a lluniaeth mewn cysylltiad â dyletswyddau cymeradwy (gan gynnwys brecwast pan nad yw'n cael ei ddarparu fel rhan o lety dros nos) yn cael ei nodi yn **Atodlen 3**. Mae'r gyfradd ddyddiol uchaf yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd sy'n berthnasol, ar yr amod fod cais o'r fath yn cael ei gefnogi gan dderbynneb/dderbynebau.

16.2 Nid oes darpariaeth ar gyfer hawlio cynhaliaeth o fewn y Sir.

**17. Ceisiadau a Thaliadau**

17.1 Rhaid i gais am lwfansau teithio a chynhaliaeth gael ei wneud yn ysgrifenedig o fewn un mis i ddiwedd y mis calendr y mae'r cais yn perthyn iddo a rhaid anfon y derbynebau perthnasol.

17.2 Cyflwynir ceisiadau drwy'r system Hunan-wasanaeth Ceri.

17.3 Bydd lwfansau yn cael eu talu gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd drwy *gredyd banc uniongyrchol.*

17.4 Ni fydd lwfansau'n cael eu talu ar gyfer hawliadau a wneir tri mis (92 diwrnod) ar ôl i'r dyddiad y mae'r hawl i'r lwfans yn perthyn iddo.

**18. Lwfans Cymorth i Aelodau**

18.1 Bydd lwfans o £10 y mis y gellir optio i mewn iddo ar gael i Aelodau i dalu am gostau ffôn, band eang a phostio.

18.2 Gall Aelod, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i Swyddog Priodol[2] yr awdurdod, optio i mewn i'r Lwfans Cymorth i Aelodau, o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad.

**19. Pensiynau**

19.1 Bydd yr Awdurdod yn galluogi ei aelodau sy'n gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol.

[2] Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**20. Cefnogi gwaith yr Aelodau**

20.1 Bydd yr Aelodau yn derbyn offer TGCh a chyfeiriad e-bost gan y Cyngor er mwyn cyflawni eu dyletswyddau wyneb yn wyneb neu o bell.

20.2 Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn adolygu lefel y cymorth a roddir i Aelodau i gyflawni eu dyletswyddau yn rheolaidd.

**21. Cydymffurfio**

21.1 Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â gofynion y Panel mewn perthynas â monitro a chyhoeddi taliadau a wnaed i aelodau ac aelodau cyfetholedig fel y nodir yn **Atodlen 4**.

**Atgoffir yr Aelodau bod ceisiadau am dreuliau yn destun archwilio mewnol ac allanol.**

## ATODLEN 1

## RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2023/2024

| | AELODAU SYDD Â'R HAWL I GYFLOG SYLFAENOL | SWM BLYNYDDOL Y CYFLOG SYLFAENOL |
|---|---|---|
| | Aelodau etholedig canlynol yr awdurdod a enwir:<br><br>1. Cynghorydd<br>2. Cynghorydd<br>3. Cynghorydd<br>4. Cynghorydd<br>5. Cynghorydd<br>6. Cynghorydd<br>7. Cynghorydd<br>8. Cynghorydd<br>9. Cynghorydd<br>10. Cynghorydd<br>11. Cynghorydd<br>12. Cynghorydd<br>13. Cynghorydd<br>14. Cynghorydd<br>15. Cynghorydd<br>16. Cynghorydd<br>17. Cynghorydd<br>18. Cynghorydd<br>19. Cynghorydd | £17,600 |

| | HAWL I UWCH GYFLOGAU (yn cynnwys cyflog sylfaenol) | | SWM BLYNYDDOL YR UWCH GYFLOG | BAND |
|---|---|---|---|---|
| | **RÔL** | **AELOD** | | |
| 1. | Arweinydd | Cynghorydd | £56,100 | 1 |
| 2. | Dirprwy Arweinydd | Cynghorydd | £39,270 | 1 |
| 3. | Aelod Cabinet | Cynghorydd | £33,660 | 2 |
| 4. | Aelod Cabinet | Cynghorydd | £33,660 | 2 |
| 5. | Aelod Cabinet | Cynghorydd | £33,660 | 2 |
| 6. | Aelod Cabinet | Cynghorydd | £33,660 | 2 |
| 7. | Aelod Cabinet | Cynghorydd | £33,660 | 2 |
| 8. | Aelod Cabinet | Cynghorydd | £33,660 | 2 |

| | HAWL I UWCH GYFLOGAU (yn cynnwys cyflog sylfaenol) | | SWM BLYNYDDOL YR UWCH GYFLOG | BAND |
|---|---|---|---|---|
| | **RÔL** | **AELOD** | | |
| 9. | Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol | Cynghorydd | £26,400 | 3 |
| 10. | Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach | Cynghorydd | £26,400 | 3 |
| 11. | Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu | Cynghorydd | £26,400 | 3 |
| 12. | Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus | Cynghorydd | £26,400 | 3 |
| 13. | Cadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu | Cynghorydd | £26,400 | 3 |
| 14. | Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu | Cynghorydd | £26,400 | 3 |
| 15. | Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu | Cynghorydd | £26,400 | 3 |
| 16. | Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Cynghorydd | £26,400 | 3 |
| 17. | Arweinydd Grŵp yr Wrthblaid Fwyaf | Cynghorydd | £26,400 | 4 |
| Gall uchafswm o 17 o uwch gyflogau gael eu talu ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion ac nid yw hyn wedi'i dorri. | | | | |

| HAWL I GYFLOGAU DINESIG | | SWM BLYNYDDOL Y CYFLOG DINESIG |
|---|---|---|
| **RÔL** | **AELOD** | |
| Arweinydd Dinesig (Cadeirydd y Cyngor) | Cynghorydd | £26,400 |
| Dirprwy Arweinydd Dinesig (Is-gadeirydd y Cyngor) | Cynghorydd | £21,340 |

| HAWL FEL AELODAU CYFETHOLEDIG STATUDOL | | SWM LWFANS AELOD CYFETHOLEDIG |
|---|---|---|
| **RÔL** | **AELOD** | |
| Cadeirydd y Pwyllgor Safonau | | £268 (4 awr a mwy)<br>£134 (hyd at 4 awr) |

| HAWL FEL AELODAU CYFETHOLEDIG STATUDOL | | SWM LWFANS AELOD CYFETHOLEDIG |
|---|---|---|
| **RÔL** | **AELOD** | |
| Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | | £268 (4 awr a mwy)<br><br>£134 (hyd at 4 awr) |
| Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau | | £268 (4 awr a mwy)<br><br>£134 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau Cyffredin<br>- Pwyllgor Safonau<br>- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu<br>- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | Safonau:<br><br><br>Craffu<br><br>Llywodraethu ac Archwilio | £210 (4 awr a mwy)<br><br>£105 (hyd at 4 awr) |
| Cynghorwyr Cymuned a Thref sy'n eistedd ar y Pwyllgor Safonau | Cynghorydd<br>Cynghorydd | £210 (4 awr a mwy)<br><br>£105 (hyd at 4 awr) |

| AELODAU SY'N GYMWYS I DDERBYN CYFRANIAD TUAG AT COSTAU GOFAL NEU CHYMORTH PERSONOL | |
|---|---|
| Pob Aelod<br><br>Rhaid i ofalwyr gyflwyno derbynebau gyda phob hawliad. | • Costau gofal ffurfiol (wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru) i'w talu yn unol â thystiolaeth.<br>• Costau gofal anffurfiol (heb gofrestru) i'w talu hyd at gyfradd uchaf sy'n gyfwerth â Chyflog Byw Gwirioneddol y DU ar yr adeg pan aethpwyd i'r costau.<br><br>Ni ellir talu costau gofal i rywun sy'n rhan o aelwyd yr aelod. |

**ATODLEN 2**

Mae gan aelodau, gan gynnwys aelodau cyfetholedig, hawl i hawlio ad-daliad ar gyfer costau teithio, ar gyfer gweithgareddau sydd wedi'u dynodi'n fusnes swyddogol neu'n ddyletswydd gymeradwy gan Gyngor Sir Ceredigion. Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gall aelodau fynychu holl gyfarfodydd swyddogol y Cyngor o bell neu wyneb yn wyneb.

Oni bai y gofynnir yn benodol iddynt fod yn bresennol wyneb yn wyneb, disgwylir i aelodau fynychu o bell, gan gyfrannu at y manteision economaidd a'r manteision amgylcheddol i'r Cyngor.

Mae Aelodau, gan gynnwys aelodau cyfetholedig, hefyd yn gymwys i hawlio tuag at y costau angenrheidiol ar gyfer gofalu am blant ac oedolion dibynnol ac ar gyfer anghenion cymorth personol, yn unol â manylebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, fel y'i mabwysiadwyd gan Gyngor Sir Ceredigion. Rhaid i hyn fod ar gyfer y **costau ychwanegol** a ysgwyddir gan aelodau i'w galluogi i gyflawni busnes swyddogol neu ddyletswyddau cymeradwy, ar ôl iddynt gyflwyno derbynebau gan y darparwr gofal.

**Dyletswyddau cymeradwy**:

Dylai cynghorwyr gysylltu â Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Democrataidd os ydynt yn bwriadu hawlio costau teithio a threuliau ar gyfer presenoldeb wyneb yn wyneb mewn cynadleddau, seminarau, cyfarfodydd y tu allan i'r sir a digwyddiadau hyfforddi, er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn y gyllideb a bod angen presenoldeb wyneb yn wyneb.

- bod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Awdurdod neu unrhyw bwyllgor o'r Awdurdod neu unrhyw gorff y mae'r Awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu unrhyw bwyllgor o'r fath gorff;

- bod yn bresennol mewn cyfarfod o unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r Awdurdod yn aelod ohoni;

- bod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod arall y mae ei gynnal wedi cael ei awdurdodi gan yr Awdurdod neu gan bwyllgor o'r Awdurdod neu gan bwyllgor ar y cyd o'r Awdurdod ac un neu fwy o Awdurdodau eraill;

- dyletswydd a ymgymerir at y diben o gyflawni swyddogaethau'r Cabinet neu mewn cysylltiad â'u cyflawni;

- bod yn bresennol mewn unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwywyd gan yr Awdurdod neu ei Gabinet;

- unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwywyd gan yr Awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd o ddosbarth a gymeradwywyd felly, a ymgymerir at y diben o gyflawni neu mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau;

- mynychu cynadleddau, seminarau a chyfarfodydd eraill y mae Aelodau wedi'u hawdurdodi i'w mynychu;

- mynychu cyfarfodydd fforymau ymgynghori, partneriaethau, paneli neu weithgorau;

- mynychu cyfarfodydd cyrff allanol y mae Aelodau wedi'u hawdurdodi i'w mynychu, neu pan na ellir eu cynnal o bell;

- mynychu cyfarfodydd dilys gyda swyddogion y Cyngor a chyrff eraill er mwyn cyflawni'u swyddogaethau fel aelodau;

- aelodau anweithredol i fynychu cyfarfodydd y Cabinet trwy wahoddiad, neu fel arsylwyr, pan na allant fod yn bresennol o bell.

  Sylwer: Ni chaiff yr Aelodau hawlio costau teithio, costau cynhaliaeth na chostau sy'n ymwneud â pharcio ceir pan fyddant yn ymgymryd â dyletswyddau etholaethol.

**ATODLEN 3**

**Cyfraddau Milltiredd**

| | |
|---|---|
| Cerbydau modur o bob maint<br>Hyd at 10,000 milltir<br>Dros 10,000 milltir | <br>45 ceiniog y filltir<br>25 ceiniog y filltir |
| Beiciau modur preifat<br>Beiciau pedal | 24 ceiniog y filltir<br>20 ceiniog y filltir |
| Tâl ychwanegol am deithwyr eraill h.y. am bob teithiwr sydd ar fusnes yr awdurdod | 5 ceiniog y filltir |

**Lwfans Cynhaliaeth**

Uchafswm y gyfradd gynhaliaeth am ddiwrnod yw £28 ac mae'n cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd bwyd, os yw'n berthnasol, ar yr amod ei fod yn cael ei gefnogi gan dderbynebau (gan gynnwys brecwast os nad yw hwnnw wedi'i gynnwys yn y tâl dros nos).

Yr uchafsymiau ar gyfer y lwfansau cynhaliaeth yw:

| **Uchafsymiau'r Lwfansau Cynhaliaeth**<br>Nid yw hyn ond yn berthnasol i gyfarfodydd, ac ati, a gynhelir y tu allan i Geredigion | |
|---|---|
| Brecwast: am absenoldeb o 4 awr neu fwy cyn 11.00am a phan na ddarperir brecwast yn rhan o lety dros nos | £6.30 |
| Cinio: am absenoldeb o 4 awr neu fwy sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 12.00 canol dydd a 2.00pm | £8.65 |
| Te: am absenoldeb o 4 awr neu fwy sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 3.00pm a 6.00pm | £3.45 |
| Swper: am absenoldeb o 4 awr neu fwy sy'n dod i ben ar ôl 7.00pm | £11.55 |
| **YN AMODOL ar uchafswm dyddiol o:** | **£28.00** |
| Sylwer:<br>• £28 y dydd yw'r uchafswm y gellir ei hawlio os arhosir dros nos (felly os na arhosir dros nos, byddai'r uchafswm yn llai na £28);<br>• Os bydd y Cynghorydd wedi aros dros nos a bod y llety'n cynnwys brecwast, ni ddylai'r £28 gynnwys cost brecwast. | |

Ni chaniateir ad-daliad ar gyfer diodydd alcoholig.

Ni ellir hawlio lwfansau cynhaliaeth ar gyfer dyletswyddau a wneir ar ran y Cyngor o fewn y Sir.

**Llety dros nos**

Uchafswm y lwfansau ar gyfer aros dros nos yw £200 ar gyfer Llundain a £95 ar gyfer mannau eraill (llety yn unig). Mae uchafswm o £30 ar gael ar gyfer aros dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau tra ar ddyletswydd gymeradwy.

**Lwfans Cymorth i Aelodau y gellir optio i mewn iddo**

Gall yr Aelodau optio i mewn i dderbyn lwfans o £10 y mis i dalu am gostau ffôn, band eang a phostio.

**Parcio Ceir**

Gall yr Aelodau hawlio am y costau sy'n ymwneud â pharcio ceir ar yr amod eu bod yn cyflwyno derbynneb. Ni thelir y costau am barcio ceir os bydd y cais am ad-daliad yn cael ei wneud mwy na 3 mis (92 diwrnod) o'r diwrnod y talwyd y gost.

**Rhaid i'r holl hawliadau, gan gynnwys derbynebau i'w cefnogi, gael eu cyflwyno o fewn 3 mis (92 diwrnod) i'r diwrnod y talwyd y gost.**

**ATODLEN 4**

**Cydymffurfio**

- Bydd yr awdurdod yn trefnu i gyhoeddi, ar wefan y cyngor, y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob Aelod ac aelod cyfetholedig o ran cyflogau, lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau ddim hwyrach na 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud ag ef. Er budd tryloywder bydd hyn yn cynnwys cydnabyddiaeth yn sgil bob penodiad o ran gwasanaethau cyhoeddus a ddelir gan aelodau etholedig.

- Bydd yr awdurdod yn cyhoeddi, ar wefan y Cyngor, ddatganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd a disgrifiadau rôl ar gyfer deiliaid swyddi uwch gyflog, sy'n nodi'n glir y dyletswyddau disgwyliedig.

- Bydd yr awdurdod yn cyhoeddi yn flynyddol, ar wefan y Cyngor, Restr o Gydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau ddim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r Rhestr yn cyfeirio ati.

- Bydd yr awdurdod yn anfon copi o'r Rhestr i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ddim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r Rhestr yn cyfeirio ati.

- Bydd yr awdurdod yn cadw cofnodion o bresenoldeb Aelodau / aelodau cyfetholedig mewn cyfarfodydd o'r Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau ac yn cadw cofnodion o ddyletswyddau cymeradwy eraill y mae aelod / aelodau cyfetholedig yn cyflwyno cais am ad-daliad amdanynt.

- Bydd yr awdurdod yn trefnu i gyhoeddi'r adroddiadau blynyddol a baratoir gan yr aelodau ar wefan y Cyngor.

- Pan fydd yr awdurdod yn cytuno i dalu dirprwy am gyfnod absenoldeb teuluol, bydd yn rhoi gwybod i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o fewn 14 diwrnod o'r penderfyniad gyda'r manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd y dirprwyad.

- Mae'r Cyngor wedi cadw o fewn yr uchafswm o Uwch Gyflogau (h.y. 17) a osodwyd ar ei gyfer.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

ADRODDIAD

# Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2023 i 2024

Mae'r adroddiad yn pennu amrediad a lefel y taliadau ym mlwyddyn ariannol 2023 i 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 27 Chwefror 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 27 Chwefror 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cyflwyniad

Rôl a chyfrifoldebau'r Panel

Crynodeb o Drafodaethau a Phenderfyniadau

Ymgynghori: crynodeb o’r ymatebion

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Dyma Adroddiad Blynyddol terfynol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sy’n pennu’r Penderfyniadau ar gyflogau, treuliau a buddiannau ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau, cynghorau cymuned a thref, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub i'w gweithredu o fis Ebrill 2023 ymlaen.

Dyma fy Adroddiad cyntaf fel Cadeirydd y Panel, ar ôl cael fy mhenodi ym mis Mehefin 2022. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i John Bader, y cyn-gadeirydd, am ei wasanaeth dros nifer o flynyddoedd. Fe arweiniodd y Panel drwy 2 ddarn pwysig o waith y llynedd, **Adolygiad Annibynnol 10 Mlynedd o'r Panel**, a’r gwaith o adfer y cysylltiad rhwng cyflogau aelodau etholedig ac enillion cyfartalog yng Nghymru. Diolch hefyd i Joe Stockley am ei wasanaeth ac mae'n bleser gen i gyhoeddi bod Bev Smith wedi’i phenodi ym mis Mehefin eleni. Mae Saz Willey, yr Is-Gadeirydd, a Ruth Glazzard wedi parhau i arwain gwaith y Panel yn ystod y cyfnod hwn o newid ac rwy'n diolch iddyn nhw am y gefnogaeth maen nhw wedi rhoi i Bev a minnau, fel aelodau newydd. Gadawodd Ruth Glazzard y Panel ar ddiwedd 2022, pan ymgymerodd â phenodiad cyhoeddus newydd. Mae’r Uned Cyrff Cyhoeddus wrthi’n recriwtio aelod newydd i’r Panel.

Eleni, mae'r Panel wedi parhau i ganolbwyntio ar argymhellion yr **Adolygiad Deng Mlynedd** a'u gweithredu. Mae 4 elfen allweddol i'r gwaith hwn adolygu'r ffordd rydym ni'n gweithio, gosod strategaeth 3 blynedd i'r panel, gwella sut rydym ni'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac adeiladu sylfaen dystiolaeth gadarn i lywio penderfyniadau.

Rydym wedi dechrau ar yr Adolygiad Effeithiolrwydd a argymhellir o'r ffordd rydym yn gweithio ac wedi dechrau datblygu ein strategaeth tymor hwy gyda diwrnodau datblygu Panel ym mis Awst a mis Chwefror. Rydym wedi cytuno mai ein cenhadaeth yw cyflwyno fframwaith gwobrwyo teg ac atebol i Gymru, i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gefnogi cymunedau fel bod eu lleisiau’n cael eu clywed o fewn ein cyrff democrataidd lleol. Byddwn yn defnyddio'n harbenigedd a'n proffesiynoldeb i feithrin partneriaethau cynaliadwy, dibynadwy, i lywio'n gwaith a gwneud y newidiadau sydd eu hangen ar Gymru.

Ein nod yw gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid uniongyrchol a'r cyhoedd. Fel cam cyntaf rydym nawr yn cyhoeddi crynodeb o'n cyfarfodydd misol ar ein **gwefan**, ond yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud. Ein nod yw gwella hygyrchedd a rhwyddineb ein gwefan a'i datblygu'n adnodd mwy defnyddiol i bobl. Rydym yn bwriadu iddi fod yn storfa hawdd ei defnyddio o wybodaeth am ein Penderfyniadau, a, gan adeiladu ar ein tudalen **cwestiynau cyffredin** cyfredol, datblygu ein canllawiau ar sut y dylid cymhwyso pob penderfyniad.

Er mai corff annibynnol ydym ni, byddwn yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid allweddol sy’n ymwneud â hyrwyddo cyfranogiad mewn democratiaeth leol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru waith ymchwil yn edrych ar y rhwystrau i sefyll ar gyfer swyddi etholedig a rôl newidiol y cynghorydd, a chynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ar draws Cymru i dynnu sylw at y canfyddiadau a’u trafod.

Fe wnaethom gymryd rhan weithredol yn y digwyddiadau hyn, gan gynnal seminarau ar gydnabyddiaeth ariannol a rôl newidiol cynghorwyr lleol. Croesawyd y cyfle i rannu gwybodaeth, profiad, ac arfer gorau ar draws ystod o bynciau ac yn arbennig i ganolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o sut y gallwn weithredu ar y cyd i gynyddu amrywiaeth mewn democratiaeth leol.

Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd eleni’n flwyddyn o atgyfnerthu. Cafodd newidiadau mawr eu rhoi ar waith y llynedd, a chytunwyd ar godiad sylweddol yn lefelau cyflog. Hoffem ganiatáu amser i Benderfyniadau'r llynedd ymwreiddio ac i ganiatáu i'r Panel barhau i ddatblygu sylfaen ymchwil a thystiolaeth i lywio penderfyniadau'r dyfodol a symud i gylch cynllunio mwy hirdymor. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r penderfyniad hwnnw.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn ystyried strwythur ein hadroddiadau a sut y gallwn eu gwneud yn fwy hygyrch i bawb. Daethom i'r casgliad bod llawer o'r wybodaeth a gyhoeddwyd yn efelychu blynyddoedd blaenorol, yn aml heb newid sylweddol. Ar gyfer yr adroddiad hwn penderfynom ganolbwyntio ar y newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r cynigion. Rydym felly wedi penderfynu y bydd mwyafrif y cynnwys a nodir mewn adroddiadau blaenorol yn cael ei ddileu o'r adroddiad a'i osod ar wefan y Panel. Byddwn yn gwneud trefniadau ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu mynd ar y wefan.

Mae'r newid hwn wedi lleihau maint yr adroddiad yn sylweddol a'i wneud yn fwy hylaw i lywio drwyddo. Mae'r dull hwn hefyd yn cyd-fynd â'n hymdrechion i barchu'r heriau sy'n ein hwynebu wrth ddiogelu ein planed.

Fe wnaethom gynnwys arolwg ar-lein am y tro cyntaf yn yr adroddiad blynyddol drafft eleni a hoffem ddiolch i bawb wnaeth dreulio amser yn ei lenwi, neu'n anfon ymatebion ysgrifenedig i'n cwestiynau ymgynghori a sylwadau ar yr adroddiad Drafft.

## Aelodau'r Panel

- Frances Duffy, Cadeirydd
- Saz Willey, Is-gadeirydd
- Bev Smith

Ceir gwybodaeth fanwl am yr aelodau ar y wefan **Gwefan y Panel**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Rôl a chyfrifoldebau'r Panel

## Rôl y Panel

Mae'r Panel yn gyfrifol am bennu'r lefelau a'r trefniadau ar gyfer tâl aelodau'r sefydliadau canlynol.

- Prif gynghorau, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- Cynghorau cymuned a thref
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Mae'r Panel yn gorff annibynnol ac mae'n gallu gwneud penderfyniadau am y canlynol:

- y strwythur cyflog sy’n pennu tâl yr aelodau
- y math o lwfansau a natur y lwfansau hynny sydd i'w talu i aelodau
- p'un a yw'r taliadau'n orfodol neu'n caniatáu lefel o hyblygrwydd lleol
- trefniadau o ran absenoldeb teuluol
- trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Panel

Mae'r Panel yn sefydliad annibynnol ac mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i'r sefydliadau a restrir uchod weithredu'r penderfyniadau a wnânt. Nid yw’n ofynnol gan y Panel bod prif gynghorau yn pleidleisio ar y Penderfyniadau. Mae’r panel hefyd yn rhoi canllawiau ar sut y dylid cymhwyso ei Benderfyniadau, a rhaid i’r holl gynghorau ystyried y Canllawiau hyn. Mae’r canllawiau presennol wedi’u cynnwys yn **Adroddiad Blynyddol 2022 i 2023**, Atodiad 2 “Y Rheoliadau”. Mae’r canllawiau hyn yn berthnasol o hyd.

Mae’r Panel hefyd yn ymgynghorai ar gyfer newidiadau arfaethedig i dâl Prif Weithredwyr prif gynghorau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Egwyddorion

Yn sail i waith y Panel mae set o egwyddorion sy'n llywio ei ddull gweithredu, ei fethodoleg a sut y mae'n gwneud penderfyniadau, sef:

- cynnal ymddiriedaeth a hyder: mae dinasyddion yn iawn i ddisgwyl bod pawb sy'n dewis gwasanaethu mewn awdurdodau lleol yn cynnal yr ymddiriedaeth gyhoeddus drwy gofleidio'r gwerthoedd a'r foeseg ymhlyg mewn gwasanaeth cyhoeddus o'r fath
- symlrwydd: mae'r Fframwaith yn glir ac yn ddealladwy
- tâl Cydnabyddiaeth: mae'r Fframwaith yn darparu ar gyfer taliad i aelodau awdurdodau sy'n gyfrifol am wasanaethu eu cymunedau. Ni ddylai lefel y taliad fod yn rhwystr i ymgymryd â'r swydd neu barhau yn y swydd
- amrywiaeth: mae democratiaeth yn cael ei chryfhau pan fydd aelodau'r awdurdodau yn adlewyrchu'n ddigonol gyfansoddiad demograffig a diwylliannol y cymunedau y mae awdurdodau o'r fath yn eu gwasanaethu
- atebolrwydd: mae gan drethdalwyr a dinasyddion yr hawl i dderbyn gwerth am arian o arian cyhoeddus sydd wedi'i ymrwymo i fod yn dâl i'r bobl sy'n cael eu hethol, eu penodi neu eu cyfethol i wasanaethu er budd y cyhoedd
- tegwch: bydd modd cymhwyso'r Fframwaith yn gyson i aelodau o bob awdurdod o fewn cylch gwaith y Panel fel modd o sicrhau bod lefelau tâl yn deg, yn fforddiadwy ac yn dderbyniol ar y cyfan
- ansawdd: mae'r Panel yn cydnabod bod y cyfuniad cymhleth o lywodraethu, craffu a dyletswyddau rheoleiddio sy'n ddyletswydd ar aelodau yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd rhan mewn proses o wella ansawdd yn barhaus
- tryloywder: mae bod yn dryloyw ynghylch tâl aelodau er budd y cyhoedd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Crynodeb o Drafodaethau a Phenderfyniadau

## Methodoleg

Bob blwyddyn mae'r Panel yn ymgysylltu ag aelodau'r cyrff y mae'n pennu lefelau tâl ar eu cyfer, swyddogion o fewn y sefydliadau hynny, a chlercod. Mae'r Panel hefyd yn ymgysylltu â chyrff aelodaeth perthnasol gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Mae'n gwneud hyn trwy ystod o gyfarfodydd sydd, ar hyn o bryd, yn parhau i gael eu cynnal ar-lein yn bennaf. Mae'r Panel wedi parhau â'r trafodaethau hyn. Maent yn rhoi cyfle i'r Panel archwilio barn am y trefniadau presennol, yr effaith y mae penderfyniadau'n eu cael ar unigolion, sut mae'r trefniadau'n gweithredu'n ymarferol ac unrhyw faterion neu bryderon y mae unigolion am eu codi. Maent hefyd wedi rhoi cyfle i drafod sefyllfaoedd sy'n dod i'r amlwg y mae'r Panel wedi eu hystyried wrth wneud penderfyniadau.

Cafodd yr adroddiad drafft ei gyhoeddi'n eang ac anogwyd aelodau'r cyhoedd i ddarparu adborth gwerthfawr, ac maent wedi gwneud hyn ac rydym yn ei groesawu. Eleni, cafodd y Panel gyfle i feithrin cysylltiadau â grŵp ehangach o randdeiliaid mewn 3 digwyddiad a gweithdy "Amrywiaeth mewn Democratiaeth" gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Panel hefyd yn ystyried adborth ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol yn y flwyddyn flaenorol. Mae'n ymddangos bod y newidiadau a wnaed yn Adroddiad y llynedd, yn enwedig y codiad yn y cyflog sylfaenol, wedi cael derbyniad da gan randdeiliaid. Mae'r materion a godwyd gyda'r Panel i gyd yn canolbwyntio ar fanylion y Penderfyniadau, gan ofyn am arweiniad ar sut y dylid eu cymhwyso neu'n gofyn am eglurhad lle roedd testun yr Adroddiad yn aneglur.

Felly, mae'r Panel wedi cytuno i adolygu fformat a strwythur y prif Adroddiad ac i wneud gwell defnydd o wefan y Panel er mwyn darparu gwybodaeth a chanllawiau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae gan y Panel ddyletswydd i osod taliadau sy'n deg ac sy'n annog a galluogi cyfranogiad democrataidd. Rhaid iddo hefyd ystyried a ydynt yn fforddiadwy ac yn dderbyniol.

Wrth wneud ei benderfyniadau ar gyfer yr Adroddiad hwn, ystyriodd y Panel ystod o feincnodau, gan gynnwys mynegeion blaenorol, cyfredol a rhagamcanol a ffigurau gwirioneddol a'r graddau a'r effaith hysbys ac a ragwelir o nifer o ffactorau economaidd a chymdeithasol. Roedd y rhain yn cynnwys amgylcheddau gwaith ar ôl Brexit a COVID a chostau byw, ynni ac argyfyngau hinsawdd.

## Ymgynghoriad ar yr Adroddiad Blynyddol drafft

Lluniodd y Panel adroddiad drafft a'i gyhoeddi ar 6 Hydref 2022 ar gyfer ymgynghoriad 8 wythnos a ddaeth i ben ar 1 Rhagfyr 2022.

Yn ogystal, fel rhan o'r broses ymgynghori, gwahoddwyd rhanddeiliaid i ateb 5 cwestiwn gan ddefnyddio arolwg ar-lein neu drwy ateb e-bost. Cafwyd cyfanswm o 89 o ymatebion ar-lein, a chyflwynwyd 44 ar e-bost i flwch e-bost y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Hoffai'r Panel ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad. Ceir crynodeb o'r ymatebion yn adran 4.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn cefnogi penderfyniadau'r Panel ac felly nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r Penderfyniadau terfynol. Mewn rhai mannau, cryfhawyd geiriad y Penderfyniadau i egluro meysydd ansicrwydd a godwyd yn yr ymgynghoriad. Roedd hyn yn bennaf yn ymwneud â nodi gallu'r aelodau, ar sail unigol, i optio allan o'u tâl neu ran ohono.

Yn ogystal, amlygodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ambell faes y bydd y Panel yn eu hystyried yn eu blaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn hon. Bydd y blaenraglen waith yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Panel ddiwedd mis Mawrth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ar ôl ystyried y safbwyntiau a gafwyd mewn ymateb i'w ymgynghoriad, mae'r Panel nawr yn gwneud ei benderfyniadau terfynol.

## Penderfyniadau’r Panel ar gyfer 2023 i 2024

### Cyflog sylfaenol i aelodau etholedig prif gynghorau: Penderfyniad 1

Mae'r cyflog sylfaenol, sy'n cael ei dalu i bob aelod etholedig, yn dâl am y cyfrifoldeb o gynrychioli’r gymuned a chymryd rhan yn y gwaith craffu, rheoleiddio a swyddogaethau cysylltiedig llywodraethu lleol. Mae'n seiliedig ar swm sydd gyfwerth â thri diwrnod llawn yr wythnos. Mae'r Panel yn adolygu'r ymrwymiad amser hwn yn rheolaidd, ac ni chynigir unrhyw newidiadau ar gyfer 2023 i 2024.

Y llynedd, ailbennodd y Panel y cyflog sylfaenol i gyd-fynd ag **Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) 2020** a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Roedd hyn yn lleihau'r anghydbwysedd oedd wedi codi rhwng cyflog sylfaenol aelodau o brif gynghorau a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr. Daeth y newid i rym o etholiadau lleol Mai 2022 ymlaen. Mae'r rhesymeg dros y cam arwyddocaol hwn i'w weld yn Adroddiad Blynyddol y llynedd ac mae papur esboniadol manwl yn nodi'r cyd-destun hanesyddol a'r dadansoddiad ar gael ar wefan y Panel.

Gan adeiladu ar y penderfyniad hwn, mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer blwyddyn ariannol 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024, ei fod yn iawn i gadw cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr. Bydd y cyflog sylfaenol yn cyd-fynd gyda thair rhan o bump o **ASHE Cymru gyfan 2021**, y ffigur diweddaraf sydd ar gael wrth ddrafftio. Y cyflog fydd £17,600. Bydd hyn yn gynnydd o 4.76% yn y cyflog sylfaenol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

### Cyflogau a delir i aelodau Uwch, Dinesig a Llywyddol y prif gynghorau: Penderfyniad 2

Bydd y cyfyngiad ar nifer y cyflogau uwch sy'n daladwy (“y cap”) yn aros yn ei le. Yn etholiadau lleol 2022 fe wnaeth adolygiadau ffiniau newid nifer yr aelodau i rai cynghorau. Addasodd y Panel y cap cyflog uwch ar gyfer y cynghorau hyn yn ei Adroddiad Blynyddol 2022 i 2023. Gan nad oes newidiadau pellach ar gyfer 2023 i 2024, mae'r uchafswm o gyflogau uwch sy'n daladwy o fewn pob cyngor yn parhau fel y nodir yn **Adroddiad** 2022 i 2023.

Mae’r holl gyflogau uwch yn cynnwys y taliad cyflog sylfaenol. Mae'r gwahanol lefelau o gyfrifoldeb ychwanegol rhwng pob rôl yn cael ei gydnabod mewn fframwaith bandiau. Cafodd y fframwaith ei ddiwygio'r llynedd ar ôl adolygiad o wahaniaethau a chymaryddion marchnad. Does dim newidiadau i fandiau yn cael eu cynnig eleni. Yn gynnar y flwyddyn nesaf bydd y Panel yn casglu tystiolaeth gan y prif gynghorau i archwilio a yw'r llwyth gwaith aelodau etholedig wedi newid a sut y mae wedi newid.

Mae'r cynnydd sy’n gysylltiedig ag **ASHE 2021** yn berthnasol i elfen rôl cyflogau Band 1 a Band 2, arweinydd, dirprwy arweinydd ac aelodau gweithredol.

Er mwyn cwblhau gwaith y llynedd o ailalinio’r fframwaith, bydd y rheini sy’n derbyn cyflog Band 3 a Band 4 yn derbyn cynnydd bach i elfen rôl eu tâl a bydd elfen rôl taliad Band 5 yn parhau wedi’i rewi. Ni fydd y cynnydd mewn cyflog sylfaenol yn gymwys.

Felly, £66,000 fydd cyflog arweinydd y cyngor mwyaf (Grŵp A). Mae'r holl daliadau eraill wedi'u penderfynu wrth gyfeirio at hyn ac maent wedi'u nodi yn Nhabl 1.

## Tabl 1: Cyflogau sy'n daladwy i aelodau Sylfaenol, Uwch,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Dinesig a Llywyddol y prif gynghorau

### Grŵp A

- Caerdydd
- Rhondda Cynon Taf
- Abertawe

# Disgrifiad

| | Tâl Cydnabyddiaeth |
|---|---|
| Cyflog sylfaenol (yn daladwy i bob aelod etholedig) | £17,600 |
| Band 1: arweinydd | £66,000 |
| Band 1: dirprwy arweinydd | £46,200 |
| Band 2: aelodau gweithredol | £39,600 |
| Band 3: cadeiryddion pwyllgorau, pennaeth dinesig ac aelod llywyddol (os ydynt yn cael tâl cydnabyddiaeth) | £26,400 |
| Band 4: arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf | £26,400 |
| Band 5: arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill a dirprwy bennaeth dinesig | £21,340 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| | Tâl Cydnabyddiaeth |
|---|---|
| Band 5: dirprwy aelod llywyddol (dim taliad rôl) | £17,600 |

### Grŵp B

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Caerffili
- Sir Gaerfyrddin
- Conwy
- Sir y Fflint
- Gwynedd
- Casnewydd
- Castell-nedd Port Talbot
- Sir Benfro
- Powys
- Bro Morgannwg
- Wrecsam

## Disgrifiad

| | Tâl Cydnabyddiaeth |
|---|---|
| Cyflog sylfaenol (yn daladwy i bob aelod etholedig) | £17,600 |
| Band 1: arweinydd | £59,400 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| | Tâl Cydnabyddiaeth |
|---|---|
| Band 1: dirprwy arweinydd | £41,580 |
| Band 2: aelodau gweithredol | £35,640 |
| Band 3: cadeiryddion pwyllgorau, pennaeth dinesig ac aelod llywyddol (os ydynt yn cael tâl cydnabyddiaeth) | £26,400 |
| Band 4: arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf | £26,400 |
| Band 5: arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill a dirprwy bennaeth dinesig | £21,340 |
| Band 5: dirprwy aelod llywyddol (dim taliad rôl) | £17,600 |

## Grŵp C

- Blaenau Gwent
- Ceredigion
- Sir Ddinbych
- Merthyr Tudful
- Sir Fynwy
- Torfaen
- Ynys Môn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Disgrifiad

| | Tâl Cydnabyddiaeth |
|---|---|
| Cyflog sylfaenol (yn daladwy i bob aelod etholedig) | £17,600 |
| Band 1: arweinydd | £56,100 |
| Band 1: dirprwy arweinydd | £39,270 |
| Band 2: aelodau gweithredol | £33,660 |
| Band 3: cadeiryddion pwyllgorau, pennaeth dinesig ac aelod llywyddol (os ydynt yn cael tâl cydnabyddiaeth) | £26,400 |
| Band 4: arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf | £26,400 |
| Band 5: arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill a dirprwy bennaeth dinesig | £21,340 |
| Band 5: dirprwy aelod llywyddol (dim taliad rôl) | £17,600 |

Nid oes unrhyw newidiadau pellach i'r taliadau a'r buddiannau a dalwyd i aelodau etholedig ac felly mae pob Penderfyniad arall o 2022 i 2023 yn dal i sefyll a dylid eu cymhwyso yn 2023 i 24, gan gynnwys y rhai sy'n cwmpasu:

- teithio a chynhaliaeth
- gofal a chynhorthwy personol
- absenoldeb salwch
- cyd-bwyllgorau Corfforedig

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- cynorthwywyr i'r Weithrediaeth
- cyflogau ychwanegol a threfniadau rhannu swyddi
- aelodau cyfetholedig

## Cyflogau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu: Penderfyniad 3

Bydd cyflog cadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn £8,800.

Bydd cyflog Is-Gadeirydd yn £4,400.

Ni cheir unrhyw newidiadau eraill.

## Taliadau tuag at gostau a threuliau aelodau Cynghorau Cymuned a Thref: Penderfyniad 4

Y llynedd fe wnaeth y Panel gynnal adolygiad mawr o'r fframwaith taliadau ar gyfer cynghorau cymuned a thref gan gynnal ymarfer ymgynghori cynhwysfawr gyda'r sector. Diweddarwyd y Fframwaith bryd hynny ac eleni mae'r Panel wedi penderfynu gwneud newidiadau cyfyngedig ond pwysig.

Mae’r Panel yn cydnabod bod pob aelod o gynghorau cymuned a thref o reidrwydd yn treulio amser yn gweithio o adref ar fusnes y cyngor. Roedd hyn yn wir cyn ac yn ystod COVID ac mae'n parhau. O ganlyniad, mae gan aelodau gostau domestig ychwanegol ac mae angen nwyddau traul swyddfa arnynt hefyd.

Mae'r Panel o'r farn na ddylai aelodau fod allan o boced am gyflawni eu dyletswyddau. Fodd bynnag, gall unigolyn wrthod derbyn y taliadau, neu ran o’r taliadau os ydynt yn dymuno hynny. Mae'n rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig ac mae'n fater i’r unigolyn. Mae'n rhaid i aelod o'r cyngor cymuned neu gyngor tref

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

sy'n dymuno gwrthod taliadau ysgrifennu at ei swyddog priodol i wneud hynny. Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau nad yw'n creu hinsawdd sy'n atal pobl rhag cael mynediad at unrhyw arian y mae ganddynt hawl iddo i'w cefnogi i gymryd rhan mewn democratiaeth leol. Dylai'r taliadau gael eu gwneud yn effeithlon ac yn brydlon.

## Ad-daliad ar gyfer y costau ychwanegol o weithio gartref

Rhaid i bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w haelodau (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol (yn cynnwys gwresogi, goleuadau, pŵer a band eang) sy’n gysylltiedig â gweithio gartref.

## Ad-daliad am nwyddau traul

Rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall rhaid i gynghorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost eu nwyddau traul swyddfa. Mae'n fater i bob cyngor wneud a chofnodi penderfyniad polisi mewn perthynas â phryd a sut y gwneir y taliadau a ph’un a ydynt yn cael eu talu'n fisol, bob blwyddyn neu fel arall. Dylai'r polisi hefyd ddatgan a ddylid adennill unrhyw daliadau a wneir i aelod sy'n gadael neu newid ei rôl yn ystod y flwyddyn ariannol, a sut i adennill.

## Canllawiau ar drethu

Nid yw o fewn cylch gwaith nac awdurdod y Panel i ddarparu cyngor penodol ar faterion trethu. Mae modd cael cyngor gan Un Llais Cymru ac mae canllawiau ar gael ar wefan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi.

Dylai'r £156 ddod o dan ddarpariaethau statudol adran 316A ITEPA: **Deddf**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003)** a'r swm presennol y gellir ei dalu heb ddenu rhwymedigaeth treth yw £6 yr wythnos: **Treuliau a buddion: Gweithio o adref: Treuliau a budd-daliadau gweithio gartref sydd wedi'u heithrio rhag treth GOV.UK**.

Mae lefel y taliadau wedi'u nodi yn Nhabl 2.

## Tabl 2: Taliadau i Gynghorau Cymuned a Thref

| Math o daliad | Grŵp | Gofyniad |
|---|---|---|
| Taliad costau ychwanegol | 1 (Etholaeth dros 14,000) | Gorfodol ar gyfer pob Aelod |
| Uwch rôl | 1 (Etholaeth dros 14,000) | Gorfodol: £500 ar gyfer 1 aelod; dewisol ar gyfer hyd at 7 |
| Maer neu Gadeirydd | 1 (Etholaeth dros 14,000) | Dewisol: hyd at uchafswm o £1,500 |
| Dirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd | 1 (Etholaeth dros 14,000) | Dewisol: hyd at uchafswm o £500 |
| Lwfans presenoldeb | 1 (Etholaeth dros 14,000) | Dewisol |
| Colled ariannol | 1 (Etholaeth dros 14,000) | Dewisol |
| Teithio a chynhaliaeth | 1 (Etholaeth dros 14,000) | Dewisol |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Math o daliad | Grŵp | Gofyniad |
|---|---|---|
| Costau gofal neu gynhorthwy personol | 1 (Etholaeth dros 14,000) | Gorfodol |
| Taliad costau ychwanegol | 2 (Etholaeth 10,000 i 13,999) | Gorfodol ar gyfer pob aelod |
| Uwch rôl | 2 (Etholaeth 10,000 i 13,999) | Gorfodol ar gyfer 1 aelod; dewisol ar gyfer hyd at 5 |
| Maer neu gadeirydd | 2 (Etholaeth 10,000 i 13,999) | Dewisol: hyd at uchafswm o £1,500 |
| Dirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd | 2 (Etholaeth 10,000 i 13,999) | Dewisol: hyd at uchafswm o £500 |
| Lwfans presenoldeb | 2 (Etholaeth 10,000 i 13,999) | Dewisol |
| Colled ariannol | 2 (Etholaeth 10,000 i 13,999) | Dewisol |
| Teithio a chynhaliaeth | 2 (Etholaeth 10,000 i 13,999) | Dewisol |
| Costau cofal neu gynhorthwy personol | 2 (Etholaeth 10,000 i 13,999) | Gorfodol |
| Taliad costau ychwanegol | 3 (Etholaeth 5,000 i 9,999) | Gorfodol ar gyfer pob aelod |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Math o daliad | Grŵp | Gofyniad |
|---|---|---|
| Uwch rôl | 3 (Etholaeth 5,000 i 9,999) | Dewisol hyd at 3 aelod |
| Maer neu gadeirydd | 3 (Etholaeth 5,000 i 9,999) | Dewisol: hyd at uchafswm o £1,500 |
| Diprwy faer neu ddirprwy gadeirydd | 3 (Etholaeth 5,000 i 9,999) | Dewisol: hyd at uchafswm o £500 |
| Lwfans presenoldeb | 3 (Etholaeth 5,000 i 9,999) | Dewisol |
| Colled ariannol | 3 (Etholaeth 5,000 i 9,999) | Dewisol |
| Teithio a chynhaliaeth | 3 (Etholaeth 5,000 i 9,999) | Dewisol |
| Costau gofal neu gynhorthwy personol | 3 (Etholaeth 5,000 i 9,999) | Gorfodol |
| Taliad costau ychwanegol | 4 (Etholaeth 1,000 i 4,999) | Gorfodol ar gyfer pob aelod |
| Uwch rôl | 4 (Etholaeth 1,000 i 4,999) | Dewisol hyd at 3 aelod |
| Maer neu gadeirydd | 4 (Etholaeth 1,000 i 4,999) | Dewisol: hyd at uchafswm o £1,500 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Math o daliad | Grŵp | Gofyniad |
|---|---|---|
| Dirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd | 4 (Etholaeth 1,000 i 4,999) | Dewisol: hyd at uchafswm o £500 |
| Lwfans presenoldeb | 4 (Etholaeth 1,000 i 4,999) | Dewisol |
| Colled ariannol | 4 (Etholaeth 1,000 i 4,999) | Dewisol |
| Teithio a chynhaliaeth | 4 (Etholaeth 1,000 i 4,999) | Dewisol |
| Costau gofal neu gynhorthwy personol | 4 (Etholaeth 1,000 i 4,999) | Gorfodol |
| Taliad costau ychwanegol | 5 (Etholaeth llai na 1,000) | Gorfodol ar gyfer pob aelod |
| Uwch rôl | 5 (Etholaeth llai na 1,000) | Dewisol hyd at 3 aelod |
| Maer neu gadeirydd | 5 (Etholaeth llai na 1,000) | Dewisol: hyd at uchafswm o £1,500 |
| Dirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd | 5 (Etholaeth llai na 1,000) | Dewisol: hyd at uchafswm o £500 |
| Lwfans presenoldeb | 5 (Etholaeth llai na 1,000) | Dewisol |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Math o daliad | Grŵp | Gofyniad |
|---|---|---|
| Colled ariannol | 5 (Etholaeth llai na 1,000) | Dewisol |
| Teithio a chynhaliaeth | 5 (Etholaeth llai na 1,000) | Dewisol |
| Costau gofal neu gynhorthwy personol | 5 (Etholaeth llai na 1,000) | Gorfodol |

Nid oes unrhyw newidiadau pellach i'r taliadau a'r buddiannau a delir i aelodau etholedig ac felly mae pob Penderfyniad arall o 2022 i 2023 yn dal yn berthnasol, a dylid eu cymhwyso yn 2023 i 2024, gan gynnwys y rhai sy'n cynnwys:

- taliadau am gyflawni uwch rolau
- cyfraniadau tuag at gostau gofal a chynhorthwy personol
- ad-daliadau am gostau teithio a chynhaliaeth
- iawndal am golled ariannol
- iwfans presenoldeb
- aelodau cyfetholedig

## Taliadau i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub: Penderfyniad 5

Cafodd y 3 pharc cenedlaethol yng Nghymru Bannau Brycheiniog, Arfordir Sir Benfro ac Eryri eu ffurfio i warchod tirweddau ysblennydd a darparu cyfleoedd hamdden i'r cyhoedd. Arweiniodd Deddf yr Amgylchedd 1995 at greu Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer pob parc.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae awdurdodau'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys aelodau sydd naill ai'n aelodau etholedig a enwebwyd gan y prif gynghorau yn ardal y parc cenedlaethol neu'n aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru drwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus. Caiff aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru ac aelodau sydd wedi'u henwebu gan y Cyngor eu trin yn gyfartal mewn perthynas â thaliadau.

Ffurfiwyd y 3 gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru: Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru a De Cymru fel rhan o ad-drefnu Llywodraeth Leol yn 1996. Mae’r gwasanaethau hyn yn cynnwys aelodau etholedig sy'n cael eu henwebu gan y prif gynghorau o fewn pob ardal gwasanaeth tân ac achub.

Bydd y taliadau'n cynyddu o ganlyniad i'r codiad sy'n cael ei gynnig ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau. Felly, bydd codiad o 4.76% hefyd yn yr elfen cyflog sylfaenol.

Bydd y tâl i Gadeiryddion yn parhau i fod yn gysylltiedig ag uwch-gyflog Band 3 prif gynghorau. Felly ceir cynnydd bach yn elfen rôl eu taliad. Bydd Dirprwy Gyfarwyddwyr, Cadeiryddion Pwyllgorau a phobl mewn uwch-swyddi eraill yn parhau ar Fand 5. Felly, bydd elfen rôl eu taliad yn parhau wedi’i rewi. Bydd y cynnydd mewn cyflog sylfaenol yn gymwys. Mae manylion llawn am lefelau tâl i aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub, wedi'u nodi yn Nhabl 3.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Tabl 3: Taliadau i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub

## Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

| | **Tâl Cydnabyddiaeth** |
|---|---|
| Y cyflog sylfaenol ar gyfer aelod cyffredin | £4,964 |
| Cadeirydd | £4,964 |
| Dirprwy Gadeirydd (os penodir un) | £8,704 |
| Cadeirydd Pwyllgor neu uwch-swydd arall | £8,704 |

## Awdurdodau Tân ac Achub

| | **Tâl Cydnabyddiaeth** |
|---|---|
| Y cyflog sylfaenol ar gyfer aelod cyffredin | £2,482 |
| Cadeirydd | £11,282 |
| Dirprwy Gadeirydd (os penodir un) | £6,222 |
| Cadeirydd Pwyllgor neu uwch-swydd arall | £6,222 |

Bydd pob Penderfyniad arall ar gyfer 2022 i 2023 yn dal yn berthnasol a dylid ei

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gymhwyso yn 2023 i 2024, gan gynnwys y rheini sy'n cwmpasu:

- cyfraniadau tuag at gostau gofal a chynhorthwy personol
- ad-daliadau am gostau teithio a chynhaliaeth
- iawndal am golled ariannol
- aelodau cyfetholedig
- cyfyngiadau ar dderbyn ad-daliadau dwbl pan fo aelod yn dal mwy nag 1 swydd

# Ymgynghori: crynodeb o'r ymatebion

Lluniodd y Panel adroddiad drafft a'i gyhoeddi ar 6 Hydref 2022 ar gyfer cyfnod ymgynghori o 8 wythnos, a ddaeth i ben ar 1 Rhagfyr 2022.

Anfonwyd y ddolen i'r wefan a fersiwn pdf o'r adroddiad drafft at:

- Un Llais Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol
- Prif gynghorau
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol
- Cynghorau Cymuned a Thref

## Penderfyniad 1: cynnydd cyflog sylfaenol

Nid oedd pob Cyngor wedi rhoi sylwadau. Gofynnodd tri a oedd hi'n iawn codi cyflog aelodau yn ystod yr argyfwng costau byw presennol. Fodd bynnag, roedd y rhain yn derbyn bod angen ystyried amgylchiadau personol aelodau ac felly y dylai fod yn fater personol i aelodau benderfynu drostynt eu hunain a ydyn nhw'n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

derbyn y codiad cyflog ai peidio neu'n dewis peidio. Ystyriodd y Panel yr adborth hwn, ac er ei fod yn ymwybodol o'r effaith gyffredinol ar gyllidebau cynghorau, cytunodd fod y cynnydd mewn cyflog sylfaenol yn ffactor pwysig o ran annog a chefnogi grŵp amrywiol o bobl i sefyll etholiad.

## Penderfyniad 2: uwch gyflogau

Codwyd 2 fater allweddol gan randdeiliaid; yn gyntaf a yw lefel y tâl yn cydnabod yn ddigonol gyfrifoldebau cynyddol aelodau prif gynghorau ac yn ail a ddylid adolygu'r uchafswm presennol o gyflogau uwch. Nododd y Panel y pwyntiau hyn a bydd yn ystyried a ddylai'r maes hwn fod yn ganolbwynt i'r cynllun gwaith yn y dyfodol.

## Penderfyniad 3: cyflogau Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Ni chafwyd sylwadau mewn perthynas â chyflogau Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

## Penderfyniad 4: taliadau tuag at gostau a threuliau aelodau Cynghorau Cymuned a Thref

Fe wnaeth dros hanner yr ymatebion amlygu pryder fod y taliadau'n orfodol ac nad oedd eu Cyngor am gynyddu eu praesept i dalu'r costau hyn. Doedd y ffaith nad oedd yr Adroddiad yn ailddatgan y gall aelodau ddewis gwrthod eu hawl i daliadau ddim o gymorth. Fodd bynnag, roedd ymatebion eraill yn cefnogi'r taliadau.

Roedd deg y cant o'r ymatebion a dderbyniwyd yn mynegi pryder ynghylch

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

costau gweinyddu ac roedd 15 o'r ymatebion yn codi cwestiynau am y driniaeth gywir at ddibenion treth. Gofynnodd un clerc hefyd a fyddai'r taliadau y mae aelodau yn eu derbyn yn cael eu cyhoeddi'n gyffredinol, yn debyg i'r modd y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r cyfraniad at gostau gofal a chymorth personol.

Roedd sylwadau eraill yn nodi'r angen i annog teithio "gwyrdd" a holodd 1 a oedd angen taliadau ar gyfer swyddi uwch.

Ystyriodd y Panel yr ymatebion hyn a chytunodd i bwysleisio'r polisi ar optio allan fel unigolyn yn yr Adroddiad Terfynol ac i ddarparu dolen i wefannau defnyddiol Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Bydd y Panel yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i wella cymorth a chyngor i Gynghorau Cymuned a Thref.

## Penderfyniad 5: Taliadau i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub

Ni wnaed sylwadau mewn perthynas â thaliadau i aelodau o Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub.

Yn ogystal, fel rhan o'r broses ymgynghori, gwahoddwyd rhanddeiliaid i ateb 5 cwestiwn drwy arolwg ar-lein neu drwy e-bost. Derbyniwyd cyfanswm o 89 ymateb ar-lein, a chyflwynwyd 48 drwy e-bost i flwch e-bost y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

## Cwestiwn 1

Mae'r Panel wedi parhau i ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol fel y meincnod ar gyfer pennu cyflog sylfaenol aelodau etholedig prif gynghorau. Mae cynnydd cymesur cyfatebol wedi'i gynnig i aelodau'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'r Awdurdodau Tân ac Achub. Mae'r Panel wedi parhau i gyfeirio at yr Arolwg

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ASHE diweddaraf a gyhoeddwyd yn 2021. Ydych chi'n cytuno y dylai'r elfen cyflog sylfaenol fod yn gysylltiedig â data **ASHE 2021**?

### Ymatebion

Roedd 90% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylai'r Panel gyfeirio at yr elfen cyflog sylfaenol yn nata ASHE 2021. Roedd 3% yn anghytuno ac roedd 7% heb farn am y cwestiwn hwn

## Cwestiwn 2

Mae'r Panel wedi gwneud newidiadau i sut y caiff costau a threuliau eu talu i aelodau cynghorau cymuned a thref. Ydych chi'n cytuno ag ychwanegu'r elfen "nwyddau traul"?

### Ymatebion

Roedd 72% yn cytuno gydag ychwanegu'r elfen 'nwyddau traul', ac roedd 25% yn anghytuno gyda'r taliad ychwanegol hwn.

Y thema fwyaf cyffredin yn yr atebion a roddwyd i gwestiwn dau oedd a oedd y taliad hwn bellach yn orfodol neu a oedd y taliad yn ddewisol a bod gan Gynghorwyr y dewis i'w wrthod. Gofynnwyd yr un cwestiwn am y taliad o £156.

## Cwestiwn 3

Bydd y Panel yn casglu tystiolaeth gan brif gynghorau i edrych ar p'un a yw llwyth gwaith aelodau etholedig wedi newid, a sut y mae wedi newid, i lywio Penderfyniadau'n y dyfodol. Ydych chi'n fodlon y dylai'r Panel gynnwys yr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

adolygiad hwn yn ei gynllun gwaith ar gyfer y dyfodol ac adeiladu sylfaen dystiolaeth i gefnogi penderfyniadau?

### Ymatebion

Roedd 97% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno.

Roedd mwyafrif yr atebion yn tynnu sylw at y gwaith ychwanegol yr oedd aelodau etholedig nawr yn ei wneud yn eu rôl.

Croesawodd cynghorau cymuned a thref hyn gan y byddai'n cydnabod faint o waith y mae'r sector yn ei wneud.

## Cwestiwn 4

Rydym wedi lleihau maint yr adroddiad yn sylweddol eleni er mwyn canolbwyntio ar benderfyniadau allweddol a wnaed, ac yn bwriadu gwneud mwy o ddefnydd o'r wefan i roi arweiniad hawdd i ddefnyddwyr. Mae'r dull hwn hefyd yn cyd-fynd â'n hymdrechion i barchu'r heriau sy'n ein hwynebu wrth ddiogelu ein planed.

Sut y byddech chi’n dymuno cael gafael ar wybodaeth ac arweiniad gan y Panel? (dewiswch bob un sy’n berthnasol)

### Ymatebion

- adroddiad cryno gyda dolenni at ganllawiau manwl: 84
- canllawiau hawdd eu defnyddio: 71
- cwestiynau cyffredin: 49
- gwefan: 54
- y cyfryngau cymdeithasol: 16

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- digwyddiadau gwybodaeth: 25
- arall: 14

Os arall, rhowch fanylion:

Croesawyd yr adroddiad cryno arfaethedig, y canllawiau manwl a'r cwestiynau cyffredin. Roedd atebion eraill yn cynnwys seminarau, cyfarfodydd ar-lein a digwyddiad gwybodaeth.

Ydych chi wedi profi unrhyw heriau wrth gael gafael ar ein canllawiau a'n gwybodaeth ar ein gwefan neu wrth geisio eu deall? Rhowch wybod i ni sut y gallwn wneud pethau'n haws i chi.

Bydd adroddiad symlach a dogfen ganllawiau ar wahân yn helpu rhanddeiliaid i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

Ni wnaeth y rhanddeiliaid brofi unrhyw heriau wrth gael gafael ar y canllawiau a'r wybodaeth ar y wefan, nac wrth geisio eu deall.

## Cwestiwn 5

Mae'r panel yn bwriadu cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol dros y flwyddyn nesaf fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol ac adeiladu ei dystiolaeth a'i strategaeth ymchwil.

Oes gennych chi unrhyw sylwadau a fyddai'n helpu'r Panel i gynnal y digwyddiadau ymgysylltu hyn?

Er enghraifft, a ydych chi'n ffafrio polau ar-lein, cynnal digwyddiadau ymgysylltu, yn rhithiol neu wyneb yn wyneb, pa grwpiau ddylai gymryd rhan, sut allwn ni ymgysylltu ag ymgeiswyr posibl ac ati.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

### Ymatebion

Yr atebion mwyaf poblogaidd a roddwyd i'r cwestiwn hwn oedd:

- polau ar-lein
- cyfarfodydd rhithiol
- cyfarfodydd wyneb yn wyneb

Roedd cymysgedd o gefnogaeth i ddigwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Atebodd rhai gan gynnig y dylai'r Panel gynnal digwyddiadau ymgysylltu rhanbarthol fel y gallai sawl Cyngor fynychu ar yr un pryd. Awgrymodd sylwadau eraill a ddaeth i law y byddai'r digwyddiadau hyn yn helpu i drafod unrhyw faterion mewn manylder gyda'r Panel ac y byddai'r Panel yn cael safbwyntiau ehangach ac adborth mwy cynhwysfawr ar unrhyw gynigion.

Fe wnaeth Un Llais Cymru gynnig cefnogaeth i'r Panel gyda'r gwaith o drefnu unrhyw ddigwyddiadau yn y sector Cyngor Cymuned a Thref.

## Crynodeb o benderfyniadau

### Penderfyniad 1

Bydd lefel sylfaenol cyflog aelodau etholedig prif gynghorau yn cael ei osod ar £17,600.

### Penderfyniad 2

Bydd cyflog arweinydd y cyngor mwyaf (Grŵp A) yn £66,000. Mae'r holl daliadau eraill wedi'u penderfynu gan ystyried hyn ac maent wedi'u nodi yn Nhabl 1.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Penderfyniad 3

Bydd cyflog cadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn £8,800.

Bydd cyflog is-gadeirydd yn £4,400.

## Penderfyniad 4

Bydd aelodau Cynghorau Cymuned a Thref yn cael taliad o £156 y flwyddyn (sydd gyfystyr â £3 yr wythnos) tuag at gostau ychwanegol (gan gynnwys gwresogi, goleuadau, pŵer a band eang) sy’n gysylltiedig â gweithio gartref. Rhaid i gynghorau hefyd naill ai dalu £52 y flwyddyn am gost nwyddau traul y swyddfa sydd eu hangen er mwyn gwneud eu swydd, neu fel arall, rhaid i gynghorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gostau eu nwyddau traul swyddfa.

## Penderfyniad 5

Mae tâl sylfaenol aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub wedi cynyddu 4.76%. Caiff yr holl daliadau eu nodi yn Nhabl 3.

## Penderfyniad 6

Mae’r holl Benderfyniadau eraill a nodir yn **Adroddiad Blynyddol** 2022 i 2023 y Panel yn parhau’n ddilys a dylid eu cymhwyso.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **20 Ebrill 2023** |
| **Teitl:** | **Arolwg Aelodau o ran amseru cyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Ystyried arolwg yr Aelodau a gynhaliwyd mewn perthynas ag amseriad cyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |
| **Portffolio'r Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Bryan Davies**<br>**Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio'r Cabinet dros Wasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth** |

**CYFLWYNIAD**
O dan Adran 6 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) mae'n ofynnol bod y Cyngor yn ystyried y Canllawiau Statudol o ran amserau cyfarfodydd a pha mor aml y dylid eu cynnal. Mae'r canllawiau'n berthnasol i gyfarfodydd y Cyngor llawn a'r Pwyllgorau.

**Y Canllawiau Statudol**
Dyma'r Canllawiau Statudol:

***Adolygu trefniadau presennol***
***Adolygu'r trefniadau presennol***
*1.5 Dim ond aelodau o weithrediaeth y cyngor a ystyrir yn gynghorwyr "amser llawn", ac adlewyrchir hynny yn lefelau'r taliadau y mae hawl ganddynt i'w derbyn am eu cyfrifoldebau arbennig. Ar y llaw arall, ystyrir bod aelodau nad ydynt yn aelodau o'r weithrediaeth yn cyflawni'r hyn sy'n cyfateb i rôl "ran-amser" ac mewn llawer o achosion, bydd angen gwneud lle iddi ochr yn ochr ag ymrwymiadau eraill cynghorwyr.*

*1.6 Er bod llawer o gynghorwyr wedi ymddeol, canfu'r Panel Arbenigol fod eraill yn cael anhawster i gyfuno eu hymrwymiadau gwaith a dyletswyddau'r cyngor, neu, mewn achosion eraill, llwyddent i wneud hynny drwy aberthu unrhyw amser personol o werth.*

*1.7 I lawer o ddarpar gynghorwyr mewn gwaith amser llawn, mae i ba raddau mae eu cyflogwyr yn cefnogi eu hymrwymiad newydd yn fater allweddol. Er bod deddfwriaeth cyflogaeth yn rhoi hawl i gynghorwyr gael amser o'r gwaith i gyflawni dyletswyddau cyhoeddus, gall gweithredu hynny'n ymarferol fod yn dipyn mwy o her.*

*1.8 Pa bryd a pha mor aml y cynhelir cyfarfodydd yw'r broblem fwyaf yn hyn o beth. Mae modd cyflawni dyletswyddau eraill ar adegau sy'n gyfleus i'r*

*unigolyn ond cynhelir cyfarfod ar amser penodol ac (oni bai bod trefniadau wedi'u gwneud ar gyfer mynychu cyfarfod o bell) mewn man penodol.*

*1.9 Nid yw'n ymarferol nac yn ddymunol i Lywodraeth Cymru ragnodi pryd a pha mor aml y dylid cynnal cyfarfodydd cyngor llawn, pwyllgorau ac is-bwyllgorau gan mai materion i bob awdurdod lleol eu hystyried yn unigol yw'r rhain.*
*Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw awdurdodau lleol yn parhau i gynnal eu cyfarfodydd ar yr un amser ag erioed, a hynny oherwydd diffyg ysgogiad i newid. Ni fydd trefniant traddodiadol neu gyfleus i genhedlaeth flaenorol o gynghorwyr o anghenraid yn gyfleus i do newydd o gynghorwyr.*

*1.10 Dylai pob awdurdod lleol adolygu'r amserau y cynhelir y cyfarfodydd o leiaf unwaith bob tymor, yn fuan ar ôl ethol y cyngor newydd os yn bosibl. Fel arfer, dylid cynnal cyfarfodydd ar amserau o'r dydd, mewn lleoliadau ac mor aml ag sy'n gyfleus i'w haelodau a, chyn belled ag y bo'n ymarferol, dylent roi sylw i faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Dylai cynghorau ddod o hyd i ffyrdd o gynnal arolwg o'r hyn fyddai orau gan eu haelodau, ar ôl pob etholiad o leiaf, a dylent ymrwymo i weithredu ar sail y canlyniadau. Dylid cynnal yr arolwg o fewn tri mis i etholiadau cyffredin. Mater i bob awdurdod yn unigol fydd penderfynu pa mor aml y dylid cynnal arolygon o'r fath.*

*1.11 Er y gallai'r broses hon olygu newid i batrymau gwaith rhai cynghorwyr a fu'n gwasanaethu ers amser maith, byddai'n werth ei wneud pe bai'n golygu fod y cyngor yn llwyddo'n well i gadw cynghorwyr newydd sydd â dyletswyddau allanol.*

*1.12 Gallai materion sydd i'w hystyried wrth gynnal arolwg gynnwys y canlynol:*
- *Ai cyfarfodydd a gynhelir yn ystod y dydd neu gyda'r nos fyddai orau gan y cynghorydd?*
- *A oes adegau penodol sy'n peri anhawster i gynghorwyr â nodweddion penodol, fel oed, rhyw, crefydd, cynghorwyr â dyletswyddau gofal, cynghorwyr sy'n gweithio?*

*1.13 O ganlyniad i'r arolwg hefyd, dylai awdurdodau lleol ystyried y manteision posibl o gylchdroi amserau cyfarfodydd am nad oes modd plesio pawb o'u haelodau bob amser. Wrth gwrs, byddai'n rhaid rhoi cyhoeddusrwydd amlwg i drefniadau o'r fath er budd aelodau'r cyhoedd.*

**Arolwg 2022/23**
Cytunodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2022 i gynnal arolwg Aelodau mewn perthynas ag amseriad cyfarfodydd a holi'r Aelodau am y rhaglen Ymsefydlu ddiweddar. Mae canfyddiadau llawn yr arolwg i'w gweld yn Atodiad B.

Fe wnaeth 25 Aelod ymateb i'r arolwg (66% o'r holl Aelodau).

Dyma brif gasgliadau'r arolwg:

*Amseru'r cyfarfodydd*

- O'r rhai a ymatebodd, dywedodd 96% eu bod yn gallu mynychu ar ddydd Iau, 84% ar ddydd Mawrth, 80% ddydd Mercher, 68% ar ddydd Gwener a 60% ar ddydd Llun;
- Rhestrodd 5 o'r ymatebwyr ddydd Llun fel y dyddiad a ffefrir ganddynt, gydag 8 yn rhestru dydd Llun fel y dyddiad lleiaf dewisol; Rhestrodd 13 ddydd Mawrth fel y dyddiad a ffefrir ganddynt, gyda 2 yn rhestru dydd Mawrth fel y dyddiad lleiaf dewisol; Rhestrodd 11 ddydd Mercher fel y dyddiad a ffefrir ganddynt gyda 2 yn rhestru dydd Mercher fel y dyddiad lleiaf dewisol; Rhestrodd 13 ddydd Iau fel y dyddiad lleiaf dewisol gyda 0 rhestru dydd Iau fel y dyddiad lleiaf dewisol; a 4 ddydd Gwener rhestredig fel eu dyddiad dewisol gydag 11 yn rhestru dydd Gwener fel eu dyddiad lleiaf dewisol (sylwer, dewisodd sawl Aelod fwy nag 1 diwrnod fel dyddiad a ffefrir, a gadawodd rhai sawl diwrnod yn wag);
- Dywedodd 52% o'r ymatebwyr y byddai'n well ganddyn nhw weld cyfarfodydd y Cyngor yn dechrau am 10.00am; Dywedodd 32% y byddai'n well ganddyn nhw ddechrau am 9.30am;
- Dywedodd 52% o'r ymatebwyr y byddai'n well ganddyn nhw weld cyfarfodydd Pwyllgor yn dechrau am 10.00am; Dywedodd 32% y byddai'n well ganddyn nhw ddechrau am 9.30am;

*Sylwadau*

Dywedodd yr aelodau fod y rhesymau dros eu dewisiadau yn cynnwys cyfrifoldebau gofal plant a gofalu, gwaith a hunangyflogaeth, cyfrifoldebau o fewn eu Wardiau, a chyfarfodydd eraill sydd fel arfer yn cael eu cynnal ar ddyddiau Llun a Gwener. Er bod yn well gan rai gyfnod cynharach, roedd yn well gan y mwyafrif ddechrau am 10am i ganiatáu amser teithio.

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Ystyriodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ailsylffidau'r ymgynghoriad yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2023 a chytunwyd i argymell i'r Cyngor:

- Dylai cyfarfodydd barhau i gael eu cynnal yn bennaf ar ddydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau;
- Yr amseroedd cychwyn i'r Cyngor a'r Pwyllgorau fod am 10.00am;
- Fod cyfarfodydd prynhawn, gweithdai a digwyddiadau hyfforddi yn dechrau am 1.30pm.


| | | | |
|---|---|---|---|
| | **A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os, nad oes, dywedwch pam** | | Ddim yn ofynnol – nid oes newid i'r gwasanaeth. |
| **Lles cenedlaethau'r dyfodol:** | ***Crynodeb:*** | | |
| | **Hirdymor:** | AMH | |
| | **Cydweithio:** | AMH | |
| | **Cynnwys:** | AMH | |
| | **Atal:** | AMH | |
| | **Integreiddio:** | AMH | |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad(au):** | **Argymhellir y Cyngor i gymeradwyo'r canlynol:**<br>**1. Cynhelir cyfarfodydd yn bennaf ar ddydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau**<br>**2. Bod holl gyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau yn dechrau am 10.00am**<br>**3. Bod cyfarfodydd prynhawn, gweithdai a digwyddiadau hyfforddi yn dechrau am 1.30pm.** |
| **Rhesymau dros y penderfyniad:** | **Cymeradwyo'r argymhellion sy'n deillio o'r Arolwg o amseru cyfarfodydd, fel sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth.** |
| **Trosolwg a Chraffu:** | AMH |
| **Fframwaith Polisi:** | Adran 6 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | AMH |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Dim |
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | Dim |
| **Goblygiadau staffio:** | Dim |
| **Goblygiadau eiddo / asedau:** | Dim |
| **Risg(au):** | Dim |
| **Pwerau Statudol:** | Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 |
| **Papurau Cefndir:** | Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dyddiedig Chwefror 2022. |
| **Atodiadau:** | Atodiad A – Y canfyddiadau o Arolwg Aelodau 2022/23 |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Lowri Edwards<br>Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd (Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd) |
| **Swyddog Adrodd:** | Lowri Edwards |
| **Dyddiad:** | 27 Mawrth 2023 |

**Holiadur Amseru Cyfarfodydd**

1. **Ar ba ddiwrnodau ydych chi'n gallu mynychu cyfarfodydd?**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 15 |
| Dydd Mawrth | 21 |
| Dydd Mercher | 20 |
| Dydd Iau | 24 |
| Dydd Gwener | 17 |





2. **Os nad ydych yn gallu mynychu ar un neu fwy o'r dyddiadau uchod, a wnewch chi plis nodi'r rheswm pam (e.e. ymrwymiadau swydd, cyfrifoldebau gofal, oedran, rhyw, anabledd, credoau crefydd ac ati**

- Cyfrifoldeb gofal
- Rwy'n ceisio trefnu gwaith hunan-gyflogedig o gwmpas y cyfarfodydd, ond ddim bob amser yn gallu gnweud hyn
- Mae Dydd Llun yn hynod brysur, ac mae cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd ar ddydd Llun, a'r Heddlu fel arfer ar ddydd Gwener
- Dwi'n gweithio'n rhan amser. Mae'n caniatai gweithio hyblyg sy'n helpu ar gyfer y diwrnodau eraill
- Haws i drefnu gweithgaredd arall
- Ymrwymiadau swydd ac argaeledd darpariaeth gofal plant
- Ymrwymiadau gwaith a chyfrifoldeb gofal ar gyfer yr wyrion
- Fel cynrychiolydd y Cyngor ar Awdurdod Tân, mae rhan fwyaf o'u cyfarfodydd ar ddydd Llun (ond nid bob Llun)
- Ymrwymiadau gwaith. Bosib mynychu ar ddiwrnodau eraill ond mae cleifion yn cael ei bwcio fewn oleiaf 4 wythnos ymlaen llaw felly methu gwneud rhai fyr rybudd
- amh
- Ymrwymiadau swydd - rwy'n gweithio'n llawn amser ar hyn o bryd, ac yn rhan-amser (Llun - Mercher) o 6 Chwefror 2023 ymlaen. Mae'r ateb yn fwyaf perthnasol i'r sefyllfa pan fyddaf a swydd rhan-amser
- Cyfarfodydd eraill/busnes o fewn y ward
- Yn gallu dod ar ddydd Gwener ond yn ceisio ei gadw'n rhydd
- Gwaith yn y ward
- Ymrwymiadau swydd


**3. Nodwch yn nhrefn dewis gydag 1 yr uchaf a 5 yr isaf pa ddyddiadau sydd orau gennych ar gyfer mynychu cyfarfodydd**

| | Llun | Mawrth | Mercher | Iau | Gwener |
|---|---|---|---|---|---|
| Dewis 1 | 5 | 13 | 11 | 13 | 4 |
| Dewis 2 | 2 | 2 | 5 | 3 | 3 |
| Dewis 3 | 2 | 4 | 6 | 7 | 2 |
| Dewis 4 | 7 | 4 | 1 | 1 | 4 |
| Dewis 5 | 8 | 2 | 2 | 0 | 11 |





**4. Ar ba adeg o'r dydd y byddai'n well gennych gychwyn cyfarfod y Cyngor**

| | |
|---|---|
| 9:30am | 8 |
| 10:00am | 13 |
| 2:00pm | 1 |
| 2:30pm | 0 |
| 3:00pm | 1 |
| 5:00pm | 2 |
| 5:30pm | 0 |
| 6:00pm | 0 |
| 6:30pm | 0 |
| 7:00pm | 0 |



5. **Ar ba adeg o'r dydd y byddai'n well gennych gychwyn cyfarfodydd Trosolwg a Chraffu, Rheoli Datblygu, Trwyddedu, Llywodraethu ac Archwilio**

| | |
|---|---|
| 9:30am | 8 |
| 10:00am | 13 |
| 2:00pm | 1 |
| 2:30pm | 0 |
| 3:00pm | 1 |
| 5:00pm | 2 |
| 5:30pm | 0 |
| 6:00pm | 0 |
| 6:30pm | 0 |
| 7:00pm | 0 |




6. **Eglurwch pam eich bod wedi dewis eich hoffterau uchod ac os nad yw amseroedd penodol yn gyfleus i chi (e.e. oherwydd unrhyw ymrwymiadau cyflogaeth, cyfrifoldebau gofal, oedran, rhyw, anabledd, credoau crefydd ac ati)**

- Mae gen i gyfrifoldeb casglu plant o'r Ysgol felly byddai'n haws cychwyn cyfarfodydd yn gynt fel fy mod id dim yn colli diwedd unrhyw gyfarfodydd, Diolch
- Mae'r rhan fwyaf o gyrff allanol yn cychwyn am 10am ac yn caniatai mwy o hyblygrwydd ar gyfer rhieni ifanc sy'n Gynghorwyr ac i deithio tu allan i adeg prysur ar yr A487
- Gwaith a dyletswydd yn y Ward
- Gwaith
- Bore bua hi
